

Crynodeb

Yn y traethawd hwn byddaf yn ymchwilio i weld i ba raddau cymhellodd yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant rai o'r Piwritaniaid Cymreig i weithredu'n rhagweithiol ym meysydd addysg, cenhadu a diwygio cymdeithasol. Byddaf hefyd yn gwerthuso'r dystiolaeth er mwyn gweld a oedd eu credoau a'u gweithgareddau'n awgrymu os mudiad unffurf o ran cymhellion, credoau a gweithgarwch Piwritaniaeth Gymreig.

Yn y bennod gyntaf ceisir esbonio ystyr y termau diwinyddol cyn ceisio ateb y cwestiwn, 'Beth yw Piwritaniaeth?'

Yn yr ail bennod edrychir ar fywyd a gwaith William Wroth (c. 1576–1644), William Erbery (1604–1654) a Walter Cradock (c.1604–1659), sef arweinwyr cynnar Piwritaniaeth Gymreig.

Yn y drydedd bennod ystyrir rhai o arweinyddion eraill Piwritaniaeth Gymreig yn ogystal â Phiwritaniaid o Gymru y bu eu dylanwad yn fawr yn Lloegr, gan gynnwys Evan Roberts (c.1587–1649/50), Oliver Thomas (1598–1652), Christopher Love (1618–1651) a John Lewis (*fl.* 1646–1656).

Yna, yn y bedwaredd bennod cyflwynir crynodeb o'r gwaith sydd eisoes wedi'i gyflawni ar gredoau Morgan Llwyd (1619–1659) a Vavasor Powell (1617–1670) ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant.

Mae'r bumed bennod yn canolbwyntio ar gyffesion ffydd Piwritaniaid Lloegr, yr Alban ac Iwerddon ac ar waith Thomas Goodwin (1600–1680), un o Biwritaniaid amlwg yr ail ganrif ar bymtheg ac arweinydd y Cynulleidfawyr (Annibynwyr) yng Nghynulliad San Steffan. Bydd hynny yn ein galluogi i gymharu athrawiaeth y Cymry â rhai'r Saeson, yr Albanwyr a'r Gwyddelod, ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant.

DATGANIAD

Ni chafodd y gwaith hwn ei gyflwyno'n sylweddol ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall yn y brifysgol hon neu unrhyw brifysgol neu fan dysgu arall, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad
.....

GOSODIAD 1

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cael ei gyflwyno i gyflawni'n rhannol ofynion gradd(nodwch MCh, MD, MPhil, PhD ac ati, fel y bo'n briodol)

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad
.....

GOSODIAD 2

Ffrwyth fy ngwaith/ymchwiliadau annibynnol i fy hun, ac eithrio lle y nodir fel arall, yw'r traethawd ymchwil hwn. Nid yw'r traethawd wedi cael ei olygu gan drydydd parti y tu hwnt i'r hyn a ganiateir gan Bolisi Prifysgol Caerdydd ar gyfer Myfyrwyr Gradd Ymchwil yn sgîl Defnyddio Golygyddion Trydydd Parti. Cydnabyddir ffynonellau eraill gan gyfeiriadau eglur. Mae'r farn a fynegwyd yn eiddo i mi.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad
.....

GOSODIAD 3

Rhoddaf fy nghaniatâd drwy hyn i'm traethawd, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar-lein yn ystorfa Mynediad Agored y Brifysgol ac ar gyfer benthyca rhwng llyfrgelloedd, ac i'r teitl a chrynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad
.....

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, am bob cymorth a chroeso yn ystod fy astudiaethau, yn enwedig Cadi Thomas. Hoffwn hefyd ddiolch i'r AHRC am y grant a gafwyd er mwyn cyflawni'r gwaith. Diolch hefyd i fy rhieni am eu cariad, cymorth a chyingor hael, ac i'm rhieni-yng-nghyfraith am bob anogaeth. Mae fy niolch i'r Athro E. Wyn James am oruchwylio'r gwaith yn enfawr a braint a phrofiad gwerthfawr oedd pob cyfarfod a sgwrs a gefais gydag ef. Mae fy niolch pennaf i'r un sydd wedi bod yn gefn i mi trwy'r cyfan, sef fy ngwraig Rachel.

Cynnwys

Cyflwyniad	t. 1
I. Diffinio'r termau diwinyddol a gofyn y cwestiwn, 'Beth yw Piwritaniaeth?'	t. 8
II. William Wroth, William Erbery a Walter Cradock	t. 88
III. Oliver Thomas, Evan Roberts, Christopher Love a John Lewis	t. 186
IV. Morgan Llwyd a Vavasor Powell	t. 239
V. Thomas Goodwin a Chyffesion Ffydd Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon	t. 262
VI. Casgliad	t. 294
VII. Llyfryddiaeth	t. 308

Cyflwyniad

Mae ysgolheigion megis Dr Dewi Arwel Hughes a'r Athro E. Wyn James wedi dadlau'n ddiweddar fod credoau unigolion a berthynai i'r Diwygiad Methodistiaidd yn y ddeunawfed ganrif ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant wedi effeithio ar eu hagwedd at genhadu a diwygio cymdeithasol. Dyna a wna Dewi Hughes yn ei lyfryn *Meddiannu Tir Immanuel: Cymru a Mudiad Cenhadol y Ddeunawfed Ganrif* (1990) a hefyd yn ei erthygl 'William Williams Pantycelyn's Eschatology as seen especially in his *Aurora Borealis* of 1774' a ymddangosodd yn y *Scottish Bulletin of Evangelical Theology* yn rhifyn Gwanwyn 1986. Yn fwy diweddar cyhoeddodd E. Wyn James yr erthyglau 'Caethwasanaeth a'r beirdd, 1790-1840' yn *Taliesin*, 119 (2003), "'Seren wib olau": Gweledigaeth a chenhadaeth Morgan John Rhys (1760-1804)' yn *Trafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr* (2007), a 'Welsh ballads and American slavery' yn *The Welsh Journal of Religious History*, 2 (2007). Cyhoeddodd hefyd y penodau 'Morgan John Rhys a Chaethwasiaeth Americanaidd' yn *Canu Caeth: Y Cymry a'r Affro-Americaniaid* (2010) a "'Blessèd Jubil!" Slavery, mission and the millennial dawn in the work of William Williams of Pantycelyn' yn *Cultures of Radicalism in Britain and Ireland*, 'Poetry and Song in the Age of Revolution', 3 (2013). Yn y rhain i gyd cysylltir gweithgarwch cymdeithasol y dynion dan sylw â'u credoau ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant.

Fy mwriad yn y traethawd hwn yw edrych ar rai o Biwritaniaid Cymreig amlwg y cyfnod o ddechrau'r Rhyfel Cartref hyd at yr Adferiad, i weld beth oedd eu credoau ynghylch y Milflwyddiant ac amseriad yr Ailddyfodiad, a sut (os o

gwbl) yr oedd hynny'n effeithio ar eu gweithgarwch cymdeithasol. Dywed Dewi Hughes i'r Diwygiad Methodistaidd 'd[d]wysáu'r gobaith [...] y byddai cyfnod maith, [mileniwm], o lwyddiant ysgubol i'r efengyl cyn ailddyfodiad Crist' (2004, t. 139). Dywed mai dyma 'obaith y Piwritaniaid' a fu'n ysgogiad mor gryf i'r mudiad cenhadol a ddechreuodd gyda William Carey ac a ysbrydolodd gymaint o waith arwrol yn enw Crist yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg' (ibid., tt. 139-40). Ond i ba raddau yr oedd hwn yn obaith y Piwritaniaid Cymreig? Os ysgogwyd y Methodistiaid i gyflawni 'gwaith arwrol' gan eu credoau ynghylch y Milflwyddiant a'r Ailddyfodiad, a oedd hynny yn wir hefyd am y Piwritaniaid Cymreig?

Roedd y Milflwyddiant yn sicr ar flaen meddwl Thomas Charles (1755–1814), un o arweinwyr ail genhedlaeth y Methodistiaid Calфинаidd Cymreig. Yn ei *Eiriadur*, neilltuodd Charles bedair colofn i'w ymdriniaeth o'r Milflwyddiant, o gymharu â dwy golofn i 'lawn' ac un a hanner i 'Rhagluniaeth', er enghraifft. Ar ddechrau'r cofnod cyfeiria Charles yn syth at Ddatguddiad 20 gan nodi y 'rhwymir Satan, a theyrnasa Crist gyd â'i saint ar y ddaear dros fil o flynyddoedd' (t. 645), ond y mae Charles hefyd yn nodi fod llawer o 'wahanol feddyliau' wedi bodoli yn ystod cyfnod hanes yr eglwys ynghylch hyn. Yr hyn yr anghytunai Cristnogion amdano ar hyd y blynyddoedd oedd pryd yn union y dylid disgwyl y Milflwyddiant a sut, os o gwbl, y deuai i fod.

I Charles, mae'r Milflwyddiant i'w ddisgwyl cyn yr Ailddyfodiad trwy lwyddiant graddol yr eglwys Gristnogol ar y ddaear. Mae Charles yn cyflwyno amryw bethau y mae ef yn eu cyfrif yn bwysig i'w hystyried wrth drafod y Milflwyddiant:

1. 'Y bydd eglwys Crist wedi bod dros oesoedd maith dan orthrymder tost, ac erlidigaethau creulawn, yn fuddugoliaethus ac yn flodeuog iawn ar y ddaear cyn diwedd amser' (t. 645). Noda fod llawer o broffwydoliaethau

yn y Beibl yn nodi hyn, gan gynnwys Eseia 2:2,¹ Micha 4:1² a Salm 2:8³ i nodi dim ond rhai.

2. 'Bydd galwad cyffredinol o'r luddewon a'r Cenedloedd, dros wyneb yr holl ddaear, i'r eglwys, ac at grefydd Crist' (t. 645). I Charles mae Eseia 59:20,⁴ Rhufeiniaid 11:10-26⁵ ac Amos 9:11⁶ yn cyfeirio at hyn.
3. 'Mai nid proffes allanol yn unig o grefydd Crist fydd yn gyffredinol yn y byd, yn mhlith luddewon a Chenhedloedd, ond bydd gwir waith cadwedigol yr Ysbryd Glân yn gyffredinol ar eneidiau dynion, a grym duwioldeb yn blaguro yn ogoneddus yn yr eglwys' (ibid.).⁷ I Charles

¹ A bydd yn y dyddiau diwethaf, fod mynydd tŷ yr Arglwydd wedi ei baratoi ym mhen y mynyddoedd, ac yn ddirchafedig goruwch y brynau; a'r holl genhedloedd a ddylifant ato.

² A bydd yn niwedd y dyddiau, i fynydd tŷ yr Arglwydd fod wedi ei sicrhau ym mhen y mynyddoedd; ac efe a ddirchafir goruwch y brynau; a phobloedd a ddylifant ato.

³ Gofyn i mi, a rhoddaf y cenedloedd yn etifeddiaeth i ti, a therfynau y ddaear i'th feddiant.

⁴ Ac i Seion y daw y Gwaredydd, ac i'r rhai a droant oddi wrth anwiredd yn Jacob, medd yr Arglwydd.

⁵ 10 Tywyllter eu llygaid hwy, fel na welant, a chydgryma di eu cefnau hwy bob amser. 11 Gan hynny meddaf, A dramgwyddasant hwy fel y cwmpent? Na ato Duw: eithr trwy eu cwmp hwy y daeth iachawdwriaeth i'r Cenedloedd, i yrru eiddigedd arnynt. 12 Oherwydd paham, os ydyw eu cwmp hwy yn olud i'r byd, a'u lleihad hwy yn olud i'r Cenedloedd; pa faint mwy y bydd eu cyflawnder hwy? 13 Canys wrthych chwi y Cenedloedd yr wyf yn dywedyd, yn gymaint â'm bod i yn apostol y Cenedloedd, yr wyf yn mawrhau fy swydd; 14 Os gallaf ryw fodd yrru eiddigedd ar fy nghig a'm gwaed fy hun, ac achub rhai ohonynt. 15 Canys os yw eu gwrthodiad hwy yn gymod i'r byd, beth fydd eu derbyniad hwy ond bywyd o feirw? 16 Canys os sanctaidd y blaenffrwyth, y mae'r clamp toes hefyd yn sanctaidd: ac os sanctaidd y gwreiddyn, y mae'r canghennau hefyd felly. 17 Ac os rhai o'r canghennau a dorwyd ymaith, a thydi yn olewydden wyllt a impiwyd i mewn yn eu plith hwy, ac a'th wnaethpwyd yn gyfrannog o'r gwreiddyn, ac o fraster yr olewydden; 18 Na orfoledda yn erbyn y canghennau. Ac os gorfoleddi, nid tydi sydd yn dwyn y gwreiddyn, eithr y gwreiddyn dydi. 19 Ti a ddywedi gan hynny, Torrwyd y canghennau ymaith, fel yr impid fi i mewn. 20 Da; trwy anghrediniaeth y torrwyd hwynt ymaith, a thithau sydd yn sefyll trwy ffydd. Na fydd uchelfryd, eithr ofna. 21 Canys onid arbedodd Duw y canghennau naturiol, gwylia rhag nad arbedo dithau chwaith. 22 Gwêl am hynny ddaioni a thoster Duw: sef i'r rhai a gwympasant, toster; eithr daioni i ti, os arhosi yn ei ddaioni ef: os amgen, torrir dithau hefyd ymaith. 23 A hwythau, onid arhosant yn anghrediniaeth, a impair i mewn: canys fe all Duw eu himpio hwy i mewn drachefn. 24 Canys os tydi a dorwyd ymaith o'r olewydden yr hon oedd wyllt wrth naturiaeth, a'th impio yn erbyn naturiaeth mewn gwir olewydden; pa faint mwy y caiff y rhai hyn sydd wrth naturiaeth, eu himpio i mewn yn eu holewydden eu hun? 25 Canys nid ewyllysiwn, frodyr, eich bod heb wybod y dirgelwch hwn, (fel na byddoch ddoethion yn eich golwg eich hun,) ddyfod dallineb o ran i Israel, hyd oni ddêl cyflawnder y Cenedloedd i mewn. 26 Ac felly holl Israel a fydd cadwedig; fel y mae yn ysgrifenedig, Y Gwaredwr a ddaw allan o Seion, ac a dry ymaith annuwioldeb oddi wrth Jacob.

⁶ Y dydd hwnnw y codaf babell Dafydd, yr hon a syrthiodd, ac a gaeaf ei bylchau, ac a godaf ei hadwyau, ac a'i hadeiladaf fel yn y dyddiau gynt:

⁷ Yna ychwanega at hyn: 'Bydd doniau yr eglwys a'i sancteiddrwydd yn cyfateb i'w gilydd, ac yn helaeth ac yn ogoneddus iawn. Bydd gwybodaeth ysbrydol yn helaeth; cariad ac undeb ysbrydol yn aml ac yn ogoneddus; a zel tros Dduw a'i wirioneddau, y cyffelyb ag oedd yn y merthyron gynt' (t. 645).

mae Eseia 54:13⁸ a Jeremeia 31:23-34⁹ yn tystio i hyn a dyma sut y dylid deall Datguddiad 20:4. Siarad yn ffigurol a wna loan yma ym marn Charles. Mae Charles yn deall yr adnod i ddweud, 'Cyfodir dynion yn yr eglwys yn meddiannu yr un ysbryd a'r merthyron, yn credu yr un athrawiaethau, yn ymdrechu yn yr un achos mawr, ag y rhoddasant hwy eu bywydau drosto' (ibid.). Yn y cyfnod hwn, bydd pobl Dduw yn yr Eglwys Gristnogol yn mwynhau oes aur, 'wedi eu llenwi â'r Ysbryd Glân: nid cael ei sathru, ond *teyrnasu*, fydd cyflwr yr eglwys yn y dyddiau hafaidd hyn' (ibid.).

4. 'Y mae yn amlwg hefyd y bydd y llwyddiant hwn yn mhlith pob graddau a sefyllfaoedd o ddynion' (ibid.). I Charles, Daniel 7:27¹⁰ sy'n dangos hyn. Mae'r adnod yn profi i Charles y 'bydd y llywodraethau, a'r holl swyddwyr, gwladol ac eglwysig, yn parhau. Bydd breninoedd, pendefigion, tywysogion, a blaenoriaid o bob math, yr amser hwnw: ond bydd y breninoedd yn dadmaethod i'r eglwys, yn crymu i achos Crist, ac yn caru y gwasanaeth gwaelaf yn perthyn iddo' (ibid.). Mae Charles yn rhagweld y bydd y llywodraethwyr a'r tywysogion yn ddynion graslon a dawnus, yn eirwir, yn ofni Duw ac yn casáu cybydd-dod, ac yn y cyddestun hwnnw cyferia at Eseia 49:23 ac Exodus 18:21.¹¹ Mae Charles

⁸ Dy holl feibion hefyd fyddant wedi eu dysgu gan yr Arglwydd; a mawr fydd heddwch dy feibion.

⁹ 23 Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, Duw Israel; Dywedant eto y gair hwn yng ngwlad Jwda, ac yn ei dinasoedd, pan ddychwelwyf eu caethiwed hwynt; Yr Arglwydd a'th fendithio, trigfa cyfiawnder, mynydd sancteiddrwydd. 24 Yna arddwyr a bugeiliaid a breswylant ynddi hi Jwda, ac yn ei holl ddinasoedd ynghyd. 25 Oherwydd yr enaid diffygiol a ddigonais, a phob enaid trist a lenwais. 26 Ar hyn y deffroais, ac yr edrychais, a melys oedd fy hun gennyf.

27 Wele y dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, yr heuaf dŷ Israel a thŷ Jwda â had dyn ac â had anifail. 28 Ac megis y gwyliais arnynt i ddiwreiddio, ac i dynnu i lawr, ac i dministrio, ac i ddifetha, ac i ddrygu; felly y gwyliaf arnynt i adeiladu ac i blannu, medd yr Arglwydd. 29 Yn y dyddiau hynny ni ddywedant mwyach, Y tadau a fwytasantrawnwin surion, ac ar ddannedd y plant y mae dincod. 30 Ond pob un a fydd farw yn ei anwiredd ei hun: pob un a'r a fwytaorawnwin surion, ar ei ddannedd ef y bydd dincod.

31 Wele y dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, y gwnaf gyfamod newydd â thŷ Israel, ac â thŷ Jwda: 32 Nid fel y cyfamod a wneuthum â'u tadau hwynt ar y dydd yr ymefflais yn eu llaw hwynt i'w dwyn allan o dir yr Aiff; yr hwn fy nghyfamod a ddarfu iddynt hwy ei ddiddymu, er fy mod i yn briod iddynt, medd yr Arglwydd. 33 Ond dyma y cyfamod a wnaif fi â thŷ Israel ar ôl y dyddiau hynny, medd yr Arglwydd; Myfi a roddaf fy nghyfraith o'u mewn hwynt, ac a'i hysgrifennaf hi yn eu calonnau hwynt; a mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw, a hwythau a fyddant yn bobl i mi. 34 Ac ni ddysgant mwyach bob un ei gymydog, a phob un ei frawd, gan ddywedyd, Adnabyddwch yr Arglwydd: oherwydd hwynt-hwy oll o'r lleiaf ohonynt hyd y mwyaf ohonynt a'm hadnabyddant, medd yr Arglwydd; oblegid mi a faddeuaf eu hanwiredd, a'u pechod ni chofiaf mwyach.

¹⁰ A'r frenhiniaeth a'r llywodraeth, a mawredd y frenhiniaeth dan yr holl nefoedd, a roddir i bobl saint y Goruchaf, yr hwn y mae ei frenhiniaeth yn frenhiniaeth dragwyddol, a phob llywodraeth a wasanaethant ac a ufuddhânt iddo.

¹¹ Eseia 49:23: Brenhinoedd hefyd fydd dy dadmaethod, a'u breninesau dy famaethod; crymant i ti â'u hwynebau tua'r llawr, a llyfant lwch dy draed; a chei wybod mai myfi yw yr Arglwydd: canys ni chywilyddir y rhai a ddisgwylant wrthyf fi.

Exodus 18:21: Ac edrych dithau allan o'r holl bobl am wŷr nerthol, yn ofni Duw, gwŷr geirwir, yn casáu cybydd-dod; a gosod y rhai hyn arnynt hwy, yn dywysogion ar filoedd, yn dywysogion ar gannoedd, ac yn dywysogion ar ddegau a deugain, ac yn dywysogion ar ddegau.

hefyd yn rhagweld mai Cristnogion fydd yn llywodraethwyr mewn swyddi gwladol.¹²

5. 'Y mae yn amlwg hefyd y bydd llonyddwch i'r eglwys oddiwrth gyfeiliornadau ac erlidigaethau' (t. 646). Dyma ganlyniad rhwymo Satan, 'fel na thwyllai y cenedloedd mwyach' (ibid.). Bydd eglwys Crist yn mwynhau purdeb crefydd yn heddychlon, 'heb ddim cythrwfl, gan elynion dynolryw, yn gweithredu yn mhlant anufudd-dod', oherwydd bydd Satan wedi'i rwymo. Golyga hyn hefyd y bydd pawb yn cael eu 'dychwelyd', hynny yw, yn dod yn Gristnogion oherwydd 'rhoddir attalfa arno [Satan] rhag taenu ei dwyll yn mhlith cenedloedd y ddaear, sef gau-athrawiaethau, gau-grefyddau, eilunaddoliaeth, a chasineb i wir grefydd Grist' (ibid.). Yn y cyfnod hwn, 'derfydd pob erlidigaeth gyhoeddus' (ibid.).
6. 'Y mae yn amlwg i mi fod yr amser hwn o hawddfyd ar yr eglwys, heb ddechreu eto' (ibid.). I Charles, 'y mae yr olwg a welir ar y byd yn dangos yn ddigon eglur, bod Satan etto heb gael ei rwymo, a bod ei gau athrawiaethau ar led y byd; bod eilun-addoliaeth yn ben-uchel, ac ysbryd casineb ac erlidigaethus yn erbyn y gwirionedd a saint Duw, yn llenwi y rhan fwyaf o drigolion y byd; ac y mae y bwystfil a'r butain fawr sydd yn ei farchogaeth, etto heb eu dystrywio' (ibid.).
7. 'Y mae yn dra eglur y bydd i'r llwyddiant mawr hwn ar yr eglwys barhau fil o flynyddoedd' (ibid.). I Charles, nid oes rhaid deall 'mil o flynyddoedd' yn llythrennol - gall olygu cyfnod hir iawn o amser, ond ni

¹² Daniel7:9-27: 9 Edrychais hyd oni fwrwyd i lawr y gorseddfeydd, a'r Hen ddihenydd a eisteddodd: ei wisg oedd cyn wynned â'r eira, a gwallt ei ben fel gwllan pur; ei orseddfa yn fflam dân, a'i olwynion yn dân poeth. 10 Afon danllyd oedd yn rhedeg ac yn dyfod allan oddi ger ei fron ef: mil o filoedd a'i gwasanaethent, a myrdd fyrddiwn a safent ger ei fron: y farn a eisteddodd, ac agorwyd y llyfrau. 11 Edrychais yna, o achos llais y geiriau mawrion a draethodd y corn; ie, edrychais hyd oni laddwyd y bwystfil, a difetha ei gorff ef, a'i roddi i'w losgi yn tân. 12 A'r rhan arall o'r bwystfilod, eu llywodraeth a dducwyd ymaith; a rhoddwyd iddynt einioes dros ysbaid ac amser. 13 Mi a welwn mewn gweledigaethau nos, ac wele, megis Mab y dyn oedd yn dyfod gyda chymylau y nefoedd; ac at yr Hen ddihenydd y daeth, a hwy a'i dygasant ger ei fron ef. 14 Ac efe a roddes iddo lywodraeth, a gogoniant, a brenhiniaeth, fel y byddai i'r holl bobloedd, cenedloedd, a ieithoedd ei wasanaethu ef: ei lywodraeth sydd lywodraeth dragwyddol, yr hon nid â ymaith, a'i frenhiniaeth ni ddifethir.

15 Myfi Daniel a ymofidiais yn fy ysbryd yng nghanol fy nghorff, a gweledigaethau fy mhen a'm dychrynasant. 16 Neseais at un o'r rhai a safent gerllaw, a cheisiais ganddo y gwirionedd am hyn oll. Ac efe a ddywedodd i mi, ac a wnaeth i mi wybod dehongliad y pethau. 17 Y bwystfilod mawrion hyn, y rhai sydd bedwar, ydynt bedwar brenin, y rhai a gyfodant o'r ddaear. 18 Eithr saint y Goruchaf a dderbyniant y frenhiniaeth, ac a feddiannant y frenhiniaeth hyd byth, a hyd byth bythoedd. 19 Yna yr ewyllysais wybod y gwirionedd am y pedwerydd bwystfil, yr hwn oedd yn amrywio oddi wrthynt oll, yn ofnadwy iawn, a'i ddannedd o haearn, a'i ewinedd o bres; yn bwyta, ac yn dryllio, ac yn sathru y gweddill â'i draed: 20 Ac am y deg corn oedd ar ei ben ef, a'r llall yr hwn a gyfodasai, ac y syrthiasai tri o'i flaen; sef y corn yr oedd llygaid iddo, a genau yn traethu mawrhydri, a'r olwg arno oedd yn arwach na'i gyfeillion. 21 Edrychais, a'r corn hwn a wnaeth ryfel ar y saint, ac a fu drech na hwynt; 22 Hyd oni ddaeth yr Hen ddihenydd, a rhoddi barn i saint y Goruchaf, a dyfod o'r amser y meddiannai y saint y frenhiniaeth. 23 Fel hyn y dywedodd efe; Y pedwerydd bwystfil fydd y bedwaredd frenhiniaeth ar y ddaear, yr hon a fydd amryw oddi wrth yr holl freniniaethau, ac a ddifa yr holl ddaear, ac a'i sathr hi, ac a'i dryllia. 24 A'r deg corn o'r frenhiniaeth hon fydd deg brenin, y rhai a gyfodant: ac un arall a gyfyd ar eu hôl hwynt, ac efe a amrywia oddi wrth y rhai cyntaf, ac a ddarostwng dri brenin. 25 Ac efe a draetha eiriau yn erbyn y Goruchaf, ac a ddifa saint y Goruchaf, ac a feddwl newidio amseroedd a chyfreithau: a hwy a roddir yn ei law ef, hyd amser ac amseroedd a rhan amser. 26 Yna yr eistedd y farn, a'i lywodraeth a ddygant, i'w difetha ac i'w dystrywio hyd y diwedd. 27 A'r frenhiniaeth a'r llywodraeth, a mawredd y frenhiniaeth dan yr holl nefoedd, a roddir i bobl saint y Goruchaf, yr hwn y mae ei frenhiniaeth yn frenhiniaeth dragwyddol, a phob llywodraeth a wasanaethant ac a ufuddhânt iddo.

all olygu cyfnod o lai na mil o flynyddoedd. Cred Charles ei bod yn debygol y dechreuau'r cyfnod hwn, sef y Milflwyddiant, yn raddol wrth i'r rhwystrau gael eu symud, 'a bydd ymdrechadau yr eglwys yn cynnyddu yn raddol i daenu yr efengyl trwy y byd' (ibid.).

Mae Thomas Charles yn disgwyl gweld y Milflwyddiant yn araf sefydlu ei hun ar y ddaear trwy lwyddiant yr eglwys Gristnogol cyn Ailddyfodiad Iesu Grist.

'Yn yr yspaid hwn,' eglura Charles:

dilëir holl gyfeiliornadau dinystriol oddiar y ddaear; diddymir Anghrist, Mahometaniaeth, a Phaganiaeth dros yr holl fyd. Gorchfygir anghrediniaeth yr Iuddewon [...] Bydd gwybodaeth gwedi cynnyddu yn yr eglwys yn ddirfawr: sancteiddrwydd a duwioldeb yn gyffredinol yn blaguro yn rymus; bydd duwioldeb yn ymhob man yn uchaf; bydd cariad a heddwch yn amlhau; bydd iawn drefn yn yr eglwys yn mhob peth; ac oblegid hyn, bydd yr eglwys yn y byd yn hardd, yn llwyddiannus, yn orfoleddus, ac yn ogoneddus (t. 647).

I Charles felly roedd camau penodol yn arwain at y Milflwyddiant. Mae William Williams (1717–1791), Pantycelyn, hefyd yn nodi'r camau hyn mewn llythyr at Howell Harris (1714–1773) yn 1745:

Is the Gospel preachd through the whole world, as promised in the gospel by our Saviour himself? No, no! All America as yet never heard such things. Has the great Babylon fallen? No, no! Its time I hope is at hand. Has the poor ignorant sinful and reproachful Jews been called (Rom. 11). No; but 'tis certain to come. Has the Devil been bound for 1,000 years (Rev. 19)? I suppose not [... but] we have great reason to expect these things in short. Dark cloud in the morning is no proof the day is far (dyfynnwyd yn: James, 2013, t. 104).

O'r llythyr hwn gwelwn yn glir fod Williams yn gweld y camau fel a ganlyn: cyflawnder y Cenhedloedd yn dod i mewn, cwmp Babilon, tröedigaeth yr Iddewon ac yna rhwymiad Satan am fil o flynyddoedd. Mae'n amlinellu'r camau eto yn 1774 yn ei gyfrol *Aurora Borealis*:

Nid allaf lai nag edrych arno megis un o'r rhyfeddodau mwyaf ag a welwyd ar wybr Duw erioed; ac yn rhyw arwydd arbennig o ryw bethau mawrion ag sydd i ddyfod; nid o flaen troiadau yn y byd naturiol, megis terfysgiadau rhwng brenhinoedd y ddaear, rhyfeloedd, a dinystr dinasoedd a gwledydd mawrion; ond yn rhyw arwydd neilltuol o helaethu terfynau Efengyl Crist, ac o lwyddiant y gair yn y dyddiau diweddfaf; cwmp anghrist, galwad yr *Iuddewon*, dinystr hollol *Paganiaeth*, a

Mahometaniaeth; a gosodiad i fynu o deyrnas Crist tros wyneb yr holl fyd (tt. 4-5).

Eto, gwelwn yma gan Williams y camau penodol y credai a fyddai'n arwain at y Milflwyddiant: llwyddiant yr efengyl, cwmp Anghrist (Babilon), tröedigaeth yr Iddewon, dinistr holl baganiaeth a gau grefyddau (rhwymo Satan). Wrth i'r camau hyn ddod i fod yn raddol, un wrth un, bydd y Milflwyddiant yn cael ei sefydlu 'tros wyneb yr holl fyd'.

Ond i ba raddau y gellid dweud mai gobraith y Piwritaniaid Cymreig oedd hyn? Diddorol nodi mai awdurdodau o'r ddeunawfed ganrif yn hytrach na'r cyfnod Piwritanaidd yw'r rhai a nodir ar ddiwedd y cofnod ar y Milflwyddiant yn *Geiriadur* Charles, sef Isaac Newton, *On the Prophecies* (1733), Jonathan Edwards, *History of Redemption* (1776), Joseph Bellamy, *The Millennium* (1794) a Samuel Hopkins, *Treatise on the Millennium* (1800). Ar wahân i Vitringa (1659-1722), yr unig gyfeiriad at awdurdod cynharach yw'r un at yr Armin, Daniel Whitby (1638-1726).

I. Diffinio'r termau diwinyddol a gofyn y cwestiwn, 'Beth yw Piwritaniaeth?'

1. Termau diwinyddol

A. Eschatoleg

Daw'r term 'eschatoleg' o'r gair Groeg *eschatos* sy'n golygu 'diwethaf'. Dywed Wayne Grudem, awdur *Systematic Theology* (1994) a golygydd yr ESV Study Bible (2008), mai astudiaeth o ddigwyddiadau'r pethau diwethaf yw eschatoleg. Yn ei ysgrif ar eschatoleg yn *The Oxford Handbook of Systematic Theology*, cytuna Richard Bauckham â Grudem. Rhestra Bauckham y 'resurrection, last judgement, heaven, and hell', fel y pethau diwethaf hynny (2007, t. 306) a noda fod rhaid i ddynion a gwragedd ym mhob oes 'engage with the hopes, expectations, and dreads of the future' (t. 310). Dywed Gerhard Sauter:

The doctrine of the last things concerns both the ultimate destiny of the human race and the end of the world of which humans are a part. It points to the coherence of God's mysteries and to the right way of perceiving salvation, to God's redemption of humanity through its calling into the community of faithful people, and finally to God's last judgment and radical renewal of the world. (2008, t. 227)

Ond awgryma Louis Berkhoff yn ei gyfrol, *Systematic Theology* (1949), fod eschatoleg yn ymwneud nid yn unig â'r dyfodol ond hefyd â pherthynas y gorffennol, y presennol a'r dyfodol: 'The name "eschatology" calls attention to the fact that the history of the world and of the human race will finally reach its consummation. It is not an indefinite and endless process, but a real history moving on to a divinely appointed end' (t. 737). Atega David Ferguson hyn yn ei erthygl ar eschatoleg yn *The Cambridge Companion to Christian Doctrine*.

Dywed, 'Eschatology, rather than dealing simply with the last things, can be seen more broadly in the Bible as concerned with important changes in the course of history through God's action' (1997, t. 228). Cytuna Christopher Rowland hefyd â hyn wrth ddweud:

Early Christians looked forward to the reordering of the world and its institutions. For most New Testament writers, there is still an unfulfilled element in the process of salvation [...] Believers may have tasted of the heavenly gift and participated in the Holy Spirit (Heb. 6:4), but the fullness of salvation is still to be experienced by the individual and manifested in the world (Rom. 8:18-25; 1 John 3:2). The departure of the Son of man to God was only a temporary phenomenon, for he would be revealed (1 Cor. 1:7; 1 Pet. 1:7) and would bring about the times of restoration of all things foretold by the prophets (Acts 3:21). That was an event not far distant (Rom. 13:11; Rev. 22:20), though the New Testament writers are uniformly unwilling to be too specific about the exact date (Mark 9:1, 13:32; 1 Thess. 5:1; cf. 2 Thess. 2:2-9). Nevertheless Christians had an understanding of their own God-given role in the climactic events taking place and the ultimate character of the message of hope (2008, t. 35).

Mae Bauckham yn egluro sut y daeth eschatoleg yn athrawiaeth lywodraethol yn ystod yr ugeinfed ganrif: 'in the twentieth century, eschatology ceased to be merely one doctrinal topic among others to be treated after the others; it became something more like a dimension of the whole subject matter of theology' (2007, t. 306). Noda Bauckham hefyd i ddiwinyddion yn ystod yr ugeinfed ganrif ddadlau fod eschatoleg yn 'the transcendent act of God breaking into history to effect his final purpose for his creation' (2007, t. 306) a bod cenadwri'r diwinyddion hynny yn pwysleisio fod eschatoleg wedi bod yn athrawiaeth ganolog ers dechreuadau Cristnogaeth. Dywed, 'both the preaching of Jesus and the theology of Paul came to be seen as thoroughly eschatological in the sense that they focused on the imminent arrival of God's kingdom' (2007, t. 306). Eglura Ferguson i ddiwinyddion megis Johannes Weiss (1863–1914) ac Albert Schweitzer (1875–1965) ddadlau

eschatology belonged to the essence of Jesus' message, and that it could not be understood except in this light. Jesus' words, actions and mission all presupposed the kingdom of God. He summoned others to prepare for God's rule on earth and he understood his own ministry as fulfilling a decisive role in bringing this about [...] eschatology was not an optional extra for Jesus or the early church. The message of the kingdom, the Lord's prayer, the resurrection of Jesus, the sacraments, life in the Spirit – all have an eschatological shape. These can only be understood in terms of a future that is expected and for which human beings must prepare (1997, t. 234).

Yn hinsawdd y diddordeb hwn mewn eschatoleg, 'the matter was complicated by a continuing debate among New Testament scholars about the character of eschatology in the New Testament' (Bauckham, 2007, t. 306). Dadleua rhai diwinyddion mai eschatoleg gyson (*consistent*) oedd eschatoleg y Testament Newydd a mai cyfeirio at y dyfodol agos a wna awduron y Testament Newydd. Dysgodd C. H. Dodd (1884–1973), ar y llaw arall, mai eschatoleg gyflawnedig (*realized*) oedd eschatoleg y Testament Newydd. 'He claimed that they turned the future hope of Jewish expectation into the realized experience of God in the present' (Bauckham, 2007, t. 306). Noda Buckham, fodd bynnag, mai'r consensws cyffredinol heddiw yw eschatoleg ddechreuedig (*inaugurated eschatology*): 'There is a tension between the "already" of experience and the "not yet" of eschatological fulfilment. The realization of God's final purpose for the world has already decisively begun in the ministry, death, and resurrection of Jesus, but its completion is still awaited' (2007, t. 307). Gwelai N. T. Wright eschatoleg 'as the climax of Israel's history, involving events for which end-of-the-world language is the only set of metaphors adequate to express the significance of what will happen, but resulting in a new and quite different phase within space-time history' (1996, t. 208). Fy mwriad wrth nodi hyn oll yw pwysleisio nad 'y pethau diwethaf' yn unig yw eschatoleg, ond bod a wnelo hi â hanes a digwyddiadau cyfoes hefyd.

Noda Buckham yn ogystal ddatblygiad a fu yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, sef gwaith corff o ddiwinyddion Almaeneg (sef Jurgen Moltmann, Wolfhart Pannenberg, Gerhard Sauter a Johann-Baptist Metz) wrth iddynt 'reconnect eschatology with the temporal future of the world' (2007, t. 307). Yn bwysig i'n hastudiaeth ni, arweiniodd eu hastudiaethau hwy iddynt gredu 'because that rule of God is the final future of the world, promises and anticipations of it occur already in history, and the church's mission in the world has this future of the world in view' (ibid, t. 308). Golwg tebyg iawn i hyn oedd gan y Piwritaniaid ar addewidion Duw.

Addewidion Duw yw sail eschatoleg Gristnogol (ibid). Nid yw eschatoleg yn dibynnu ar ffasiynau'r presennol a'r gorffennol nac ychwaith ar ragfynegiadau gwyddonol am y dyfodol. Yn hytrach, 'it is the hope aroused and sustained by the promises of the God who created the world and who promises the redemption and completion of his creation' (ibid., tt. 308-9). Noda Buckham fodd bynnag fod holl addewidion Duw yn yr Hen Destament wedi dod i'w cyflawnder yn Iesu Grist, fel yr esbonia Paul yn 2 Corinthiaid 1:19-20¹³, a bod atgyfodiad Iesu Grist yn ddigwyddiad eschatolegol oherwydd 'what has happened to Jesus is what will happen to the whole creation' (t. 309). Golyga hyn mai Iesu Grist ei hun yw sylfaen gobaith eschatoleg Gristnogol, ac felly ni all gobaith eschatolegol Cristnogol fod yn 'mere openness to the future without specific content' (ibid.). Roedd atgyfodiad y meirw yn ddigwyddiad yr oedd yr Iddewon yn ei ddisgwyl ar ddiwedd y byd, ond profodd atgyfodiad Iesu i fod yn 'anticipatory occurrence of the end' (ibid.). Yn hyn o beth mae atgyfodiad Iesu Grist yn gyflawniad o addewid eschatolegol ac yn rhagflas o'r hyn a ddaw.

¹³ 19 Canys Mab Duw, Iesu Grist, yr hwn a bregethwyd yn eich plith gennym ni, sef gennyf fi, a Silfanus, a Thimotheus, nid ydoedd ie, a nage, eithr ynddo ef ie ydoedd. 20 Oblegid holl addewidion Duw ynddo ef ydynt ie, ac ynddo ef amen, er gogoniant i Dduw trwom ni.

Mae'r atgyfodiad yn 'only a proleptic appearance of the end, not the coming of the kingdom universally' (ibid.). Mae gobeithion eschatolegol am y dyfodol yn seiliedig ar yr hyn sydd eisoes wedi digwydd yn Iesu Grist: 'the resurrection of the crucified Jesus is the basis for expecting from God what has not yet happened in a future still open to the new creation of all things' (ibid.).

Ond nid gwaith Iesu yn ei groeshoeliad a'i atgyfodiad sy'n bwysig yn unig, ond hefyd ei waith presennol a'i waith yn y dyfodol. Cred Cristnogion fod Iesu yn fyw heddiw ac yn ddyrchafedig, ac yn Frenin yn y nefoedd, ac yn llywodraethu. Dyma ei waith wrth iddo ddisgwyl ei ddyfodiad yn y dyfodol. Pan ddaw eto, daw mewn gallu a nerth. Yn yr ystyr hwn, mae Iesu Grist ei hun yn cyplysu'r syniad hwnnw o 'yn awr' a 'dim eto' wrth drafod gobaith y Cristion (t. 309). Mae Buckham hefyd yn dadlau fod atgyfodiad yr Iesu croeshoeliedig hefyd yn flaenffwrth o'r hyn fydd yn wir am yr atgyfodiad cyffredinol sydd i'w ddisgwyl yn y dyfodol ac yn flaenffwrth o'r greadigaeth newydd. Y nodweddion hynny yw'r 'contradiction of death and new life, mortality and undying life, suffering and glory, condemnation and vindication. Just such a continuity in discontinuity must also be the case for all of the reality that God will renew at the eschaton' (t. 310). Yn ogystal â hyn, pwysleisia Buckham fod yr atgyfodiad yn weithred ddwyfol oedd y tu hwnt i allu'r natur ddynol, ac o'r herwydd 'the eschatological expectation that is founded on the death and resurrection of Jesus therefore depends not on the immanent potential of this world [...] but on the creative resources of the God who transcends this world' (t. 310). Wedi dweud hynny, noda Buckham fod yr Ysbryd Glân yn rhoi i'r Cristion rym yr atgyfodiad, a thrwy hynny, ffrwythau a doniau sy'n rhagflas o'r hyn sydd i'w ddisgwyl ar ddiwedd y byd.

Â Buckham ymlaen i nodi fod gobaith eschatolegol y Cristion yn obaith sy'n adlewyrchu byd-olwg y Beibl ac felly'n obaith i'r greadigaeth gyfan: 'It does not divide creation into the immortal and the perishable, that which can transcend the morality of this world and that which cannot' (t. 314). Eto, atgyfodiad Iesu Grist yw canolbwynt y gred hon. Atgyfododd Iesu Grist yn gorfforol. Nid atgyfodiad ysbrydol mohono. Yn ogystal â hyn, y ddelwedd feiblaidd a gawn am y greadigaeth newydd yw Eden newydd a pherffaith (Datguddiad 22:1-2¹⁴), ond hefyd Jerwsalem newydd a pherffaith (Datguddiad 21:10-11¹⁵). Noda Buckham fod hyn yn dangos fod y greadigaeth gyfan, yn ddynion a byd natur, yn cael eu perffeithio (t. 316).

Fel a ddaw'n amlwg wrth astudio gwaith y Piwritaniaid, 'eschatology deals in the symbolic and the imaginative' (ibid). Mae eschatoleg yn trafod digwyddiadau sydd y tu hwnt i'n hamgyffred, a hynny mewn iaith alegoriaidd yn aml iawn. Ni allwn wir amgyffred 'diwedd y byd' er enghraifft, nac ychwaith 'bywyd tragwyddol', na deall sut brofiad yw hi i atgyfodi. Oherwydd hyn, awgryma Buckham fod rhaid i Gristnogion ddefnyddio eu dychymyg wrth drafod eschatoleg, ond mae'n rhybuddio hefyd yn erbyn 'free-floating fantasy' (t. 317) ac yn rhybuddio ymhellach yn erbyn rhoi rhwydd hynt i'r dychymyg yn hytrach na phwyso ar ddatguddiad (ibid):

Rather, the revelatory promise of God in Christ and scripture appeals to the human imagination, seizes, transforms, and expands it, and makes it the locus and vehicle of human reception of God's promise. It is the Christian imagination that can envision the coming kingdom sufficiently

¹⁴ Ac efe a ddangosodd imi afon bur o ddwfr y bywyd, disglair fel grisial, yn dyfod allan o orseddfainc Duw a'r Oen. 2 Yng nghanol ei heol hi, ac o ddau tu'r afon, yr oedd pren y bywyd, yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth, bob mis yn rhoddi ei ffrwyth: a dail y pren oedd i iacháu'r cenhedloedd:

¹⁵ Ac efe a'm dug i ymaith yn yr ysbryd i fynydd mawr ac uchel, ac a ddangosodd i mi'r ddinas fawr, Jerwsalem sanctaidd, yn disgyn allan o'r nef oddi wrth Dduw, 11 A gogoniant Duw ganddi: a'i golau hi oedd debyg i faen o'r gwerthfawrocaf, megis maen iasbis, yn loyw fel grisial;

for it to empower Christian living without reducing the kingdom to a reality that can all be too easily perfected already (ibid).

B. Teyrnas Dduw

Cawn gyfeiriadau lu yn y Testament Newydd at Deyrnas Dduw a'i dyfodiad. Nid cyfeirio at deyrnas arall fydol a wna awduron y ganrif gyntaf, 'it was simply a Jewish way of talking about Israel's god becoming king. And, when this god became king, the whole world, the world of space and time, would at last be put to rights' (Wright, 1996, t. 203). 'The kingdom of God, the subject of much of Jesus' preaching, offers a political and social image of the perfection of human society in full accord with the will of God' (Buckham, 2007, t. 320). Diffiniad Ferguson o Deyrnas Dduw yw:

It is a community which lives in obedience to the generosity, forgiveness and righteousness of God. It is a society in which physical handicap and weakness are overcome; in which racial and religious differences are ended; in which there is justice for the poor, oppressed and the powerless; and in which the dead are raised (1997, t. 230).

I Christopher Rowlands, 'the phrase "the kingdom of God" is a central pillar for our understanding of the message of Jesus. It probably refers to a future age of glory, when the divine will would be revealed in human affairs' (2008, t. 37). I N. T. Wright, "The kingdom of god," historically and theologically considered, is a slogan whose basic meaning is the hope that Israel's god is going to rule Israel (and the whole world), and that Caesar, or Herod, or anyone else of their ilk, is not' (1992, t. 302). Dangosa Wright 'there were many who were eager to be the kingmakers, by whatever means might prove necessary' (1992, tt. 302-3). Gwelwn hyn hefyd yn achos y Piwritaniaid. Mae'r syniad o Dduw yn teyrnasu

dros yr holl ddaear yn syniad dominyddol yn yr Hen Destament. Eglura Wright i'r Iddewon yng nghyfnod Iesu obeithio am ddyfodiad Teyrnas Dduw hefyd:

YHWH, committed to Israel by an unbreakable covenant, was delaying his decisive act [sef dyfodiad ei deyrnas], for reasons best known to himself, though earnestly inquired after the pious. He was holding back from putting into practice the plan that Israel knew he really had. Since he was god of all the earth, it was clearly his will to keep his promises to Israel by vindicating her at last over her enemies, and thus reordering the whole world (1996, t. 203).

I lawer o Iddewon yng nghyfnod Crist roedd i Deyrnas Dduw gysylltiadau chwyldroadol. Roeddent yn disgwyl i Cesar, Herod a llwyth yr Archoffeiriad gwympto er mwyn i Dduw ddychwelyd fel brenin er mwyn i Israel gael ei llywodraethu'n gyfiawn, 'through the sort of rulers YHWH approved of, who would administer justice for Israel and judgment on the nations' (ibid.). 'Dim Brenin ond Duw' oedd slogan chwyldroadwyr y cyfnod, a chymhellodd eu cred yn nyfodiad Teyrnas Dduw iddynt brotestio a difrodi'r deml (Wright, 1996, t. 204). Gobeithient am ecsodus newydd:

The story would reach its climax; the great battle would be fought; Israel would truly 'return' to her land, saved and free; YHWH would return to Zion [...] And the whole story clearly has to do with the kingdom of god [...] This, I suggest, is the proper and historically appropriate context in which to understand Jesus' saying about the kingdom, or kingship, of Israel's god (ibid, t. 209).

Roedd y Cristnogion cynnar hefyd yn credu ac yn gobeithio yn nyfodiad Teyrnas Dduw. Esbonia Wright i 'Kingdom-language' gael ei ddefnyddio fel 'shorthand summary for the preaching and apologetic message of the church, or indeed for the whole of what Christianity was about' (ibid, t. 215). Ond er mai Cristnogion oeddynt, roedd y Cristnogion cynnar yn dal i feddwl am Deyrnas Dduw yn nhermau Iddewig, gan mai i'r traddodiad, crefydd a diwylliant hwnnw y perthynai'r Cristnogion cynnar. Teyrnas Duw Abraham, Isaac a Jacob y gobeithiant ynddi a dod i ddwyn hanes Israel i'w uchafbwynt oedd y pwrpas, sef

galw pobl etholedig Duw i ryddid o'u caethiwed. Er mai perthyn i eschatoleg Iddewig y mae cred y Cristnogion cynnar yn Nheyrnas Dduw, rhoesant eu stamp eu hunain ar y gred. Yn gyntaf, credent bod y Deyrnas yn perthyn i Dduw ac i'r Meseia. Yn ail, o ddarllen 1 Corinthiaid 15:20-28¹⁶, mae'r deyrnas sy'n cael ei rhannu rhwng Duw a'r Meseia 'is given a detailed chronological explanation' (ibid, t. 216). Trwy ddyfynnu'r Salmu, mae Paul yn pwysleisio mai o fewn fframwaith Iddewig y gwelai'r Cristnogion cynnar eu heschatoleg, gan ychwanegu eu cred fod Duw yn cyflawni bwriadau'r Cyfamod bellach trwy'r Meseia, 'namely, dealing with sin and death, and is thereby restoring creation under the wise rule of the renewed human being' (ibid). Yma gwelwn hefyd y tensiwn 'that the kingdom is in a sense already present, as well as in another sense still future' (ibid.). Mae teyrnas y Meseia wedi'i sefydlu trwy croesheoliad ac atgyfodiad y Meseia, ond mae Teyrnas Dduw hefyd i ddod. Galluoga hyn i Paul a'r Cristnogion cynnar blannu eu hunain yn solet yng nghynllun Duw. Mae'r gobaiith am ddyfodiad Teyrnas Dduw yn dal yn perthyn i'r dyfodol ond eto i gyd mae cymal newydd yng nghynllun Duw wedi dechrau trwy gwaith achubol Iesu Grist ar y groes ac yn ei atgyfodiad. Yn drydydd, mae Teyrnas Dduw y Cristnogion cynnar yn wahanol i un yr Iddewon gan ei bod yn realiti y maent eisoes yn mwynhau ei breintiau. Maent eisoes yn frenhinoedd ac yn offeiriad o'r Deyrnas a hynny drwy waith y Meseia. Yn olaf, er mai datblygiad ar eschatoleg Iddewig oedd Teyrnas Dduw y Cristnogion cynnar, nid yw'n cynnwys

¹⁶ 20 Eithr yn awr Crist a gyfodwyd oddi wrth y meirw, ac a wnaed yn flaenffrwyth y rhai a hunasant. 21 Canys gan fod marwolaeth trwy ddyn, trwy ddyn hefyd y mae atgyfodiad y meirw. 22 Oblegid megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yng Nghrist y bywheir pawb. 23 Eithr pob un yn ei drefn ei hun: y blaenffrwyth yw Crist; wedi hynny y rhai ydynt eiddo Crist yn ei ddyfodiad ef. 24 Yna y bydd y diwedd, wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad: wedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth. 25 Canys rhaid iddo deyrnasu, hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed. 26 Y gelyn diwethaf a ddinistrir yw yr angau. 27 Canys efe a ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef. Eithr pan yw yn dywedyd fod pob peth wedi eu darostwng, amlwg yw mai oddieithr yr hwn a ddarostyngodd bob peth iddo. 28 A phan ddarostynger pob peth iddo, yna y Mab ei hun hefyd a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo ef, fel y byddo Duw oll yn oll.

symbolau Iddewig. Nid oedd a wnelo Cristnogaeth gynnar â rhyddid cenedlaethol, gwleidyddol a daearyddol Israel. Praxis y Deyrnas yw sancteiddrwydd, ond hynny ar sail gwaith achubol Iesu Grist; nid y Gyfraith. Iachawdwriaeth i'r greadigaeth gyfan yw'r nod yn hytrach nag achubiaeth wleidyddol i Israel. Cymharer, er enghraifft, Ioan 18:36¹⁷ a'r dyhead Iddewig chwyldroadol am deyrnas wleidyddol, ddaearol. Dywed Paul yn Rhufeiniaid 14:17¹⁸ y dylid trafod y Deyrnas yn nhermau cyfiawnder, tangnefedd a llawenydd yn yr Ysbryd Glân yn hytrach na deddfau am fwyd, tra bod Luc yn Actau 1:6-8¹⁹ yn honni y bydd y Deyrnas yn fyd-eang yn hytrach nag o fewn ffiniau gwlad benodol. Ni fydd hyd yn oed deml yn y Jerwsalem Newydd. Esbonia Wright: 'The symbolic world of first-century Judaism has been rethought from top to bottom, even while its underlying theology [...] has been explicitly retained' (1996, t. 218).

C. Yr Ailddyfodiad

Darlun canolog eschatoleg y Testament Newydd yw Ailddyfodiad Iesu Grist. Disgrifir y Cristnogion cyntaf fel pobl yn disgwyl Ailddyfodiad Iesu Grist. *Parousia* yw'r gair Groeg a ddefnyddia Paul am yr Ailddyfodiad y rhan fwyaf o'r amser. Eglura Thiselton mai 'the state of being present' yw ystyr *parousia*, a

¹⁷ 36 Yr Iesu a atebodd, Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn. Pe o'r byd hwn y byddai fy mrenhiniaeth, fy ngweision i a ymdrechent, fel na'm rhoddid i'r Iddewon: ond yr awron nid yw fy mrenhiniaeth i oddi yma.

¹⁸ 17 Canys nid yw teyrnas Dduw fwyd a diod; ond cyfiawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân.

¹⁹ 6 Gan hynny wedi eu dyfod hwy ynghyd, hwy a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Arglwydd, ai'r pryd hwn y rhoddi drachefn y frenhiniaeth i Israel? 7 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ni pherthyn i chwi wybod yr amseroedd na'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun. 8 Eithr chwi a dderbyniwch nerth yr Ysbryd Glân wedi y delo efe arnoch; ac a fyddwch dystion i mi yn Jerwsalem, ac yn holl Jwdea, a Samaria, ac hyd eithaf y ddaear.

chysylltir hi a'r ferf *pareimi*, sy'n golygu 'rwyf yma' neu 'rwy'n bresennol' (2012, tt. 90-1).

Paul

Defnyddia Paul *parousia* yn 1 Thesalonïaid er mwyn cyfeirio at ddyfodiad a phresenoldeb buddugoliaethus Crist mewn gwrthgyferbyniad a gwrthwynebiad i ddefnydd imperialaidd y cyfnod o'r un gair. Defnyddia Paul yr un term yn 1 Corinthïaid 15:23²⁰ a 2 Thesalonïaid 2:8²¹ gan gyfeirio at Grist. Noda Kenneth E. Bailey i Nero ymweld â Corinth yn OC 66. Byddai ymweliad Nero wedi cael ei alw'n *adventus*, sef y cyfieithiad Lladin o *parousia*. Byddai Cristnogion Corinth yn ymwybodol iawn o'r dathliadau a achosodd *parousia* Nero. Eglura Baily am 1 Corinthïaid 15: 'Writing to a Roman colony, Paul invokes all adoration and honor for the adventus of the resurrected Christ' (2011, t. 444). Mae Paul hefyd yn defnyddio'r gair *epiphaneia* ochr yn ochr â *parousia* yn 2 Thesalonïaid 2:8; 1 Timotheus 6:14²²; 2 Timotheus 1:10²³ a 4:1²⁴; a Titus 2:13²⁵. Mae *epiphaneia* yn golygu 'ymddangosiad' neu 'ymddangosiad cyhoeddus' a defnyddir y ferf mewn llenyddiaeth grefyddol i gyfeirio at amlygiad duwdod cuddiedig ar ffurf ddynol.

²⁰ 23 Eithr pob un yn ei drefn ei hun: y blaenffwrth yw Crist; wedi hynny y rhai ydynt eiddo Crist yn ei ddyfodiad ef.

²¹ 8 Ac yna y datguddir yr Anwir hwnnw, yr hwn a ddifetha'r Arglwydd ag ysbryd ei enau, ac a ddilea â disgleirdeb ei ddyfodiad:

²² 14 Gadw ohonot y gorchymyn hwn yn ddifeius, yn ddiargyhoedd, hyd ymddangosiad ein Harglwydd Iesu Grist:

²³ 10 Eithr a eglurwyd yr awron trwy ymddangosiad ein Hiachawdwr Iesu Grist, yr hwn a ddi-ddymodd angau, ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy'r efengyl:

²⁴ Yr ydwyf fi gan hynny yn gorchymyn gerbron Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a farna'r byw a'r meirw yn ei ymddangosiad a'i deyrnas;

²⁵ Gan ddisgwyl am y gobaith gwynfydedig, ac ymddangosiad gogoniant y Duw mawr, a'n Hiachawdwr Iesu Grist;

Yn 1 Timotheus 6:14 mae Paul yn cysylltu dyfodiad Crist â barn ac mae Titus yn Titus 2:13 yn nodi y bydd yr Ailddyfodiad yn amlygrwydd o ogoniant Duw ac Iesu Grist.

Gair arall sy'n cael ei gysylltu â'r Ailddyfodiad yw *apokalypsis* o ble y daw'r gair apocalyptiaeth. Cyfeiria hyn at 'ddatguddiad' neu 'ddatgeliad llawn' o'r hyn sydd wedi'i gadw'n guddiedig nes y dyddiau olaf. Eglura Wright,

when applied to literature, the world usually denotes a particular form, that of the reported vision and (sometimes) its interpretation. Claims are made for these visions: they are divine revelations, disclosing [...] states of affairs [...] Sometimes these visions concern the progress of history (1992, t. 281).

Eglura Ferguson, "Apocalypse" is a form of literature in which a revelation from a heavenly realm is imparted to a human being' (1997, t. 229). Cyfeiria Galatiaid 1:12²⁶ a 2:2²⁷ a 2 Corinthiaid 12:7²⁸ at ddatguddiad yn hytrach na chanfyddiad dynol; cyfeiria Rhufeiniaid 8:19²⁹ at amlygiad gweledol o blant Duw yn y dyddiau olaf; cyfeiria Rhufeiniaid 2:5³⁰ at ddatguddiad terfynol a chyfiawn Duw a'i farn olaf. Mae Paul hefyd yn ei ddefnyddio yn 1 Corinthiaid 1:7³¹ a 2 Thesaloniaid 1:7³² gan gyfeirio at ddatguddiad llawn a therfynol Iesu Grist adeg ei Ailddyfodiad. Nid rhywbeth preifat yn unig yw'r efengyl a pherson Iesu Grist; mae i'w berson a'i waith ehangder sy'n mynnu fod ganddo bwrpasau i'r

²⁶ Canys nid gan ddyn y derbyniais i hi, nac y'm dysgwyl; eithr trwy ddatguddiad Iesu Grist.

²⁷ Ac mi a euthum i fyny yn ôl datguddiad, ac a fynegais iddynt yr efengyl yr hon yr wyf yn ei phregethu ymhlith y Cenhedloedd; ond o'r neilltu i'r rhai cyfrifol, rhag mewn un modd fy mod yn rhedeg yn ofer, neu ddarfod i mi redeg.

²⁸ Ac fel na'm tra-dyrchafer gan odidowgrwydd y datguddiedigaethau, rhoddwyd i mi swmbwl yn y cnawd, cennad Satan, i'm cernodio, fel na'm tra-dyrchefid.

²⁹ Canys awyddfryd y creadur sydd yn disgwyl am ddatguddiad meibion Duw.

³⁰ Eithr yn ôl dy galedrwydd, a'th galon ddiedifeiriol, wyt yn trysori i ti dy hun ddigofaint erbyn dydd y digofaint, a datguddiad cyfiawn farn Duw

³¹ Fel nad ydych yn ôl mewn un dawn, yn disgwyl am ddatguddiad ein Harglwydd Iesu Grist

³² Ac i chwithau, y rhai a gystuddir, esmwythdra gyda ni, yn ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef, gyda'i angylion nerthol

greadigaeth gyfan a fydd un dydd yn tystio i ogoniant Duw a Iesu Grist. Mae apocalyptiaeth yr Ailddyfodiad yn rhoi 'scope to vindication of the poor and oppressed. Above all, it stressed resurrection and new creation' (Thiselton, 2012, t. 94).

Yr Efengylau

Pregethodd Iesu Grist ei hun am y Farn Olaf a fyddai'n digwydd adeg ei Ailddyfodiad. 'There can be no doubt that the central teaching of Jesus looks to a decisive moment of vindication and sovereign intervention of God in the future' (Thiselton, 2012, t. 100). Mae ei ddamhegion, yn enwedig Dameg yr Heuwr (Mathew 13:24-30³³) a Dameg y Rhwyd (Mathew 13:47-48³⁴) a'r damhegion eraill yn Marc 4:21-24³⁵, yn dangos hyn. I Wright, mae Dameg yr Heuwr yn adrodd 'the story of Israel, particularly the return from exile, with a paradoxical conclusion, and it tells the story of Jesus' ministry, as the fulfilment of that larger story, with a paradoxical outcome' (1996, t. 230). Yr had yw'r gwir Israel a bydd Duw yn ei blannu eto yn eu gwlad wedi i'w halltudiaeth ddod i ben o'r diwedd. 'For someone announcing the kingdom to tell a story about the seed

³³ 24 Dameg arall a osododd efe iddynt, gan ddywedyd, Teyrnas nefoedd sydd gyffelyb i ddyn a heuodd had da yn ei faes: 25 A thra oedd y dynion yn cysgu, daeth ei elyn ef, ac a heuodd efrau ymhlith y gwenith, ac a aeth ymaith. 26 Ac wedi i'r eginyn dyfu, a dwyn ffrwyth, yna yr ymddangosodd yr efrau hefyd. 27 A gweision gŵr y tŷ a ddaethant, ac a ddywedasant wrtho, Arglwydd, oni heuaist ti had da yn dy faes? o ba le gan hynny y mae'r efrau ynddo? 28 Yntau a ddywedodd wrthynt, Y gelyn ddyn a wnaeth hyn. A'r gweision a ddywedasant wrtho, A fynni di gan hynny i ni fyned a'u casglu hwynt? 29 Ac efe a ddywedodd, Na fynnaf; rhag i chwi, wrth gasglu'r efrau, ddiwreiddio'r gwenith gyda hwynt. 30 Gadewch i'r ddau gyd-dyfu hyd y cynhaeaf: ac yn amser y cynhaeaf y dywedaf wrth y medelwyr, Cesglwch yn gyntaf yr efrau, a rhwymwch hwynt yn ysgubau i'w llwyr losgi; ond cesglwch y gwenith i'm hysgubor.

³⁴ 47 Drachefn, cyffelyb yw teyrnas nefoedd i rwyd a fwriwyd yn y môr, ac a gasglodd o bob rhyw beth: 48 Yr hon, wedi ei llenwi, a ddygasant i'r lan, ac a eisteddasant, ac a gasglasant y rhai da mewn llestri, ac a fwriasant allan y rhai drwg.

³⁵ 21 Ac efe a ddywedodd wrthynt, A ddaw kannwyll i'w dod dan lestr, neu dan wely? ac nid i'w gosod ar ganhwylbren? 22 Canys nid oes dim cuddiedig, a'r nis amlygir; ac ni bu ddim dirgel, ond fel y delai i eglurdeb. 23 Od oes gan neb glustiau i wrando, gwrandawed. 24 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Edrychwch beth a wrandawoch. A pha fesur y mesuroch, y mesurir i chwithau; a chwanegir i chwi, y rhai a wrandewch.

being sown, then, would be to say: the remnant is now returning. The exile is over. Your god is at last sowing the good seed, creating his true Israel' (Wright, 1996, tt. 232-233). Dyma'r darlun a gawn yn Eseia 55:10-13³⁶. Mae'r cyfnod yma y proffwydodd y proffwyd Eseia amdano yn awr yn dod yn realiti yn Iesu Grist.

Am y damhegion hyn, dywed Thiselton, 'the whole logic depends on a time of hiddenness and ambiguity in the present as contrasted with a decisive "reversal" and openness in the future' (2012, t. 100). Dyma gyfnodau yn y dyfodol pan fydd Teyrnas Dduw yn dwyn rhyddid a heddwch. Esbonia N. T. Wright,

the most immediate literary background to the parables is that of apocalyptic. The parables are not just 'about' the return of Israel's god into her history, to judge, redeem and restore her; they are also agents of that all-important event (1996, t. 181).

Ond i Wright, nid 'expecting the end of the space-time universe' a wna Iesu ac Iddewon eraill ei gyfnod pan sonia am ei Ailddyfodiad a'r Farn Olaf, ond yn hytrach cyfeirir at ddigwyddiad cosmig enfawr:

Did second-Temple Jews, including Jesus, expect a great event, within a generation or so, through and after which, quite literally, the world, especially Israel's world, would be radically different place? Did they, moreover, expect such an event as the climax of Israel's long chequered career, her covenant story? [...] I shall argue that they did (ibid, tt. 207-208).

Mae gweinidogaeth Iesu Grist – y groes a'i atgyfodiad – yn golygu buddugoliaeth dros bwerau'r Fall, ond ni ddaw'r fuddugoliaeth honno i'w llawnder hyd nes yr Ailddyfodiad a'r Farn Olaf.

³⁶ 10 Canys fel y disgyn y glaw a'r eira o'r nefoedd, ac ni ddychwel yno, eithr dyfrha y ddaear, ac a wna iddi darddu a thyfu, fel y rhoddo had i'r heuwr, a bara i'r bwytauwr: 11 Felly y bydd fy ngair, yr hwn a ddaw o'm genau: ni ddychwel ataf yn wag; eithr efe a wna yr hyn a fynnywyf, ac a lwydda yn y peth yr anfonais ef o'i blegid. 12 Canys mewn llawenydd yr ewch allan, ac mewn hedd y'ch arweinir; y mynyddoedd a'r bryniau a floeddiant ganu o'ch blaen, a holl goed y maes a gurant ddwylo. 13 Yn lle drain y cyfyd ffynidwydd, yn lle mieri y cyfyd myrtwydd: a hyn fydd i'r Arglwydd yn enw, ac yn arwydd tragwyddol yr hwn ni thorrir ymaith.

Daw'r cyfeiriadau amlycaf gan Iesu Grist at ei Ailddyfodiad yn Marc 13, Mathew 24 a Luc 21. Ond mae Thiselton yn ein rhybuddio nad cyfeirio at y *parousia* nac Ailddyfodiad Iesu Grist a wneir ym mhob rhan o'r penodau hyn. Cyd-destun y penodau hyn yw rhyfeddod y disgyblion tuag at fawredd adeiladau'r deml yn Jerwsalem. Ateb Iesu i'w rhyfeddod yw: 'A weli di'r adeiladau mawrion hyn? ni edir maen ar faen, a'r nis datodir' (Marc 13:2). Proffwydoliaeth sydd yma am ddinistr Jerwsalem yn OC 70, ond yn gysylltiedig â diwedd y byd Iddewig (sef dinistr y deml) y mae diwedd y byd llythrennol. Yr hyn a gawn yn Marc 13 yw cydblethiad rhwng dinistr hanesyddol Jerwsalem ac Ailddyfodiad Iesu Grist. Mae delweddau apocalyptaidd Marc 13:24-27 yn cyfeirio at yr Ailddyfodiad tra bod geiriau Iesu Grist yn Marc 13:28-32³⁷ yn cyfeirio at ddinistr hanesyddol Jerwsalem.

Hebreaid ac ysgrifeniadau loan

Y llythyr at yr Hebreaid sy'n cynnwys yr unig gyfeiriad at yr 'ail' ddyfodiad, a byrdwn yr awdur yw gwaith terfynol Iesu Grist: 'Felly Crist hefyd, wedi ei offrymu unwaith i ddwyn ymaith bechodau llawer, a ymddengys yr ail waith, heb bechod, i'r rhai sydd yn ei ddisgwyl, er iachawdwriaeth' (9:28). Mae'r awdur yn annog Cristnogion i gyfarfod i annog ei gilydd, 'a hynny yn fwy, o gymaint â'ch bod yn gweled y dydd yn nesáu' (10:25). Un o bwysleisiau awdur y llythyr at yr Hebreaid yw cyflawnder gwaith Iesu Grist. Ef yw'r Archoffeiriad a'r Aberth

³⁷ 24 Ond yn y dyddiau hynny, wedi'r gorthrymder hwnnw, y tywylla'r haul, a'r lloer ni rydd ei goleuni, 25 A sêr y nef a syrthiant, a'r nerthoedd sydd yn y nefoedd a siglir. 26 Ac yna y gwelant Fab y dyn yn dyfod yn y cymylau, gyda gallu mawr a gogoniant. 27 Ac yna yr enfyn efe ei angylion, ac y cynnull ei etholedigion oddi wrth y pedwar gwynt, o eithaf y ddaear hyd eithaf y nef. 28 Ond dysgwch ddameg oddi wrth y ffigysbren: Pan fo ei gangen eisoes yn dyner, a'r dail yn torri allan, chwi a wyddoch fod yr haf yn agos: 29 Ac felly chwithau, pan weloch y pethau hyn wedi dyfod, gwybyddwch ei fod yn agos, wrth y drysau. 30 Yn wir yr wyf yn dywedyd i chwi, nad â'r oes hon heibio, hyd oni wneler y pethau hyn oll. 31 Nef a daear a ânt heibio: ond y geiriau mau fi nid ânt heibio ddim. 32 Eithr am y dydd hwnnw a'r awr ni wŷr neb, na'r angylion sydd yn y nef, na'r Mab, ond y Tad.

cyflawn (4:14-16); ef fydd yn dod ag iachawdwriaeth i'w chyflawnder (1:1-4:13); mae'n fwy na'r proffwydi a'r angylion (1:1-14; 2:5-18) ac yn fwy na Moses (3:1-19); ac yn ennill i ni'r orffwysfa na lwyddodd Joshua ei rhoi i'r Israeliaid (4:1-11). Yn y cyd-destun hwn mae awdur Hebreaid yn nodi addewidion Duw sy'n cael eu cyflawni yn Iesu Grist ond sydd yn aros i gael eu cyflawni'n llwyr adeg ei Ailddyfodiad. Yn yr Hen Destament, bu farw pobl Duw mewn ffydd, ond 'heb dderbyn yr addewidion, eithr o bell eu gweled hwynt, a chredu, a chyfarch, a chyfaddef mai dieithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear' yn ceisio gwlad (Hebreaid 11:13-14). Mae Cristnogion yn mwynhau cyflawniad yr addewidion yng Nghrist, ond mae'n rhaid iddynt ddyfalbarhau yn eu hymdrechu yn y byd hwn: 'rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni' (Hebreaid 12:1). Mae'r presennol i'r Cristion yn amser y mae ar brawf (Hebreaid 12:4-11), ond fe fydd yn buddugoliaethus ar y diwedd. Felly, pererindod yw bywyd y credadun i awdur y llythyr at yr Hebreaid, ac iddo ef, mae Jerwsalem y presennol yn ail i'r Jerwsalem nefolaidd sy'n aros am y credinwyr: 'Canys nid oes i ni yma ddinas barhaus, eithr un i ddyfod yr ym ni yn ei disgwyl' (13:14). Uchafbwynt buddugoliaeth y Cristion yng Nghrist, a phenllanw ei bererindod, yw'r deml newydd nefolaidd eschatolegol a'r Jerwsalem Newydd.

Daw hyn â ni yn dwt at lyfr Datguddiad Ioan, sy'n darlunio'r Jerwsalem Newydd (Datguddiad 21:1-2³⁸). Er mai perthyn i'r dyfodol a diwedd y byd y mae'r *parousia* i awdur Datguddiad Ioan, mae awdur Efengyl Ioan yn cysylltu'r digwyddiad â'r presennol a'r dyfodol. Dywed, 'Ond dyfod y mae'r awr, ac yn awr y mae hi' (4:23³⁹), ac eto 'Y mae'r awr yn dyfod, ac yn awr y mae, pan glywo'r

³⁸ Ac mi a welais nef newydd, a daear newydd: canys y nef gyntaf a'r ddaear gyntaf a aeth heibio; a'r môr nid oedd mwyach. 2 A myfi Ioan a welais y ddinas sanctaidd, Jerwsalem newydd, yn dyfod oddi wrth Dduw i waered o'r nef, wedi ei pharatoi fel priodasferch wedi ei thrwsio i'w gŵr.

meirw Ief Mab Duw' (5:25). Yn 5:28-29 dywed: 'Na ryfeddwch am hyn: canys y mae'r awr yn dyfod, yn yr hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef: A hwy a ddeuant allan: y rhai a wnaethant dda, i atgyfodiad bywyd; ond y rhai a wnaethant ddrwg, i atgyfodiad barn.' Nid yw'n gywir dweud mai eschatoleg gyflawnedig yw un loan gyda phwyslais ar y presennol. Mae'r adnodau uchod yn dangos fod cydbwysedd ganddo rhwng y presennol a'r dyfodol. Yn wir, mae adnodau fel 6:39-40 yn rhoi pwyslais mai yn y dyfodol y dylid disgwyl digwyddiadau eschatolegol: 'A hyn yw ewyllys y Tad a'm hanfonodd i; o'r cwbl a roddes efe i mi, na chollwn ddim ohono, eithr bod i mi ei atgyfodi ef yn y dydd diwethaf. A hyn yw ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i; cael o bob un a'r sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragwyddol: a myfi a'i hatgyfodaf ef yn y dydd diwethaf.'

Er nad yw awdur Efengyl loan yn rhoi llawer o sylw i'r *parousia*, mae'r gwrthwyneb yn wir am awdur Datguddiad loan. Yn y llyfr hwnnw tyn yr awdur ar iaith yr Hen Destament ac apocalyptiaeth Iddewig, yn enwedig Eseciel, Daniel, Salmau, Eseia a Seffaneaia, sy'n edrych ymlaen tuag at uchafbwynt a diwedd hanes y byd. Mae Datguddiad yn cynnwys gweledigaethau o atgyfodiad y meirw a barn (14:14-15:4; 16:1-21; 17:1-19:8); addoliad nefolaidd (4:1-5:14); pedwar anifail goruwchnaturiol (4:6; 5:8; 6:1); cân newydd (5:9); pedwar march apocalyptiaidd: march gwyn sy'n gorchfygu (6:2), march du sy'n dwyn newyn a chwymp economaidd (6:5), march coch sy'n dwyn trais (6:4) a march gwelwlas marwolaeth ac uffern (6:8). Mae'r llyfr wedyn yn adrodd agor saith sêl a daeargrynfeydd gyda newidiadau cosmig yn yr awyr (6:12-17), cynn a gwae (8:13; 9:1-19), a gweinidogaeth angylion yn ystod y dyddiau diwethaf (10:1-11). Wedi'r 'cosmic revolution' hwn, chwedl Thiselton (2012, t. 106), pwysleisia

awdur Datguddiad sofraniaeth Duw a'i fuddugoliaeth derfynol dros ddrygioni, gan gynnwys y Ddraig (12:3-13:18), a selio'r rheini sy'n perthyn i Dduw. Pwrpas hyn yw nerthu'r Cristnogion oedd yn byw dan erledigaeth erchyll: 'Yma y mae amynedd y saint' (14:12). Mae rhai yn dadlau y dylid ond darllen Datguddiad fel neges i'r Cristnogion oedd yn fyw yn ystod adeg ysgrifennu'r llyfr, 'and see virtually all of it in terms of resistance to the claims of Rome and the Imperial Cult and perhaps to any who oppressed the first-century Church, claiming a rival loyalty to that of Christ' (Thiselton, 2012, t. 107). Mae eraill yn honni'r gwrthwyneb eithaf,

and see the book as a coded panorama of the history of the Church and the world with its struggles and difficulties, identifying the Antichrist with either the Pope, Mohammed, or any force of evil that opposes the "true" Church' (ibid.).

I'r categori hwn y syrthia llawer Piwritan. Grym neu bŵer gorthrymus yw: 'Syrthiodd, syrthiodd Babilon fawr [...] ac aeth yn drigfa cythreuliaid, ac yn gadwraeth pob ysbryd aflan, ac yn gadwraeth pob aderyn aflan ac atgas' (18:2-3).

Pan floeddia'r addolwyr, 'Aleliwia; lachawdwriaeth, a gogoniant, ac anrhydedd, a gallu, i'r Arglwydd ein Duw ni: Oblegid cywir a chyfiawn yw ei farnau ef' (19:1-2), mae preswylwyr y nef yn dathlu buddugoliaeth derfynol Duw yng Nghrist. Uchafbwynt y fuddugoliaeth yw 20:1-22:5. Terfyna'r llyfr gyda sicrwydd yn Ailddyfodiad Iesu Grist: 'Ac wele, yr wyf yn dyfod ar frys; a'm gwobr sydd gyda mi' (22:12). Y wobwr yw'r ffaith y bydd dyfodiad Iesu Grist a'i bresenoldeb yn golygu adnewyddiad popeth. Caiff y gorthrymedig a'r dioddefus ryddid a bydd sofraniaeth Duw yn amlwg ac yn absoliwt.

Mae Ailddyfodiad Iesu Grist yr un mor bwysig i gynllun Duw ar gyfer y byd â'i ddyfodiad cyntaf, ei groeshoeliad a'i atgyfodiad. Serch hyn, 'Christian

theology in the modern period, whether in Christology or in eschatology, has rarely done justice to this focal importance of Jesus himself, the divine and human person, in the completion of world history' (Buckham, 2007, t. 318). Noda Buckham mai'r Ailddyfodiad fydd yn dod â hanes i ben pan gyflawnir pwrpasau Duw yn derfynol a datguddir popeth yn derfynol (Buckham, 2007, t. 318). I Iesu ar orsedd Duw y plyg pob glin a gerbron sedd barn Iesu y bydd pawb yn wynebu'r Farn Olaf.

CH. Milflwyddiant

Yn syml, 'Millennialism is the belief that there will be a period of peace and righteousness on the earth associated with the Second Coming of Christ' (Weber, 2008, t. 343). I Sauter, mae'r gred mewn milflwyddiant yn deillio o'r angen i obeithio mewn rhywbeth gwell na realiti'r presennol:

Hope has emerged in contrast to the present state of affairs in church and state, or in the endeavor to reform spirituality and morality, or in the longing for divine, healing powers in order to overcome the miseries of sickness, hunger, exploitation, war, injustice, and discord. Often, this longed-for time was conceived as an end time before the end: the "millennium" was expected to liberate from destructive powers and to open up to a period of piety, peace, and victory over godlessness. Called "chiliasm" (chilia = thousand) (2008, tt. 229-230).

Ond eglura Weber fod y gred mewn milflwyddiant yn seiliedig ar 'complex readings of numerous biblical texts, the most explicit of which is Revelation 20:1-10' (ibid.). Er hyn, dywed Thiselton y gellir dadlau fod y Testament Newydd yn gwadu bodolaeth y Milflwyddiant. Mae yna ddau draddodiad o fewn y Testament Newydd yn ôl Thiselton: 'At first sight Rev. 20:1-10 seems to affirm it, while the Synoptic Gospels, John, Paul, and Hebrews seem either to ignore it or to reject it' (2012, t. 79).

Dywed Weber fodd bynnag fod darnau o'r Hen Destament yn gallu arwain pobl i gredu yn y Milflwyddiant:

Millennialists cite Old Testament (OT) passages that describe a 'peaceable kingdom' in which all God's covenantal promises are fulfilled, human society is transformed, and a new covenant is written on human hearts (e.g., Isaiah 2 and 11, Jeremiah 31-33, Ezekiel 36-37, Micah 4, etc.) [...] Millennialists also rely heavily on apocalyptic (Greek *apokalypsis* = uncovering or unveiling) texts like Ezekiel, Daniel 7-12, Zechariah 1-6, Matthew 24, Mark 13, Luke 21, and Revelation. These passages share both style and substance with the Jewish apocalyptic literature that flourished between 200 BC and AD 100 (e.g., Enoch, 4 Ezra, Assumption of Moses, Apocalypse of Baruch, etc.). In apocalyptic literature, the world is completely under Satan's control, and the righteous remnant, which appears to be doomed to destruction, is rescued by a dramatic, supernatural intervention in which God settles old scores and then makes all things new (2008, t. 343).

Mae'n wir i ddweud mai Datguddiad 20:1-10 yw'r adran amlycaf sy'n awgrymu bodolaeth y Milflwyddiant. Mae hyn yn achosi anhawster gan fod Datguddiad yn cynnwys llenyddiaeth broffwydol ac apocalyptaidd. Dros amser, datblygwyd pedair ffordd o ddehongli Llyfr y Datguddiad.

1. Blaenoryddiaeth (*Preterism*)

Yn ôl y dehongliad hwn, sôn yn unig am gyd-destun hanesyddol uniongyrchol a wna Datguddiad. Disgrifia Datguddiad gyflwr Cristnogion diwedd y ganrif gyntaf a phwyntia symbolaeth apocalyptaidd y llyfr at Rufain. Mae cyflwr presennol y Cristnogion yn drychinebus ond rhaid iddynt ddyfalbarhau yng ngoleuni buddugoliaeth derfynol Duw. Eglura Weber, 'most modern interpreters prefer this approach and insist that the book was never intended to predict conditions or events beyond the first century' (2008, t. 343).

2. Hanesyddoliaeth

Mae'r dehongliad hwn yn egluro Datguddiad fel trosolwg broffwydol o hanes yr Eglwys. Mae dehonglwyr hanesyddolaidd yn gosod eu hunain ar y llinyn amser proffwydol fel y gallent benderfynu pa broffwydoliaethau sydd eisoes wedi cael eu cyflawni a pha rai sydd eto i ddod (ibid.).

3. Dyfodolaeth

Mae'r dehongliad hwn yn dadlau fod Datguddiad yn edrych tuag at y dyfodol, ac at y cyfnod cyn diwedd y byd yn benodol. Golyga hyn nad oedd Datguddiad wedi'i ysgrifennu at ddiben Cristnogion blynyddoedd olaf y ganrif gyntaf, ond yn hytrach i Gristnogion mewn cyfnod llawer hwyrach (ibid.).

4. Delfrydiaeth

This approach lays aside all chronological or predictive concerns in order to treat the book as an artful exposition of the ongoing battle between good and evil. Revelation is a drama that touches deeply the longings and fears of the human heart (ibid.).

Dyna felly, yn fras iawn, wahanol ffyrdd y mae pobl wedi dehongli Datguddiad. O drafod Datguddiad 20:1-10 yn fanylach, 'Modern scholars identify two kinds of millennialism, depending on where adherents place the millennium in relation to the Second Coming: premillennialism [cynfilflwyddiaeth] and postmillennialism [ôlfilflwyddiaeth]' (ibid., t. 345). Mae cynfilflwyddiaeth yn arddel y gred fod yr Ailddyfodiad i'w ddisgwyl cyn dechrau'r Milflwyddiant. Ar ddiwedd y cyfnod presennol fe welir 'arwyddion yr amserau' – rhyfeloedd, newyn a thrychinebau naturiol, cwmp mewn moesau, gwrthgiliad crefyddol, pregethiad yr efengyl ar draws y byd, cyfodiad yr Anghrist a'r Gorthrymder Mawr. Bydd Ailddyfodiad Iesu yn ddramatig ac yn sydyn:

he will break out of the clouds with his warrior saints to defeat his enemies at the Battle of Armageddon, then establish his own kingdom, which will endure for a thousand years. Most modern premillennialists expect the Jews to regather in the holy land and convert to Christ. The millennium itself will be a golden age of peace, righteousness, and justice. Premillennialists equate the millennium and the messianic kingdom predicted by the Jewish prophets (ibid.).

Mae ôlffilflwyddiaeth yn arddel y gred fod y Milflwyddiant yn rhagflaenu'r Ailddyfodiad. 'A long period of gradual and incremental "gospel success" in which the vast majority of humanity is converted to Christ and human society is radically reformed' yw'r Milflwyddiant, chwedl Weber (ibid., tt. 345-6). Eglura Weber,

This transformation will occur through the Holy Spirit using the 'ordinary means of grace.' Thus, this perspective is inherently optimistic about the course of history and the power of preaching, teaching, evangelism, and social reform to bring about permanent change. Adherents expect evil to be drastically reduced during the millennium, but not completely eliminated (ibid.).

Mae ôlffilflwyddwyr yn dyfynnu Eiseia 2 a Mica 4 er mwyn cyfiawnhau eu cred, a gwelant fod damhegion yr hedyn mwstard a'r lefain yn Mathew 13 yn esbonio datblygiad a chynnydd Teyrnas Dduw. O ran Datguddiad 20,

they argue that a 'thousand' is a figurative number that stands for the golden age that will be established by the power of the gospel over time. The binding of Satan occurred first in Jesus' ministry and will continue until the gospel transforms the present age. The 'first resurrection' refers to spiritual regeneration. There will be a brief Satanic rebellion immediately before the Parousia, after which Jesus will raise those not included in the first resurrection so that they can experience final judgment and 'the second death' (Revelation 20:6-15). This view has been especially popular among Reformed Christians (ibid., t. 346).

Yn ogystal â chynffilflwyddiaeth ac ôlffilflwyddiaeth ceir hefyd aifflwyddiaeth.

Eglura Weber:

Since the fifth or sixth century, most Christians have preferred this view over the two millennialist perspectives. Amillennialism ('no millennialism'-in Greek, putting an alpha [a] before a word negates it) rejects the idea of an earthly millennium at any time. It believes that OT

prophecies about a future golden age were fulfilled in the coming of Christ and the Christian church or point ahead to the new heaven and earth to be created after the last judgment. Jesus declared the kingdom was present in his ministry, which was affirmed at his ascension and 'coronation' in heaven (Acts 2:36; Ephesians 1:20-23) [...] Amillennialists claim that, apart from Revelation 20, no other text describes a time gap between the resurrection of the dead and the last judgment or separates in time the resurrection of the just and the unjust (ibid.).

Mae'n bwysig nodi nad oedd y Piwritaniaid yn meddwl yn nhermau aifilflwyddol, cynfilflwyddol a/neu ôlfilflwyddol. Mae'n rhaid cytuno â Crawford Gribben pan ddywed am eschatoleg Biwritanaidd, 'it is still a subject fogged by obscurity' (2008, t. 237). Ni allwn ddweud, 'Roedd X yn gynfilflwyddwr, ac roedd Y yn ôlfilflwyddwr.' Nid oedd y termau yn bodoli ac felly nid oeddynt yn meddwl yn y termau hynny. Yn ail, er y gellid honni fod X yn credu'r hyn a elwir yn gynfilflwyddiaeth mewn un gyfrol, gallai arddel yr hyn a alwn yn ôlfilflwyddiaeth mewn cyfrol arall. Rhybuddia Gribben i ni beidio ag

underestimate the extent to which puritan readings of Revelation could defy and transcend the contemporary concepts of pre-, post- or amillennialism. These three positions, largely constructed by more recent eschatological enquiry cannot be used as uncomplicated heuristic tools to explicate puritan texts (2008, t. 239).

Â ymlaen ymhellach i ddweud, 'A-, pre- and postmillennial paradigms, however useful they may be for current debate, should be used with care when explaining puritan apocalyptic thought. Puritan eschatology is much less precise, much more ambiguous, than contemporary terminology allows' (2008, t. 239). Er hyn, dywed Weber, 'they are useful in understanding how millennialists in every age view the present and the future' (2008, t. 345).

Profodd Cristnogion y tair canrif gyntaf gyfnodau ysbeidiol, ond dwys, o erledigaeth. Hawdd felly gweld sut y bu iddynt ddehongli eu hamserau mewn termau apocalyptaid. Eglura Daley stad feddyliol y Cristnogion cynnar fel 'sense of constantly living in history's final age, of facing, amid persecutions and

natural disasters, the end of society and the more immediate end of individual human life (2008, t. 69).

Y gwaith apocalyptaidd cynharaf yn hanes yr Eglwys Gristnogol, heblaw am lyfrau'r Testament Newydd, yw Datguddiad Pedr o hanner gyntaf yr ail ganrif. Eglura Daley:

The work depicts an extended version of the transfiguration scene from the Gospels, in which the disciples ask Jesus to reveal to them “the signs of the Parousia” (1). Jesus replies by describing the gathering of all people who have lived before God; all will rise in their bodies and will appear before Christ the judge, who will come surrounded by angels on a shining cloud (6). As the world is shrouded in darkness and overwhelmed by rivers of fire, the deeds of everyone will be examined, and sinners will be cast into “the pit” to endure punishments appropriate to their crimes (7–12) (ibid, t. 70).

Gwaith cynnar arall yw Epistol yr Apostolion o ganol yr ail ganrif. Yn ôl traddodiad, llythyr ydyw gan yr holl Apostolion yn adrodd yr hyn ddywedodd Iesu wrthynt union noson ei atgyfodiad. Eglura Daley,

Here Jesus promises that all the dead will be raised from their “scattered” state, that they may be judged as whole persons (24, 26). Although he emphasizes the importance that will be given in that judgment to right faith, still those who believe but do not keep the commandments will be condemned along with unbelievers (27–28) (ibid).

Rhybuddia Justin, a oedd yn ysgrifennu rhwng 155 a 165 mai Duw cyfiawn sy'n rheoli hanes, nid ffawd, 'and is about to judge all people in consuming fire, when Christ comes in power (I Apol. 20, 51–52; II Apol. 7) (Daley, 2008, t. 71). Roedd Irenaeus (c. 140-c. 202) yn arddel cred yn nheyrnasiad lythrennol a chorfforol Iesu Grist dros gyfnod y Milflwyddiant ar y ddaear. Ef oedd 'Undoubtedly the most important early defender of both Christian resurrection hope and millenarian expectation' (ibid, t. 73). Roedd Irenaeus yn cefnogi gweledigaeth yr Hen Destament o gyfnod o heddwch, ffyniant ac adnewyddiad materol. 'He insists that these may not be allegorized

away' (Daley, 1991, t. 31). Atgyfodir y Saint yn gyntaf ar ddechrau'r Milflwyddiant er mwyn eu paratoi i rannu yn natur ddwyfol y nefoedd. Ar ddiwedd y Milflwyddiant ceir atgyfodiad arall lle y caiff yr holl feirw eu hatgyfodi ar gyfer y Farn Olaf pan deflir yr anghyfiawn i uffern a chrëir nefoedd a daear newydd i'r cyfiawn (Daley, 1991, t. 31).

Rhwng OC 200 a 250, eglura Daley i 'popular expectation of an immediate end of the world seems to have reached fever pitch in many areas of the Western Roman Empire,' a hynny yn ystod adegau o erlid (ibid.). Mae Tertwlianos (c. 160-c. 220) yn dangos y newid hwn. Gwelwn ef yn trafod credoau'r dyn cyffredin am fywyd ar ôl marwolaeth, 'and used popular expectations of future reward and punishment as an instrument for reinforcing their own social and moral message' (ibid, t. 34). I Tertwlianos, 'the coming end of history is above all to be a time of reckoning: the settling of accounts between God and those who have come to deserve reward or punishment.' Mae'n gweld diwedd y byd fel rhywbeth treisgar a buan. Mae o'r farn fod yr Anghrist yn agos. Ceir atgyfodiad corfforol cyffredinol adeg y Farn. Mae hefyd yn arddel y gred mewn milflwyddiant daearol, gan honni fod llygad-dystion yn gweld dinas yn hofran yn yr awyr uwchben Jwdea. Pwrpas y Milflwyddiant i Tertwlianos yw gwobrwyo'r Saint a rhoi iddynt yr hyn na roddwyd iddynt yn ystod eu bywydau. Bydd y cyfiawn yn atgyfodi o bryd i'w gilydd yn ystod y Milflwyddiant ac ar ddiwedd y Milflwyddiant ceir diwedd y byd. Fodd bynnag, mae hefyd yn cwestiynu materoliaeth addewidion yr Hen Destament gan awgrymu y dylid eu darllen yn alegoriaidd. Dadleua hefyd y bydd y Deyrnas Nefoedd derfynol yn wahanol i'r deyrnas filflwyddol ddaearol (ibid, tt. 33-35).

Mae Hippolytus (170-235) yn *De Christo et Antichristo* yn gweld diwedd y byd yn dod i fod drwy waith gormeswr a fydd yn dynwared Crist er mwyn ceisio

cipio cenedloedd y byd. Ei rym gwleidyddol fydd Ymerodraeth Rhufain. Bydd yr Anghrist yma yn perswadio llawer i'w ddilyn ac felly fe fydd yr Eglwys yn goddef erledigaeth erchyll. Pan fydd yr erledigaeth ar ei hanterth fe ddaw Crist yn ôl mewn gogoniant a dwyn ei Saint i baradwys a barnu'r anghyfiawn. Yna fe fydd yr holl meirw yn atgyfodi, y cyfiawn i'r nefoedd a'r anghyfiawn i uffern (ibid, tt. 38-39). Yn ei esboniad ar lyfr Daniel, dywed Hippolytus y daw teyrnasiad yr Anghrist a diwedd y byd chwe mil o flynyddoedd wedi'r creu, sef pum cant o flynyddoedd wedi genedigaeth Iesu; wedi hyn, caiff y Saint fwynhau eu Saboth, sef teyrnasiad y Saint, pan ddaw Iesu Grist yn ôl i deyrnasu (ibid., t. 41).

Roedd Awstin (354-430), fel llawer o'i gyfoeswyr, yn gweld hanes wedi'i rhannu yn chwe oes a fyddai'n cael eu dilyn gan gyfnod euraidd terfynol o heddwch ac adnewyddiad cosmig (ibid, t. 133). Yn ei waith cynnar, mae Awstin yn cymharu'r chwe oes yma â chwe chyfnod yn oes person: babandod, plentyndod, ieuencid, oedolyn ifanc, oedolyn aeddfed a henaint (*De Genesi contra Manichaeos* l. 35-41 [388/89]; *De Diversis Quaestionibus* 58.2 [391-95]). Yn yr un modd mae'n cymharu'r chwe oes â hanes y creu, 'to be followed by a rest that will have no end' (Daley, 1991, t. 133). Er hyn, mae Awstin yn wylidwrus i beidio â phwysleisio darlleniad llythrennol o'r Milflwyddiant. Nid yw'n dadlau dros gyfnod o fil o flynyddoedd llythrennol ac nid yw'n manylu ar 'its earthly delights' (ibid.). Iddo ef, y Milflwyddiant yw'r 'future rest of the saints on earth, when the church will be purged of all the wicked elements now mixed among its members and Christ will rule peacefully in its midst' (Serm 259.2). I'r Awstin ifanc, 'the millennium [...] is still not eternity but a part of history [...] the seventh and last period of this age (Ctr Admin 2.2)' (Daley, 1991, t. 133). Gwaith enwocaf Awstin yw *De Civitate Dei*, ac eglura Daley i Awstin ddadlau ynddo fod 'the "thousand years" of the earthly Kingdom stand in a symbolic way for "all the

years of the Christian era". Augustine readily identifies this kingdom with the present church: "his saints reign now with [Christ], although certainly in a different way from how they shall reign hereafter" (ibid., t. 134). Eglura Daley i Awstin gredu fod yr Eglwys yn ymladd yn erbyn grymoedd dieflig o'r tu allan ac o'r tu mewn, fod Satan wedi'i rwympo ond eto i gyd yn dylanwadu ar y ddaear, fod yr atgyfodiad cyntaf 'which stands at the start of this temporal kingdom of Christ, is for each member of that Kingdom his or her resurrection from sin in baptism' (ibid.). Daw Weber i'r casgliad hwn am Awstin:

Bishop Augustine of Hippo (354-430) marks the turning point in Christian millennial thought, and most Christians since have appreciated his approach to prophetic and apocalyptic texts. A mild millennialist in his early days, Augustine eventually rejected both apocalyptic millennialism and Eusebius's view of church and empire, which was untenable after the sack of Rome by Alaric in 410. Instead of arguing that the Parousia ushers in a new kingdom, Augustine believed that the city of God and the city of man coexist through time but remain completely separate (2008, t. 348).

Daw Ferguson i'r canlyniad canlynol: 'In the eschatologies of most of the Church Fathers a pattern emerges from New Testament sources. At death, all human beings enter some intermediate state, perhaps sleep or a disembodied existence. This is followed by the return of Christ (Parousia), the resurrection of the dead, their judgments and final destiny in heaven or hell.' (1997, t. 231).

Achosodd y flwyddyn 1000 dwf mewn disgwyliadau milflwyddol:

The times invited prophetic speculation. Many believed that the rise and spread of Islam, the Viking and Magyar invasions, and the Muslim capture of Jerusalem meant that the end was near. In 950, a French monk named Adso wrote Letter on the Origin and Life of Antichrist in which he predicted that the Antichrist will suddenly appear during the reign of the 'last emperor,' the Christian Roman empire's last and best ruler (Weber, 2008, t. 349).

Bwydodd y Croesgadau awch milflwyddol yn ogystal:

Other crusaders shared millennialist motivations. In one version of his 1095 sermon that led to the First Crusade, Pope Urban II stated that an expedition to free Jerusalem would help the faith 'flourish again in these last times, so that when Antichrist begins his reign there – as he shortly must – he will find enough Christians to fight' (ibid.)

Dyn a meddwl gwreiddiol oedd Joachim o Fiore (c. 1132-1202). Ysgrifennodd esboniad ar Ddatguddiad gan gyflwyno dehongliad amgen i un Awstin. Eglura

Weber:

Joachim divided time into three eras, that of the Father, Son, and Spirit. According to his calculations, the age of the Son should end in 1260, but not before a time of horrible conflict between two rival popes, one the evil Antichrist, the other a godly evangelist who will recruit new religious orders to launch a mission to the Jews, Muslims, and pagans. After the mission is concluded, the Antichrist will be killed and the devil bound; then the age of the Spirit will begin [...] Joachim had an expansive vision for the final age and provided details of the transformation of church and society. However, not everyone will experience the age's glory: distant tribes will continue their wicked ways and join the devil's last rebellion before the Parousia and the last judgment. Joachim saw human progress in all three ages, and his view of the perfect society was Christian millennialism's first clearly articulated utopian vision (ibid., tt. 349-350).

O symud i gyfnod y Diwygiad Protestannaidd, er i'r Diwygiad gael ei 'spawned in and nurtured by an atmosphere of intense hopes and fears about impending universal upheaval, disaster, transformation, judgment, and the end of the world' (Barnes, 1996, t. 63), roedd arweinwyr y Diwygiad yn ymbellhau oddi wrth 'radical millenarianism' (Gribben, 2008, t. 243). Enghraifft o filflwyddiaeth radical y cyfnod oedd Gwrthryfel Münster, lle'r heidiodd miloedd o Ailfedyddwyr i sefydlu Nefoedd Newydd ar y ddaear. Yr enghraifft amlycaf o filflwyddiaeth radical y cyfnod, fodd bynnag, oedd y Taboriaid, dilynwyr Jan Huss (c. 1369–1415). Athro ym Mhrifysgol Prâg oedd Huss, a oedd yn fagwrfa i ddiwygio crefyddol, tensiynau ethnig a drwgdybiaeth tuag at bwerau ymerodrol. Roedd Huss yn genedlaetholwr ac yn ddilynwr i John Wycliffe (1320–1384), a

oedd yn condemnio anfoesoldeb y glerigiaeth yn Lloegr ac yn disgrifio'r Pab fel yr Anghrist. Dienyddiwyd Huss yn 1415 am bregethu egwyddorion Wycliffe, a gwrthryfelodd ei ddilynwyr. Galwyd hwy yn Daboriaid am iddynt gyfarfod ar fynydd Tabor i'r de o Prâg ac am bymtheg mlynedd ymladdasant â'r Pab a'r Ymerawdwr dros ddiwygiadau eglwysig a sut y dylid defnyddio pwerau gwleidyddol yn gyfrifol. Eglura Weber,

The Taborites' motivations were complex, but it is clear that they were driven by their prophetic understandings. They were living in the last days, and Jesus wanted them to cleanse the world of sin prior to his arrival. So they killed as many of their enemies as possible. They did most of their killing in battles against papal and royal armies, but sometimes their killing was unorganized and indiscriminate. Their violence was tied to eschatological hope: when Christ returned, they and the resurrected saints would enjoy the blessings of the new kingdom. A few Taborites practiced unconventional sex and held all property in common, but most never went that far. Eventually, they made peace with the emperor and the pope. But the memory of their violence lingered on well into the Reformation period and showed that millennialism and politics could be a lethal combination (2008, t. 350-1).

Ond yn gyffredinol,

under the influence of Augustine, medieval Catholicism had abandoned the chiliasm of the Church Fathers and, in course of time, implicitly challenged the definition of eschatology as a discussion of the 'four last things' by developing an elaborate complex of spiritual destinations alongside the more traditional termini of death, judgment, heaven and hell (Gribben, 2008, t. 3242).

Mae eschatoleg yn mynnu fod proffwydoliaethau Beiblaidd yn dangos fod digwyddiadau mawr yn mynd i ddigwydd ar y ddaear cyn diwedd y byd. Bydd y digwyddiadau hyn yn gamau tuag at yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant. Ond bu llawer o anghytuno ynghylch yr union fanylion. Pryd, os o gwbl, y dylid disgwyl y Milflwyddiant a'r Ailddyfodiad? A oes gan ddynion a gwraedd rôl i'w chwarae er mwyn hwyluso eu dyfodiad?

Mae credoau ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant wedi 'unquestionably stimulated and contributed extensively to some of the most creative and fantastic movements within Christianity' (McGrath, 2001, t. 553). Am gyfnod y Piwritaniaid yn benodol, eglura Thomas Richards i bobl gyffredin, 'welcomed the new gospel [milflwyddiaeth] because it presaged an era of peace and goodwill and an end to the bitter political and religious controversies which threatened to rob the Puritan Revolution of its glory' (1920, t. 183). Mae Richard yn nodi mai 'new gospel' oedd Milflwyddiaeth i'r Piwritaniaid. Awgryma hyn bwysigrwydd Milflwyddiaeth iddynt: roedd yn destun pregethu, yn gymhellant gymdeithasol ac yn newyddion da.

Nawr ein bod wedi ymglyfarwyddo â'r termau diwinyddol, da o beth fydd edrych ar gyd-destun hanesyddol y Piwritaniaid gan fwrw trem ar ddatblygiadau crefyddol o deyrnasiad Elisabeth I hyd at goroni Siarl II, gan weld beth oedd y 'bitter political and religious controversies'.

2. Diffinio Piwritaniaeth

Mae ceisio ateb y cwestiwn 'Beth yw Piwritaniaeth?' neu 'Pwy yw'r Piwritaniaid?' wedi esgor ar drafodaethau bywiog a chryn anghytuno dros y blynyddoedd. Wrth geisio diffinio'r term 'Piwritaniaeth', mae rhai haneswyr, megis John F. W. New wedi ceisio defnyddio 'Anglicaniaeth' fel y pren mesur gan awgrymu mai'r ffordd i ddiffinio 'Piwritaniaeth' yw ei gymharu ag 'Anglicaniaeth'. Cyhoeddodd *Anglican and Puritan: the basis of their opposition, 1558-1640* yn 1964 a phrofodd i fod yn gyfrol ddylanwadol. Mynna ef fod gwahaniaethau sylfaenol wedi bod rhwng Piwritaniaid ac Anglicaniaid ers y dechrau. I New, golyga'r term 'Anglican', 'those generally satisfied with the

Church's doctrine, organization, and ceremonial.' Golyga 'Piwritan' y dynion rheiny 'who, though members of the Establishment, wanted alterations in Church ritual or Church government, or both.' Mae New hefyd yn pwysleisio na ellir galw'r rheiny 'who hoped to dissociate the Church from the State' yn Biwritaniaid (t. 2). Eglura Geraint Gruffydd:

He perceives these differences more particularly in the following areas: the doctrine of man, especially with regard to the extent of his corruption; the doctrine of the church; the doctrine of the Sacraments, whether or not they had any objective efficacy; and the doctrine of the Last Things—all this in addition to the far less passive attitude of the Puritans towards the Christian life in general (1976, t. 4).

Pwysleisia New fod tyndra rhwng y Piwritaniaid a'r Eglwyswyr o ddechrau cyfnod Eglwys Elisabeth. I New, golyga'r tyndra hwn fod delfryd y Piwritan o aros o fewn yr Eglwys Wladol bron yn amhosibl i'w wireddu. Mynna fod y gwahaniaethau rhwng y Piwritaniaid a'r Anglicaniaid yn dangos fod 'the Puritan view belongs also to the Sects' ac felly fod ymwahanu'n anorfod o ddigwydd (t. 2). Ym marn Geraint Gruffydd, roedd dehongliad New yn dadlau fod 'profound, if ill-formulated, doctrinal differences between Puritans and Anglicans from the beginning' (1976, t. 4). Daw Gruffydd i'r casgliad yma oherwydd y gwahaniaethau a welai New rhwng y Piwritaniaid a'r Anglicaniaid: 'Perhaps a simpler way of saying the same thing would be to state that the Puritans on the whole were thorough and consistent disciples of John Calvin's, whereas the Anglicans, even at first, followed him from afar only' (t. 4).

Cyfyd dwy broblem gyda dehongliad New. Y broblem gyntaf, a'r un amlycaf, yw nad oedd Anglicaniaeth yn bodoli fel y cyfryw yn y cyfnod yr ymddangosodd Piwritaniaeth. Yn wir, roedd rhaid aros tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg cyn y gwelwyd y term 'Anglicaniaeth' yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol. Ymhellach, gellid dadlau mai dim ond yng nghyfnod William Laud

(1573–1645) fel Archesgob y daeth Anglicaniaeth i fod, a hynny fel ymateb i dwf Piwritaniaeth. Nid 'Anglicaniaid' oedd esgobion, offeiriadon a lleygwyr Eglwys Loegr pan orseddwyd Elisabeth I; yn hytrach roedd y mwyafrif ohonynt yn Brotestaniaid Diwygiedig a rannai'r argyhoeddiad sylfaenol fod Eglwys Loegr yn wir eglwys Brotestanaidd. A dyma'r ail broblem â dehongliad New. Honna ef fod gwahaniaethau clir rhwng y Piwritaniaid a'r Eglwyswyr o'r cychwyn. I New, roedd y Piwritaniaid yn Galfinwyr Diwygiedig, a'r Anglicaniaid ('those generally satisfied with the Church's doctrine, organization, and ceremonial') fel arall. Ond gwelwn maes o law nad oedd y gwahaniaethau mor glir â hynny.

Gŵr arall oedd yn gweld dau begwn clir - Anglican a Phiwritan - oedd Dr. Martyn Lloyd-Jones. Iddo ef, 'Puritanism is an unproblematic category,' chwedl John Coffey (2008, t. 255). Gwnaeth Lloyd-Jones, yn fwy na neb ym Mhrydain yn ystod yr ugeinfed ganrif, ymgais i boblogeiddio gwaith y Piwritaniaid. Hyrwyddodd ddatblygu llyfrgell yn Llundain a arbenigai yng ngweithiau'r Piwritaniaid ac roedd yn un o sylfaenwyr y Puritan Conference yn 1950. Yn ogystal, bu'n allweddol wrth greu'r Banner of Truth Trust yn 1957, sef ymddiriedolaeth a ddaeth yn brif gyhoeddwr gweithiau'r Piwritaniaid yn Saesneg.

Rhaid canmol ymdrechion Lloyd-Jones i geisio amlygu cyfoeth y Piwritaniaid. Serch hynny, o edrych ar y rhestr o gyhoeddiadau Banner of Truth, canfu John Coffey 'a very deliberate policy of exclusion'. Hynny yw, gwelodd fod i'r gweithiau a gyhoeddwyd 'a staunchly orthodox agenda, eschewing radical Puritanism and omitting the works emanating from the Puritan milieu [...] they displayed little interest in retrieving the riches of Puritan political thought' (2011, t. 300).

Yn ôl Coffey, nid bwriad Lloyd-Jones oedd astudio'r Piwritaniaid yn academaidd: 'he warned ominously against a purely academic interest in the subject' (Coffey, 2011, tt. 302-3). Yn hytrach, ei amcan oedd ceisio darganfod a oedd yna gymariaethau y medrid eu gwneud rhwng Piwritaniaeth y gorffennol a chyflwr cyfredol yr eglwys, a dysgu oddi wrthynt. 'Doctor [Lloyd-Jones] worked on the assumption that there were direct analogies between past and present crises' (ibid., t. 304). Roedd Lloyd-Jones yn gweinigogaethu mewn cyfnod pan oedd y mudiad ecwmenaidd yn tyfu, a gwelai hynny yn fgythiad i'r wir Eglwys, yn ôl ei ddehongliad ef. Mewn anerchiad yn y National Assembly of Evangelicals yn Westminster Central Hall yn Llundain ym mis Hydref 1966, galwodd ar bobl efengylaidd i ymadael â'u henwadau cymysg eu daliadau a'u safbwyntiau a dod at ei gilydd er mwyn ffurfio eglwysi efengylaidd "pur". Gwnaeth hynny am i'w ddehongliad ef o Biwritaniaeth ei arwain i'r casgliad mai angen yr Eglwys oedd i 'inject the present with intense (even epic) significance and suggested that the need of the hour was to stand firm for the old paths rather than find new ways to tackle new problems' (ibid., tt. 304-5). Nid syndod chwaith yw gweld Coffey yn dweud i Lloyd-Jones fethu bod yn 'objective about Anglicanism' (ibid., t. 305).

I Lloyd-Jones, 'Puritanism was the drive for a pure church' (ibid., t. 309). Diffinnir Piwritaniaeth ganddo mewn termau negyddol. Hynny yw, yr hyn a wnaeth person yn Biwritan oedd ei ymwrthodiad â gwendidau honedig ei Eglwys. 'Ymosodasant [y Piwritaniaid] ar lygredd yr Eglwys a'r defodau Catholig yn cynnwys defnyddio'r Groes yng ngweinyddiad y bedydd, penlinio wrth gymuno, gwisgo cobanau a gwenwisgoedd a defnyddio offeryn mewn gwasanaeth' (Jones, 2014, t. 7). Dywed Lloyd-Jones, 'True Puritanism can never rest content with being a mere wing or emphasis in the comprehensive

episcopal Church, but must always end in Presbyterianism or Independency' (Jones, 1987, t. 255). Mae awgrymu fel arall yn mynd yn groes i 'the true Puritan attitude, the Puritan outlook, the Puritan spirit, and the Puritan understanding' (ibid., t. 259). Roedd y Piwritaniaid yn meddu agwedd ac ysbrydolrwydd arbennig felly. Cytuna Gruffydd â Lloyd-Jones yn hyn o beth (James, 2019, t. 69).

Gwir Biwritaniaeth i Lloyd-Jones felly yw ymwrthod ag Anglicaniaeth. Uniaethai 'Piwritan' ag 'ymwahanwr'. Honnai fod 'gwir Biwritaniaeth' yn arwain yn anorfod at ymwahanu. Datblygiad o ddamcaniaeth New yw un Lloyd-Jones felly. Am hynny, mae'r ddwy broblem a godai yn sgil damcaniaeth New yn wir am ddamcaniaeth Lloyd-Jones. Ond ceir un broblem ychwanegol yn ogystal. Mae Lloyd-Jones yn honni na all wir Biwritaniaeth beidio â bod yn fudiad ymwahanol ond yn ôl Coffey 'the Puritanism that emerges from recent scholarship is rather different from the Puritanism familiar to modern evangelicals [sef dilynwyr traddodiad Lloyd-Jones]' (2008, t. 261).

Ceisia Goronwy Wyn Owen yn *Cewri'r Cyfamod: Y Piwritaniaid Cymreig, 1630–60* (2008) roi diffiniad mwy cyffredinol a llai cyfyng i ni o Biwritaniaeth. Cyflwynir ganddo ddosbarthiad chweplyg. Yn ôl Owen, gwelwyd Piwritaniaeth Esgobol ym mlynnyddoedd cynnar teyrnasiad Elisabeth drwy'r 'galw clerigol hwnnw am ddiwygio trwyadl a charthu'r olion Pabyddol a oedd megis gwaddod chwerw yn nhrefn addoli'r llannau yn ôl Llyfr Gweddi Gyffredin 1559' (2008, t. 11). Roedd clerigwyr Piwritanaidd eu gogwydd o fewn eglwys Elisabeth yn credu y dylid diwygio Eglwys Loegr yn ôl dysgeidiaeth y Beibl a'r hyn a welid ymhlith eglwysi diwygiedig y cyfandir. Felly, yn ôl Owen, o fewn Eglwys Loegr ei hun y dechreuodd Piwritaniaeth ac ymhlith y clerigwyr hynny a oedd yn galw am ddiwygio'r Llyfr Gweddi ac am roi pwyslais ar bregethu'r efengyl, yn hytrach na

gweinyddu'r sacramentau a dilyn defodau a oedd yn eu golwg hwy yn Babyddol yn eu hanfod.

Yn ail yn ôl Owen, gwelwyd cychwyniadau Piwritaniaeth Bresbyteraidd yn dilyn anghydfod ym Mhrifysgol Caergrawnt ym 1565 ynghylch gorfodi clerigwyr i wisgo gwisgoedd offeiriadol. Gwrthododd rhai Piwritaniaid y gorchymyn. Ym 1569 penodwyd Thomas Cartwright (1535–1603) yn Athro'r Arglwyddes Margaret mewn Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Caergrawnt, ac yn ei gyfres o ddarlithoedd ar Lyfr yr Actau dadleuodd nad oedd Esgobyddiaeth yn ffurflywodraeth Feiblaidd ac mai Presbyteriaeth oedd y drefn gywir ac Ysgrythurol. Dysgodd y gellid cadw swydd esgob ond ar yr amod mai swyddogaeth ysbrydol yn unig a berthynai iddi. O ran llysoedd eglwysig, awgrymodd y dylid eu diddymu a throsglwyddo gofal bugeiliol a disgyblaeth eglwysig i ofal gweinidogion a henuriaid lleol, ond cytunai y gellid trafod pynciau cyffredinol mewn synodau lleol, rhanbarthol. Yn ogystal, fe gyflwynodd sylwadau hynod ddadleuol a chwyldroadol, sef y dylid creu eglwys wladol Bresbyteriadd a fyddai'n cydweithio'n agos â'r wladwriaeth, ond eto'n annibynnol arni (Owen, 2008, t. 12).

Gwêl Owen ymgyrch yr 'Ymwahanwyr' fel arwydd pellach o dwf Piwritaniaeth yn ystod teyrnasiad Elisabeth. Credai'r Ymwahanwyr fod rhaid ymadael â'r Eglwys Wladol a sefydlu eglwysi unigol annibynnol yn unol â'r patrwm a welir yn y Testament Newydd. Credent mai cynulleidfa o saint (credinwyr wedi profi ail-enedigaeth bersonol) a fyddai'n cyfamodi â'i gilydd 'ac a alwesid drwy Ras i ffurfio eglwys weledig o saint, oedd y wir eglwys' (ibid., t. 17). Dywed Edmund S. Morgan mai'r math hwn o eglwys a fynnai'r Piwritan ei gweld ar droad yr ail ganrif ar bymtheg (1975, t. 14), gan nad oedd Presbyteriaeth wedi gallu cyflawni'i delfryd o ddiwygio Eglwys Loegr.

Y pedwerydd arwydd yn ôl Owen oedd gweld sefydlu Cynulleidfaoliaeth Ffordd-Ganol. Yn 1604 cyhoeddodd Henry Jacob (1563–1624) bamffled yn galw am sefydlu Cynulleidfaoliaeth ar lefel plwyfol. Nid annog ymwahanu oddi wrth yr Eglwys Wladol oedd bwriad Jacob ond yn hytrach ymdrechu'n daer mewn gweddi a gweithred i ddiwygio'r Eglwys: gweld bodolaeth eglwys weledig bur, weithredol oedd ei fwriad. Er iddynt gredu yn yr un modd â Calfin fod y wir eglwys yn un anweledig, roeddent yn ogystal am weld eglwys weledig bur. Delfryd Jacob fyddai gweld sefydlu eglwys gynnull ffordd-ganol 'ochr-yn-ochr â'r gynulleidfa blwyf Anglicanaidd' (Owen, 2008, t. 24). Felly, roeddent am gydymffurfio'n allanol â'r Eglwys Wladol, ond eto am sefydlu eglwysi cynnull Piwritanaidd cyfochrog ar lefel y plwyf. Yn eglwysyddiaeth Jacob gwelwn wreiddiau eglwysi Lloegr Newydd, sef y pumed arwydd yn ôl Owen.

Yn ystod y 1630au gwelwyd Ymwahanwyr a Chynulleidfawyr ffordd-ganol yn cael eu herlid gan William Laud, Archesgob Caergaint. Dewisodd nifer o Biwritaniaid ymfudo i Loegr Newydd yn hytrach na gorfod dioddef dicter Laud. Erbyn tridegau'r ail ganrif ar bymtheg yr oedd oddeutu ugain mil wedi ymfudo (Cook, 1977, t. 27), a chan mai o eglwysi yn nhraddodiad Jacob y daeth y mwyafrif o Biwritaniaid Lloegr Newydd, gwiredwyd yno'r ddelfryd Biwritanaidd o beidio â chael eglwys wladol esgobol, a daeth syniadaeth Henry Jacob yn realiti ymarferol. Ffigur pwysig yn natblygiad eglwysyddiaeth eglwysi cynnull ffordd-ganol Lloegr Newydd oedd John Cotton (1585–1652). Cyflwynodd ef y syniad y dylai cyffes ffydd bersonol fod yn un o amodau aelodaeth mewn eglwysi cynnull – cyn hyn, roedd buchedd sanctaidd a duwioldeb ymddangosiadol ac ymarferol yn ddigon. Bu llythyru cyson rhwng Lloegr a Lloegr Newydd a threiddiodd syniadau Cotton i Gymru hefyd, a'r patrwm hwnnw a fabwysiadodd eglwys annibynnol gyntaf Cymru yn Llanfaches yn 1639.

Yr arwydd olaf yn ôl Owen oedd twf Piwritaniaeth Radicalaidd a oedd yn amlhau ac yn cryfhau o'r 1640au ymlaen ac a oedd ynghlwm wrth natur derfysglyd a chynhyrfus y cyfnod hwnnw, yn wleidyddol ac yn grefyddol. Yn rhengoedd y fyddin yn ystod blynyddoedd cyntaf y Rhyfel Cartref ac yna o 1645 ymlaen yn rhengoedd y Fyddin Model Newydd y gwreiddiwyd radicaliaeth wleidyddol y sectau a ddaeth i amlygrwydd rhwng y 1640au a'r 1660au. Denwyd dynion o bob haen o'r gymdeithas i rengoedd y fyddin er mwyn ennill cyflog ac er mwyn bod yn rhan o grwsâd crefyddol. Dywed Richard Baxter, 'it was the differences about religious matters that filled up the Parliament's armies and put the resolution and valour into their soldiers' (gol. Sylvester, 1696, I, t. 31). Nid oedd gan y dynion hyn yr un parch tuag at system hierarchaidd ag oedd gan Bresbyteriaid Cymanfa Westminster. Roeddent am chwilio'r ysgrythurau ei hunain er mwyn dod i farn annibynnol am athrawiaethau, ffyrdd o addoli a gwleidyddiaeth gwlad ac eglwys. Yn ôl Matthew Sylvester roedd holl gaplaniaid uniongred y fyddin wedi dychwelyd adref erbyn 1642 gan adael y fyddin yn nwylo pregethwyr lleyg. Roedd mwyafrif milwyr y Fyddin Model Newydd yn anllythrennog ac felly yn agored i ddysgeidiaeth newydd y pregethwyr radicalaidd. Disgrifia Christopher Hill y Fyddin fel 'the common people in uniform [...] the free discussion which was permitted in this unique army led to a fantastically rapid development of political thinking' (1971, t. 25). Dywed Richard Baxter fod un o bob ugain ohonynt yn perthyn i grŵpiau radicalaidd, a hwy oedd 'soul of the army' (gol. Sylvester, 1696, I, t. 50). Un o'r grŵpiau a ddaeth yn hynod o ddylanwadol oedd Plaid y Bumed Frenhiniaeth.

Ffocws y traethawd hwn yw'r mynegiant a roddid i'r gred fod yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant wrth y drws. Roedd Plaid y Bumed Frenhiniaeth yn canolbwyntio ar agosrwydd yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant llythrennol ac yn

Morgan Llwyd (1619–1659) a Vavasor Powell (1617–1670) cawsant gefnogaeth gref dau o'r Piwritaniaid Cymreig a buont yn ddylanwadol yn ei rhengoedd. Ar 4 Gorffennaf 1653 daeth Senedd y Saint i fodolaeth yn dilyn llythyr Morgan Llwyd, *A voice out of the hearts of divers that waite for the Lord Jesus in Denbighshire in North Wales*, at Oliver Cromwell. Syniad Llwyd, Powell a Thomas Harrison (1606–1660), y cadfridog pwerus, oedd ffurfio senedd yn seiliedig ar enwebiadau ar sail duwioldeb dynion yn hytrach na'u gallu gwleidyddol. Roedd dylanwad Plaid y Bumed Frenhiniaeth yn drwm ar Senedd y Saint. Roedd pedwar o'r chwe enwebiad o Gymru yn arddel credoau'r Pumed Frenhinwyr er enghraifft, sef Hugh Courtney, Richard Price, John Brown a John Williams (Jones, 1971, t. 103).

O ran eschatoleg Plaid y Bumed Frenhiniaeth, roedd Thomas Brightman (1557–1607), Johann Heinrich Alsted (1588–1638) a Josephe Mede (1586–1639) yn hynod ddylanwadol. Law yn llaw â darllen a chlywed cynnwys llyfrau y dynion hyn roedd pobl yr oes yn byw trwy ddigwyddiadau chwyldroadol: y Rhyfeloedd Cartref, dienyddiad Siarl I, sefydlu gwladwriaeth weriniaethol dan arweinyddiaeth Oliver Cromwell yn y Werinlywodraeth, galw Senedd y Saint ac yna sefydlu unbennaeth Cromwell yn y Diffynwriaeth yn 1653. Yn ogystal â'r rhain gwelwyd cwmp economaidd. Eglura Goronwy Owen:

Nid yw'n rhyfedd felly bod y syniad chwyldroadol am deyrnasiad y Saint ar y ddaear am fil o flynyddoedd wedi cael derbyniad gwresog gan rai cyloedd o'r cyhoedd o oedd yn gwbl barod i weithredu yn wleidyddol, cymdeithasol a chrefyddol ar sail disgwyliadau eschatolegol anghyffredin nad oedd iddynt yr un wir sylfaen yn yr Ysgrythur' (2008, t. 65).

Yn rhengoedd y Fyddin Model Newydd y cafodd syniadau Plaid y Bumed Frenhiniaeth y croeso cynhesaf. Yr hyn a ddysgodd Brightman, Alsted a Mede oedd bod angen paratoi ar gyfer yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant drwy gymryd

camau gweithredol er mwyn hwyluso eu dyfodiad. Ysbrydoliaeth mawr Plaid y Bumed Frenhiniaeth oedd proffwydoliaethau Llyfr Daniel yn yr Hen Destament a Llyfr y Datguddiad yn y Testament Newydd. Credent fod y pedwar bwystfil yn Daniel 7 yn cynrychioli ymerodraethau Persia, Asyria, Groeg a Rhufain. Ar sail y proffwydoliaethau credid bod cwmp y Pab, sef yr Anghrist, yn agos, ac y deuai'r Pumed Brenin, sef Iesu Grist, yn fuan i sefydlu'r deyrnas nefolaidd ddaearol. Eglura Michael A. Milton:

The Fifth Kingdom, as interpreted by a large number in that day [...] would be an earthly millennial reign of Jesus Christ, which would usher in the Golden Age of the world. The saints would reign for a 1000 years (interpreted so from Revelation 20) until a final uprising would usher in the Day of Judgment and then the Heavenly City (2000, t. 521).

Roedd ffocws Plaid y Bumed Frenhiniaeth ar 'the Kingly mission of Christ and the material or political benefits', chwedl Alfred Cohen (1963, t. 323). O gymryd dehongliad Milton, roedd y Pumed Frenhinwyr yn credu y bydd Iesu Grist yn dychwelyd yn gorfforol gan sefydlu'r Pumed Frenhiniaeth (y Milflwyddiant). Bydd y Saint yn teyrnasu ar y ddaear gydag ef. Yna bydd Iesu Grist yn gadael ond yn dyfod eto ar ddiwedd y Milflwyddiant pan brofir cynnydd mawr mewn drygioni, gan farnu'r byd. Credai Plaid y Bumed Frenhiniaeth mai nhw yn unig oedd yn abl i lywodraethu gan mai nhw oedd y Saint, hynny yw, nhw yn unig oedd yn wir Gristnogion ac yn perthyn i Dduw. Iddynt hwy roedd Crist i lywodraethu yng nghalonau dynion ac mewn modd gweledol a gwleidyddol. Nid oedd credu yn agosatrwyd yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant yn anghyffredin yn y cyfnod, fel y daw'n amlwg. Ond yr hyn oedd yn arbennig am Plaid y Bumed Frenhiniaeth oedd eu pwyslais ar y drefn wleidyddol. Mynnent fod yn rhaid i'r Saint lywodraethu'r wlad er mwyn hwyluso dyfodiad y Bumed Frenhiniaeth er mwyn iddyn nhw cyd-lywodraethu â Iesu Grist ar y ddaear.

Mae strwythur Goronwy Wyn Owen yn cynnig diffiniad llawer ehangach na'r un o eiddo Lloyd-Jones, ond mewn gwirionedd, yn ei hanfod, mae'n seiliedig ar ddiffiniad Lloyd-Jones a oedd yn ddatblygiad o un New. Awgrymodd New wrth nodi fod tyndra diwinyddol rhwng y Piwritaniaid a'r Eglwyswyr o'r dechrau, mai anorfod fyddai i'r Piwritaniaid ymwahanu. Aeth Lloyd-Jones a'r dehongliad hwn gam ymhellach gan nodi mai'r gwir Biwritaniaid oedd yr Ymwahanwyr. Un o ganlyniadau diffinio Piwritaniaeth yn rhy gaeth, fel y gwnaeth Lloyd-Jones wrth iddo fynnu fod Piwritaniaeth yn y pen draw yn gyfystyr â gwrth-esgobyddiaeth anghydfurfiol ac ymwahanol, yw methu dod o hyd i le ar gyfer yr hyn y byddai hanesyddiaeth fwy diweddar yn ei alw yn Biwritaniaeth Gymedrol. Gan ddilyn Owen, rhaid cymryd fod Piwritaniaeth yn ffenomen a ddechreuodd yn y 1570au gyda Phresbyteriaid fel Thomas Cartwright, cyn mynd i'r cysgodion braidd yng nghyfnodau John Whitgift, Richard Bancroft a George Abbott yn Archesgobion Caergaint (sef rhwng 1583 a 1633), ond gan ddod i amlygrwydd wedyn ymhlith gwrthwynebwyr William Laud (megis William Wroth a Walter Cradock yng Nghymru), a chyrraedd ei hanterth wedi 1642 ac yn ystod y Werinlywodraeth yn arbennig.

Rhybuddia Patrick Collinson fod y termau Piwritan ac Anglican yn 'elusive and intangible, limited in their usefulness' (1967, t. 27)⁴⁰. Disgrifia Collinson Eglwys Loegr yng nghyfnod Elisabeth fel sbectwm, 'in which the ultimate extremes of colour are clear enough, but the intermediate tones merge imperceptibly' (ibid.). Ar y naill ochr i'r sbectwm ceir dynion a oedd yn hapus i gydymffurfio â threfn yr eglwys Brotestannaidd newydd, ond ar yr ochr arall yr oedd yr anghydfurfwyr. Deuai'r gwahaniaethau'n glir pan fyddai'r rhai hynny a

⁴⁰ Er dweud hyn, mae Collinson yn defnyddio'r term er hwylustod, a defnyddid hi hefyd gan D. Denis Morgan yn *Theologia Cambrensis* (2018) gyda'r nodyn canlynol: 'Although the term 'Anglican' is anachronistic, it is used here to describe Prayer Book Christianity which conformed to the ceremonies and norms of the Established Church' (t. 81).

oedd mewn awdurdod yn rhoi gorchmynion na fyddai'n bosibl i bawb ufuddhau iddynt. Agwedd yr anghydfurfwyr oedd hyn: 'where human authority failed to conform with even the general implication of scripture, as expounded and applied by the preacher, it must be resisted' (ibid.). Ond,

Conformists, on the other hand, if they were no time-servers, drew a philosophical distinction between essentials and the non-essentials of religion, the invariable and the variable, and taught that, in all 'indifferent' matters, human reason and human authority had the power to devise and enforce policy (ibid.).

Ar wahân i'r ffaith nad oedd Anglicaniaeth yn bodoli ar y pryd, problem damcaniaeth Lloyd-Jones, a oedd yn ddatblygiad o ddamcaniaeth New mewn gwirionedd oedd ei fod wedi ceisio defnyddio'r Piwritaniaid i ddilysu a chyfiawnhau ei fudiad a'i weledigaeth bersonol ef ei hun. Ond canlyniad hyn oedd,

Puritanism was understood not as the cutting edge of the English Church but as a natural precursor of Dissent. The story of Presbyterianism and Congregationalism was written as teleological denominational history, even though both groupings operated within the national church until 1662 (Coffey, 2013, t. 48).

Newidiwyd y consensws ynghylch diffinio Piwritaniaeth i raddau helaeth yn sgil thesis Patrick Collinson yn ei gyfrol *The Elizabethan Puritan Movement* (1967). Dangosodd ef ei bod hi'n gywir i ddweud fod y Piwritaniaid yn wrthwynebus iawn i lawer o'r hyn a welent yn llygredig yn yr Eglwys Wladol, ond eu bod hefyd yn Brotestaniaid ac yn Eglwyswyr triw a oedd am weld Eglwys Loegr yn cael ei diwygio yn hytrach nac ymwahanu oddi wrthi. Dyma'r Piwritaniaid cymedrol nad oes lle iddynt yn namcaniaeth Lloyd-Jones. Diffinia R. Geraint Gruffydd y Piwritaniaid yn debyg iawn i Collinson. Dywed Gruffydd:

The Puritans were those people within the Church of England during the reigns of Elizabeth, James I and Charles I who were on the whole faithful followers of John Calvin's and who wished to see their Church further reformed according to his teaching as regards doctrine, liturgy and ceremonial, polity and discipline—which is a pretty comprehensive list; they also believed fervently in preaching as the means of conversion of those who were to be called; and it may be added that they held these convictions with the utmost seriousness and endeavoured to live according to these convictions every minute of every day (1976, t. 5).

Tasg Elisabeth o 1559 ymlaen oedd trawsffurfio'r Eglwys Wladol o fod yn un oedd yn Babyddol ei chyfansoddiad a'i hanfod i fod yn sefydliad Protestannaidd. Datblygiad o Eglwys Harri VIII ac Edward VI oedd eglwys Elisabeth I. Eglura Gareth Elwyn Jones mai canlyniad 'changes introduced first by Henry VIII, extended by Edward VI and reaffirmed by Elizabeth I in 1559' oedd yr Eglwys Wladol yng nghyfnod dechreuadau Piwritaniaeth. Eglura Diarmaid MacCulloch i'r 'Elizabethan Settlement' gymryd 'different course from the Edwardian Reformation, despite the formal near-identity of its church polity, liturgy and doctrinal statement' (1999, t. 191). Dywed hyn am mai adfer Eglwys Edward VI 1552 y wnaeth Elisabeth I, nid Eglwys Edward VI adeg ei farwolaeth. 'The moment in time resurrected in 1559 was September 1552,' chwedl MacCulloch (ibid). Yn hydref 1552

the 1552 Prayer Book was deprived of its 'black rubric', that last-minute addition from autumn 1552 explaining that kneeling for communion did not imply adoration of the bread and wine. Likewise, there was no restructuring of canon law [...] nor reformed catechism and primer' (ibid).

Awgryma MacCulloch fod rheswm personol tu ôl i'r penderfyniad hyn, sef Elizabeth's bitter memory of the Lady Jane Grey adventure of July 1553 [...] Jane's accession had been as much of a blow for Elizabeth's claim to the throne as for Mary's, no less an Edwardian hero and Marian martyr than Bishop Nicholas Ridley of London had repeatedly used the pulpit to proclaim Elizabeth's illegitimate status [...] So however personally fond she may have been of her dead half-brother, the policies of his last tumultuous months may have been associated in her mind

with the attempt to ruin her life and thwart God's will for her succession to the Crown (ibid, tt. 191-192).

'Whatever the details of the 1559 Settlement, all those around the queen with any part in leading the new Church expected that further change would come in due course' (ibid., t. 192). Ond 'Elizabeth was to confound them all' (ibid). Prif flaenoriaethau Matthew Parker, archesgob cyntaf Elisabeth, oedd creu eglwys a fyddai'n dderbyniol gan y mwyafrif mewn trefn ac athrawiaeth, cyflwyno Protestaniaeth i'r boblogaeth a sicrhau fod Eglwys Loegr yn un o gonglfeini'r wladwriaeth. I hwyluso hyn oll, pasiwyd y Deddfau Uchafiaeth ac Unffurfiaeth yn 1559 a sefydlodd Elisabeth yn 'Oruchaf Reolwr' ar yr Eglwys ynghyd â gosod Eglwys Wladol unffurf ar y deyrnas. Roedd Elisabeth am adfer yn llwyr yr hyn a gollwyd yn ystod cyfnod Mari ac ailsefydlu Eglwys Edward VI 1552. Er i lawer o esgobion, 'mostly survivors of Edward's clerical leadership' geisio diwygio pellach, 'the queen stopped their reform programme in its tracks' (ibid.). Yn 1563 lluniwyd y Deugain Erthygl Namyn Un a seiliwyd ar Ddeugain a Dwy Erthygl Archesgob Thomas Cranmer yn 1552, ac a fu'n gonglfaen athrawiaeth yr Eglwys byth oddi ar hynny (Jones, 2014, t. 6). Derbyniwyd y deddfau gan y Confocasiwn, ac fe'u derbyniwyd yn ffurfiol gan y Frenhines a'i Senedd wyth mlynedd wedi hynny yn 1571. Dyma weld Eglwys a fyddai'n cadw cydbwysedd rhwng diwinyddiaeth Luther, Zwingli a Chalfin. Ac yn achos Cymru, gwelwyd y Senedd yn 1563 yn cymeradwyo mesur a fyddai'n arwain at gyfieithu'r Beibl cyfan a'r Llyfr Gweddi Gyffredin i'r iaith Gymraeg, a hynny er mwyn cyflwyno'r Brotestaniaeth newydd i werin Cymru a'u meithrin ynddi. Cyflwynwyd rhai newidiadau gan Elisabeth I. Y cyntaf oedd, fel y nodwyd eisoes, iddi gael y teitl Oruchaf Reolwr yr Eglwys. Yr ail newid oedd, yn ôl MacCulloch, 'royal Injunctions filling in the details of the Settlement allowed the

use of many of the old vestments in service and remained diplomatically silent about destroying other items of liturgical furniture'. A'r trydydd oedd

the 1552 Communion Service was modified in the new Prayer Book to add the words of administration in the 1549 book to the 1552 words [...] suggesting on the one hand a real presence to conservatives and on the other the idea of communion as memorial only, in the theological style of Zurich. Placing this ambiguity at the moment when a communicant was likely to be most attentive to what was happening was a masterpiece of theological engineering (MacCulloch, 1990, t. 30).

Yn ystod teyrnasiad Mari gwelwyd nifer helaeth o unigolion a arddelai Brotestaniaeth yn gadael Cymru a Lloegr fel alltudion crefyddol i'r Cyfandir a chael lloches yn ninasoedd Protestannaidd Genefa, Strasbwrg, Basel, Zurich, Frankfurt a Rotterdam a mannau eraill. Er i Elisabeth obeithio'n wreiddiol y byddai wyth o esgobion Mari yn parhau yn eu swyddi er mwyn cael cydbwysedd (ibid., t. 31), y gwir oedd i lawer o'r alltudion ddod yn esgobion. Yn wir, allan o 25 esgobaeth, llanwyd 17 ohonynt gan alltudion a ddychwelodd. Dyma wŷr fel Richard Cox, Edmund Grindal, Richard Davies, Thomas Young, John Pankhurst, James Pilkington a John Jewel. Dyma ddiwygwyr trwyadl, wedi manteisio ar ddysgeidiaeth diwygwyr blaenllaw megis John Foxe yn ystod eu halltudiaeth. Penodwyd dynion dibynadwy a oedd yn deyrngar i Elisabeth ac a arddelai'r ffydd newydd i hybu a sefydlu Protestaniaeth fel grym crefyddol a gwleidyddol. Yn wir, mynnai John Coffey fod 'reformed identity' cryf gan yr Eglwys yng nghyfnod Elisabeth a hynny ar sail y ffaith mai William Perkins oedd un o'r rhai amlycaf i gyflwyno syniadaeth diwygwyr y Cyfandir i Eglwys Loegr, ac yntau yn cael ei adnabod fel Piwritan cymedrol (2013, t. 47).

Er nad oedd y gwŷr a restrwyd uchod yn gwbl gytûn ar bob dysgeidiaeth, roeddynt yn gytûn bod angen diwygio'r Eglwys Wladol. Roedd eglwys Elisabeth yn cynnwys llawer o allanolion nad oedd wrth fodd calon y diwygwyr. Llwyddodd

ei thad i ddymchwel un o gonglfeini Pabyddiaeth, sef awdurdod y Pab, 'while leaving the other pillar, the traditional devotional system largely intact. Both Elizabeth and her brother had done much to dismantle this system, yet something of it remained to haunt the Church of England' (MacCulloch, 1990, t. 32). Nid oedd yr alltudion a ddychwelai i deyrnas Elisabeth yn medru goddef yr hyn a welant hwy fel gwaddod Pabyddiaeth, yn enwedig ar ôl iddynt ymgyfarwyddo ag addoli dan amgylchiadau gwahanol iawn ar y Cyfandir. Nid esgobion, offeiradon a diaconiaid oedd arweinwyr yr eglwysi Diwygiedig ond yn hytrach bugeiliaid, henuriaid a diaconiaid. Roedd gan eglwys Elisabeth 'prescriptive liturgy' tra mai 'directories of worship that allowed the clergy to extemporize' a weithredwyd gan eglwysi Diwygiedig y Cyfandir. Urddwisgoedd a wisgai offeiriadon eglwys Elisabeth tra mai gynau academaidd a wisgai clerigwyr eglwysi Diwygiedig y Cyfandir. 'Finally, the Church of England retained cathedrals and choirs, which contrasted sharply with the plain congregational psalm-singing heard in most parishes' (Coffey, 2013, t. 50). Gwelwn felly pam yr oedd y dynion Diwygiedig hyn am weld diwygio pellach o fewn eglwys Elisabeth, a'r hyn a barai rwystredigaeth ac anfodlonrwydd iddynt oedd y ffaith fod 'the Queen was determined not to move with the continental times' (MacCulloch, 1990, t. 32).

Elisabeth oedd Oruchaf Reolwr yr Eglwys a'i hawdurdod pennaf ar y ddaear, ond eto fe welwyd nifer o unigolion, er eu teyrngarwch i Elisabeth ac i Eglwys Loegr, yn fodlon mynegi eu hanfodlonrwydd â'i phenderfyniad i beidio â brysio i ddiwygio'r elfennau hynny o fywyd yr Eglwys a'i threfn y gwelant hwy yn rhwystrau rhag iddi ddatblygu'n eglwys Brotestannaidd gwbl Ddiwygiedig fel y rhai hynny a welsant ar y Cyfandir. Dyna paham yr honnai Collinson nad

radicaliaid ymwahanol yn unig oedd y Piwritaniaid, ond yn hytrach bod yn eu plith glerigwyr yn Eglwys Loegr a berthynai i blaid y Piwritaniaeth cymedrol.

Protestaniaid pybyr oedd y Piwritaniaid cymedrol hyn, felly, a welai'r angen am 'a further reformation, the logical completion of the process of reconstituting the national Church, which in their view had been arrested halfway' (Collinson, 1967, t. 12). Yn wir, gellid dadlau fod cyfraniad y Biwritaniaeth gymhedrol hon, a'i phwyslais ar bwysigrwydd pregethu ac addysg wedi bod yn allweddol yn y broses o beri i Brotestaniaeth wreiddio yn y deyrnas (Jones, 2007, tt. 209-210). Cwblhau'r Diwygiad Protestannaidd yn Lloegr a Chymru oedd nod y Biwritaniaeth gymedrol hon, a datblygwyd ganddi 'its own standards and nascent traditions, and even its own discipline and spiritual government' (Collinson, 1967, t. 14). Oherwydd hynny, mae rhai wedi honni mai sect oedd y Piwritaniaid, 'a sect saved from introspection by its belief in an established church coterminous with society as a whole, and devoting much of its effort to the attempt to impose the reformed conception of religion on a whole nation' (ibid.).

Ym marn y Protestaniaid yng nghyfnod Elisabeth, gan gynnwys y Piwritaniaid cymhedrol,

By a kind of charitable assumption, the whole nation, however ignorant, however lacking in faith, was deemed to be 'the people of the Lord'. For the Church as constituted, not by the Christians of whom it was composed, nor by the sincerity of their profession, but by the purity of the doctrine publicly preached and upheld by authority, and by the sincere administration and reception of the sacraments, safeguarded by the exercise of church discipline (ibid., t. 25)

I'r gwrthwyneb, honnid bod Eglwys Rufain yn ffals oherwydd 'the tyranny of papacy had perverted its doctrine, sacraments and discipline', a phe bai unrhyw

rai o nodweddion Eglwys Rufain yn cael eu hamlygu o fewn eglwys Elisabeth, byddai'r Piwritaniaid cymedrol yn eu gwrthwynebu'n llym, oherwydd gwelsant grefydd fel 'public duty' (ibid.).

Roedd yr elfen gyhoeddus hon yn holl bwysig i'r Piwritaniaid cymedrol:

When the puritans attacked the imperfections of the Elizabethan religious settlement; it was not so much to request a toleration of their own consciences as to the imposition of true reformation as they understood it, on the whole Church and nation, by public authority. Their complaint was not that religion was made a matter of compulsion, but that the law failed to conform to the pure model which they had set before the queen's eyes (ibid., tt. 25-6).

Felly, Protestaniaid oedd y Piwritaniaid cymedrol a oedd am weld diwygio pellach o fewn Eglwys Loegr. Dywed Peter Lake, 'Puritans were people who, with varying degrees of intensity, disliked the Elizabethan settlement [...] Puritanism was a series of negative gestures directed against that settlement and the church it created' (1982, t. 1). Mae hyn, i raddau helaeth, yn tanseilio damcaniaeth New ac yn dangos ei gwendid, oherwydd fod Collinson a Lake yn dangos nad yr ymwahanwyr yn unig oedd Piwritaniaid y cyfnod. Oherwydd hyn, mynnai Collinson mai 'the hotter sort of protestant' oedd y Piwritaniaid cymedrol (1967, t. 27), gan ychwanegu, 'What they lacked in numbers they made up for in both individual zeal and the disciplined strength of their brotherhood' (1983, t. 246).

Yng ngeiriau Collinson, 'the more earnest protestant would have considered the Reformation incomplete so long as there was no fundamental reform of the Church in the institutions of its ministry and governemnt' (1967, t. 38). Ac felly, 'it was already a source of embarrassment to many of the hotter protestants that their Church bore small resemblance to the drastically

reconstituted churches which they had encountered overseas' (ibid.). Roedd eglwys Elisabeth wedi'r cyfan yn eglwys esgobol a oedd heb ei llwyr ddiwygio a 'could boast few if any of the attributed of a reformed polity'. Nid oedd yn annog cyfranogiad gan y gynulleidfa ac yr oedd ei llywodraeth yn cael ei chynnal o fewn cyd-destunau esgobaeth ac archddeoniaeth. Yn aml roedd yr esgobaethau'n rhy fawr, ac roedd ei gofal bugeiliol yn cael ei gyflawni gan lysoedd eglwysig gyda'r esgobion yn cael eu cynrychioli ynddynt gan leygwyr a chyfreithwyr sifil. Gellid dadlau mai gofal proffesiynol, gweinyddol yn hytrach na gofal ysbrydol a nodweddi'r Eglwys.

Roedd y Piwritaniaid cymedrol yn gweld eglwys annisgybledig a'i gweinidogaeth yn methu. Roeddent yn casáu amblwyfaeth ac roeddent yn gweld diffygion yn y modd yr oedd Eglwys Loegr yn rheoli'i gweinidogaeth ordeiniedig. Byddai clerigwyr yn cael eu hordeinio ar hap i'r offeiriadaeth, ac eto'n wahanol i eglwysi Diwygiedig y Cyfandir, nid oeddynt yn cael eu galw i gynulleidfa benodol. Yn ogystal, roedd y Piwritaniaid cymedrol yn anfoddog â safon gwerthuso'r offeiriadaeth. Yn ôl Collinson, 'in the early years of the reign, especially, a high proportion of those ordained were incapable of anything more than a "bare reading ministry" and lacked the minimal qualifications for the reformed pastor' (ibid., t. 42). Nid oedd y Diwygiad wedi llwyddo i newid y ffordd roedd yr Eglwys yn trin a thrafod ei harian chwaith. Roedd amblwyfaeth yn rhemp, defnyddid y degwm at ddibenion nad oeddynt yn rhai ysbrydol a rhoddwyd rhan o incwm bywoliaeth i leygwr oedd yn noddî'r fywoliaeth. Oherwydd hyn oll, y farn ymhlith y Piwritaniaid cymedrol a'r Piwritaniaid radical fel ei gilydd, oedd nad oedd y Diwygiad wedi'i gyflawni'n llwyr yn Ardrefniant Elisabeth.

Felly, ym marn y Piwritaniaid cymedrol a radical fel ei gilydd, eglwys amherffaith oedd eglwys Elisabeth, ac

these imperfections were sufficient to deter a number of the most forward protestants from identifying themselves unreservedly with the new dispensation [...] while some of the most radical spirits were to find that they had small hope of preferment or even of a welcome in the Church of the Elizabethan via media. From the earliest months of the reign there were signs of the beginnings of future puritan associations, if not a coherent party (ibid., t. 45).

Nododd John Gwynfor Jones fod y 'hotter sort of protestant,' chwedl Collinson, hyn er yn gefnogol i agweddau ar Biwritaniaeth yn gwrthod 'ochri'n ormodol rhag ofn iddynt golli eu bywoliaethau a'u trwyddedau pregethu' (2014, t. 10).

Hyd yn hyn, rydym wedi ystyried y Piwritaniaid cymedrol y dywedodd Collinson am lawer ohonynt bod ganddynt 'a coherent theological position which was both Puritan and yet not determinedly subversive of the Church of England' (1967, t. 49). Ond pan fynnodd Archesgob Parker unffurfiaeth eglwysig yn 1566, dechreuodd y tensiwn rhwng y Piwritaniaid a'r Eglwys gynyddu. Gwrthododd Parker roi trwyddedau pregethu i'r rhai hynny nad oeddynt yn barod i gydymffurfio ac yn 1566 ysgrifennodd y *Book Advertisements* pryd y gorchynnodd fod pob offeiriad i gydymffurfio ar fater y cymun a'r sacramentau gan fynnu hefyd fod offeiriadon yn gwisgo'r urddwisgoedd priodol. Canlyniad hyn oedd rhoi'r esgobion Piwritaniaid cymedrol mewn sefyllfa letchwith iawn a bu i lawer ohonynt golli eu bywoliaethau.

Barn Elisabeth a Parker oedd bod hygrededd yr Eglwys yn cael ei bygwth gan ymdrechion y Piwritaniaid i'w diwygio ymhellach. Gwelai'r ddau hefyd y perygl o weld Pabyddiaeth yn ail wreiddio wrth i garfannau o fewn yr Eglwys ffraeo ymhlith ei gilydd. Roedd awdurdod yr Eglwys ei hun ynghyd â

chynnwys yr Ardrefniant Protestannaidd yn cael eu cwestiynu. Serch hynny, ymddengys fod Piwritaniaeth yn rym arhosol o fewn yr Eglwys. 'Methodd y llywodraeth â sefydlu unffurfiaeth gan fod Piwritaniaeth yn ffynnu ymhlith nifer gynyddol o Aelodau Seneddol â'u bryd ar sefydlu'r gwir Ddiwygiad' (Jones, 2014, t. 8). Yn 1566 diarddelwyd 37 offeiriad o'u bywoliaethau a rhoddwyd iddynt dri mis i gydymffurfio â'r awdurdodau eglwysig. Cydymffurfiodd rhai, ond parhaodd eraill i herio'r awdurdodau a chynnal cyfarfodydd a phregethu y tu allan i furiau'r eglwysi. O'r cychwyn cyntaf felly cafwyd '[a] theological cuckoo in the nest', chwedl MacCulloch (1990, t. 33). Roedd elfennau o Babyddiaeth yn strwythur a sacramentau Eglwys Loegr ond roedd hefyd yn Galfiniaidd yn ei diwinyddiaeth, ac roedd hi ar yr un pryd yn gartref i gydymffurfwyr eglwysig ac i Biwritaniaid cymedrol a oedd am weld diwygio pellach gan mai Protestaniaid pybyr oeddynt.

Credai'r Piwritaniaid cymedrol y dylai'r esgobion 'hyrwyddo ffyniant y "diwygiad duwiol" mewn cydweithrediad â'r "tywysog unionfryd"' (Jones, 2014, tt. 8-9). Mae John Gwynfor Jones yn dwyn ein sylw at Matthew Parker ac Edmund Grindal fel enghraifftiau da o hyn. Roedd Grindal yn gwrthwynebu amblwyfaeth ac anogai gweinidogaethau wedi'u seilio ar bregethu a chyfarfodydd proffwydo, 'sef cynulliad lleol o glerigwyr Piwritanaidd ar gyfer astudio'r Ysgrythurau a thrafod problemau eglwysig i geisio gwella safonau dysg ymhlith y glerigiaeth' (2014, t. 9). Byddwn yn trafod hyn yn fanylach eto.

Fel y gwelir, nid tasg hawdd yw diffinio Piwritaniaeth. Mae John Gwynfor Jones yn gywir wrth ddweud, 'Perthynai i'r mudiad wahanol weddau nad ynt bob amser yn cydlynu â'i gilydd er iddo gyflwyno newidiadau pellgyrhaeddol ym myd crefydd, gwleidyddiaeth, yr economi a chymdeithas mewn oes bur gythryblus' (ibid.). Fel y gwelwyd eisoes, y mae barn haneswyr wedi amrywio a

hynny'n bennaf oherwydd nad mudiad unffurf oedd Piwritaniaeth ond yn hytrach mudiad amlweddol yn aml, a fu'n ganolog yn yr ymrysonau a'r gwrthdaro crefyddol a fu ar y Cyfandir ac wedyn yn Lloegr a Chymru yn oes y Diwygiad Protestannaidd. Piwritaniaethau a welwyd yn datblygu yn y cyfnod hwn ac nid Piwritaniaeth. Ond eto i gyd, dywed Coffey am ddechrau'r 1570au, 'the Puritans were dissenters within the Established Church, and few of them could contemplate separation' (2013, t. 51). Felly'r awgrym yw mai lleiafrif bychan iawn oedd y Piwritaniaid oedd am ymwahanu oddi wrth Eglwys Loegr a bod y mwyafrif ohonynt am aros o'i mewn er mwyn ei diwygio. Hwyl oedd y Piwritaniaid cymedrol: unigolion nad oeddynt yn Biwritaniaid o gwbl yn ôl dehongliad Lloyd-Jones. 'The leaders of early Elizabethan dissent accepted a reformed episcopacy as a legitimate form of church order and believed that only a difference in inessentials divided them from those who held authority in the Church' (Collinson, 1983, t. 344). Eto, yn ystod y 1570au gwelwyd y bwllch a'r gwahaniaethau rhwng y Piwritan cymedrol a'r Piwritan radical yn cynyddu'n sylweddol.

Dengys Coffey fod y 1570au yn ddegawd tyngedfennol yn natblygiad Piwritaniaeth am mai dyma'r cyfnod y gwelwyd 'bolder and more far-reaching Puritan activity' (Coffey, 2013, t. 51). Un o'r elfennau hynny ym mywyd Eglwys Loegr a aflonyddai'r Piwritaniaid oedd yr arfer o wisgo urddwisgoedd. Iddynt hwyl, rhan o waddol Pabyddiaeth ydoedd. Daeth y mater hwn i amlygrwydd mawr yn ystod 'Ymryson yr Urddwisgoedd' (*Vestarian Controversy*) a gychwynnodd yn 1566. Roedd Llyfr Gweddi Gyffredin 1552 yn gorchymyn i offeiriadon wisgo urddwisg ewcharistaidd, a chadwyd hynny yn Llyfr Gweddi Gyffredin 1559. Ond i'r Piwritan radical, roedd yr urddwisg yn symbol gweledig iawn o'r offeiriadaeth Babyddol yn hytrach na gweinidogaeth eglwysi Diwygiedig

y Cyfandir. Roedd gan y rhai hynny a ddadleuai yn erbyn yr urddwisg ewcharistaidd wŷr o ddylanwad yn eu plith, megis Thomas Cartwright, un o benaethiaid Caergrawnt a oedd yn flaenllaw iawn yn y dadleuon. Dadleuent ar sail yr Ysgrythur nad oedd cyfarwyddyd pendant i'w weld yn y Beibl ynghylch gwisgo urddwisg a mynnent felly y dylai'r offeiriad gael yr hawl i benderfynu drosto'i hun ynghylch y mater (Coffey, 2013, t. 50). Un mater dadleuol oedd hwn, a heb os yr oedd digon o enghreifftiau eraill o bynciau dadleuon yn Ardrefniant Elisabeth yn 1559 a fyddai maes o law yn peri tramgwydd a chodi gwrychyn y Piwritaniaid radical. Esbonia Collinson:

In its provision for preaching and prayer, radical protestants would complain, the Reformation had proceeded 'but halfly forward and more than halfly backward' [...] The Prayer Book was still 'papistical' in form and in many of its ceremonies cherished popish superstition [...] Apart for the vestments, the surplice and the outdoor dress of clergy, [...] the puritans would object with monotonous consistency to signing with the cross and addressing interrogatories to the infant in baptism, baptism by midwives, the rite of confirmation, kneeling at the communion and the use of wafer-bread, the giving of the ring in marriage, the purification of women after childbirth, the retention of such terms as 'priest' and 'absolution', the observation of saints' days, bowing at the name of Jesus and exquisite singing in parts and organs [...] More radically, some of them would complain of the liturgical forms themselves and of the longsomeness of the service which seemed out of proportion in a reformed Church and implied a subordinate place for the sermon [...] For all these reasons, the puritans could not regard the Prayer Book as sacrosanct [...] They would demand a further reform for which the word of God as interpreted by 'the best reformed churches' supplied the model, and which they hoped to achieve by the same means of organized agitation which had been employed with similar success at the time of Elizabeth's first Parliament (1967, t. 36).

Felly, gwrthodai'r Piwritaniaid radical wisgo urddwisgoedd ynghyd â cyflawni sawl defod arall megis gwneud arwydd y Groes yng ngweinyddiad y bedydd, penlinio adeg y cymun a chynnal dyddiau gŵyl eglwysig. Meddai Collinson, 'the ceaseless round of the Church's year, in the laconic and repetitive petitions of the collects, and in the prayer which any Calvinist was bound to find objectionable, that all men might be saved' (ibid., t. 38). Ond i John Gwynfor

59

Jones, nid urddwisgoedd yn uniongyrchol oedd gwir achos yr ymryson 'eithr mater o ddiwygio'r Ardrefniant, natur yr Eglwys ddiwygiedig a sefydlu rhyddid crefyddol' (2014, t. 7). Rhoddodd yr ymrysonau hyn gyfle i'r Presbyteriaid fod yn rym lled bwerus o fewn yr Eglwys, a dyma'u hymngais gyntaf i fynegi barn gadarn ynghylch llywodraeth yr Eglwys a mynnu mai trwy fabwysiadu neu strwythur eglwysig amgen y byddai Protestaniaeth yn wir wreiddio yn y wlad. Datblygodd y brotest Biwritanaidd yn erbyn urddwisgoedd a seremonïaeth ddatblygu 'to a more fundamental rejection of the Prayer Book into a protest against the whole ethos of Prayer Book worship – and of the unreformed, episcopal government of the Church' (Collinson, 1983, t. 258). Meddai John Gwynfor Jones:

Credent [y Presbyteriaid] mewn sefydlu llywodraeth eglwysig o dan drefn henaduriaethau gyda gweinidogion, diaconiaid a blaenoriaid yn rheoli yn ôl trefn John Calfin, ac ymosodent ar yr hierarchaeth swyddogol. Erbyn diwedd y ganrif, fodd bynnag, pan oedd y mudiad Presbyteriaidd yn dirwyio, defnyddid y gair 'Piwritan' i ddisgrifio'r Protestaniaid mwyaf penboeth, duwiol eu hymarweddiad a bucheddol eu moesau (2014, t. 7).

Heb os, yr oedd bob un o brotestiadau'r Piwritaniaid yn anelu at un peth, sef sicrhau mai eglwys wir Brotestanaidd fyddai eglwys Elisabeth: '[they] constituted an attempt to take over the English church by constructing within the existing corrupt and popish shell the very model of a true church' (Lake, 1982, t. 1).

Roedd Piwritaniaeth gymedrol a radical fel ei gilydd yn arddel anghydfurfiaeth er mwyn 'to avoid the offence of the godly and the delusion of the weak in faith' (ibid., t.2). Byddai creu eglwys a chymdeithas ar batrwm eglwysi Diwygiedig y Cyfandir yn fagwrfa i feithrin dynion a merched gwir dduwiol ac yr oedd ganddyn nhw 'an intense vision of the reality and mutuality of the community of the godly and of the way in which that community could and

should be called together through the word, particularly the word preached (ibid., tt. 2-3). Felly, wrth i bwyslais eu protestiadau symud oddi wrth wrthwynebu'r allanolion megis gwisgoedd i geisio achub eneidiau, rhybuddia Lake:

But as soon as the historian's attention is shifted to the positive evangelical protestant aims that lay behind puritan attacks on, and rejections of, the established church, the whole issue of puritanism takes on a different aspect (ibid., t. 3)

Goddefwyd y Piwritaniaid i raddau helaeth iawn gan awdurdodau Eglwys Loegr oherwydd gwelent eu hymdrechion i ddiwygio unigolion fel rhywbeth cadarnhaol iawn. Yn ogystal, roedd perthynas agos y clerigwyr Piwritanaidd a'u cynulleidfaoedd a'u noddwyr yn dangos sut y gallai'r Eglwys gynnig cartref ysbrydol i'r saint. 'Hence, the very aims and values that had first prompted the puritan assault on the church also served to attach puritan loyalties to the church' (ibid., t. 3).

Ond priodas anhapus ac anodd oedd hyn y bôn:

When conformists sought to make continuance in the ministry conditional on acceptance of what puritans took to be the corrupt elements in the structure of the English church, puritan ministers were forced to confront a choice between their puritan principles, the public, polemic commitments that their vision of true religion had led them to make, and their practical capacity to pursue those same edificational, evangelical aims as ministers of the word (ibid.).

Lladmerydd pennaf Presbyteriaeth yn y 1570au yn ôl Collinson oedd John Field. Cyhoeddodd *The First Admonition to Parliament* yn 1571 ar y cyd â Thomas Wilcox. 'His cause was the further reformation of the Church of England according to the presbyterian platform: the establishment of "pure" – that is, non-liturgical – worship, and of a reformed ministry and discipline' (1983, t. 335). Maniffesto Presbyteriaidd gwrth-esgobol ydoedd ac ynddo mae Field a

Wilcox yn dadlau mai'r senedd ac ynadon sifil a ddylai arwain y diwygiad; ond 'their schemes, to be successful, would have necessitated far-reaching changes in the structure of politics and society which neither the Queen nor the majority of her subjects desired' (ibid., t. 336). Er mai perthyn i 'handful of fanatics' oedd Field a Wilcox, roeddent yn unigolion penderfynol, a defnyddient y 'pulpit and press, patronage, suit and petition, and parliament' i geisio dwyn i fod eu diwygiad delfrydol (ibid.). Ni lwyddodd Field a Wilcox, ond

Its effects was not entirely lost. The pamphleteering, the national agitation organized in a great public cause, the appeal to parliament and the early connection between that appeal and the claim to free speech in the house of commons: all pointed forward to the puritan revolution of the seventeenth century (ibid., t. 337).

Cymaint oedd dylanwad Field a Wilcox nes bod Collinson yn honni mai *Admonition* Field a Wilcox, yn hytrach na darlithoedd Cartwright, a gychwynnodd yr ymosodiad Presbyteraidd ar Ardrefniant Elisabeth. Mae'n hawdd credu, rhwng darlithoedd Cartwright, yr *Admonition* a chyhoeddi *Ecclesiasticae disciplinae...explicatio* gan Walter Travers yn 1574, a'i gyfieithu gan Cartwright, fod Presbyteriaeth wedi meddiannu'r mudiad Piwritanaidd yn llwyr. Ond nid felly'r oedd hi. 'The "Admonition"', fel yr eglura Collinson, 'was a product of circumstance, reflecting the exasperated mood of Field and his immediate circle more than a general swing to presbyterianism in the puritan movement' (ibid., t. 340).

Datblygiad arall yn y 1570au oedd y cyrddau proffwydo. Sefydlwyd hwy gan glerigwyr Piwritanaidd gyda chaniatâd esgob ac ar ddechrau'r ddegawd roedd cyrddau o'r fath y cael eu cynnal yn rhan fwyaf o'r esgobaethau. Eglura Collinson:

The principal function of a prophesying was to educate a preaching ministry through the agency of the better clergy of the district. The main proceedings consisted of sermons preached on a select text by three or

four of the company under the presidency of a moderator, and before the other members of the exercise and, in most cases, a lay audience. But the public preaching was followed by private 'censure' and conference among the ministers alone, and that by a dinner where there might be some discussion of matters of common interest. This part of the day's proceedings enabled the ministers of an area roughly equivalent to the rural deanery to play some part in the government of their churches (ibid., t. 344).

Roedd gwedd ysbrydol, addysgol, bugeiliol a llywodraethol yn perthyn i'r cyrddau hyn. Tarddiad cyfandirol oedd iddynt. Fe'u cyflwynwyd i Loegr gan arweinwyr Piwritanaidd, 'yet few of those associations were presbyterian or even tended towards presbyterianism' (ibid.) sy'n atgyfnerthu thesis Collinson fod yna gorff nid ansylweddol o Biwritaniaid cymedrol yn gweithio o fewn Eglwys Loegr. Tasg dynion fel Field, felly, oedd ennill cefnogaeth yr 'hotter' sorts yma o Brotestaniaid i wedd 'hotter' fyth o Brotestaniaeth, sef Presbyteriaeth. Ond eto i gyd, nid Ymwahanwr ydoedd Field ond yn hytrach ei fwriad oedd gwir wreiddio Protestaniaeth o fewn yr Eglwys a chwblhau'r diwygiad: nid sefydlu eglwys Bresbyteraidd ymwahanol oedd ei fwriad.

Gwelai'r Frenhines y cyrddau hyn yn rhywbeth bygythiol wrth weld lleygwyr ac offeiriadon yn dod dan ddylanwad eu trefnwyr. Cyrddau yn annog pregethu oeddynt, ac roedd pregethu yn wedd bwysig o Eglwys Edward VI. Mae hyn yn dangos eto mai datblygiad o Eglwys Edward VI oedd Eglwys Elisabeth I, ac nid copi o honni. Yn wir, 'Elizabeth deliberately sought to take the spirit out of the Edwardian Church' (MacCulloch, 1999, t. 194). Cyhoeddodd Edward VI homiliau yn 1547 a oedd yn 'response to the lack of preachers in the Church, providing reliable substitute teaching for the people; but the official aim was also to complement them and to some extent render them redundant by the extension of preaching' (ibid.). Ond ni welodd Elisabeth yr angen i annog diwylliant o bregethu. 'Too much preaching outside the homilies could be

dangerous,' oedd ei barn yn ôl MacCulloch ac felly crëwyd ail set o 21 o homiliau yn 1563 er mwyn osgoi pregethu (ibid.). Gwelwn yr un polisi o dawelu pregethu yn agwedd Elisabeth I tuag at y cyrddau proffwydo. Gwelai'r cyrddau fel arwyddion o anghydfurfio. Cafwyd proclamasiwn ganddi yn Hydref 1573 yn beirniadu esgobion yn hallt am beidio â gwrthwynebu anghydfurfiaeth a dilynwyd hyn gan weithredu llys. Sefydlod 'special commission [...] to make a general enquiry into puritan disobedience, and to require subscription from suspected persons to articles defining the law of the Church on the questions in controversy' (Collinson, 1983, t. 347). Arweiniodd hyn at ddiarddeliad nifer fawr o weinidogion Pwritanaidd ac ymgartrefodd llawer ohonynt yn Llundain lle'r oedd Field a Phresbyteriaeth yn gynyddol ddylanwadol.

Er i'r Frenhines wahardd cyrddau proffwydo yn 1577 roedd y cyrddau'n parhau i ddigwydd. Cwynodd Esgob John Aylmer fod Field yn pregethu mewn tai preifat yn 1577 a bu'n ffigwr dylanwadol ymhlith Presbyteriaid Llundain. Yn ystod cyfnod yr Archesgob Edmund Grindal roedd y Pwritaniaid yn profi 'the closest co-operation between the bishops and the puritan clergy in the prophesying' (ibid., t. 350). Roedd Field mor boblogaidd fel ei fod wedi derbyn trwydded pregethu gan Brifysgol Rhydychen yn 1579 a bu'n gweinidogaethu yn Llundain, ac yn benodol yn Santes Fair, Aldermary lle y bu'n ddarlithydd plwyf nes iddo gael ei wahardd ym 1585.

Gymaint oedd pryder y Frenhines am y cyrddau proffwydo hyn, aeth Grindal ati i gynnal arolwg ohonynt er mwyn darparu tystiolaeth i'r Frenhines a cheisio'i hargyhoeddi nad oeddynt yn fygythiad mewn unrhyw ffordd. Canlyniad yr arolwg yma oedd atgyfnerthu 'Grindal's own conviction that for the health of the entire Church, the excercises must remain. His defiance of the Queen culminated in a 6000 word defence of the excerses and of the vital role of

preaching in the church' (MacCulloch, 1990, t. 42). Ond ysywaeth, fe arweiniodd yr arolwg at garcharu Grindal. Bu farw Grindal yn 1583 a darfu unrhyw obaith o weld diwygio pellgyrhaeddol i'r drefn esgobyddol. Esbonia MacCulloch, 'His successor would have a very different style in bringing discipline to the Church' (1990, t. 43). Dilynwyd Grindal gan John Whitgift a oedd yn fwy 'pendant ei bolisi i gryfhau gafael yr Eglwys Wladol ac i ymosod ar Biwritaniaeth' (Jones, 2014, t. 9). Gorfododd y Deugain Erthygl Namyn Un ar yr Eglwys gan achosi gofid, 'yn arbennig ym mlynnyddoedd yr wythdegau a'r nawdegau, i'r Piwritaniaid a deimlai eu bod yn dechrau colli tir' (ibid.). Cydymffurfiwr oedd Whitgift a gredai nad oedd yr allanolion Pabyddol o fewn yr Eglwys yn rhwystr rhag troi Lloegr yn wlad Brotestannaidd. Yn ei bregeth gyntaf fel Archesgob galwodd am ufudd-dod gan bawb, 'not least among whom were the bishops' (MacCulloch, 1990, t. 48). Cyflwynodd hefyd dair erthygl 'for subscription by all ministers of the church' (ibid.).

Mae MacCulloch yn esbonio pam y bu i'r ail erthygl achosi tyndra a phoen:

The real sticking-point in these articles was the second, which demanded that ministers assent to the proposition that the 1559 Prayer Book and the Ordinal 'containeth nothing ... contrary to the word of God'. Here was an attempt to sift out not merely those who wished to see the Church reorganised along Presbyterian lines, but also those who found aspects of the Church's liturgy distastefully reminiscent of popish superstition: a much wider group. Moreover, in its comprehensiveness the attack was designed to go beyond the parish clergy and higher dignitaries to those clergy who managed to escape most episcopal control because they held some casual post such as a lecturship or chaplaincy (ibid., t. 49).

Diarddelwyd rhwng 300 a 400 o glerigwyr o'u bywolaethau am na allent gydymffurfio ag erthyglau Whitgift, ond erbyn haf 1584, â Whitgift wedi cymedroli ei ofynion, 'most of the defiant ministers were offering conditional subscriptions in various forms' am nad oeddent yn barod i roi o'r neilltu eu

galwad i weinidogaethu (ibid.). O hyn allan, aeth Whitgift ar ôl y gweinidogion mwyaf gwrthwynebus, gan

[by] the proffering of a comprehensive set of interrogatories investigating the beliefs and practice of an individual minister in detail, and forcing him to answer in full by swearing an oath under the civil law form *ex officio mero*. It was an effective method of securing permanent deprivation of the most resolute non-subscribers; yet the incompatibility of this legal procedure with the customs of English common law gave it a disreputable air which further infuriated legalistically-minded gentlemen (ibid, t. 50).

Gwelwn yma, gyda dyfodiad John Whitgift i Gaergaint ym 1583, ddiwedd ar y berthynas lled-heddychlon rhwng yr anghydfurfwyr a'r Eglwys. Aeth John Whitgift ati'n syth i barhau â'i bolisi wrth-Biwritanaidd a oedd wrth fodd calon y Frenhines. Nod yr Archesgob oedd cadarnhau'r drefn eglwysig a sefydlwyd ym 1559 ac amddiffyn yr undod rhwng Eglwys Loegr a'r wladwriaeth. I'r perwyl hwn aeth ati'n ffyrnig i ddistewi'r Piwritaniaid trwy rym llys a thrwy gyhoeddi erthyglau i'w pardduo'n llym. Roedd ei bropaganda mor effeithiol fel iddo roi ergyd farwol i Bresbyteriaeth gan na allent wrthsefyll grymoedd cyfunol yr Eglwys a'r wladwriaeth. Hefyd bu farw Field ym 1588 a darbwyllwyd llawer o'r arweinwyr eraill i gyfaddawdu eu safbwyntiau a derbyn swyddi dylanwadol o fewn yr Eglwys. Cryfhawyd braich y Frenhines o ran ei bwriad i ddod â'r Eglwys a'r wladwriaeth yn nes at ei gilydd pan drechwyd Armada Sbaen ym 1588: defnyddiwyd yr Eglwys yn llwyfan i ddatlu'r fuddugoliaeth. Ond er gwaethaf yr erlid ar y Piwritaniaid, nid dyna eu diwedd, fel yr eglura John Gwynfor Jones:

parhaodd *classis* cymdeithasol, sef carfannau lleol o synodau yn cynnwys offeiriaid Piwritanaidd, i ymgyrchu dros ddiwygio eglwysig, a defnyddiwyd y 'Proffwydoliaethau' i hyrwyddo Presbyteriaeth oddi mewn i'r Eglwys gan baratoi ymgeiswyr am y weinidogaeth a darparu esboniadaeth ar yr Ysgrythurau (2014, t. 23).

Ymledodd y *classis* yma ac fe'u defnyddiwyd i alluogi'r aelodau i drafod eu Piwritaniaeth heb ymyrraeth esgobol, gyda John Field yn arwain y gwaith.

O ganlyniad i grwsâd Whitgift yn erbyn y Piwritaniaid yn y 1580au fe welwyd nifer o Biwritaniaid radical yn ymadael â'r Eglwys yn llwyr. Dwysawyd eu beirniadaeth o'r Eglwys a chyflwynwyd erthyglau yng Nghonfocasiwn 1585 i geisio tanseilio Presbyteriaeth. Arwydd arall o wrthwynebu'r Eglwys oedd y tyndra cynyddol a welwyd yn y Senedd. Roedd Presbyteriaid yn y Senedd bellach yn cyflwyno cynigion a ymosodai ar y drefn eglwysig, fel *Bill and Book* gan Syr Anthony Cope ym 1587. Ym 1587 hefyd cyflwynodd John Penry *Aequity of an Humble Supplication* i Dŷ'r Cyffredin. Awgryma John Gwynfor Jones fod gan Penry gefnogaeth sawl aelod Seneddol megis Edward Downlee a Job Throckmorton. Y Piwritaniaid radical hyn oedd yr ymwahanwyr, 'sef y sectau ymwahanol nad oeddynt yn barod i dderbyn y drefn' (Jones, 2014, t. 25). Meddai Coffey: '[a] Small number of radical Puritans, however, became so disaffected with the national church that they separated to form pure congregations' (2013, t. 51). Dyma oedd y 'logical progression of rejection and withdrawal from the established church' (Lake, 1982, t. 1).

Roedd y 'sectau ymwahanol' hyn am weld cynulleidfaoedd o addolwyr yn gweithredu'n annibynnol, yn unol â'r patrwm ar y Cyfandir. Hefyd, gwrthwynebent y berthynas glòs rhwng yr Eglwys a'r Goron a mynnent mai sail Ysgrythurol oedd i'w hanfodlonrwydd. Ymhlith eu harweinwyr roedd Henry Barrow a Robert Browne. Mynnodd John Greenwood 'nad oedd gan yr Eglwys weinidogaeth gyfreithlon ac na osodwyd ei chynulladau ar sail ysgrythurol gadarn eithr yn hytrach ar ganonau Catholig gwyrdröedig' (2014, t. 26). Yn y cyd-destun hwn ymddangosodd draethodau Martin Marprelate a brofai 'yn faentramgwydd i'r awdurdodau ddod i'r afael â phroblem yr Ymwahanwyr, a chollasant gryn dipyn o'u hygrededd o ganlyniad i hynny' (Jones, 2014, t. 26).

Carcharwyd nifer o arweinwyr yr Ymwahanwyr, a dienyddwyd Barrow, Greenwood a Penry ym 1593.

Yn 1582, cyhoeddodd Robert Browne *A Treatise of reformation without Tarying for anie*. Roedd hwn yn draethawd 'ffyrnig yn erbyn y sefydliad crefyddol' lle y cyhoeddodd 'bod angen diwygio gweinidogion aflan nad oeddynt yn barod i ymgymryd â'r cyfrifoldebau nes byddai swyddogion y llywodraeth sifil yn eu gorfodi trwy gyfraith' (Jones, 2014, t. 26). Yn ei draethawd mynnodd nad eglwys ddaearol ydoedd gwir eglwys Crist, ond yn hytrach eglwys anweledig ysbrydol ydoedd. Yr un oedd cenadwri Robert Harrison yn *A Treatise of the Church and the Kingdome of Christ* (1581). Mae'n amlwg mai 'amcan datganiadau o'r fath oedd gosod pwysau cyson ar yr hyn yr ystyriai'r Ymwahanwyr i fod yn sail annuwioldeb yr Eglwys' (Jones, 2014, t. 27). Perthyna Browne a Harrison i'r sect ymwahanol Annibynnol 'a gynyddai i fod y garfan gryfaf yn eu [yr Ymwahanwyr] plith' (Jones, 2014, t. 27). Afraid dweud, 'separatism was brutally suppressed by the authorities' (Coffey, 2013, t. 51). Erbyn blynyddoedd canol teyrnasiad Elisabeth gwrthwynebai'r Frenhines ddwy garfan yn arbennig a oedd am ddiddymu'r Eglwys, sef y Presbyteriaid oddi fewn i'r Eglwys a'r Ymwahanwyr oddi allan iddi.

Heb os, roedd ymgysylltu ac uniaethu â sect ymwahanol yn weithred o fradwriaeth yn erbyn yr Eglwys a'r Goron. Gwelai'r awdurdod eglwysig a ffyddloniaid y Goron bamffledi Marprelate a safbwyntiau dynion megis Penry, Greenwood a Barrow yn hynod beryglus a bradwrus. Arweiniodd hynny at ymateb chwyrn yn eu herbyn, 'and from the 1590s onwards, anti-Puritanism would serve to legitimize a new style of conformist churchmanship that sought to distance the Church from the Reformed tradition' (Coffey, 2013, t. 52). Sut mae rhywun yn labelu'r bobl hyn? Ai Arminiaid neu Laudiaid neu Uchel

Eglwyswyr neu Anglicaniaid oeddent? Y broblem a wynebir yn syth gyda'r label 'Anglican' yw fod y bobl hyn hefyd yn anghydfurfwyr fel roedd y Presbyteriaid gan eu bod nhw am dynnu'r Eglwys i'r pegwn arall, ac yn ôl at Babyddiaeth (Coffey, 2013, t. 52). Ond eto i gyd, mynna John Coffey mai dechreuadau Anglicaniaeth oedd yr adwaith hwn yn erbyn Piwritaniaeth. Esbonia:

For them, the English Church was (or was meant to be) unique, and they lamented its drab services, its low view of the sacraments, its predestinarian doctrine, its warm relations with continental Calvinists, its nonconformist clergy and their populist appeals to the laity. The Church of England, they believed, should aspire to something better, something more elevated. It should be the perfect embodiment of patristic Christianity, it should reinforce the dignity and authority of its bishops, it should rediscover 'the beauty of holiness' and it should emphasize the real presence of Christ in the eucharist [...] these divines were busy inventing 'Anglicanism' as something set apart from the vulgar Reformed churches of the continent (2013, tt. 52-3).

Er mwyn sicrhau nad oedd y garfan hon o bobl yn dad-wneud gwaith y Diwygiad, 'the vast majority of Puritans remained within the Church' (Coffey, 2013, t. 53); ond erbyn y 1590au bu newid yn eu ffocws. Wedi anobeithio o ran gweld diwygio pellach o fewn yr Eglwys, canolbwyntiodd sawl Piwritan cymedrol yn yr Eglwys ar waith bugeiliol, ac yn hyn o beth, daeth yn fudiad pietistaidd. 'The godly clergy pioneered "a hotter sort" of Protestantism, marked out by a strenuous programme of voluntary religion beyond the parish service' (Coffey, 2013, t. 53). Eglura Collinson:

By the end of the century, the English divines were altering the balance of Calvin's original synthesis, placing novel emphases on experience and assurance, piety and ethics, enlarging the concept of covenant. These developments, which amounted to the emergence of a distinct system of English puritan divinity, can be interpreted as the domestication of Calvinist doctrine to fit the needs of voluntary societies of the godly whose godliness enjoyed an independence of the ordered, sacramental life of the church which Calvin, for one, would have found undesirable (1983, t. 7).

Ymhlith prif nodweddion y bietistiaeth hon roedd gwrthod mynychu tafarndai, a

leisure time which might otherwise have been spent in idle pastimes was assiduously devoted to public religious “exercises”, which in rural areas at least were voluntary and brought together a regular clientele of “gadders to sermons” from a wide circle of parishes (ibid.).

Anogwyd plwyfolion i ymgynnull i wrando ar bregethau a darlithoedd, darllen llyfrau defosiynol, gweddïo ac ymprydio, addoli fel teulu, canu salmau a chyfarfod i trafod eu profiadau crefyddol mewn grwpiau bach (*conventicles*). Mewn rhai mannau bu i nifer o blwyfolion duwiol wrthwynebu a herio offeiriadon llai galluog a gwelwyd dechrau ar yr arfer o hurio offeiriad Piwritanaidd i weinyddu bedydd plant.

Wrth i Bresbyteriaeth edwino yn ystod y 1580au, cynyddai nifer pregethwyr yr Ymwahanwyr, er nad oeddynt yn niferus iawn. Cawsant nawdd a chefnogaeth teuluoedd breintiedig a ddaliai swyddi pwysig o fewn llywodraeth leol a chanolog ac yn y llys brenhinol. Roedd yr Ymwahanwyr wedi ymadael â'r Eglwys 'am na chredent ei bod yn wir was Duw a sefydlasant eu cynulleidfaoedd bychain a gwasgaredig eu hunain a elwid yn “eglwysi cynulledig”, ac ymunodd rhai Presbyteriaid â hwy' (Jones, 2014, t. 31). Roedd yr eglwysi hyn wedi bodoli er 1580 pan sefydlodd Browne a Harrison 'eglwys gynulledig' yn Norwich. Aeth y dynion hyn mor bell ag awgrymu y dylai'r awdurdodau seciwlar fynd ati i ddiwygio'r Eglwys Wladol am fod yr Eglwys ei hun yn analluog i wneud hynny. Yn 1591 cyhoeddwyd *Plaine Refutation of M. G. Giffardes reprochful booke, intituled a short treatise against the Donatists of England* gan Barrow fel ymateb i ddadl George Gifford lle mynnai mai Ailfedyddwyr, rhwygwyr, hereticiaid a Donatistiaid oedd yr Ymwahanwyr.

Yn ei draethawd pwysleisiodd Barrow bedwar prif wendid yr Eglwys Wladol. Yn gyntaf, roedd hi'n euog o ffug-addoliad a'r addoliad hwnnw wrth gwrs wedi'i sylfaenu ar y Llyfr Gweddi Gyffredin a oedd yn greadigaeth dyn ac

nid Duw. Yn ail, roedd yr Eglwys yn derbyn pob dyn yn ddiwahan. Ond i Barrow, 'dim ond y rhai a wnaeth gyfamod â Duw ac a gadwodd ei orchmynion a dderbyniwyd yn aelodau o'r gwir Eglwys, y rhai a ddatganai eu ffydd ac a addunedai i fod yn ffyddlon iddo'. Yn drydydd, roedd Barrow yn bryderus iawn ynghylch cyflwr ysbrydol yr offeiriadaeth a'u cymwyseddau o ran cyflawni eu swyddogaethau'n briodol. Dadleuai Barrow, i fod yn unol â'r Ysgrythur, y dylai pob offeiriad fod yn batrwm o addysgwr, henuriad, diacon a lliniarydd, ac wedi'i ordeinio a'i alw gan gynulleidfaoedd i ofalu am y llesg a'r tlawd. Yn olaf, nid oedd eglwys Elisabeth wedi ei llunio ar sail yr Eglwys Fore, ac oherwydd hynny, credai Barrow nad oedd ganddi'r hawl i honni ei bod yn wir briod Crist (Jones, 2014, tt. 32-33). Yn syml, 'gan nad oedd yr Ardrefniant Eglwysig wedi'i sylfaenu ar yr Ysgrythurau, nid oedd yr Eglwys Wladol yn wir Eglwys Crist' (ibid., t. 33).

Roedd yr ymgyrchu ymhlith Ymneilltuwyr i wrthwynebu'r drefn yn parhau wrth i'r ganrif ddod tua'i therfyn, 'a phan ddaeth Iago VI o'r Alban i orsedd Lloegr ar farwolaeth Elisabeth yn 1603 ystwythwyd y berthynas ychydig rhwng y Goron a Phiwritaniaeth Bresbyteraidd ac â'r Ymwahanwyr' (Jones, 2014, t. 34). Parhau a wnaeth crwsâd didostur Whitgift a Bancroft yn erbyn y Presbyteriaid a'r Ymwahanwyr ac ymledodd hwnnw i'r rhanbarthau'n ogystal. Polisi'r ddau oedd sicrhau fod yr holl offeiriadon a bregethai yn ymrwymo i dair o'r erthyglau a ddaeth o law Whitgift ym 1583, gan gynnwys gorfodi offeiriadon i ufuddhau i gynnwys y Llyfr Gweddi Gyffredin. Ymatebodd Ymneilltuwyr fel Barrow yn chwyrn i hyn gan honni mai cynnal gweinidogaeth yr Anghrist a wna'r Eglwys erbyn hyn, a bod pwyslais yr addoliad ar eilunaddoliaeth ac ofergoel ac wedi'i selio ar arferion Rhufeinig yn hytrach nag ar rai Beiblaidd (Jones, 2014, tt. 34-35).

A dyna ni wedi cyrraedd yr hyn a oedd yn sail i'r cyfan o'r dadleuon mewn gwirionedd, sef yr 'awdurdod a roddid i'r Ysgrythurau ar draul seremonïaeth a ffurfwasanaeth' (Jones, 2014, t. 36). I'r Piwritan, 'Gair Duw a sancteiddrwydd y gydwybod ddynol a chredo Galffinaidd mewn rhagordeiniad oedd bennaf a holl-ddigonol tra credai'r Eglwys, fel yr eglurai Richard Hooker, mai ei gorchwyl hi'n unig oedd ei ddehongli' (Jones, 2014, t. 36). Roedd Hooker o'r farn fod ufudd-dod i'r Eglwys yn gyfystyr ag ufudd-dod i'r frenhiniaeth. Buasai'r Piwritaniaid cymedrol yn cytuno â hyn, ond collwyd y cyfle i ddod i ryw fath o gyfaddawd o fewn eglwys Elisabeth.

Eglwys wan a diymadferth oedd eglwys Elisabeth erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg ac mae ymosodiadau'r Piwritaniaid arni yn dangos hynny'n glir. Roedd yr offeiriaid plwyf yn dlawd ac anhyddysg; roedd amlblwyfaeth yn rhemp; ac roedd lleygwyr barus yn trawsfeddiannu tiroedd eglwysig a'u degymau. Bu farw llawer o'r esgobion a oedd yn alltudion yn nheyrnasiad Mari yn y 1570au a'r 1580au. Dienyddiwyd Barrow, Greenwodd a Penry yn 1593 a charcharwyd Carwright yn 1590, ac felly hefyd John Udall, cyfaill i Penry ac (o bosibl) awdur pamffledi Marprelate yn 1592. Daeth dynion fel John Woolton, John Young a John Aylmer yn esgobion a phob un ohonynt yn barod iawn i ddilyn polisi Bancroft.

Serch hynny, roedd Piwritaniaid cymedrol yn parhau i weithio 'with bishops, defending Reformed orthodoxy and participating in the translation of the Authorized Version of the Bible in 1611'. Dywed Coffey fod Piwritaniaeth dan lago I yn 'cutting edge of English Protestantism'. Dim ond carfan fechan oedd wedi ymwahanu a 'there seemed little prospect of a major schism between Puritanism and Anglicanism' (2013, t. 54). Awgryma Collinson fod esgobion Lloegr 'outshone both English and Scottish presbyterians by their learned and

laborious writing and sound disputing against Papistry' yn 1606 (1982, t. 44). Un o'r esgobion hynny oedd Tobias Matthews, Archesgob Caerefrog o 1606 ymlaen: mae ei bregethau wedi'u diogelu ac yn rhifo 1,992 ac yn dystiolaeth glir o werthoedd Piwritanaidd y gŵr eglwysig hwnnw.

Ond, daeth tro ar fyd. Cychwynnodd y Rhyfel Deng Mlynedd ar Hugain yn 1618 pan wrthryfelodd Calfiniaid Bohemia yn erbyn yr Ymerawdwr Pabyddol. Cynigiodd y Calfiniaid y goron i fab yng nghyfraith Iago I yn gyfnewid am gefnogaeth Lloegr yn yr achos. Roedd llawer o'r Piwritaniaid a'r Calfiniaid o fewn yr Eglwys Wladol yn credu y dylai Lloegr gefnogi, ond ni chafwyd unrhyw fath o benderfyniad gan y Brenin, ac fe drechwyd y Calfiniaid. Roedd y Brenin yn gorfod troedio'n ofalus iawn oherwydd yr oedd yn dibynnu, i raddau helaeth iawn ar yr Arminiaid a'r Uchel Eglwyswyr i gadw'r heddwch o fewn yr Eglwys Wladol. Nid oedd yr Arminiaid na'r Uchel Eglwyswyr ymhlith y rhai mwyaf cefnogol i brotestaneiddio'r Eglwys ymhellach, ac yr oedd ganddynt y parch mwyaf i awdurdod y Brenin. Coronwyd Siarl I yn frenin yn 1625 a phenodwyd William Laud yn esgob Llundain yn 1628, ac yna'n Archesgob Caergaint yn 1633, ac yntau yn Arminiad pybyr.

Gofynnodd Collinson y cwestiwn diddorol 'what, or rather who, was the Church in the late 1620s?' (1982, t. 80). Awgrymodd y gellid canfod yr ateb yn y ffaith fod yr arfer o gyfeirio at yr Eglwys fel 'Mam' wedi mynd yn fwy cyffredin erbyn y 1620au. Defnyddiwyd y term gan 'elitist High Anglican[s]' er mwyn ei hanwylo a'i hamddiffyn rhag ymosodiadau ei gelynyon (Collinson, 1982, t. 80). Canai George Herbert yn ei gerdd 'The British Church': 'I joy, deare Mother, when I view Thy perfect lineaments and hue' (gol. Hutchinson, 1941, t. 109). Yn ei lythyrau, ysgrifennai Richard Montague, yr Uchel Eglwyswr, yn annwyl am yr Eglwys. Nid oedd Montague yn hoff o'r Eglwys led-ddiwygiedig. 'The visible

Church I do not greatly care to look upon. I have beheld such enough heretofore,' meddai mewn llythyr at John Cosin (gol. Ormsby, 1869, i, t. 42). Eglura Collinson: 'By the visible Church he meant the hierarchy, then on public display in Convocation, whom he regarded more in sorrow and distaste than anger' (1982, t. 80). Dechreuodd Laud a'i gefnogwyr newid disgwrs yr Eglwys. 'By identifying their own cause with that of the Church, as Laud did in marking off churchmen with "O" for Orthodox and "P" for Puritan, the Arminians inverted what the religious majority believed to be the true order of things' (Collinson, 1982, t. 81). Yr hyn a oedd yn uno'r Piwritaniaid ymwahanol a'r Piwritaniaid cymhedrol o fewn Eglwys Loegr oedd eu cred gyffredin mai Calfiniaeth oedd y ddysgeidiaeth uniongred a bod Calfiniaeth yn eu huno. Roedd hyn yn gwrthdaro'n llwyr ag argyhoeddiad Laud a fynnai mai Arminiaeth oedd y ddysgeidiaeth uniongred: iddo ef, roedd Calfiniaeth yn gyfystyr â Phiwritaniaeth.

'The rise of the Laudians was accompanied by fresh assault on Puritanism. As the godly clergy came under increasing pressure for nonconformity, some decided to emigrate' (Coffey, 2013, t. 54). Rhwng 1628 a 1640 ymfudodd tua 15,000 o Loegr i Loegr Newydd ym Mae Massachusetts ac yn eu plith yr oedd 76 clerigwr Piwritanaidd. Dychwelodd nifer ohonynt i Loegr ym 1640 gydag agor y Senedd Hir. Diddorol nodi fod eglwysi Lloegr Newydd yn ymdebygu i eglwysi plwyf:

But the Massachusetts Congregationalists continued to practice infant baptism and their meeting houses functioned as parish churches, with the whole population expected to attend. In line with the magisterial Reformation, the civil authorities had the power to punish heresy and blasphemy. The churches of Massachuttes were still established, state churches. (Coffey, 2013, t. 55).

Yn Lloegr, roedd rhai Piwritaniaid yn symud i gyfeiriadau mwy eithafol. 'Godly clergy had forged a hot Protestant subculture in which the laity were galvinised

and mobilized' (Coffey, 2013, t. 55). Er enghraifft, gwelwyd cynnydd yn yr arfer o fwrw cythreuliaid ac o broffwydi a chynyddwyd y nifer o bregethwyr lleyg. Roedd Arminiaeth a'r modd eithafol yr oedd Laud yn ymosod ar Biwritaniaeth yn achosi i bobl wyro tuag at 'outright dissent'. Tyfodd nifer yr ymwahanwyr a phrofwyd 'outrage' ym 1637 pan dorwyd clustiau Henry Burton, William Pryne a John Bastwick, tri Piwritan blaenllaw, am feiddio beirniadu esgobion (Coffey, 2013, t. 55).

Roedd hyd yn oed y Piwritaniaid cymedrol yn 'rapidly becoming more sceptical' gyda arweinyddiaeth Laud (Coffey, 2013, t. 55). Y rheswm am hyn, fel y profa Nicholas Tyacke, oedd oherwydd 'the characteristic theology of English Protestant sainthood was Calvinism, centring on a belief in divine predestination' (1987, t. 1). Rhwng 1579 a 1615 er enghraifft, cyhoeddwyd 39 argraffiad o Feibl Genefa, pob un ohonynt wedi'u cyhoeddi yn Lloegr, a phob un 'had a predestinarian catechism' (ibid., t. 2). Roedd hyd yn oed dynion a wrthwynebai'r Piwritaniaid megis Richard Bancroft yn arddel Calfiniaeth a rhagarfaeth (ibid., t. 3). Y gwir yw, 'Calvinism was the *de facto* religion of the Church of England under Queen Elizabeth and King James' (ibid., t. 7). Serch hyn, roedd Laud yn Armin ac ef 'took the anti-Calvinist initiative' (ibid., t. 70).

Tyfodd y naws amheugar yn 1638 pan wrthwynebodd y Cyfamodwyr ymgais Laud i orfodi Esgobyddiaeth ar yr Alban. Nid syndod i Coffey ddweud fod 'a sense of apocalyptic foreboding' yn y tir (2013, t. 55). Meddai Coffey:

A group of leading noblemen [...] began plotting against the Laudian regime. When Charles I failed to suppress the Covenanter revolt in the First Bishops War of 1639, he found himself caught between Scottish rebels and an English fifth column. In 1640, he had no choice but to recall parliament for the first time in eleven years. His Personal Rule was over, and the struggle for a new religious settlement was underway (2013, t. 55).

Yn ôl Collinson, Laud, a'i atgasedd tuag at y Piwritaniaid oedd yn gyfrifol am yr argyfwng hwn. Meddai: 'Laud was indeed the greatest calamity ever visited upon the English Church' (1982, t. 90). Dangosa Tyacke mai Eglwys Galffinaidd oedd Eglwys Loegr yn ystod teyrnasiad Elisabeth I a lango, felly camarweiniol yw dehongliad New a Lloyd-Jones wrth iddynt fynnu mai corff gwrth-Biwritanaidd oedd Eglwys Loegr oherwydd gwelwyd cryn wrthwynebiad i weithredoedd Laud, yr Archesgob Arminaidd, a chyfrifir ei gyfnod ef ymhlith cyfnodau tywyllaf yn hanes Eglwys Loegr. Roedd Archesgob y cyfnod yn wrth-Biwritanaidd, ond ni ellid honni hynny am yr Eglwys.

Er mai unigolion, digwyddiadau a syniadau'r 1640au a'r 1650au yw testun fy nhraethawd, roedd hi'n angenrheidiol rhoi'r Piwritaniaid Cymreig yn eu cyd-destun. 'Puritan influence, when it arrived [in Wales], was purely a Stuart, and post-Stuart, phenomenon', meddai D. Densil Morgan (2013, t. 27). Ond roedd hedyn sectyddiaeth wedi'i blannu yn ail hanner y ganrif flaenorol, chwedl John Gwynfor Jones, hedyn a oedd 'i ddwyn ffrwyth yn nyddiau mwy adfydus blynyddoedd canol yr ail ganrif ar bymtheg' (2014, t. 37). A gellir dadlau, felly, fod Piwritaniaid cymedrol, o leiaf, ar waith yng Nghymru ac yn y Gymraeg yn ystod y degawdau rhwng y 1560au a'r 1590au a bod dylanwad Piwritaniaeth i'w weld yng Nghymru cyn cyfnod y Stiwardiaid.

Rydym wedi gweld mai canlyniad diffinio Piwritaniaeth yn rhy gul, fel y gwnaeth Lloyd-Jones, ac awgrymu fod tyndra amlwg rhwng Eglwyswyr a Phiwritaniaid o'r dechrau, fel y gwnaeth New, yw colli'r Biwritaniaeth gymedrol. Y mae lle i'n hatgoffa ein hunain hefyd na ddylid cyfyngu hanes Piwritaniaeth gynnar Cymru i berson a hanes John Penry. Roedd dynion megis Richard Davies, esgob Tyddewi, Huw Lewys, Maurice Kyffin, Robert Holland, Rowland Puleston, Edward James, Robert Llwyd, Rhys Prichard a John Davies yn arddel

Piwritaniaeth gymedrol yn ogystal. Dyma 'wŷr eglwysig a goledai rai o'r tueddiadau Protestannaidd efengyleiddiol' (Jones, 2007, t. 210) a gysylltir â Phiwritaniaeth gymedrol.

Yn ei ragymadrodd i'r Testament Newydd yn 1567, dywed Richard Davies 'pa mor faterol ac anystyriol y gallai cymdeithas fod yng Nghymru mewn cyfnod o raib, hunanoldeb a thrythyllwch' (ibid., t. 210); ac meddai ymhellach:

Edrych ar ddull y byd, yno i cei brofedigaeth. Mae'n gymaynt trachwant y byd heddiw i tir a dayar, y aur, ac arian, a chowaeth, ac na cheir ond yn anamyl vn yn ymddiriet i Dduw, ac yw addaweidion. Trais a lladrad, anudon, dichell, ffalster, a thraha : a rhain megis a chribynae mae pob bath ar ddyn yn casclu ac yn tynnu atto. Ni fawdd Duw y byd mwy a dwr diliw: eithr mae chwant da'r byd wedi boddi Cymru heddiw, a chwedi gyrru ar aball pob ceneddfae arbennic a rhinwedd dda [...] Maddeuwch i mi hyn o gaswir: herwydd precethu'r caswir ys y yn siars precethwr [...] Ni chafi o ennyt yma fanegi yr anrhaith a wnaeth chwant da byd, ac anghrediniaeth i addaweidion Duw ar bob rryw ddyn ynghymru o eisie dysceidieth yr yscrythr lan (gol. Hughes, 1976, tt. 32-33).

Dyma esgob a oedd yn arddel credoau y byddai Piwritaniaid yn cytuno â hwy yn dwymgalon. Pregethodd yn erbyn pechod, trachwant, anrhaith, hunan-dyb a rhodres, gan gwyno fod Gair Duw yn cael ei esgeuluso ymhlith clerigwyr.

Dywed Huw Lewys yn ei ragymadrodd i *Perl mewn Adfyd*, ei gyfieithiad o *A Spyrytuall and moost Precious Pearle* gan Miles Coverdale, a oedd yn ei dro yn gyfieithiad o waith Otto Werdmüller, gweinidog Zwingli'iaidd o Zurich, mai 'esgeulustod yr offeiriadaeth yn bennaf a gyfrifai am ddiffyg llyfrau crefyddol addas yn y Gymraeg ac am wendidau'r bywyd ysbrydol ymhlith y Cymry' (Jones, 2007, t. 58). Meddai Lewys:

Yrawrhon, y diffyg hwnn o lyfreu sy in mysc (gida bod y Preladieit ar gwyr eglwysig hwythau yrhann fwyaf yn ddiog yn ei swydd ai galwedigaeth, heb ymarddel a phregethu ac a deongl dirgelwch gair duw i'r bobl, eythr byw yn fudion, ac yn aflafar, fal cwn heb gyfarth, clych heb dafodeu, ne gannwyll dan lestr) yw yr achos paham y mae cymeint o

anwybodaeth mewn pethau ysprydawl in mysc (gol. Hughes, 1976, t. 101)

Mae Huw Lewys hefyd yn nodi fod esgeulustod yr offeiriadaeth wedi arwain at 'gaudduwiaeth, delw-addoliant, pereryndod, gweddio ar Sainct meirwon, ar cyfryw ddiwres argoelion in mysc'. Mae Lewis hefyd yn beirniadu'r Eglwys am y ffordd yr oedd yn gadael i leygwyr ysbeilio ei heiddo a'i thir: 'Hyn yw yr achos, pa ham y mae cymeint, o falchder, a rhodres (a hynny heb droed) ie ymysc rhai gwael, iselradd. Pa faint yw rhwysc cybydd-dod, vsuriaeth, chwant, trais, lledrat ac ysbel, in mysc'. Yn wir, 'Puteindra, ac anlladrwydd ni bu eriod fwy' oherwydd esgeulustod offeiriadon yr Eglwys. Dyma lefaru Piwritanaidd ac y mae disgrifiad Lewys o ddiffygion yr offeiriadaeth yr un mor ddeifiol ag un Penry. Ond cofier mai offeiriad yn gwasanaethu yn Llanddeiniolen ydoedd. Ei gonsyrn oedd esgeulustod ei gyd-offeiriadon a oedd yn amddifadu'r plwyfolion rhag derbyn gweinidogaeth ysbrydol ac yn rhwystro'r Eglwys rhag cyflawni ei phriod waith. Dyma Biwritaniaeth gymedrol leol â'i phwyslais ar weinidogaeth lleol. Cyflwr a chenhadaeth yr Eglwys Brotestannaidd oedd consyrn Huw Lewys, a byddai pob Piwritan yn y cyfnod yn medru uniaethu â'i bryderon.

Mae is-deitl ei gyfrol, *Perl ysprydawl, gwyrthfawrocaf*, yn dangos mai pregethu'r gair a gwendidau'r offeiriadaeth oedd sail y mwyaf o'i bryderon a'i feirniadaeth:

Dyscu i bôb dyn garu, a chofleidio y groes, me[g]is peth hyfryd angenrheidiawl ir enaid, pa gonffordd sy yw gael o honi, ple, ac ym ha fodd, y dylid ceisiaw diddanwch, a chymorth ym hob adfyd: a thrachefn, pa wedd y dyle bawb i ymddwyn i hunain mewn blinder, yn ol gair duw (gol. Gruffydd, 1929, t. i).

Meddai John Gwynfor Jones, 'Nid oedd yn Biwritan yn ystyr arferol y gair [sef yn ôl yr hen gonsensws] oblegid fe'i dyrchafwyd i safle urddasol yn rhengoedd

clerigwyr ei gyfnod yng Ngwynedd' (2007, t. 213). Ond ni ellir gwadu y gellid ei gyfrif ymhlith y Piwritaniaid hynny a welai mai o fewn yr Eglwys Wladol yr oedd eu lle hwy, ac nid ymwahanu oddi wrthi.

Gwlad anllythrennog ar y cyfan oedd Cymru yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ac oherwydd hynny, offeiriadon a phenteuluoedd oedd cynulleidfa darged dynion megis Richard Davies a Huw Lewys. Rhaid oedd pwysu arnynt hwy i ddyfnhau eu ffydd 'trwy ymlynu wrth athrawiaethau Protestannaidd a'u lledaenu ymhlith gwerin gwlad na feddent y gallu i'w dysgu eu hunain' (ibid., t. 214). Ofn Maurice Kyffin yn ei ragarweiniad i *Deffynniad Ffydd Eglwys Loegr* (1595), sef ei gyfieithiad o *Apologia Ecclesiae Anglicanae* (1562) gan John Jewel, esgob Caersallog, oedd bod clerigwyr, penteuluoedd a gwŷr llythrennog Cymru yn poeni dim am ddyfnhau eu ffydd Brotestannaidd nac yn gweld yr angen i rannu'r ffydd honno â'r werin anllythrennog. Rhoddodd Kyffin bwyslais gwladgarol hefyd:

Yn wir chwith iawn yw dal sylw ar lawer o wyr Eglwysig cymreig yn byw ar bris eneidieu dynion, a bagad eraill o Gymry yn cymeryd arnynt eulun dysc a goruchafiaeth, heb gentynt fri'n y byd a'r iaith eu gwlad, eithr rhusso'i doedyd, a chwylyddio'i chlywed, rhag ofn iss-hau ar eu gradd a'u cymeriad (gol. Hughes, 1976, tt. 90-91).

Amcan Davies, Lewys a Kyffin wrth feirniadu offeiriaid a galaru am fethiant Eglwys Loegr yn ei thasg o ledaenu'r ffydd a dysgu ac egluro'r Ysgrythur i'r werin, oedd goleuo eu cyd-Gymry yn hanfodion y ffydd Brotestannaidd. Dyma agwedd ar Biwritaniaeth gymedrol glir yn cael ei lleisio gan Eglwyswyr selog a dylanwadol.

Piwritan cymedrol arall o Gymro oedd Robert Holland, cyfieithydd gweithiau William Perkins i'r Gymraeg. Ordeiniwyd ef yn ddiakon yn esgobaeth

Bangor tua 1579 ac yna fe'i hurddwyd yn offeiriad yn esgobaeth Ely o gwmpas 1580. Bu'n fyfyrwr yng Nghaergrawnt a dichon y cafodd ei ddylanwadu gan ddatblygiadau crefyddol y brifysgol yn y cyfnod hwnnw. Derbyniodd Holland ei radd Meistr yn 1581 o Goleg yr Iesu, Caergrawnt, yr un flwyddyn ag y gadawodd John Whitgift Goleg y Drindod i fod yn esgob Caerwrangon, cyn cael ei apwyntio'n Archesgob Caergaint yn 1583. Byddai Holland felly'n cofio'r ffordd y bu i Whitgift drin Cartwright. Er i Cartwright golli ei swydd am ddarlithio ac annog gwerthoedd Presbyteraidd, roedd llawer o Biwritaniaid yn parhau'n weithgar yn y ddinas. Yn 1584 penodwyd Laurence Chaderton yn feistr cyntaf Coleg Emmanuel, a oedd 'virtually a seminary to train Puritan ministers for the national church' (Morgan, 2018, t. 17). Pregethai Chaderton bob prynhawn Sul yn Eglwys Sant Clement lle yr oedd nifer o fyfyrwyr yn gwranddo arno a Holland mae'n siŵr yn eu plith.

Wedi degawd yn gweinidogaethu yn Lloegr, symudodd Holland i Prendergast, Hwlfordd, sir Benfro ym 1591. Daeth yn rheithor Llanddowror, sir Gaerfyrddin yn 1600 cyn symud yn ôl i sir Benfro ac i Gastell Gwalchmai ym 1607 ac i Robeston West ym 1612. Fel y soniwyd eisoes, cymwynas fwyaf Holland oedd ei gyfieithiadau o waith Perkins. Roedd y ddau yng Nghaergrawnt yr un adeg a'r ddau dan ddylanwad Chaderton. Roedd Perkins yn ddisgybl iddo. Daeth yn gymrawd yng Ngholeg Emmanuel yn 1584 ac yn bregethwr neu ddarlithydd cyson yn Eglwys Sant Andreas, ond yn wahanol i Chaderton, nid oedd Perkins am danseilio awdurdod eglwysig. Yn hytrach, '[he] sought to conform, as far as possible, to the stipulations and practices of the Book of Common Prayer' (Morgan, 2018, t. 18). Credai hyn gan y fynnai nad oedd seremonïaeth yn yr Eglwys yn rhwystro iachawdwriaeth unigolyn. Credai felly ei

bod hi'n rhesymol 'to observe the minimal ceremonial that the Established Church required of its clergy' (ibid., tt. 18-19).

Cyfieithodd Holland *Agoriad byrr ar Weddi'r Arglwydd* ('A Short Exposition on the Lord's Prayer') ym 1592. Tua'r un adeg cyhoeddodd waith gwreiddiol dan y teitl *Ymddiddan Tudur a Gronw* sy'n sgwrs ddychmygol rhwng Tudur, sy'n werinwr cyffredin, a Gronw, sy'n hyddysg yn y Beibl, lle trafodent wrachyddiaeth. Mae Tudur yn ddigon hapus gydag ofergoeliaeth a hud a lledrith gwledig, ond mae Gronw yn rhybuddio'n erbyn unrhyw beth sy'n tarddu o'r diafol a diwylliant anfeiblaidd. Dengys y gyfrol hon y duwiolfrydedd oedd yn dod yn ffocws i Biwritaniaeth y 1590au, yn hytrach na'r pwyslais a fu ar eglwysyddiaeth.

Cyfieithodd Holland hefyd waith gan Iago I yn 1599 a dau o weithiau eraill Perkins yn 1593, ond collwyd y ddau olaf mewn tân. Yn 1622 cyhoeddodd gyfieithiad arall o waith Perkins, sef *The Foundation of Christian Religion*. 'This was a work', esbonia Morgan

of simple instruction in six succinct parts expounding the reality of God; the fact of human sinfulness; the means of salvation through Christ's sacrificial death; the call to repentance and faith; the central importance of preaching, the sacraments and prayers; and the inevitability of judgement (ibid., t. 21)

Ym mlynnyddoedd cynnar yr ail ganrif ar bymtheg gwelwyd 'gwyro cynyddol tuag at dduwiolfrydedd yn hytrach nag ysgolheictod dyneiddiol. Pwysleisiwyd fwyfwy'r athrawiaeth Biwritanaidd er na cheid mudiad Ymneilltuol neu ymgyrch yn y wlad i sefydlu eglwysi o gwbl' (Jones, 2007, t. 215). Parhau i ddominyddu cynnyrch llenyddol Cymru a wna'r Piwritaniaid cymedrol yn ystod y cyfnod hwn. Gwelir dechrau'r traddodiad hwn yng ngwaith Rowland Puleston,

curad Wrecsam, a oedd yn un o'r trefi prin hynny yng Nghymru a brofodd ddylanwad a phresenoldeb Piwritaniaeth amlwg. Ysgrifennodd y traethawd *Llefr o'r Eglwys Crhristnagedd* ym 1583 ac y mae'n Biwritanaidd ei gynnwys o ran moes a disgyblaeth eglwysig. Eglura mai gwir genhadaeth ysbrydol yw:

Holl cowir cwmffort oes ddyn a'i iachadwriaeth ssy yn sefyll yn vnic yn gwybodaeth Crhist lessv ac mewn moliannv i henw Ef, ac mewn dim arall ney amgenach. Beth ynte (oherwydd hyn) all fod mwy angenrheitiach i iachadwriaeth a safiadigeth pob dyn na ffregethv Christ lessv a'r moliant i'i teyrnas Ef, yr hwn ssy y'w folianv ac yn rhaid y'w foliannv? [...] gedwch ein rran ninae fot yn wyllysgar i neythyr yr vn peth [...] fal i gellir pregethv Christ lessu a'i folianv Ef, yn anwedic yn yn dyddie ni yma anvwiol heppianvs a'r amser rhain cysgadrvs; ymharr rvw rai y mae yr byt yn eglyrhav nev yn dangos i hunan mewn cnawdol cenfigedd a cyflawnol angof o Christ a'i teyrnas Ef (gol. Jones, 1956, tt. 54-5).

Pregethu a chenhadu'r efengyl oedd pwyslais pennaf Puleston. Credai mai drwy bregethu'r Gair y gellid trechu a gwrthsefyll pechod y dydd, a'r pechod mwyaf yn ei dyb ef oedd Pabyddiaeth: 'y rhain', meddai, 'ssy yn calyn dychmygion y Rhufenol Antichrist a bryddwydion dynol, yn gyflawnol yn erbyn gair yr Arglwydd Ddvw' (ibid., t. 54).

Gwaith â'i bwyslais eto ar dduwiolfrydedd yw cyfieithiad Edward James, ficer Llangatwg Glyn Nedd, o *The Book of Homilies* (1547) a ymddangosodd yn 1606. Esboniai James 'yn y rhai [yr homiliau] y cynhwysir y prif bynciau o'n ffydd ni ac o'n dyled tuag at Dduw a'n cymydogion' (t. A2(b)). Eglura John Gwynfor Jones:

O droi at yr homiliau gwelir pa mor eang ac ystyriol yw'r cynghorion a roir a pha mor agos ydynt at feddylfryd yr oes am hanfodion defod a moes mewn cymdeithas wâr. Pwysleisir yr angen i fod yn deyrngar i'r Goron ac i'r awdurdodau gwladwriaethol ac i dderbyn yr ysgrythurau, sef y seiliau cymdeithasol i ddiwinyddiaeth Gristnogol (2007, t. 216).

Gallai Piwritan cymedrol yn sicr dderbyn egwyddorion o'r fath. Cyhoeddiad arall sy'n dangos delfrydau Piwritanaidd yw *The Practice of Piety* a ymddangosodd yn oddeutu 1611. Lewis Bayly, brodor o Gaerfyrddin, oedd awdur y llyfr dylanwadol hwn (ibid., t. 217), a chlerigwr yn Evesham oedd Bayly pan luniodd ei glasur. Cyfieithwyd y gwaith i'r Gymraeg gan Rowland Vaughan yn 1629 gan ddwyn y teitl *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*, a chyflwynwyd y gwaith hwnnw i Siarl, Tywysog Cymru. 'Dyfnhau'r ymwybyddiaeth o ffydd a'r dehongliad o Dduw' oedd yr amcan' (ibid.). Esbonnir y Drindod, y Duwdod ac etholedigaeth a phwysleisir llawenydd yr etholedig a'r angen i ddarllen yr Ysgrythurau. Pwysleisir hefyd yr angen am fyfyrdod personol gan gynnwys pwysigrwydd gweddi a defosiwn teuluaid er mwyn gwarchod buddiannau moesol teulu a gwlad. Mae'r awdur hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd addoliad cyhoeddus, yr arfer o 'gadw'r sabboth', elusengarwch a chymwynasgarwch. 'Yr amcan,' fel yr esboniai John Gwynfor Jones, 'yw rhoi'r pwyslais ar rinweddau dynol a'r modd y dylid eu datblygu o fewn cylch "cred elitaidd"' (ibid.). Dywed y cyflwyniad:

Duwioldeb ydyw'r peth sy'n eneinio enw da Tywysog, ac yn gwneuthur ei wyneb-pryd i ddiscleirio o flaen dynion, ai enaid yn ogoneddus ym mhlith Angelion [...] O blegid i dduwioldeb y mae'r addewid yn y byd hwn, ac yn y byd sydd i ddyfod. Eithr heb dduwioldeb, nid oes dim diddanwch ir cydwybod oddifewn, na dim tangneddyf oddiallan iw ddisgwyl yn y byd hwn, na dim dedwyddwch tragwyddol yn y byd a ddaw (gol. Ballinger, 1930, tt. ix-x).

Mae'r gyfrol yn pwysleisio pedair braint sy'n perthyn i'r etholedig, sef etifeddu teyrnas Dduw, cael bod yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i deyrnasu gyda Crist, cael eu goleuo a mwynhau Saboth gwastadol 'gyda'r angylion sanctaidd i ogoniant, anrhydedd a moliant y Drindod' (Jones, 2007, t. 218). Mae'n gyfrol

hynod o ymarferol hefyd sy'n rhoi cyngor i'r darllenydd ynghylch paratoi ar gyfer y cymun a pharatoi at farw.

Yn 1601 cyhoeddwyd *The Plaine Mans Pathway to Heaven* gan Arthur Dent. Roedd Dent yn Biwritan o argyhoeddiadau cryf a erlidiwyd gan John Aylmer, esgob Llundain am iddo wrthod gwisgo gwenwisg, gwrthod gwneud arwydd y Groes mewn bedydd a gwrthod tanysgrifio i'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Pwysleisir ganddo yn ei gyfrol lwyr lygredigaeth dyn. Yn 1630 ymddangosodd y cyfieithiad Cymraeg gan Robert Llwyd dan y teitl *Llwybr Hyffordd yn Cyfarwyddo yr Anghyfarwydd i'r Nefoedd*. Nodir mai John Hanmer, esgob Llanelwy, a anogodd Llwyd i ymgymryd â'r gwaith ac meddai Llwyd yn ei ragymadrodd:

Pe cymmerai foneddigion ieuaingc ein gwlad ni ryw gyffelyb orchwyl-waith duwiol, a buddiol, i dreulio eu hamser arno, ni byddei anllywodraeth, a rhysedd yn cael cymmaint rhwysc: Na gwir Grefydd uniawn-grêd yn cael cyn lleied brî, a chymmeriad; ac ni byddei occreth yn yssu ac yn bwytta y naill ddarn o'u tiroedd, na thafarndai, a mâtg Tobacco, yn yfed y darn arall (gol. Hughes, 1976, tt. 130-1).

Yn Biwritanaidd ddigon, mae Llwyd yn galw ar y penteulu i ysgwyddo cyfrifoldeb:

Canys er porthi o honot gyrph dy blant, a'th deulu, a gadel ar hynny heb ymorol a'm eu heneidiau, beth yr wyt ti yn ei wneuthur iddynt chwaneg, nac a wnei i'th farch, i'th ŷch, ie i'th gî? Darllein hwn gan hynny, i'th wraig, ac i'th blant (ibid., t. 127).

Daw hyn â ni at Rhys Prichard, neu'r Ficer Prichard. Roedd anallu penteuluoedd i ddarllen a dehongli'r Beibl yn pwysu'n drwm ar y Ficer:

Peth cwilyddus gweld cobleriaid

Yn rhagori ar benaethiaid

Am gadwriaeth eu heneidiau

A'r peth rheita' mewn neuaddau.

Bellach, moeswch in rhag c'wilydd,
Bob rhai, ddysgu pwyntiau crefydd;
Ac ymroi i ddysgu darllain
Llyfr Duw â'n iaith in hunain (gol. Lloyd, 1994, t. 64)

Mae cynnwys ei gerddi yn adleisio'r hyn yr oedd Richard Davies a Huw Lewys wedi'i ddweud ynghynt am gyflwr y weinidogaeth a diffyg moes y Cymry. Am bwysigrwydd pregethu, dywed Prichard:

Y Gair yw'r had sy'n atgenhedlu
Yn blant i Dduw, yn frodyr Iesu;
Yn deulu'r nef, yn demle i'r Ysbryd,
Yn wir drigolion tir y bywyd (ibid., t. 56).

Heria Prichard y penteulu:

Gwna dy dŷ yn demel sanctaidd
I addoli Duw yn weddaidd
Gan bob enaid a fo ynddo
Fore a hwyr yn ddiddiffygio (ibid., t. 97).

Ni ellid gwadu fod pwyslais Prichard yn debyg iawn i un Bayly a Dent, ac yn wir, awgryma Nesta Lloyd mai gwerineiddio gwaith y dynion hyn oedd nod Prichard yn ei gerddi. Dywed Bayly (yng nghyfieithiad Vaughan): 'Ac y mae Duw ei hŷn yn gorchymyn yn neillduol bob perchen tyaeth i athrawiaethu ei teulu yn ei Air, a'i dwyn eu fynu yn ei ofn a'i wasanaeth' (gol. Ballinger, 1930, t. 184). Ac meddai Prichard:

Os mynni fod yn ddyn i Dduw
Yn Gristion sanctaidd tra f'ech byw,

Gwna dy dŷ yn eglwys fychan

A'th deulu'n dylwyth Duw ei hunan (gol. Lloyd, 1994, t. 97).

Serch hynny, nid yw Prichard mor hallt ei feirniadaeth o'i gyd-offeiriadon ag yr oedd Huw Lewys, ond yn hytrach y mae ei feirniadaeth yn fwy cynnil:

Gwrando'r 'Fengyl, Crist yw 'hawdwr,

Pa fath bynnag fo'r pregethwr;

Prisia'r Gair, na phrisia'r gennad,

Crist ei hun a'i helodd atad (ibid., t. 60).

Mynega Prichard hefyd un o athrawiaethau amlycaf Piwritaniaeth, sef etholedigaeth. Meddai:

Hollalluog ydyw Duw;

Da, a dianwadal yw;

Fe ddwg i ben yr hyn arfaethodd,

Ni chyll ef un o'r rhai ddewisodd.

Y rhai detholodd Duw cyn byd,

Rhei'ny eilw Duw'n ei bryd.

Rhei'ny oll a wir sancteiddia,

Ac yn y nef fe'u gogonedda (gol. Rees, 1887, tt. 252-3).

Yn ystod yr un cyfnod yr oedd Pritchard yn canu cyhoeddwyd *Y Bibl Cyssegr-Lan, sef gwaith* Dr John Davies, Mallwyd (a adnabyddid hefyd fel 'Beibl Esgob Parry) yn 1620 a'r 'Beibl Bach' yn 1630. Amlygir Piwritaniaeth gymedrol y cyfnod yng ngwaith Dr John Davies, Mallwyd. Hefyd, cyhoeddodd ef ei gyfieithiad o *A Book of Christian Exercise, Appertaininge to Resolvtion* yn 1630. Er mai gwaith Pabyddol oedd y gyfrol yn wreiddiol, a gyhoeddwyd yn 1582, fe'i

Brotstaneiddiwyd gan Edmund Bunny, Piwritan a chanon yn eglwys gadeiriol Caerefrog, ym 1584 ac yna ei gyfieithu i'r Gymraeg gan John Davies. Dywedodd Davies yn ei ragymadrodd fod y llyfr yn annog ei blwyfolion i 'ymadael â'u drwg fuchedd, a throi at Dduw' (gol. Davies, 1885, t. 13).

Dyna felly geisio diffinio Piwritaniaeth a chyflwyno rhai dynion y gellid eu disgrifio'n Biwritaniaid cymedrol a fu'n gweithio yng Nghymru ac yn y Gymraeg cyn y 1630au. Nid eu bwriad oedd rhwygo'r Eglwys nac ymwahanu oddi wrthi. Roeddynt yn barod iawn eu beirniadaeth o'r Eglwys, ond eto iddi hi y perthynent. Lles ysbrydol a moesol eu gwlad oedd y baich a bwysai ar eu calonnau ac o'r herwydd ceisient eu gorau i ddiwygio'r Eglwys a'i chenhadaeth. Yng ngweithiau'r dynion hyn gwelwn dystiolaeth o dduwiolfrydedd cadarn a sylfeini Piwritaniaeth Gymreig a ddaeth yn fudiad trefnus yn y 1630au.

II. William Wroth, William Erbery a Walter Cradock

1. William Wroth (c.1576–1641).

'The most senior of all the Welsh Puritan Nonconformists' oedd William Wroth (Gruffydd, 1976, t. 9). Ganed ef yn y Fenni a chofrestrodd yng Ngholeg New Inn, Rhydychen ar 27 Tachwedd 1590. Graddiodd yn BA o Goleg Eglwys Crist ar 18 Chwefror 1596 ac yn MA o Goleg yr Iesu ar 26 Mehefin 1605. Yn y gofrestr, cofnodwyd ef yn fab i fonheddwr, ond yn ôl traddodiad, aeth i Rhydychen yn was i Syr Edward Lewis (1560–1628) o'r Fan ger Caerffili. Dyma gysylltiad pwysig i William Wroth, oherwydd wedi iddo adael Rhydychen ymddengys i Wroth fynd i fyw at Lewis i'r Fan. Yn 1610 addawyd rheithoriaeth Llanfaches gan Lewis i Wroth, ond ni wireddwyd yr addewid. Mae'n bosibl fod y Goron wedi herio hawl Lewis i gynnig y rheithoriaeth i Wroth. Fodd bynnag, rhoddodd Lewis reithoriaeth Llanfihangel Rhosied i Wroth yn 1613 ac fe ddaliodd ef hi tan 1626. Erbyn 1617 roedd rheithoriaeth Llanfaches unwaith eto ar gael, a'r tro hwn, penodwyd Wroth iddi. Rhwng 1617 a 1626 felly roedd William Wroth yn ymarfer amblwyfiaeth: Llanfaches a Llanfihangel Rhosied. Mae'n debygol mai ef hefyd oedd caplan teulu'r Lewisiaid.

Er iddo gael ei ordeinio yn 1613, ni phrofodd dröedigaeth tan 1625–6.

Mae Thomas Charles (1755–1814) yn cofnodi'r hanes yn *Trysorfa Ysprydol*.

Dyma sut mae Charles yn adrodd yr hanes:

Mr. *Wroth*, trwy holl ystod ei fywyd o'r blaen, a fawr-hoffai gerddoriaeth. Byddai arferol, ar ol y Gwasanaeth ar y Sabbothau, o chwarae ar offeryn cerdd, yn y fynwent, er difyrrwch iddo ei hunan, ac i'w blwyfolion diystyriaeth. Yn y modd hwn y blaenorai efe hwynt yn halogi'r Sabbath tros lawer o flynyddoedd, yn lle dangos iddynt lwybrau sanctaidd ffydd ac uniondeb buchedd. Dygwyddodd i wr o gyfrifiad yn ei blwyf, car iddo (a chyda yr hwn yr oedd yn llettya) fyned ar ryw achos cyfraith i Lundain.

Wedi cael pob peth yno yn llwyddiannus o'i du, prynodd Delyn newydd i'r Ficcar; gan addo iddo ei hun a'i gyfeillion lawer o wag orfoledd, ar ei dychweliad, wrth gael eu Bugail yn Bencerddor iddynt.

Pennodwyd amser dychweliad y gwr bonheddig; a mawr oedd y parottoad, yn y teulu a'r gymmydogaeth, i'w groesawu adref: a'r Ficcar yn blaenori ar bawb yn hyn o orchwyl. Ond tra'r oeddynt wedi ymgynnull, ac yn fawr eu dysgwyliaid am dano, daeth y newydd athrist ei fod wedi marw ar y ffordd. Trodd y newydd trwm eu gorfoledd yn alar chwerw: a thrwy fendith yr Arglwydd, fe adawodd effaith hynod ar feddwl Mr. *Wroth*. O hynny allan rhoddodd le i ddwys ystyriaeth ar freuolder bywyd, cyflwr ei enaid, a mawr bwys ar y pethau a berthynant i'r byd tragwyddol. Daeth anaddasrwydd ei fuchedd, fel Gweinidog y'mhlith ei blwyfolion tywyll, i'w olwg gyd a dwys argyhoeddiad: a chyfnewid trywadol, mewn egwyddor ac ymarweddiad, a ganlynodd (1799, t. 155).

Dyma drobwynt bywyd Wroth a throbynt yn hanes crefydd Cymru. Wedi hyn fe roddodd y gorau i'w reithoriaeth yn Llanfihangel Rhosied efallai oherwydd y gwrthwynebiad i amlblwyfaeth, a chanolbwyntiodd ar ei weinidogaeth yn Llanfaches. Erbyn hyn roedd Wroth yn hanner can mlwydd oed a chafodd oddeutu wyth mlynedd i bregethu ei ffydd newydd mewn heddwch cyn dyfodiad ymgyrch Siarl I a'r Archesgob William Laud yn erbyn y Piwritaniaid. Erbyn 1634 roedd wedi cael ei alw gerbron Esgob Llandaf, William Murray, ac roedd yr esgob wedi synnu cymaint at ei Biwritaniaeth nes i Wroth orfod ymddangos gerbron Llys yr Uchel Gomisiwn yn Llundain a oedd yn barnu a oedd clerigwyr yn euog o anufudd-dod yn erbyn awdurdodau'r Eglwys ai peidio⁴¹. Daeth gerbron y llys yn 1635, ond ni ddaethant i benderfyniad yn ei achos ef yr adeg honno, ac felly cafodd Wroth dair blynedd ychwanegol i bregethu yn Llanfaches. Mae'n debyg mai yn ystod y blynyddoedd hynny y digwyddodd yr hanesyn hwn y sonia Thomas Charles amdano:

Ond dywedir, fod Esgob Llandaf, *Theophilus Field*, D. D. [camgymeriad yw hwn, Esgob Tyddewi oedd Field rhwng 1627 a 1635 ac yna Esgob Henffordd rhwng 1635 a 1636; William Murray oedd Esgob Llandaf fel nodwyd eisoes] yn ymddiddan ag ef unwaith am ei anufudd-dod i'r

⁴¹ Ceir hanes William Wroth â Llys yr Uchel Gomisiwn ym mhennod chwech Thomas Richards, *Cymru a'r Uchel Gomisiwn 1633-1640*, 1930, tt. 38-46

awdurdodau, a'i ddull anghyffredin o bregethu; ac iddo yntef dorri allan mewn wylofain ger bron yr Esgob, ac ateb iddo mewn dagrau, 'Y mae eneidiau anfarwol yn myned i golledigaeth yn eu pechodau: ac oni ddylwn, trwy bob moddion mwyaf tebygol o lwyddo, ymdrechu i'w hachub?' Effeithiodd yr ymddiddan mor neillduol ar yr Esgob, fel yr wylodd ynteu hefyd (ibid., t. 156).

Erbyn 1638 roedd Llys yr Uchel Gomisiwn wedi dod i'r casgliad bod Wroth yn euog o anufudd-dod wedi'r cyfan. Ar y pryd, bodlonodd yntau i gydymffurfio. Awgryma Thomas Richards i hyn ddigwydd oherwydd l'r amgylchiad bwysu'n drwm ar y 'Wroth dangnefeddus' (1930, t. 39). Er iddo gydymffurfio, flwyddyn yn ddiweddarach sefydlu eglwys anghydfurfiol gyntaf Cymru yn Llanfaches. Dyma weithred a ddisgrifir gan Thomas Richards fel 'the climax of the veteran Wroth's powerful ministry' (1920, t. 28). Dywed cofiannydd Henry Jessey (1603–1663):⁴²

In November 1639 he was sent into Wales by the congregation for the assisting of old Mr. Wroth, Mr Cradock and others in their gathering and constituting the Church of Llanfaches in Monmouthshire in South Wales, which afterwards was, like Antioch, the mother Church in that gentile country, being very famous for her officers, members, orders and gifts; for the furtherance of which this worthy servant of God was instrumental, and ever afterwards acknowledged so by them (Whiston, 1671, tt. 9-10).

Yr hyn a sefydlwyd gan Wroth gyda chymorth Jessey oedd cynulleidfa yn dilyn esiampl John Cotton (1585–1652) ac arweinwyr Piwritanaidd eraill yn y gwladfeydd yng Ngogledd America, sef Cynulleidfaoliaeth Loegr Newydd.

Eglura Gruffydd:

These [Cotton a'r arweinwyr eglwysig eraill yng Ngogledd America] used to gather their converts and bind them together through a church covenant; the covenanters would then elect their own church officers; only those who had taken the covenant could receive the Sacraments and they were naturally kept under strict discipline – and yet they worshipped together with the unconverted in the parish churches and heard the preaching of the Word with them (1976, t. 15).

⁴² Ymwahanwr dylanwadol ac un o sylfaenwyr y sect Jacobiaid a enwid ar ôl Henry Jacob (1563–1624) oedd Henry Jessey. Daeth Jessey i arwain eglwys ymwahanol Jacob yn Llundain yn 1637 wedi i Jacob farw.

Dyma eglwys gynulleidfaol, sef y strwythur a fabwysiadwyd gan yr Annibynwyr. Mewn eglwys o'r fath roedd y credinwyr lleol wedi'u clymu at ei gilydd gan gyfamod eglwysig, a syrthiai awdurdod a llywodraeth yr eglwys ar y gynulleidfa leol honno. Ond yn achos Llanfaches, ffurfiwyd yr eglwys gynulleidfaol yno 'yn ôl patrwm Lloegr Newydd', sef fel eglwys y tu mewn i eglwys, gyda'r cyfamodwyr, y 'Saint', yn cyd-addoli ar y Sul â'r plwyfolion eraill a oedd y tu allan i gyfamod eglwysig cynulliad Wroth. Serch hynny, nid oedd Wroth wedi ymwrthod â'i urddau eglwysig a pharhaodd i gydnabod awdurdod esgobol a derbyn ei gyflog trwy'r degwm. Roedd yn dal rheithoriaeth wedi'r cwbl. Piwritaniaeth gymedrol oedd ei Biwritaniaeth ef felly gyda'r saint, y cyfamodwyr, yn llywodraethu'r eglwys.

Mae cofiannydd Henry Jessey, Edward Terrill, yn adrodd hanesyn sydd yn dangos sut yr oedd William Wroth yn defnyddio cerddi er mwyn addysgu a chenhadu:

But sometimes Mr. Wroth would come over [i Fryste] and preach to them, strengthening them in the Lord, who lodged at Mr. Listun's aforesaid, whose children the said Mr. Wroth would use to teach them at night-time this verse following:

Thy sin, thy end, the death of Christ,
The eternal pangs of Hell.
The day of doom, the joys of Heaven,
These six remember well (gol. Haycroft, 1847, t. 27).

Gwyddom i sicrwydd fod gennym ddwy gerdd o eiddo William Wroth mewn llawysgrifau, ac maent wedi'u hysgrifennu ar fesur y triban a'r cwndid. Yn y cyfnod hwn bodolai ysgol o gwndidwyr a luniai gerddi yn y mesurau rhydd er mwyn addysgu'r annysgedig. 'Wroth must have noticed how successful they were and decided to adapt their methods for the benefit of his own bilingual

congregation' (Gruffydd, 1976, t. 19). Mae'r mesur yn benthyg ei hun i gân, a gwyddom o hanes tröedigaeth Wroth ei fod yn ddyn cerddorol. Mae'n hawdd dod i'r casgliad felly fod Wroth y bugail yn cyfansoddi cerddi yn cynnwys negeseuon a gwersi syml a'u rhoi i gyfeiliant cerddoriaeth er mwyn i'w gynulleidfa anllythrennog ac annysgedig ddod i ddeall hanfodion y ffydd Gristnogol, er lles eu heneidiau.

Ei gerdd fwyaf poblogaidd yn ôl y llawysgrifau oedd 'The Twelve Apostles'. Ynndi ceir hanes merthyrdod yr Apostolion ac adroddir y chwedl fod Joseff o Arimathea wedi dod i Brydain i sefydlu eglwys Gristnogol bur cyn i Babyddiaeth ei llygru. Dyma'r Ddamcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd, 'a haerai fod eglwys efengylaidd, heb ei llygru gan "ofergoeliaeth" babyddol, wedi ffynnu ym Mhrydain yng nghyfnod bore'i hanes' (Williams, 1948, t. 49). Mae Saunders Lewis yn cysylltu dechrau'r ddamcaniaeth hon â William Salesbury (1947, t. 48) tra bo Glanmor Williams yn ei gysylltu â William Tyndale (c.1494–1536), cyfieithydd y Beibl i'r Saesneg (1948, t. 50). Bwriad Salesbury a Tyndale ill dau oedd dangos mai eu crefydd hwy oedd crefydd wreiddiol y Cymry, cyn dyfodiad Pabyddiaeth. Mae Saunders Lewis yn dadlau fod y dyneiddwyr wedi hyrwyddo'r ddamcaniaeth hon fel ymateb i'r Ddeddf Uno er mwyn sicrhau dyfodol hunaniaeth Gymreig. Yn Wroth gwelwn ef yn defnyddio'r Ddamcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd er mwyn atgyfnerthu hunaniaeth Gymreig ac er mwyn sicrhau derbyniad i Biwritaniaeth. Cyflwyno'r Ddamcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd er mwyn dilysu Piwritaniaeth fel rhywbeth oedd wedi bodoli yng Nghymru ers Oes y Saint, nid dim ond ers troad y ganrif, oedd nod Wroth. Wrth dderbyn Piwritaniaeth, nid derbyn syniad newydd oedd y Cymry. Nid rhywbeth estron ydoedd:

Some say that he for certain

From France or part of Almain
Sent him that buried Jesus dear,
Good Joseph, here to Britain.

Cyffesu ei bechodau ac erfyn am faddeuant a wna mewn cerdd arall:

By Thee the world was savéd
By Thee the dead was raiséd,
The blind, the dumb, the deaf, the lame,
All by thy name were helpéd.

Then will I not be doubtful,
But Thou, which are so pow'rful,
Health unto my soul canst give
Although I live most sinful.

O Jesus sweet, remember
Thy pangs of death most bitter;
Take my mite, the widow's store,
I have no more to offer!

And teach me, wretched sinner,
In thy vineyard to labour,
While I live thy grace to win
And die within favour.

Mae cerdd arall o'i eiddo yn wers ar hanfodion y ffydd Gristnogol gan gymryd y rhifolion o un hyd at ddeuddeg yn thema i bob pennill: 'One God', 'Two Testament', 'Three Persons' ac yn y blaen. Gwelwn o'r ychydig gerddi a phenillion hyn fod Wroth yn fardd effeithiol yn y gwaith o lunio penillion ysgafn a hawdd i'w cofio er mwyn addysgu ei gynulleidfa anllythrennog a diddysg.

Ceir un gerdd arall sy'n cael ei hystyried yn un o gyfansoddiadau Wroth, sef 'Oh earth of earth.' Gwelir y gerdd mewn llawysgrif yn y Llyfrgell Genedlaethol sy'n cynnwys y rhagymadrodd canlynol ar ffurf cerdd:

If any ask what truant.
Did penn these verses Currant.
And that honourd Christ his troath.
Calld William Wroath his Servant.

Hynodrwydd 'Oh earth of earth' yw'r ffaith ei bod hi'n gerdd ddwyieithog. Dilynir y Saesneg gan y Gymraeg bob yn ail:

Oh earth of earth, observe this well
When earth in earth shall come to dwell,
When earth in earth shall close remain
Till earth from earth shall rise again.

O bridd o bridd, ystyria'r gwir,
Cyn elych bridd i bridd yn hir
Lle erys pridd mewn pridd yn faith
Nes cwnno bridd o bridd ail-waith

[...]

And to thy God for mercy pray
That at thy last departing day
The glorious angels may thee bring
Where blessed saints forever sing.

A gweddïa ar Dduw yn brudd
Erbyn dy farwolaeth-ddydd
I angylion nef dy ddwyn yn syth
I blith y saint sy'n canu byth.

Cerdd seml arall yw hon sy'n cynnwys thema gyffredin iawn o'r cyfnod, sef breuder bywyd a'r angen am baratoi i wynebu marwolaeth. Ni cheir yng ngherddi Wroth sôn am yr Ailddyfodiad na'r Milflwyddiant, ond gwelwn ynddynt Biwritan oedd am addysgu ei gynulleidfa ynghylch hanfodion y Ffydd a'u rhybuddio ynghylch breuder bywyd a marwolaeth a Dydd y Farn mewn modd syml, creadigol a chofiadwy.

Thema fawr canu Wroth oedd pwysigrwydd edifarhau am bechodau a cheisio maddeuant Duw. Yn sgil hyn, gellid tybio mai cenhadu oedd gwaith cymdeithasol mwyaf Wroth, gan alw ar y Cymry i ystyried eu natur bechadurus a throi at Iesu Grist mewn ffydd ac edifeirwch. Ni chyfeiria Wroth yn benodol at yr Ailddyfodiad na'r Milflwyddiant yn y gweithiau a dadogir iddo sydd wedi goroesi. Fodd bynnag, roedd Dydd y Farn yn amlwg yn ei waith a thrwy hynny,

yn anuniongyrchol, roedd yr Ailddyfodiad hefyd yn bwysig gan fod yn rhaid i Grist ddyfod mewn barn ar ddiwedd y byd.

Yn ei gerddi gwelwn gredoau Wroth ynghylch Dydd y Farn a Diwedd y Byd yn ei arwain i weithredu ym myd addysg a chenhadaeth. Roedd Wroth am i'w wrandawyr edifarhau am eu pechodau er mwyn paratoi ar gyfer y Farn. Heria ei wrandawyr i ystyried cyflwr eu heneidiau a throi at Dduw. Gellir darllen ei gerddi fel pregethau syml, a'r mydr a'r odlau rhythmig wedi'u hanelu tuag at y Cymry anllythrennog. Dyma genhadaeth effeithiol. Mae gwedd addysgol bendant i'w gerddi. Mewn modd syml mae'n egluro prif wirioneddau'r Beibl gan adrodd hanesion yr Apostolion a chwedlau fel un Joseff o Arimathea. Trwy gyfrwng y cerddi hyn roedd y Cymry yn gallu dysgu rhagor am y ffydd Gristnogol a phlannodd Wroth wreiddyn balchder gwladgarol yn ei wrandawyr wrth bwysu ar y Ddamcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd.

O ran diwygio cymdeithasol, nid oes prawf fod athrawiaeth ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant wedi dylanwadu ar ei weithgarwch. Roedd sefydlu eglwys gynnull Llanfaches yn 1639 yn weithred dyngedfennol yn hanes Cymru, ond nid oes tystiolaeth i'r eglwys honno gael ei sefydlu oherwydd disgwyliadau neu gredoau eschatolegol fel y cyfryw. Un o ganlyniadau sefydlu'r eglwys honno oedd iddi weithredu fel yr eglwys yn Antiochia. Byddai dynion yn cael eu hanfon allan i efengylu o'r eglwys arloesol hon. Adeg y Ddeddf Taenu, 'pinacl a choron y mudiad Piwritanaidd yn y wlad hon,' disgrifia Thomas Richards cenhadaeth eglwys Llanfaches fel 'y perl disgleiriaf' (1941, t. 150). Daeth Llanfaches yn ganolbwynt i arbrawf y pregethu teithiol, fel y tystia'r £1,078 18s. a wariwyd arno yn ystod cyfnod y Deddf Taenu (ibid, t. 152). O edrych ar ewyllys Wroth gwelwn ei ddymuniad i adael y tair cyfer o dir a brynodd ym mhlwyf Magwyr, a'r arian a ddeilliai ohonynt, 'yn sylfaen cardod i ddeuddeg o

95

bobl dlotaf plwyf Llanfaches' (ibid, t. 163), ond cariad Crisnogol mae'n siwr oedd ei gymhellant yma, a dim i'w wneud a'i gredoau ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant. Ni allwn ddweud i unrhyw sicrwydd beth oedd credoau Wroth ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant nac ychwaith sut y dylanwadasant ar ei waith cymdeithasol. Yn y gweithiau sydd wedi goroesi, nid yw'n cyhoeddi bod y Milflwyddiant ger y drws nac ychwaith yn dweud ei fod yn deisyf gweld y Milflwyddiant yn cael ei sefydlu. O ran ei eschatoleg yn gyffredinol, credai y byddai Iesu Grist yn dychwelyd rhyw ddydd mewn barn, ond ni ddywed pryd y byddai hynny'n digwydd ac erfynai ar wrandawyr ei bregethau a'i gerddi i fod yn barod. Roedd yn gweld ei hun fel "Preacher of God's Word", yn fwy na dim byd arall (ibid).

2. William Erbery (1604–1654)

Gŵr a chanddo gysylltiadau agos â William Wroth oedd William Erbery. Brodor o'r Rhath, ger Caerdydd, ydoedd ac aeth i Goleg y Trwyn Pres (*Brasenose*), Rhydychen yn 1619 gan raddio yn 1623. Wedi hynny aeth i Goleg y Brenhinesau, Caergrawnt a chafodd ei ail radd yno yn 1626. Ordeiniwyd ef yn Esgobaeth Bryste ar 23 Rhagfyr 1626 a daeth yn gurad yn Eglwys Gwynllyw (*St Woolos*), Casnewydd yn 1630.

Roedd materion ysbrydol wedi pwyso'n drwm ar ei feddwl er pan oedd yn ddyn ifanc. Dywedodd yn 1652, 'I have been afflicted from my youth, and suffered the terrors of the Lord to distraction' (*Terrors of Tithes*, t. 102). Rhaid oedd aros hyd 1633 nes i'w Biwritaniaeth ddenu sylw'r awdurdodau. Yn ddiddorol, Syr Edward Lewis, cyfaill William Wroth, a roddodd ficeriaeth Eglwys Fair yng Nghaerdydd i William Erbery. Yn syth wedi'i sefydlu ar 7 Awst 1633 fe'i

hystyriwyd gan yr awdurdodau eglwysig yn Biwritan sgismatig⁴³. Fel Wroth, roedd Erbery yn gwrthod darllen *Llyfr y Chwaraeon*⁴⁴ yn ystod y gwasanaethau ac oherwydd hynny galwyd ar Erbery, ynghyd â Wroth, i ddod gerbron yr Esgob William Murray ac yna'r Archesgob Laud yn Llys yr Uchel Gomisiwn. Cawn yn adroddiadau'r Archesgob i'r Brenin sawl cyfeiriad at Erbery (a Wroth yn ogystal). Yn 1634, blwyddyn yn unig wedi'i ordeinio, ysgrifennodd Laud:

The Bishop of Landaff certifies, That last Year he Visited in Person; and found that William Erbery, Vicar of St. Maries in Cardiff, and Walter Cradocke his Curate, have been very disobedient to your Majesty's Instructions, and have Preached very Schismatically and Dangerously to the People. That for this he hath given the Vicar a Judicial Adominition, and will further proceed, if he do not submit (gol. Wharton, 1695, t. 533).

Erbyn 1635 gwelwn Erbery a Wroth yn cael eu cysylltu'n uniongyrchol eto, gan i'r ddau gael eu cyhuddo o bregethu'n sgismatig. Dywed Laud:

In this Diocess, the Bishop found, in his Triennial Visitation the former Year, two noted Schismatics, Wroth and Erbery; that led away many simple People after them. And finding, that they wilfully persisted in their Schismatickal course, he hath carefully preferred Articles against them in the High-Commission Court; where, when the Cause is ready for Hearing, they shall receive according to the Merits of it (ibid., t. 537).

Ond er i'w hachos gael ei gyflwyno i Lys yr Uchel Gomisiwn yn 1635, ni ddedfrydwyd hwy hyd 1638. Rhwng 1635 a 1638 roeddent yng Nghymru yn pregethu eu cenadwri, a hynny'n achosi poendod i'r Esgob:

For Landaff, there is very little found amiss; Only the Bishop complains, that whereas Mr. Wroth and Mr. Erbury are in the High-Commission for their Schismatical proceedings; the slow prosecution there against them, makes them both persist in their By-ways, and their Followers judge them Faultless. But for this, I humbly present to your Majesty this Answer, That now the loss of two Terms by reason of the Sickness, hath

⁴³ Ceir hanes William Erbery â Llys yr Uchel Gomisiwn ym mhennod chwech Thomas Richards, *Cymru a'r Uchel Gomisiwn 1633-1640*, 1930, tt. 38-46

⁴⁴ Cyhoeddwyd *Llyfr y Chwaraeon* yn gyntaf yn 1617 gan Iago I ac ailgyhoeddwyd ef gan Siarl I yn 1633. Mae'n cynnwys rhestr o chwaraeon y gellid eu chwarae ar y Sul ac ar wyliau crefyddol eraill. Roedd yn ymgais gan Anglicaniaid i ymosod ar Biwritaniaid a Phabyddion. Roedd cynnwys y llyfr yn tynnu'n groes i arfer y Piwritaniaid o 'gadw'r Sabbath' yn sanctaidd ac roedd yn ymosod ar y Pabyddion am ei fod yn cyfyngu ar y chwaraeon a ganiatawyd i'w cynnal ar ôl mynychu gwasanaeth yn eglwys y plwyf.

cast the Proceedings of that Court, as well as of others, behind-hand; And there is no Remedy, where all things stay as well as it (ibid., t. 544).

Erbyn 1638 penderfynodd Llys yr Uchel Gomisiwn beth fyddai tynged Wroth ac Erbery:

There were in this Diocess the last year but two Refractory Ministers know to the Bishop, Mr. Wroth and Mr. Erbury: The former hath submitted; but the other would neither submit, nor satisfie his Parishoners, to whom he had given publick offence; so he resigned his Vicarage, and hath left thereby the Diocess in peace (ibid., t. 555).

Er i Wroth ufuddhau, gwyddom iddo ymhen blwyddyn wedi'r ddedfryd sefydlu eglwys gynulleidfaol Llanfaches gyda chymorth William Erbery. O'r adroddiadau uchod, gwelwn yn glir fod William Erbery, rhwng 1633 a 1638, yn arddel Piwritaniaeth weithredol, a hyn yn ei orfodi i ymddiswyddo o fod yn ficer yn Eglwys Loegr. Fel Piwritan gweithredol, bu'n gyfrwng tröedigaeth sawl unigolyn, gan gynnwys Christopher Love (1618–1651), brodor arall o Gaerdydd a Phresbyteriad pybyr adeg y Rhyfel Cartref. Gwelwn yma felly ddylanwad cynnar Erbery yn ne Cymru a'i agwedd wrth-sefydliadol. Dywed Lloyd Bowen, 'Historians have often presented Wales as a passive recipient of radical religious ideas from external agencies such as English puritans like Sir Robert Harley or nonconformist communities in Bristol and London' (2011, t. 348). Ond yn Erbery gwelwn Gymro â meddwl cwbl wreiddiol. Gwelwn ei gysylltiadau teuluol yn ymestyn i Merthyr Tudful lle sefydlwyd un o eglwysi ymneilltuol cyntaf Cymru ac awgryma Brian Ll. James i Erbery bregethu gydag ymneilltuwyr dyffryn Olchon (1986, t. 41).

Gallwn nodi'n hyderus felly mai Piwritan oedd Erbery yn ystod degawd cyntaf ei weinidogaeth. Ond beth yn union oedd sylwedd diwinyddol Piwritaniaeth Erbery, a beth yn benodol oedd ganddo i'w ddysgu am yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant? Sut, os o gwbl, yr effeithiodd hynny ar ei

98

ymwneud â'r gymdeithas o'i gwmpas yn nhermau protest, addysg a chenhadu? Awn ati i ddadansoddi gweithiau Erbery'n gronolegol er mwyn ateb y cwestiynau hyn, oherwydd gwelwn gyda threigl amser iddo newid ei farn yn sylweddol.

The Great Mystery of Godlinesse (1639; ail argraffiad, 1640)

'I doe thinke that I shall sell 600 in his own towne of card/iff [...] If the book cannot be printed unless his name bee too it his name is william erberie' (dyfynnwyd yn: gol. Morgans, 2012, t. 47). Ysgrifennodd Francis Harvey, llyfrwerthwr o Fryste y geiriau hyn mewn llythyr yn Awst 1637 at werthwr llyfrau yn Rhydychen ac maent yn atgyfnerthu fy nadl fod i Erbery ddylanwad mawr yn ne-ddwyrain Cymru a't fod wedi ennill iddo'i hun gryn dipyn o ddilynwyr. Yn ôl John I. Morgans 'at the same time he was holding conventicles (meetings of the faithful, those of a similar Puritan view) in Cardiff' (ibid.). Y llyfr dan sylw oedd *The Great Mystery of Godlinesse*, a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1639.

Mae'n debyg y bu'n rhaid aros nes bod achos llys Erbery yn dirwyn i ben cyn cyhoeddi'r llyfr. Mae'n gyfrol deugain tudalen o hyd. Catecism ydyw, a phwrpas catecismau oedd cyflwyno gwybodaeth am y ffydd Gristnogol ar ffurf cwestiwn ac ateb. Hynny yw, llyfr addysgiadol a chenhadol ydyw. Yma gwelwn Erbery yn arddel Piwritaniaeth Galfinaidd uniongred. Mae'n pwysleisio Duwdod Iesu Grist, yn pwysleisio angenrheidrwydd ymateb mewn ffydd er mwyn sicrhau iachawdwriaeth ac yn pwysleisio mai rhodd Duw yn unig yw ffydd, ac na ellir ennill bywyd tragwyddol drwy weithredoedd.

Sonia Datguddiad 20:1-6 am atgyfodiad torfol a chyfeirir at gyfnod o fil o flynyddoedd. I Erbery, nid atgyfodiad llythrennol yw hwn, ond cyfeiriad at dröedigaeth yr Iddewon:

God with us: in calling home his old people Israel (who are now as we were) into one Church with us to confesse, professe and praise Christ Jesus our Lord, together on earth, *Rom.* 11.25. The Jewes restoring a resurrection, *Rom.* 11.15. (that is) the first resurrection, *Rev* 20.5,6 (t. 35).

Dyma Erbery yn dweud yn ddi-flewyn ar dafod ei fod yn disgwyl gweld yr Iddewon yn troi mewn ffydd at Iesu Grist ar sail adnodau Beiblaidd. Yr hyn sy'n ddiddorol yw ei fod yn rhagweld y byddai'r Cenhedloedd a'r Iddewon yn yr un eglwys 'together on earth'. Nid rhywbeth ysbrydol, nefol fyddai hyn, felly, ond rhywbeth gweledol a chorfforol. Yn ogystal, gwêl dröedigaeth yr Iddewon yn arwain at 'one Church' gyda phawb yn addoli ar y cyd ar y ddaear. Dyma ddangos fod Erbery yn disgwyl oes aur i'r eglwys Gristnogol ar y ddaear. Dim ond ar ôl tröedigaeth yr Iddewon a'r cyfnod euraid o addoliad unedig y dylid disgwyl yr Ailddyfodiad:

God with us: In calling us all up by the sound of a Trump, at the second comming of Christ, changing our bodies and carrying us up both body and soule to meet the Lord Jesus in the aire, where and when the whole Church militant and triumphant, the family in heaven and earth, both Jew and Gentile, and all the Israel of God shall meet at once, and so wee shall ever bee with the Lord, *1 Cor.* 15.51. *1 Thess.* 4.17 (t. 36).

Arddelai Erbery syniadau milflwyddol yma. Daw'r atgyfodiad cyntaf ysbrydol wrth i'r Iddewon droi at Gristnogaeth a phrofi dyfodiad ysbrydol Crist i'w calonnau a bydd hynny'n arwain at un eglwys Gristnogol bur yn mwynhau addoliad unedig. Yn dilyn hyn bydd yr ail atgyfodiad adeg yr Ailddyfodiad llythrennol a chorfforol sydyn wrth i'r eglwys fynd i fod gyda'r Arglwydd byth bythoedd.

Erfyniadau i Dŷ'r Cyffredin (1640)

Erbyn ailgyhoeddi *The Great Mystery of Godliness* yn 1640 roedd Erbery wedi sefydlu eglwys gynulleidfaol yng Nghaerdydd. Ym mis Tachwedd y flwyddyn honno ailagorodd Siarl 1 y Senedd – dyma'r 'Senedd Hir' fel y'i gelwir. Wedi i Siarl wneud hynny daeth lluo o erfyniadau gerbron Tŷ'r Cyffredin yn galw am ddiwygiadau eglwysig. Ymysg yr erfynwyr cyntaf oedd Erbery, ac mae hyn unwaith eto yn profi mai Piwritaniaeth weithredol oedd ei ffydd ef.

Mae'r erfyniadau yn dystiolaeth fod ymgyrch Biwritanaidd Gymreig ar waith er mwyn diwygio'r Eglwys, addysgu'r Cymry a chenhadu iddynt. Gwelwn enwau William Wroth, Henry Walter, Richard Symonds, Walter Cradock ac Ambrose Mostyn ar waelod yr erfyniadau a noda dogfennau Tŷ'r Cyffredin mai 'the humble petition of Mr Erbury & the whole Principality of Wales' oedd yr erfyniadau hyn. Mae'r erfyniad cyntaf (Rhagfyr 1640) yn atgoffa Tŷ'r Cyffredin o'r angen dybryd am bregethwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'n bwysig nodi fod Erbery yn nodi mai tair sir ar ddeg sydd i Gymru ac felly'n cynnwys Mynwy fel rhan o Gymru :

Sheweth That in ye whole dominion of Wales, conteining 13 shires, & that in above a 1000 parishes (as farre as by diligent search we could be any means find) there are not to be found 13 constant preachers, that preach morning & evening, or expound the catechisme every Lords day in the Welch tounge.

Wrth drafod Morgannwg, 'the chiefest for preaching', dim ond pum clerigwr oedd yn pregethu ddwywaith yn eu heglwysi ar y Sul oherwydd bod y clerigwyr eraill yn analluog i wneud hynny, yn ymarfer amlblwyfaeth neu'n 'scandalous persons'. Canlyniad hyn oedd

that there is no truth, or mercy, or knowledge in the land, but gross ignorance, idolatry, superstition, and all manner of sins abound every where; the people led by blind guides, & the sheepe having dumb doggs to be their shepheards.

Dyma gyffelybiaethau effeithiol a thrawiadol iawn, o'r dall yn arwain y dall a'r praidd yn yr eglwysi heb neb i'w harwain na'u corlannu'n ddiogel. Gan ragdybio fod beirniadaeth Erbery yn ddilys, dyma ddarlun truenus. Nid syndod felly i'r Piwritaniaid ymdrechu mor galed ym meysydd addysgu a chenhadu yng Nghymru. Fel y nodwyd eisoes, rhoddent hwy'r pwys mwyaf ar bregethu er mwyn achub eneidiau ac arwain pobl oddi wrth ofergoeliaeth ac anfoesoldeb. Rhaid felly oedd sicrhau cyflenwad digonol o bregethwyr effeithiol er mwyn addysgu a chenhadu. Apelio at gonsyrn cenhadol Tŷ'r Cyffredin a wnaeth Erbery:

so that the blood of soules, which hath long cried up to heaven, call now aloud to this Honourable House that in your godly wisdom, & zeale to gods glory, & the eternall good of man you would be pleased timely to remove the causes of these grave evils.

Y tri drwg yng ngolwg Erbery a'i gyd-Biwritaniaid oedd:

Lord Bishops, curats & common praisers, the last being the maintenance of an unlawfull ministry, when every silly reader ordered to by a bp may in a surplice & with a service booke take the cure of soules, & so the people perish & preaching also, if ye B^P & the Book be but removed than all or blind curats will be dumb in a day.

Pe byddai'r pethau hyn yn cael eu gwaredu o'r eglwys, 'the people wold seeke out for a preaching ministry the means of their salvacon', sef nod y Piwritaniaid.

Dyma fanifesto Erbery ar gyfer y 'seconde reformacon (which we hope & pray for)'. Wedi iddo ddarlunio'r Gymru anghenus a'r diwygiad delfrydol, gofynnodd Erbery am ryddid yng Nghymru i bregethwyr cymwys allu pregethu heb rwystr:

give Liberty to chose who are willing & honest (of which some are here psent to offere their service for this worke) to preach in any parish where there is want of preaching, And that the people may have liberty to come to heere where preaching is.

Roedd yr erfyniad hwn yn un llwyddiannus ac yn nodi trobwynt tyngedfennol yn hanes crefydd Cymru, canys 'this petition was granted, &

liberty given to William Erbury, Walter Cradock, Richard Seamans [Symonds], Ambrose Mostyn, & Henry Walter to preach in Wales where it was wanting'. Bellach roedd gan y Piwritaniaid ganiatâd seneddol i geisio gwireddu eu gweledigaeth, a gellir ystyried y caniatâd hwn yn rhagflaenydd i Ddeddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru 1650.

Mae'r ail erfyniad a roddwyd gerbron Tŷ'r Cyffredin yn Chwefror 1640/1 yn cynnwys disgrifiadau manylach o fethiannau'r weinidogaeth yng Nghymru:

as for the ministers in wales those of them who are called curates, they are for the most parte dumbe, drunken fellowes & the very scumme & refuse of the countrey, good for noe trade or occupation, serving cures [...] many of them keepe alehouses, may games [sef gemau yn gysylltiedig â Chalan Mai] & see all disorders [...] The other sort of ministers, commonly called parsons & vicars, as they are in their lives a great part of them full of deboistness drunknes & contention, soe in their ministry they are either unlearned, or unacquainted with gods word: yet verie idle & soe consequentile unable to preach or els if learned for the most part preach little to the capacity of the people & usuallie in English.

A'r drwg pennaf oedd yr esgobion:

The true causes of all these miseries doth arise chiefly from Lord bishops (as we conceive) their courts, canons, & who by their practises & administration are & have beene the cause & upholders of all those evils, by ordering & upholding all the foresaid unlearned & ungodly priests as they call them.

Mae'r esgobion hefyd yn cael eu barnu am erlid dynion duwiol trwy eu hesgymuno a'u hanfon i Lys yr Uchel Gomisiwn, a thrwy hynny, 'banishing out of the land both ministers & people which sought the welfare of the countrey & the salvation of their owne & other soules'. Gwelwn yma fod holl bwyslais a baich Erbery ar les ysbrydol y wlad.

Mae'r trydydd erfyniad, a oedd fwy na thebyg yn atodiad i'r cyntaf neu'r ail, yn cynnwys llawer iawn o'r un manylion. Diwedda â'r ergyd a'r cyfeiriad pwysig at Gymru fel cenedl fel a ganlyn: 'Soe that by reason of these things, the people which are naturally devout and ingenuous and as ready to receive Christ

duely preached unto them, as any nation in Christendome, yet lye in great ignorance, spirituall death and supersition.'

Nid oes cyfeiriadau at yr Ailddyfodiad na'r Milflwyddiant yn yr erfyniadau hyn, ond maent yn dangos yn glir beth oedd yn bwysig ym marn Erbery. Mae'n protestio yn erbyn y sefydliad eglwysig ac yn ei feirniadu'n hallt. Geilw am ddiddymiad y drefn esgobol ac ar i guradon ac offeiriaid analluog adael yr Eglwys. Mae pwyslais yr erfyniadau ar addysg yn gwbl glir. Pwysleisiant fod y Cymry yn gorwedd mewn anwybodaeth ac ofergoeliaeth am fod y weinidogaeth yn anllythrennog ac yn annysgedig. Gwelwn yn glir yma felly fod y Piwritaniaid yn sylweddoli mai trwy addysgu y gellid cryfhau eu hachos yng Nghymru. Yn olaf, mae gwedd genhadol yr erfyniadau yn hollol glir. Galwant am bregethwyr cymwys er mwyn pregethu'r efengyl yn Gymraeg yng Nghymru er mwyn achub eneidiau. Er na ellir honni ar sail cynnwys yr erfyniadau hyn mai athrawiaeth Erbery ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant a'i cymhellodd, gwelwn yn glir fod addysgu a chenhadu yn rhan ganolog o ymgyrch y Piwritaniaid yng Nghymru a bod consyrn tuag at y Cymry yn benodol yn amlwg yn eu cenhadaeth.

Nor Truth nor Error (1647)

Erbyn 1647 roedd Erbery wedi ymbellhau oddi wrth y Galfiniaeth unionged a arddelwyd ganddo yn 1640. Wedi i'r Rhyfel Cartref ddechrau yn 1642, ef oedd y gweinidog cyntaf yng Nghymru i gael ei daflu allan gan Bwyllgor y Gweinidogion Ysbeilliedig ac yn sgil hynny collodd ei gartref. Aeth yn gaplan ym myddin y Seneddwyr yn 1643 a thrwy hynny daeth i gysylltiad â sectau a mudiadau radical y cyfnod yn y fyddin ac yng nghynulleidfaoedd Llundain. Roedd Erbery yn ddylanwadol yn ystod Dadleuon Rhydychen wedi i rengoedd y Senedd gipio

Rhydychen yn 1646. Yn rhinwedd ei swydd fel caplan ym myddin y Senedd aeth Erbery i Rhydychen wedi i'r Seneddwyr gipio'r ddinas. Bu ei bregethu'n achos rhaniadau ymysg milwyr a myfyrwyr y ddinas. Anfonwyd chwe gweinidog Presbyteraidd yno gan y Senedd, gan gynnwys 'the mordant' Francis Cheynell (1608–1665) (Richards, 1920, t. 75). Athro Brenhinol mewn Diwinyddiaeth oedd Cheynell ac yn cael ei adnabod yn aml am ei uniongrededd. Roedd hefyd yn aelod o Gymanfa Westminster. Roedd y rhengoedd Presbyteraidd yn poeni y byddai pregethu Erbery yn achosi anghydweld a thensiwn yn Rhydychen, ac felly aethpwyd ati i geisio ei roi yn ei le. Yn ôl adroddiad swyddogol Cheynell i'r Senedd, 'they found the University and City much corrupted, and divers hopefull men in both, very much unsettled' (1646/7, t. 3). Dywed Cheynell i Erbery ddod ger eu bron â llu o filwyr (sy'n arwydd o ddylanwad amlwg Erbery) ac nad oedd yn cydnabod fod gan Crist unrhyw eglwys ar y ddaear ac felly nad oedd gweinidogion eglwysi Cynulleidfaol a Phresbyteraidd yn weinidogion i Grist (1646/7, t. 13). Gwelwn wrth hynny fod Erbery erbyn 1646 wedi hen ymbellhau oddi wrth ei syniadau cynnar am eglwysyddiaeth gynulleidfaol. Mae'n amlwg, felly, fod diwinyddiaeth ac eglwysyddiaeth Erbery wedi newid yn eithafol wrth iddo dreulio amser yn rhengoedd y Fyddin.

Yr hyn a gawn yn *Nor Truth nor Error* yw adroddiad Erbery ei hun o'r trafodaethau a gafwyd yn Rhydychen rhyngddo ef a'r Presbyteriaid. Mae yma gynnwys milflwyddol chwyldroadol. Yma, hefyd, brofa Erbery ei hun yn ysgrifennwr trefnus a rhesymol. Dysgwn fod 'charge was publikely given out in a Pulpit, of Hereseie and Blasphemy against me' (t. 1). Daw'n amlwg beth oedd heresiâu Erbery gan nad yw'n gwadu'r hyn a ddywedodd. Yn gyntaf, credai fod Iesu Grist a'r Saint yn gwneud 'one perfect man'. Hynny yw, heb y Saint, nid yw Iesu Grist yn gyflawn. Yn ychwaneg at hyn, '[the] fulness of the Godhead dwells

in both, in the same measure, though not in manifestation' (t. 8). Hawdd deall sut y cyfrifwyd hyn yn heresi. Dadleuodd Erbery fod y Cristion yn dod yn rhan o'r Duwdod. Dyma gred sy'n groes i Galfiniaeth. Mae'r Beibl yn dysgu bod y Cristion wedi'i uno â Iesu Grist. Dywed Paul yn Effesiaid 1:3 er enghraifft: 'Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a'n bendithiodd ni â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd yng Nghrist.' Hynny yw, mae'r Cristion yn derbyn bendithion nefol gan ei fod yng Nghrist. Mae Iesu Grist ei hun yn Ioan 15 yn disgrifio ei berthynas Ef a'i bobl fel un o ganghennau mewn gwinwydden. Eglura Berkhof: 'This union may be defined as that intimate, vital, and spiritual union between Christ and His people, in virtue of which He is the source of their life and strength, of their blessedness and salvation' (1949, t. 497). Mae'n wir fod Calfin yntau yn dysgu fod uniad arbennig rhwng Iesu Grist a Christnogion trwy waith yr Ysbryd Glân: 'in a mysterious and supernatural way [...] the [...] mystical union' (ibid., t. 495). Ond roedd Erbery wedi crwydro oddi wrth y dehongliad Calфинаidd hwn gan fabwysiadu dehongliad cyfriniol. 'According to this view,' dywed Berkhof, 'there is in it a union of essence, in which the personality of the one is simply merged into that of the other, so that Christ and the believer do not remain two distinct persons' (ibid., t. 500).

Yr ail heresi oedd cred Erbery fod y 'fulness of the Godhead shall be manifested in the flesh of the Saints' (1647, t. 8). Mae Erbery yn defnyddio'r Beibl i'w amddiffyn ei hun. Credai fod Hebreaid 2:11⁴⁵ a 2 Pedr 1:3-4⁴⁶ yn cyfiawnhau ei gred, ac o gredu fod Iesu Grist a'r Saint yn un (yn frodyr), naturiol yw credu eu bod yn rhannu'r un natur. Mae hyn yn ei arwain i ddatgan 'though

⁴⁵ Canys yr hwn sydd yn sancteiddio, a'r rhai a sancteiddir, o'r un y maent oll. Am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr.

⁴⁶ Megis y rhoddes ei dduwiol allu ef i ni bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb, trwy ei adnabod ef yr hwn a'n galwodd ni i ogoniant a rhinwedd.

there shall be but one king in all the Earth, yet all the Saints shall reign on earth also' (ibid.). Cyfeiria Erbery yma at deyrnasiad daearol Iesu Grist pan fydd y Saint yn cyd-deyrnasu ag ef ar y ddaear. Ond nid teyrnasiad corfforol fydd un Iesu Grist yn ôl Erbery. I Erbery, mae Iesu Grist yn dyfod mewn modd ysbrydol yn yr Ysbryd Glân. Wrth esbonio Ioan 14:3⁴⁷ dywed Erbery mai cyfeirio y mae Iesu Grist yma at gyfnod 'when he [Iesu] should come in Spirit, he would receive them to himself, take them up to his own glory, to be in the Godhead with him' (t. 9). Dyma'r adeg felly y byddai Iesu Grist a'r Saint yn uno ac yn rhannu llawnder y Duwdod ar y ddaear. Bydd dynion yn cael eu cymryd yn haniaethol i stad o ogoniant duwiol. O dderbyn yr Ysbryd Glân caiff y Saint rannu yng ngogoniant Iesu Grist. O gredu hynny, y cam naturiol nesaf fyddai credu y byddai'r Saint yn teyrnasu ar y ddaear gyda Iesu Grist yn eu calonnau a hynny'n arwain at Iesu yn cyflawni 'greater works than the Son did in the days of his flesh' (t. 10). Mae'n atgyfnerthu'i bwynt wrth drafod 1 Ioan 3:2⁴⁸ gan ddweud 'when he shall appear, that is, in us, when that glory shall be revealed in us: Then we shall be like him, that is, appear with him in glory, in the same glory of the Son, we shall be like him' (t. 13). Dyfodiad ysbrydol yw hwn yn unig wrth i'r Saint a Iesu uno yn yr Ysbryd Glân ac mae Erbery yn disgwyl i hyn ddigwydd yn y dyfodol agos, gan iddo ychwanegu, "Tis not meant of his coming to judgment in the end of the world' (t. 9). Trwy hynny mae Erbery yn dangos mai ar ddiwedd y byd y disgwyliai Ailddyfodiad corfforol Iesu Grist.

Â ymlaen i bwysleisio dyfodiad ysbrydol Crist gan ganolbwyntio ar 1 Ioan 3:2. Dywed Erbery mai adeg dyfodiad ysbrydol Iesu Grist y bydd y saint fel Iesu

⁴⁷ Ac os myfi a af, ac a baratoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun; fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd.

⁴⁸ Anwylyd, yr awr hon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd eto beth a fyddwn: eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo: oblegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae.

ac yn ymddangos gydag Ef mewn gogoniant. Roedd Cristnogion yr Eglwys Fore, a oedd yn byw 'under the Gospel' (t. 13) yn gweld Iesu Grist yn yr ysbryd, ond daeth cyfnod o Orthrymder ac felly ni allai dynion weld Iesu Grist yn y goleuni hwn mwyach. Dim ond 'after the apostacy, and falling away being full, the day of Christ follows immediately' (ibid.).

I Erbery, dechreuodd y Gorthrymder yn yr eglwys mewn gau athrawiaeth pan wadwyd Iesu Grist a thrwy hynny wadu Duw. Gwaith yr Anghrist oedd hyn yn ôl Erbery. Mae'r Protestant a'r Pabydd yn euog o 'deny the Father in the Son, and deny the Son in the Saints; denying God in Christ, and the Father all in all in his flesh' (t. 14). Mae Erbery yn galaru am fod Protestaniaid a Phabyddion yn gwadu duwdod Crist (er nad yw'n cynnig tystiolaeth o hyn) a thrwy hynny yn gwadu pŵer dwyfol y Saint, sef eglwys Crist:

For God, even the Father, the everlasting Father, was born and brought forth in that flesh,⁴⁹ God in flesh lived with men, and in flesh God gave his life for men, purchasing the Church with his own blood; 'twas God rose, and God ascended in flesh; yea, the Son was nothing, but as he was in God; the Son could do nothing of himself, but the Father in him did all the works; and as God was in Christ, and God all in all in his flesh, so Christ in us all in all in our flesh (ibid.).

Mae Erbery yn pwysleisio dwyfoldeb y Saint gan ddweud, 'Christ the man-childe is brought forth in us, liveth in our flesh, suffers in us, and shall rise in us, and we shall ascend also with him' (ibid.).

Yr ail ffordd y daeth y Gorthrymder oedd bod yr Anghrist wedi gwadu bod Iesu wedi dod yn ein cnawd ac wedi gwadu bod ein cnawd ni wedi cael ei 'anointed of God, and with God' (ibid.). Mae 1 Ioan 2:27,⁵⁰ yn ôl Erbery, yn sôn

⁴⁹ Gwelwn Erbury yn arddel cymysgedd o Sabelieth ac, o bosibl, Batripasiaeth, sef mai tair agwedd ar yr un Duw oedd y tri Pherson, ac i'r Tad farw ar y groes yn hytrach na natur ddynol y Mab

⁵⁰ Ond y mae'r eneniad a dderbyniasoch ganddo ef, yn aros yn och chwi, ac nid oes arnoch eisiau dysgu o neb chwi; eithr fel y mae'r un eneniad yn eich dysgu chwi am bob peth, a gwir yw, ac nid yw gelwydd; ac megis y'ch dysgodd chwi, yr arhoswch ynddo.

bod 'the anointing abiding in the Saints, teacheth them all things, and they need not that any man teach them, &c. that is, while they abide in the anointing, and attend on God in them, and harken to the Father as the Son did' (t. 15). Mae Erbery yn erfyn ar y Saint i sylweddoli bod uniad cyfriniol rhyngddynt â Duw, oherwydd o lawn ddirnad 'the fulness of God anointing their flesh, this would free them from that bondage to Men, Means, and Ministers' (ibid.). I Erbery felly, pe byddai'r Saint yn sylweddoli eu bod wedi eu huno â Duw trwy ymddangosiad ysbrydol Iesu Grist ynddynt a'r uniad cyfriniol ac eneidol a ddaw rhwng dyn a Duw drwy hynny, ni fyddai angen strwythur eglwysig na thraddodiadau crefyddol i'w cyfarwyddo a'u dysgu. Byddent yn rhydd i fyw y bywyd Cristnogol ac yn rhydd i foli a gwasanaethu Duw yn gywir ar y ddaear. I Erbery, dyma'r rhyddid y soniodd y proffwyd amdano yn Eseia 10:27.⁵¹ Eglura Erbery:

This is the glorious liberty of the sons of God, the manifestation of the sons of God, which we hope for, God to be manifest in our flesh, then Christ comes in flesh: and thus, if the Son shall make ye free, ye shall be free indeed (ibid.).

Dyma drefn bendant yr Ailddyfodiad i Erbery: Iesu Grist yn dyfod yn ysbrydol yn y Saint ac yna yn nes ymlaen, ar ddiwedd y byd, ei Ailddyfodiad corfforol. Bydd yr ymddangosiad cyntaf ysbrydol yn arwain at gyfnod gogoneddus i'r Saint gan y byddant yn ymwybodol o'u natur dwyfol, eu huniad cyfriniol ac eneidol â Duw ac felly ni fydd angen trefn a llywodraeth eglwysig i'w disgyblu a'u dysgu. Dyma'r rhyddid y sonia Erbery amdano yn y dyfyniad uchod. Yn ystod y cyfnod hwn bydd 'very foolishness and weakness' y Saint sy'n ymwybodol o'i uniad â Iesu Grist yn yr ysbryd yn 'wiser and stronger, then all the strength and wisdom of men, and whose wisdom and strength shall be manifest also in the most foolish and feeblest Saints' (ibid.). Er nad yw, hyd y

⁵¹ A bydd yn y dydd hwnnw, y symudir ei faich ef oddi ar dy ysgwydd di, a'i iau ef oddi ar dy war di; a dryllir yr iau, oherwydd yr eneiniaid.

gwelaf, yn defnyddio'r gair, dyma'r Milflwyddiant i Erbery, pan fydd y Saint yn mwynhau cyfnod gogoneddus yn dilyn ymddangosiad ysbrydol Iesu Grist yn ei Saint pan ddônt i ddeall a phrofi eu huniad â Iesu Grist, ond cyn ei Ailddyfodiad corfforol. Rhyw filflwyddiaeth gyfriniol sydd yma felly.

Mae'r cyfnod hwn eto i ddod gan fod Erbery yn credu, 'I believe the world shall be a little more wasted first' (t. 20). Yn ystod y cyfnod euraidd hwn bydd y Saint yn meddu ar rai o briodoleddau Iesu Grist. Yn gyntaf, byddant yn feddiannol o'i bŵer (t. 16). Yn ail, byddant yn meddu ar anrhydedd Iesu Grist, a hyn yn golygu y gallant deyrnasu dros genhedloedd y byd:

The Saints shall have both, not onely a rod or sceptre of Iron to break Nations, but a sceptre of Gold, of Righteousness to rule Nations; and that Nation which will not serve thee, shall perish, and utterly wasted (t. 17).

Yn drydydd, mae'r Saint i etifeddu pob peth.

Fel mae Datguddiad 21:7⁵² yn awgrymu, i etifeddu pob peth mae'n rhaid gorchfygu. Gorchfygu beth? I Erbery, mae'n rhaid i'r Saint orchfygu'r Bwystfil, sef yr Anghrist, cyn etifeddu pob peth. Nid yw Erbery yn gweld y Goron, yr Archesgob na'r Pab hyd yn oed fel yr Anghrist. Iddo ef, cyflwr naturiol dyn heb sylweddoli ei lawn botensial o fod yn breswylfa Duw yw'r Anghrist. Dylanwad neu dwyll yw'r Anghrist felly, yn hytrach nag unigolyn:

Man is the Beast who counts himself wise [...] while man sees onely of the humanity in himself the wisdom of man or power of man, and sees not God all in all, and the Godhead in him; This is the Beast, this the number of his name, the number of a man; when we shall overcome this, this manhood, this self, and submit to the Godhead in us; when we shall see God onely manifest in our flesh, and the flesh nothing, profiting nothing, having no power, nor wisdom; when thus we deny our selves, follow me, saith Christ; follow him who is our forerunner, and gone before into the holiest, into the fulness of the Godhead with him; then we are said to overcome and inherit all things (tt. 18-19).

⁵² Yr hwn sydd yn gorchfygu, a etifedda bob peth: ac mi a fyddaf iddo ef yn Dduw, ac yntau a fydd i minnau yn fab.

Yng nghyfnod y Milflwyddiant bydd y Saint yn defnyddio pregethu mewn modd grymus i adfer y difrod ysbrydol a materol y mae'r Rhyfel Cartref wedi'i achosi. I Erbery mae Eseiā 61:4⁵³ yn cyfeirio at hyn. Trwy bregethu'r gair bydd y Saint yn 'repair all things in the world visible and invisible, to build up the ruines made, not by Rome, but even by the most reformed Churches' (t. 20).

Dyma amddiffyniad sy'n llawn o gyfeiriadau at yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant ac sy'n profi bod Erbery yn arddel rhyw fath o filflwyddiaeth. Nid oes angen Ailddyfodiad llythrennol Crist cyn y Milflwyddiant, ond mae angen ei ailddyfodiad ysbrydol. Mae'n gweld fod gorthrymder wedi rhwystro'r eglwys mewn credo ac ysbryd, ond fod Iesu Grist yn dyfod mewn ysbryd yng nghalonau'r Saint gan agor llygaid y Saint i'w gwir gyflwr, fel petai. O sylweddoli eu gwir gyflwr daw'r Gorthrymder i ben a gorchfygir yr Anghrist. Bydd hyn yn sicr o arwain at gyfnod euraid i'r eglwys, sef y Milflwyddiant. Gwelir cynnydd mewn addoliad a thystiolaeth yr eglwys ac fel canlyniad i hyn ni fydd angen strwythur a threfn eglwysig yn sgil pregethiad yr efengyl a thystiolaeth y Saint. Mae James yn gywir felly pan ddywed am Erbery, 'he had predicted it would be the Saints, not the clergy, who would convert the dark corners of the land' (1986, t. 45). Dim ond ar ddiwedd y cyfnod hwn y disgwyliai Erbery weld Ailddyfodiad gweledol a chorfforol Iesu Grist.

Dyma newid amlwg yn meddwl Erbery. Eglura Richards, 'Erbery fell under the influence of the Seekers and assimilated the teachings of John Saltmarsh and Roger Williams' (1920, t. 75). Ymfudodd Roger Williams (1603–1683) i Boston yn 1631. Pregethodd fod angen i eglwysi fod yn rhydd o'r wladwriaeth, fod unigolion yn rhydd i ddilyn eu hargyhoeddiadau personol ac ni

⁵³ Adeiladant hefyd yr hen ddiffeithfa, cyfodant yr anghyfanheddfa gynt, ac adnewyddant ddina-soedd diffaith, ac anghyfanhedd-dra llawer oes.

ddylai'r wladwriaeth gosbi unigolion pe byddent yn torri'r pum gorchymyn cyntaf. Ymunodd â Gwladfa Plymouth yn 1631. Yn 1632 ysgrifennodd Williams dract yn erbyn y Brenin yn cwestiynu hawl y dyn gwyn ar dir Gwladfa Plymouth, gan na luniwyd cytundeb rhyngddynt â'r brodorion cyn glaniad y *Mayflower*. Symudodd i Salem yn 1633 ond erbyn 1635 roedd gerbron llys Gwladfa Bae Massachusetts oherwydd cynnwys ei bregethau (gol. LaFantasie, 1988, Vol. 1, tt. 12–23). Dedfrydwyd ef i adael Lloegr Newydd ond llwyddodd i ffoi oddi wrth yr awdurdodau gan dderbyn lloches gan lwyth brodorol y Wampanoagiaid. Gweithiodd gyda llwyth y Narragenesiaid yn ogystal yn ystod Rhyfel Pequot 1637–38. Teithiodd Williams yn ôl i Loegr yn 1643 er mwyn ceisio sicrhau siarter i Wladfa Rhode Island a oedd dan bwysau gan Massachusetts, Plymouth a Connecticut. Cyhoeddodd *A Key into the Language of America* yn 1643 sy'n cynnwys ymadroddion, geiriau, a manylion am ddiwylliant a chredoau'r brodorion. Dyma i bob pwrpas y geiriadur Saesneg-laith Frodorol gyntaf. Mae pob pennod yn cael ei chrynhai mewn cerdd ganddo. Wedi pennod yn disgrifio pryd a gwedd y brodorion, daw Williams i'r casgliad yma:

Boast not proud English, of thy birth & blood;
Thy brother Indian is by birth as Good.
Of one blood God made Him, and Thee and All,
As wise, as fair, as strong, as personal (t. 53).

Cyn dychwelyd i America yn 1644, wedi llwyddo i sicrhau siarter i Wladfa Rhode Island cyhoeddodd ei waith enwocaf, sef *The Bloody Tenent of Persecution for Cause of Conscience* (1644). Mae'r gyfrol ar ffurf deialog rhwng Heddwch a Gwirionedd a dysgodd Williams nad oedd yr Eglwys i arddel unrhyw gysylltiad ffurfiol nac uniongyrchol â'r Wladwriaeth ac y dylai'r Wladwriaeth oddef pob math o gredoau, gan gynnwys Pabyddiaeth a Mwslemiaeth (t. 3).

Gorchmynnodd y Senedd i bob copi gael ei losgi. Gwelwn gredoau Williams yn glir yng ngwaith Erbery.

Yn y 1620au y daeth y Ceiswyr i'r amlwg. Dyma grŵp a gredai nad oedd angen unrhyw ffurf eglwysig ac y dylai dynion aros am ddatguddiad Duw. Am hyn, mae Christopher Hill yn nodi un John Everard (1575–1650) fel rhagflaenydd i'r Ceiswyr. 'He thought God was in man and nature, located heaven and hell in the hearts of men, and allegorized the Bible' (1972, t. 185). Dyma athrawiaethau a ddaw'n amlwg yng ngwaith Erbery. Un o athrawiaethau amlwg y Ceiswyr oedd Iachawdwriaeth Gyffredinol, hynny yw, fod pawb yn y byd yn cael eu hachub, nid dim ond yr Etholedig, fel y dysgai Calfiniaeth, ac un a bregethai hyn oedd John Saltmarsh (Hill, 1972, t. 190). Roedd John Saltmarsh (*m.* 1647) yn gaplan yn y Fyddin Model Newydd. Pregethodd o blaid rhyddid crefyddol, rhyddid i'r cydwybod ac lawn Cyffredinol (Smith, 1994, t. 123). Mae ei gyfrol *The Smoke in the Temple* (1646) yn cynnwys sawl cred sy'n perthyn i'r Ceiswyr. Cyfieithodd Saltmarsh weithiau Joachim o Fiorenza yn ogystal. Nod Saltmarsh a'r Ceiswyr oedd 'to liberate men and women from formalism, the legal calculations of covenant theologians, and from the despair to which predestinarian theology reduces many who doubted their salvation' (Hill, 1972, t. 190). Esbonia Alfred Cohen: 'seeing in the doctrine of the Holy Spirit the whole or essence of Christ's truth, [the Seekers] developed a concept of the Kingdom of Christ that "spiritualized" the external manifestations of the apocalyptic hope' (1963, t. 322). Roedd dynion megis Saltmarsh, Williams ac Erbery wedi'u siomi gan fethiant y Fyddin i sefydlu cymdeithas ddemocrataidd yn 1647. Mae'n amlwg fod Erbery rhwng 1640 a 1647 wedi dod i goleddu credoau'r Ceiswyr, er nad oedd eto wedi datblygu ei syniad am y Drydedd Oruchwyliaeth, a ddaw yn amlwg yn y man.

The Lord of Hosts/The Armies Defence (1648)

Dyma bamffled gwleidyddol wedi'i gyhoeddi dan ddau deitl. Mae'r teitl cyntaf yn peri braw: *The Lord of Hosts: or, God guarding the camp of the saints, and the beloved city. Wherein is declared, that God is now rising as a man of Warr in the SAINTS, by whom he will destroy all the oppressors and Oppressions of Men; with Salvation and settlement to the Kingdoms of the Earth.* Adlais o Ddatguddiad 20:9 a Sechareia 14:5 sydd yma. Nid yw teitl yr ail bamffled fymryn yn llai brawychus: *The Armies Defence, or, God guarding the Camp of the Saints, and the Beloved City. Shewing That all oppressions in Governors, and Government shall cease by the Appearance of God in the Saints. Whether the appearance of God in the Army, with the Saints, be in contrariety or enmity to the good Spirit and minde of God.*

Gwelwn Erbery yn datblygu yma ei gred fod Duw ar waith yn nigwyddiadau cyfoes ei ddydd. Yn y gyfrol hon mae Erbery yn ysgrifennu'n helaeth ynghylch athrawiaeth yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant a sut y mae iddynt oblygiadau cymdeithasol. Cyn ymhelaethu, dyma athrawiaeth Erbery ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant fel y'i deallaf yn y gyfrol: mae Duw, ym mherson Iesu Grist, yn dod i fyw yn ysbrydol yng nghalon yr unigolyn (y Sant) wrth iddo ddod i gredu; wrth i fwy a mwy o bobl (y Saint) ddod i gredu mae gogoniant Duw yn cael ei amlygu trwyddynt ac mae dylanwadau Cristnogol yn ymledu yn sgil tystiolaeth a chenhadaeth y Saint; wrth i'r efengyl lwyddo yn sgil y ffaith fod Duw yng nghalonnau'r Saint, disgwylir yn raddol i gyfnod o'r enw 'Y Drydedd Oruchwyliaeth' gael ei sefydlu. Yn y cyfnod hwnnw bydd heddwch, cyfiawnder a rhyddid yn teyrnasu a bydd undod o fewn yr eglwys. Adnewyddir popeth ysbrydol a chorfforol, gan sefydlu nefoedd newydd a daear newydd. Y

mae gwedd gymdeithasol gref i ddysgeidiaeth Erbery. Yn gyntaf rhaid i'r Saint fod yn weithredol genhadol er mwyn lledaenu'r efengyl. Bydd y Saint fel byddin wrth bregethu a chenhadu a thrwy'r fyddin ysbrydol hon y rhwymir y Ddraig. Dyma weithred sydd i'w disgwyl yn fuan ac sy'n arwain at y Drydedd Oruchwyliaeth. Yn drydydd, disodlir llywodraethwyr a brenhinoedd balch a mawrion gan dlodion a dynion isel eu gradd. Y mae Duw yn hapus i wneud ei drigfan yng nghalonnau dynion isel eu gradd.

Mae hyn wrth gwrs yn atgyfnerthu themâu'r gyfrol flaenorol ac yn tanlinellu cyflwr goruwchnaturiol a dwyfol y Saint, gan bwysleisio fod Duw, yn ysbryd Iesu Grist, wedi dod i drigo ynddynt. Naturiol felly yw i Dduw amddiffyn ei drigfan (t. 4). Mae'n amlwg fod Erbery yn gweld dyfodiad Iesu Grist i galonnau'r Saint adeg eu tröedigaethau fel camau tuag at y Milflwyddiant ac yna'r Ailddyfodiad corfforol. Roedd y Milflwyddiant yn gyfnod oedd yn dod fesul tipyn ac yn rhagflaenu'r Ailddyfodiad. Hynny yw, mae Iesu Grist yn ail-ddyfod bob yn dipyn wrth i bobl brofi tröedigaethau. Mae'n cymryd Datguddiad 10:7 yn brawf o hyn. Dirgelwch Duw, fel y gwelwyd wrth drafod *Nor Truth nor Error*, yw bod Iesu Grist yn dyfod i galonnau'r Saint a bod y Saint a'r eglwys felly yn rhannu nodweddion Iesu Grist. Ond er bod Duw a Iesu yn dyfod mewn gwedd ysbrydol i galonnau'r Saint, a hynny'n cael ei amlygu a'i brofi yn ystod y Milflwyddiant, rhaid aros tan adeg yr Ailddyfodiad corfforol nes y gorffennir y dirgelwch hwn, pan fydd 'God dwelling with Men, yea, God himself in the midst of them; this is the new Jerusalem, the holy city, the Temple, Tabernacle, and House of God' (ibid.).

Mae Duw, yn Iesu Grist, wedi dyfod i galonnau'r Saint, ac i Erbery golyga hynny mai'r Saint yw trigfan Duw a'i Deml, ac 'in truth, the whole earth, even all flesh and Mankind is full of his Glory, full of the Godhead' (t. 5). Cyfeiria Erbery

yma at holl ddynol-ryw gan ddangos ei fod yn credu mewn Cyffredinoliaeth, sef y dybiaeth fod holl ddynol-ryw wedi'i hachub, yn ogystal â'r gred fod dyn yn meddu ar nodweddion y Duwdod. Dipyn wrth dipyn, wrth i bobl brofi tröedigaethau ac wrth i Iesu ddyfod i'w calonnau, mae'r greadigaeth yn teithio tuag at ei huchafbwynt yn ôl Erbery: 'and one day the earth shall be full of the knowledge of the glory of the Lord, as the waters cover the sea, Hab. 2.14. that as nothing can be seen in the sea but waters, so Men shall see nothing in the world but God' (ibid.). Yn wir, wrth i wybodaeth o'r Arglwydd lenwi'r ddaear, 'the glory of the saints in the last dayes shall be far more excellent and glorious than all the Churches of saints at first' (t. 6). Darlunnir adeg ogoneddus yn ystod cyfnod diwethaf y ddaear pan fydd y Saint, yr eglwys, yn ogoneddus cyn yr Ailddyfodiad corfforol. Cyfeiria hyn at y Milflwyddiant. Yn ystod y cyfnod hwn ni bydd rhyfel:

but the saints in the last times, as they shall attain the glorious liberty of the sons of God, so they shall be freed from all sufferings of men [...] when God shall be brought forth in them, and the earth full of the knowledge of God, then no hurt nor destroying shall be; but as all the adversaries of Judah shall be cut off (ibid.).

Nid yn unig bydd heddwch, gan y bydd gelynion eglwys Crist wedi'u gorchfygu dan deyrnasiad yr efengyl, ond hefyd bydd rhaniadau o fewn yr eglwys wedi diflannu:

all the saints closing in love and peace together in God, shall cease their present divisions, and first fall to destroy the powers of the world opposing God in them; and then they shall save the world, and be saviours of men (t. 7).

Dyma Erbery yn cysylltu cenhadu â'r Milflwyddiant. Caiff heddwch y Milflwyddiant ei sefydlu'n gynyddol wrth i'r efengyl gael ei phregethu ac wrth i ddynion brofi tröedigaethau. Yn ogystal â hyn, bydd y Saint yn barnu'r byd. Yn gyntaf gwneir hyn drwy ddinistrio'r anghyfiawn mewn modd ysbrydol, trwy eu

troi nhw at Gristnogaeth; ar yr un pryd cwblheir 'a right ordering of all things, civill and spirituall, in Kingdoms and Churches' (t. 8). Cawn yma agwedd wleidyddol a chymdeithasol amlwg i waith y Saint yn y Milflwyddiant. Am hyn, mae dyfodiad Duw yn y Saint yn newyddion da: 'when he is come, when God is manifest in the saints, and God in the saints shall judge and govern the world, then the world shall rejoyce and sing' (ibid.).

Mae'n newyddion da oherwydd bai llywodraethau presennol y ddaear yw bod y Saint wedi bod yn dioddef gorthrwm a galar. Ond wrth i Dduw ei amlygu ei hun fwyfwy yn y Saint ac wrth iddynt bregethu'r efengyl ac wrth i ddylanwad yr efengyl ledaenu ar draws y byd a mwy o ddynion yn profi tröedigaethau, 'then the world shall be at rest and peace, violence shall be no more heard in land, but thine Officers shall be righteousness, and thine Exactors peace' (t. 9). Mae hyn yn digwydd wrth i Dduw ei ddatguddio ei hun yn y Saint. Atgyfnertha Erbery'r pwynt hwn drwy ddweud na fydd anghrediniaeth dyn yn fagl i lwydd yr efengyl: 'man's unbelief shall not hinder the coming of God; yea, the coming of God, or the manifestation of God, or God fully manifest in flesh shall swallow up mans unbelief' (t. 16). Yng ngolwg Erbery, mae Duw yn drech na dyn ac mae'r Saint, fe gofir, yn un â Duw.

Dyma gronoleg Erbery felly. Daw Iesu yn ysbrydol yng nghalonau'r Saint a thrwy hynny bydd y Saint yn efengyleiddio'r byd. Wrth i'r byd gael ei achub, caiff heddwch, rhyddid a chyfiawnder eu sefydlu (t. 19) nes bod y greadigaeth gyfan yn cael ei rhyddhau o rywau gorthrymder (t. 20).

Mae Erbery o'r farn ei fod ef a'r Saint yn mynd i mewn i'r Drydedd Oruchwyliaeth. Eglura fod dwy Oruchwyliaeth eisoes wedi bod yn hanes y greadigaeth, sef cyfnod y Gyfraith (yr Oruchwyliaeth Gyntaf) a chyfnod yr Efengyl (yr Ail Oruchwyliaeth). Cyfnod yr Hen Destament oedd cyfnod y Gyfraith

pan oedd cenedl Israel yn cynrychioli eglwys Duw ac yn dilyn cyfreithiau'r Hen Destament. Cyfnod yr Efengyl oedd cyfnod y Testament Newydd, cyfnod pan oedd yr eglwys, 'most in Spirit, and of a spirituall appearance in the Churches of Saints, with manifold gifts of the Spirit manifested among them' (t. 19). Yn y cyfnod hwn, sef cyfnod y Testament Newydd, nid oedd brenhinoedd nac ynadon yn ymwneud â 'Church or Gospel mysteries to order any thing in Doctrine or Worship, or stamp their authority on it'. Yn yr un ffordd, 'Churches of Saints, meddled not with matters of state in Kings or Kingdoms [...] the saints were then taken up wholly with things within, in spiritual enjoyments, and expectations of a greater Glory to be revealed in them' (ibid.). Y gogoniant mwy hwn i Erbery yw rhyddid gogoneddus meibion Duw, ymddangosiad Duw ynddynt a dyfodiad daear a nefoedd newydd, lle preswylia cyfiawnder (tt. 25-6). Y cyfnod gogoneddus hwn yw'r cyfnod y mae Saint ar hyd hanes wedi bod yn hiraethu ac yn aros amdano, sef y Drydedd Oruchwyliaeth, ac i Erbery, 'we are now entring into [it]' (t. 26). Mae'n glir i mi fod y Drydedd Oruchwyliaeth a'r Milflwyddiant yn gyfystyr.

Gogoniant yr Oruchwyliaeth Gyntaf (Y Gyfraith) oedd Duw yn gwaredu ei bobl o orthrymwyr allanol, sef yr Eifftiaid, yr Asyriaid a'r un brenin ar ddeg ar hugain a enwir yn yr Hen Destament y mae Duw yn eu dinistrio. Gogoniant yr Ail Oruchwyliaeth (yr Efengyl) yw'r ffaith i Dduw ddod mewn cnawd ar ffurf Iesu Grist a datguddio'i hun yn y Saint trwy'r Ysbryd Glan. Os gogoniant yr Oruchwyliaeth Gyntaf oedd Duw yn gwaredu ei bobl o law gormeswyr daearol, gogoniant mawr yr Ail Oruchwyliaeth oedd 'discoveries of God in Men, the revealing of mysteries, and of the deep things of God, by the spirit in the saints' (ibid.). Serch hyn, ni phrofodd y Saint adeg yr Ail Oruchwyliaeth unrhyw waredigaeth rhag pwerau allanol ac erledigaeth. Yn hytrach, bu cyfnod pan

oeddynt 'laid as dead under all the sufferings of Men' (ibid.). Dyma'r Gorthrymder Mawr, sef y cyfnod rhwng yr Ail Oruchwyliaeth (sef cyfnod y Testament Newydd) a'r Drydedd Oruchwyliaeth (sydd ar fin gwawrio), pan yw Iesu'n cael ei erlid yn y Saint; ond daw gwaredigaeth iddynt yn y Drydedd Oruchwyliaeth: 'when Christ shall rise in them [yn ystod y Drydedd Oruchwyliaeth], and God be revealed fully in their flesh with glory, then they should rise and appear with him in glory, as the Saviours of men also' (t. 26).

Mae'r Drydedd Oruchwyliaeth yn gymysgedd o'r ddwy Oruchwyliaeth flaenorol. Bydd y Saint yn dechrau gweld Duw yn datguddio'i hun yn llawnach mewn cnawd, yn gweld Duw yn gwaredu dynion ar raddfa fawr ac yn darganfod Duw yn eu plith mewn modd gogoneddus (ibid.). Eglura Erbery beth yw gweithredoedd mawrion Duw: mae Duw yn clwyfo'r Ddraig sy'n ymgorfforiad o awdurdod a gormes y brenhinoedd a'r llywodraethwyr anghyfiawn, ac mae'n rhannu cenhedloedd trwy dymchwel brenhinoedd a llywodraethau ac yn gwaredu ei bobl a'r holl genhedloedd o'r diwedd (t. 27).

I Erbery, mae gogoniant y Saint adeg y Drydedd Oruchwyliaeth yn fwy na gogoniant y Saint adeg yr Ail Oruchwyliaeth. Bryd hynny roeddent yn dal i ddiodeff gan fod y Saint yn cael eu gormesu a Duw heb eto ei ddatguddio ei hun yn llawn iddynt. Ond bellach, 'all that sorrow and fighting that was in Gospel saints, flies away in the now redeemed of the Lord' (ibid.). Mae Erbery yn mynd ymlaen i ddisgrifio cyflwr y Saint adeg y Drydedd Oruchwyliaeth. Mae'r Saint yn gân i gyd gan eu bod yn byw yn yr Ysbryd, yn Nuw ei hun. I Erbery, y Drydedd Oruchwyliaeth yw nefoedd ar y ddaear, 'the Heaven of heavens', ac mae'n gweld yr Apostolion a'r Proffwydi yn llawenhau dros y Drydedd Oruchwyliaeth gan fod Duw yn unioni'r cam a wnaethpwyd i'r Eglwys Gristnogol, a hynny drwy ddial ar frenhinoedd bydol trwy'r Saint (ibid.).

Eglura Erbery fod y Proffwydi yn galw'r Drydedd Oruchwyliaeth yn Deyrnasiad Duw neu'n Deyrnasiad Dafydd. Mae Erbery yn dwyn i gof sut y daeth pawb oedd yn dlawd, yn ofidus ac ag ysbryd chwerw ynddynt, yn un dan faner Dafydd, a'i dderbyn yntau'n frenin.⁵⁴ Naturiol i Erbery felly oedd gweld dynion o haenau isaf y gymdeithas yn uno â'r Saint yn y fyddin er mwyn sefydlu teyrnasiad Duw yn y wlad, gan mai dilyn patrwm y Beibl yr oeddynt. Esbonia Cohen i Ebury amddiffyn y fyddin:

Erbury observed that this army of saints was composed of two elements: the physical or material one which Erbury defended only because it was sustained and justified by the godly or spiritual one. Not only did this spiritual element justify the army, it was the ultimate source of the army's very real victories in the Civil War (1963, t. 325).

Wedi'r cwbl, wrth i Dduw ei ddatguddio ei hun yng nghalonnau'r Saint, caiff ei amlygu trwyddynt gan droi pobl i'w addoli a thrwy hynny sefydlu cyfiawnder ym mhob rhan o'r byd. Daw hyd yn oed bwystfilod y maes⁵⁵ a 'the most savage men', i addoli Duw ac fe ddiddymir seremonïaeth ffurfiol a bydol eglwysig a chyfrifir gweinidogion a gweinidogaeth eglwysi daearol yn afiach (t. 28).

Dyma'r drefn newydd a sefydlir gan Dduw a bydd yn creu popeth yn newydd yn yr eglwysi ac yn y teyrnasoedd. Dyma'r nefoedd a'r ddaear newydd, y Jerwsalem Newydd, y ddinas sanctaidd. Yn y Drydedd Oruchwyliaeth bydd Duw yn adnewyddu popeth ysbrydol a daearol trwy'r Saint yn unol ag Eseia 51:16 ac 61:4. Cam cyntaf y Drydedd Oruchwyliaeth yw dychweliad Gogoniant Duw i'r Deml, sef calonnau dynion. Trwy hynny bydd 'spirituall things restored'.

⁵⁴ 1 Samuel 22:2: Ymgynullodd hefyd ato ef bob gŵr helbulus, a phob gŵr a oedd mewn dyled, a phob gŵr cystuddiedig o feddwl; ac efe a fu yn dywysog arnynt hwy: ac yr oedd gydag ef ynghylch pedwar cant o wŷr.

⁵⁵ Eseia 43:20: Bwystfil y maes, y dreigiau, a chywion yr estrys, a'm gogoneddant;

Yn dilyn hyn bydd pŵer sifil yn cael ei adferu, yn yr ystyr y bydd y brenin yn llywodraethu'n deg a chyfrifir y brenin a'i bobl yn hafal.⁵⁶

O ystyried digwyddiadau ei ddydd, mae Erbery yn dweud yn sicr, 'that the Saints now are under a differing dispensation from Law and Gospel' (t. 30). Mae'n gweld fod y Saint dan orthrwm. Mae'n gweld fod y Saint, yr eglwysi a'r llywodraethau Cristnogol, oddi mewn ac oddi allan, o dan gaethiwed Babylon a bod hiraeth yn y Saint am ryddid ac am Ailddyfodiad Iesu Grist, 'which is called, the coming of God with all the Saints' (ibid.). I Erbery, dyma ddiwrnod yr Arglwydd. Ar hyn o bryd, mae'r diwrnod megis gwawrio, a phethau'n aneglur, ond cyn pen dim, 'all then shall be light, and a full glory slaming forth in the Saint's which shall darken all the glory of man, and dash in pieces the oppressing powers on earth, God appearing in the Saints' (ibid.). Y rheini y mae'r Saint am eu chwalu yw brenhinoedd daearol sydd wedi gorthrymu teyrnas Duw ac unigolion sydd wedi gosod eu hunain mewn safleoedd uchel i lywodraethu dros athrawiaeth ac addoliad yr Eglwys.

Mae'n amlwg fod Erbery yn rhagweld diwrnod, neu gyfnod, pan fydd Duw yn gwaredu dynolryw 'by his appearance in the Saints'. Dyma atgyfnerthu ei gred a amlygwyd yn *Nor Truth nor Error* (1647). Daw Iesu Grist yn ysbrydol yng nghalonau'r Saint. Dywed eto y bydd y Saint yn un â Iesu Grist; 'the appearance of the great God and Saviour shall be manifest in them' (t. 12). 'For this is Christ, and the appearance of Christ' (t. 31). Brenhinoedd daearol sydd wedi gorthrymu teyrnas Duw ac unigolion sydd ac wedi gosod eu hunain mewn safleoedd uchel i lywodraethu athrawiaeth ac addoliad yr eglwys; y rheini sydd

⁵⁶ Eseciel 45:9: Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Digon i chwi hyn, tywysogion Israel; bwriwch ymaith drawster a difrod, gwnewch hefyd farn a chyfiawnder, tynnwch ymaith eich trethau oddi ar fy mhobl, medd yr Arglwydd Dduw.

Eseciel 46:10: A phan ddelont hwy i mewn, y daw y tywysog yn eu mysg hwy; a phan elont allan, yr â yntau allan.

wedi rheoli bywyd ysbrydol y wlad â chleddyf, trwy senedd neu bwerau sifil; y rheini sydd wedi carcharu Saint nad oeddynt yn cydymffurfio (ibid.). Bydd Duw yn codi ac yn datguddio ei hun yn y Saint fel y bydd y Saint, trwy nerth Duw, yn cosbi'r bobl hyn trwy eu carcharu a'u lladd. Oherwydd hyn, bydd brenhinoedd daearol yn syrthio o flaen Duw yn y Saint. I Erbery, mae gwaith y Fyddin Model Newydd a'r rhagdybiaeth o gyfnod buddugoliaethus i'r Saint, yn cyflawni Datguddiad 19:11. Bydd Duw yn y Saint yn llywodraethu mewn cyfiawnder.

Bydd y teyrnasiad a'r cyfnod buddugoliaethus hwn yn dechrau'n ysbrydol. 'These things are most performed in the spirit', yn ôl Erbery, cyn i Dduw ddechrau gweithredu'n gorfforol, a hynny trwy gyfrwng y Fyddin Model Newydd: 'I wait on God to see them accomplished in the letter, to see God in the Army of saints, wasting all oppressing powers in the land' (t. 35). Bydd Duw yn gwneud hyn yn ei amser ei hun ac yn dinistrio Nimrod, Babel ac Asyria y dydd, sef brenhinoedd a llywodraethwyr gormesol. Nid yw'n ymddiheuro am ei safbwynt oherwydd os daw Duw fel hyn, yna ni ddaw yr un gormeswr na gormes i mewn i lywodraeth y wlad. 'I shall praise God that all Men shall have joy and Peace' (t. 36).

Yn y gyfrol hon felly gwelwn Erbery yn arddel ei gred yn y Drydedd Oruchwyliaeth. Dyma wedd ar filflwyddiaeth gyfriniol lle y daw Iesu Grist i galonnau dynion. Ond yn y gyfrol gwelwn Erbery hefyd yn amddiffyn y fyddin.

Eglura Cohen:

It is only the particular moment of history, the moment of Christ's second appearance, that allows the saints to use force. Because of its critical transitional nature, this moment would seem to demand expedient measures; and because it is bringing forth a period in which nonspiritual matters are once again to enter God's providential design, this moment also would seem to sanction a little non-spiritual violence (1963, t. 326).

Trwy'r fyddin, y 'non-spiritual violence', sefydlir y Drydedd Oruchwyliaeth, sef y Milflwyddiant. O hyn ymlaen, gwelwn fod Erbery yn ymbellhau oddi wrth Filflwyddiaeth militaraid er ei fod yn amddiffyn gweithredoedd y fyddin yn y gyfrol hon. Efallai erbyn cyhoeddi ei gyfrol nesaf yn 1652 ei fod wedi gweld ymddygiad y Pumed Brenhinwyr a ffeiddio wrth hynny. Yn sicr, mabwysiadodd agweddau cwbl wahanol iddynt. Yn wir, gall Thomas Richard ddweud 'contemporary criticism in Wales of Fifth Monarchy opinions is practically confined to Erbery' (Richards, 1920, t. 189). Fodd bynnag, mae tebygolrwydd rhwng Trydedd Goruchwyliaeth Erbery a Milflwyddiant y Pumed Brenhinwyr. Roedd y ddau yn galw ar ddynion i weithredu'n gymdeithasol ar y ddaear ac roedd y ddau yn nodi fod proffwydoliaethau i'w cyflawni, megis tröedigaeth yr Iddewon.

The Sword Doubled (1652)

Rhan gyntaf y gyfrol hon yw *The Grand Oppressor, or The Terror of Tithes*, llythyr personol a anfonodd Erbery yn gynharach yn 1652 at un o'r comisiynwyr a apwyntiwyd dan Ddeddf Taenu'r Efyngyl yng Nghymru (1650). Ynndo, mae Erbery yn cydnabod ei fod wedi bod yn weinidog a oedd wedi profi 'sufferings for the State, and the Saints in Wales'. Mae'n ddiolchgar i'r Comisiynwyr am roi £100 y flwyddyn iddo'n gyflog, ond honna fod ei gydwybod wedi peri iddo wrthod derbyn y cymorth ariannol hwnnw. 'The Lord God Almighty began to roar like a man of War, and to cry like a woman in travel within me,' meddai (t.1).

Yn y llythyr cawn wybod bod Erbery wedi dechrau eistedd yn dawel gan aros am Dduw a'i 'glorious appearance with power in all his people' yn lle ymroi i bregethu (t. 2). Dywed hefyd ei fod yn ddiweddar wedi esbonio Eiseia 61:1-2 mewn gwasanaeth. Gwelodd o'r darlleniad fod gan Dduw, trwy'r eglwys,

newyddion da i'w gyhoeddi i dri math o bobl: y tlodion, y gorthrymedig a'r carcharorion. Roedd Erbery wedi gobeithio gweld blwyddyn ffafr yr Arglwydd yn cael ei sefydlu gan y Senedd, felly aeth ati i bregethu am fis ar y tlodion, yna mis ar y gorthrymedig ac yna mis ar y carcharorion. Yna, 'God began [...] to roar in my Spirit, and I to hear nothing within me but the cry of the oppressed' (t. 3). Am hyn, ni allai dderbyn cyflog y Comisiynwyr, oherwydd 'I and my children fed on their [y gorthrymedig] flesh, that we drunk their bloud, and lived softly on their labour and sweat' (t. 3). Roedd Erbery yn clywed llais Duw yn gofyn, 'Is it not the gain of oppression that thou and thine live on?' (ibid.).

Dywedodd Erbery mai gwaith yr Ysbryd Glân oedd y poenydio hwn a rhagwelodd y byddai'r Ysbryd yn ymledu ar draws yr holl wlad er mwyn dymchwel gorthrymwyr, 'to burn up their flesh, fulnesse, and those fair buildings which they have raised on the ruins of others, enriching themselves in the Nations poverty' (t. 4). Aeth yn ei flaen i brotestio fod llywodraeth y Weriniaeth yn derbyn degymau ac yn talu gweinidogion, athrawon a phregethwyr Cymru gyda'r arian. Wedi'r cyfan, 'all the godly Preachers and people of God in Wales, did formerly profess, preach, and pray against' degymu cyn sefydlu'r Weriniaeth.

Gan y rhoddid y degwm i bregethwyr yr efengyl a berthynai i eglwysi cynnull cyfrifai Erbery hyn yn waeth na degwm offeiriadol, Pabyddol a Phresbyteraidd (t. 7). I Erbery, y wlad ei hun oedd yr offrwm y dylid ei roi i Dduw (t. 12). Credai Erbery fod Iesu Grist wedi dymchwel gogoniant eglwysi cynnull Cymru am fod y gweinidogion wedi dechrau derbyn y degwm:

Oh how secretly and suddenly is the day of the Lord, or the Lord day stollen upon the Churches of Wales, Christ being come as a Thief in the night to spoil them of all their glory and honour, yea, their goodness is quite gone, and carried away into captivity (t. 13).

Cyhoeddodd Erbery ei fod bellach yn farw i bethau'r byd hwn, 'desiring to dye to all things below God to my own life and livelihood' (t. 14). Ymrwymodd i beidio â derbyn y degwm gan ei fod wedi darganfod 'a better livelihood in the Lord' (ibid.). Roedd yn cydnabod ac yn llawn sylweddoli y byddai hyn yn golygu caledi i'w deulu, 'but God will be a father to them [ei blant] and a husband to her [ei wraig]' (t. 15). Roedd Erbery hefyd yn rhagweld diwrnod neu gyfnod, yn y dyfodol agos, pan fyddai Duw yn darparu ar gyfer y tlawd, 'when God shall appear in them [y tlawd] as fire to burn up all their [y cyfoethog] fulnesse [...] in the day of wrath' (ibid.).

Teitl ail ran y gyfrol yw *The Sword Doubled to cut off both the Righteous and the Wicked*. Yma eto, mae Erbery yn cyfarch gweinidogion eglwysi cynnull Cymru a Lloegr, a dymchwel pwerau gorthrwm yw testun yr ail ran hon o'i gyfrol. I Erbery, cynllun mawr Duw yw dymchwel grymoedd gorthrwm mewnol ac allanol yn nheyrnasoedd ac eneidiau dynion er mwyn i ddynion gael eu gwaredu i allu mwynhau rhyddid, ac yn sgil hynny llwyddo i wasanaethu Duw mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder. Dyma oedd holl bwrpas dyfodiad cyntaf Crist mewn cnawd ac yna ei ail ddyfodiad ysbrydol yn yr Ysbryd (t. 19). Rhaid i 'Babylon' ac 'Asyria', sef ei enwau ar y gorthrymwyr mawr o ran materion eglwysig a sifil, gael eu dymchwel. Mae gorthrymder i'w weld yn amlwg yn y byd sifil, ond mae i'w weld yn gynyddol ym mywyd yr eglwys hefyd, gan fod balchder yn dod yn fwyfwy amlwg (t. 20). Ond rhagwelai Erbery ddiwrnod pan fyddai tywysog y gorthrymder hwn yn cael ei ddifa ar sail Eseciel 21:25-26. Awgryma Erbery fod Duw eisoes wedi dymchwel y 'Prelatick [Esgobol] and Presbyterian party' ond y byddai cleddyf yr Arglwydd yn cael ei ddefnyddio'r trydydd tro er mwyn difa'r '*prophane and wicked Prince, whatever he be*' (ibid.). Dyma'r tywysog sy'n gorthrymu 'the appearance of God in men' (ibid.). Mae'r

tywysog hwn yn *'imperious, proud, peevish, covetous, cruel and cunning for blood'* (ibid.). Yn fy marn i, pob grym gorthrymol yw ystyr y tywysog trosiadol hwn. Gall gynrychioli'r llywodraeth sifil, y Frenhiniaeth, aristocratiaeth, democratiaeth ac eglwysyddiaeth Esgobol, Presbyteraidd a Chynulleidfaol.

Un ffordd y difa Dduw y tywysog hwn yw trwy ddylanwad yr efengyl. Cyflawnir hyn trwy 'God, appearing in lowest Saints, above them in grace, and the knowledge of our Lord, in simplicity, in pureness, and peace, and in patience also'. Golyga hyn fod i Gristnogion ran weithredol yn y broses o ddiwygio'r gymdeithas er mwyn trechu tywysog gorthrymder. Siarsiai Erbery'r Saint: 'But when the people of God are silent, and sit still, seeking onely self, not sensible of the burdens of the oppressed, of the Prisoners hands, nor the poor families who cry for bread, how dwelleth the love of God in them, saith John' (t. 23). Er mwyn difa'r tywysog rhaid felly i'r Saint fod yn weithredol yn eu ffydd - nid yn unig wrth bregethu'r efengyl ond hefyd wrth helpu'r tlawd, y carcharorion a'r anghenus.

Serch hyn, nid yw grymoedd gorthrymder eto wedi'u trechu ac felly mae rhaniadau yn dal i fodoli o fewn yr eglwys. Am hynny, 'the Vials are yet full of the wrath of God, when these are poured forth, Love will appear, that is, the Lord himself in us all, who will bring forth light out of darkness, and love out of divisions' (t. 24). Gwelwn yma eto yr un thema ag a welwyd yn y gyfrol ddiwethaf, sef dyfodiad Duw yng nghalonau'r Saint, a thrwy hynny sefydlu cyfnod o lewyrch i'r eglwys.

Daw cwmp gorthrymder pan ddatguddir Iesu Grist yn llawn yn ei ailddyfodiad anghyfforol, sef adeg y Drydedd Oruchwyliaeth y soniwyd amdani eisoes (t. 27). Bydd y Drydedd Oruchwyliaeth yn arwain at gwmp gorthrymder oherwydd:

the third will be pure Spirit, when nothing but Spirit and power shall appear, when God shall be all in all: For although Gospel-believers were baptized into the name of Father, Son and Spirit, yet what they possessed was but the first fruits of the Spirit, there will be a full harvest, floods, and Rivers of waters of life which no man can pass over, when the earth shall be full of the knowledge of the Lord (or as another Prophet adds) full of the knowledge of the glory of the Lord, as the waters cover the Sea (t. 28).

Dyma ddarlun bywiog o'r Milflwyddiant, neu'r Drydedd Oruchwyliaeth. I Erbery, rhan o sefydlu'r Drydedd Oruchwyliaeth a difa gorthrymder yw gweld Duw a dyn yn uno ar Fynydd Seion i farnu ac achub dynol-ryw. Nid mynydd llythrennol yw Mynydd Seion i Erbery, nac ychwaith ffurf-lywodraeth eglwysig, ond yn hytrach 'Zion is the state of all the Saints in the Spirit as they are in God, and God in them' (t. 29). Seion yw trigfan Duw, ac i Erbery mae dynol-ryw wedi bod yn aros am ddyfodiad Duw i drigo ynddi. Mae'n rhagweld y bydd lliaws dirifedi o ddynton yn troi at Dduw adeg y Drydedd Oruchwyliaeth (ibid.).

Yn wahanol i'r duedd Biwritanaidd gyffredin, a'i farn ef yn ei gyfrol gynharach, nid yw Erbery yn rhagweld lle blaenllaw i bregethu yn y gwaith o geisio sefydlu'r Drydedd Oruchwyliaeth. Yn hytrach na phregethu, erfyniodd ar y Saint i ymdrechu i garu ei gilydd ac ymarfer cyfiawnder:

God is going out, and departing from all the preachings of men, that men may give themselves wholly to publick acts of love one to another, and to all mankind; therefore all religious formes shall fall, that the power of righteousnesse may rise and appear in all: The new Heaven and new Earth, where dwelleth Righteousnesse, hath no form of Religion there (t. 38).

Mae Erbery yn beirniadu llywodraeth y Weriniaeth gan ddweud nad yw'r holl bregethu, areithio, deddfau, pwyllgorau rhyfel, diwrnodau ympryd a gweddi yn cyfrif dim, 'till they repent and return to their first principles, to the power of Righteousnesse, to Justice, and Mercy to the Nation' (t. 39). I Erbery, dyma 'the glorious appearance of the great God' (ibid.). Yn hytrach na phregethu am

Dduw, bydd Duw yn ymddangos mewn dynion ac oherwydd hynny 'they shall goe forth in actings of love to mankind, and to the miserable part thereof, to the poor, to the oppressed, to the fatherlesse, and the widow, and to all that want that which we abound in' (t. 40).

Yng ngoleuni hyn, cawn awgrymiadau gwleidyddol radical gan Erbery. Mae'n cwstyynu pam y dylai cenhadon gael eu gyrru tramor tra bo pobl yn dal i wynebu gorthrymder economaidd gartref (ibid.). Er mwyn delio â gorthrymder y bobl mae'n cynnig sawl awgrym radical. Yn gyntaf, mae'n cynnig codi treth ar y cyfoethog er mwyn helpu'r ffermwyr, y llafurwyr a'r masnachwyr tlawd. Mae'n cynnig peidio â degymu a gwrthod talu ffioedd cyfreithwyr am gyfnod. Yn drydydd mae'n cynnig sefydlu trysordy i'r tlawd, 'when so many thousands a year can be found out to give to the rich' (ibid.). Dyma yw delfryd Erbery, a phan ymddengys Duw mewn dynion, dyma'r math o wleidyddiaeth a gaiff ei weithredu:

When God appears in men, and men act in the immediate power of God, when the power that God and man hath put into their hands is improved to the utmost, without fear of man, and with full confidence in God, oh what a world of good might be done in one day? all the proud enemies, oppressors, the unrighteous riches, the unjust gaines, the great revenues suddenly got, yea all the iniquity of the Land would be taken away in one day (tt. 41-2).

I Erbery, dyma beth yw'r Newyddion Da:

glad tydings to the poor, and make all the oppressed in the Land to sing, for this is the everlasting Gospel which shall be preached, not in word but in power, not as the Gospel at first, in speaking, or preaching, but in publick actings, the everlasting Gospel shall goe forth in the last time (t. 42).

Mae Asyria, neu'r Babyloiad, yn cynrychioli'r grym gorchfygol y mae'n rhaid ei waredu o'r eglwys a'r Weriniaeth. I Erbery, yr eglwysi presennol yw 'Asyria' gan fod eu trefn, eu hanghytundebau a'u cweryla ymysg ei gilydd yn

mygu gwir Gristnogaeth. Yr unig ffordd i ddymchwel yr eglwysi presennol yw 'the glorious appearance of God in the scattered Saints' (t. 49). Bai'r eglwysi oedd ffurfio trefn-lywodraeth eglwysig yn hytrach nag aros i'r Ysbryd ddod i roi trefn arnynt a datguddio Duw ynddynt. Gwelodd Erbery Esgobyddiaeth yn dadfeilio, felly hefyd Bresbyteriaeth. Yn awr mae'n rhagweld y bydd y Weriniaeth a'i henaduriaid yn cwmpo pan

that glory hid in God before the world, will come forth in men at last; yea, that old light of Law and Gospel-Churches which hath been hid and darkened by the Apostacy, shall be more fully known, and come forth from all that traditional knowledge of God which is yet received by men (t. 52).

Bydd y cyfnod hwn yn 'day of doom' i'r eglwysi (ibid.). Bydd Duw yn eu distewi am iddynt orthrymu'r tlawd yn y wlad, am i bregethwyr dderbyn a chodi tâl am bregethu ac am i weinidogion dderbyn swyddi sifil (tt. 53-5).

I Erbery, yr unig obaith o ddisodli gorthrymder oedd trwy ymddangosiad gogoneddus Duw yn y Saint. Credai hefyd y deuai Duw yn ogoneddus mewn ynadon o Gristnogion oherwydd gallent ddisodli gorthrymder yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Rhydd hyn wedd wleidyddol amlwg i ddysgeidiaeth Erbery. Dehonglodd Erbery y deg brenin yn Datguddiad 17:16 fel yn cynrychioli ynadon y wladwriaeth a fyddai'n cael eu concro gan ymddangosiad gogoneddus Duw yn y Saint. Dyma'r camau iddo:

the Appearance of God in the Christian Magistrate also, will goe forth as the flying Angel, &c. 2. That fire whereby they burn the Whores flesh; is the Spirit of the Lord God in them. 3. That Spirit which appeared in the Ministers of Christ preaching the Gospel at first, will now appear in the Christian Magistrate much more at last. 4. As the Magistrate is the Minister of God, and the onley true Minister now (there being none in the Church) so God in the last dayes will first appear with power and glory, not in the Church, but in the Common-wealth, not in Ministers at all, but in the Magistrate both Civill and Martiall (t. 61).

Ynadon fyddai'n ymrwymo i'r gwaith gan fod gweinidogion eglwysi Iwerddon a Lloegr yn llwgr a'r eglwysi yn addoli arian yn hytrach na Duw. 'Their whole work is in calling men to Church, not to Christ' (t. 63), a thywyll oedd cyflwr ysbrydol Cymru bellach: 'that light and love which was formerly in Wales in good Mr. Wroth's dayes, is dead with him, and quite darkened' (ibid.). Ond nid oedd Erbery yn hollol anobeithiol, oherwydd 'the glory of the Lord shall cover it [y wlad], till the glorious liberty of the Sonnes of God (and of Men also) shall arise as the Sun in this Land at last, as the first fruits of freedome, and healing to the world' (t. 64). Mae Erbery yn diweddu'i lith wrth siarsio gweinidogion eglwysi cynnull i beidio â gorfodi'r degwm ar unrhyw un ac i beidio, ar unrhyw gyfrif, â derbyn tâl am eu gwaith.

Yn y gyfrol hon gwelwn Erbery yn darlunio ac yn delweddu holl rymoedd gorthrymus y byd fel Babylon. Roedd hynny'n cynnwys breniniaethau, aristocratiaeth, democratiaeth ac eglwysyddiaeth y Presbyteriaid a'r Cynulleidfaolwyr. Gwelwn sut roedd Erbery o'r farn fod Duw yn arwain ac yn rhaglunio hanes tuag at y Milflwyddiant. Dywed John I. Morgans mai 'Christ [...] eternally present in the saints' yw 'climax of history' i Erbery (2012, tt. 110-11). Eglura Morgans sut roedd blynyddoedd cythryblus y Rhyfel Cartref wedi arwain Erbery i gredu fod y Milflwyddiant gerllaw:

The recent history of these islands was proof that the Age of Apostasy was drawing to a close. Like many fellow Puritans, Erbery believed the saints had been raised to power by God's direct intervention in the history of seventeenth-century England [...] Erbery's chief premise was not that God was giving power to parliament or the Army, but that God was replacing oppressive regimes by those strengthening religious freedom, and propagating social righteousness (2012, t. 111).

Mae'r gyfrol hon yn dangos fod Erbery yn parhau i arddel y gred mai dyfodiad ysbrydol yng nghalonau'r Saint sydd i'w ddisgwyl ac y byddai'r

Milflwyddiant yn dod i fodolaeth yn sgil hynny. Gwelwn yma, 'sense of God's immanence and imminence', chwedl John I. Morgans (2012, t. 112). Ond mae *The Sword Doubled* hefyd yn waith pwysig gan ei fod yn profi fod Erbery erbyn hyn yn credu mai trwy weithredu cymdeithasol y byddai Duw yn sefydlu'r Milflwyddiant, neu'r Drydedd Oruchwyliaeth fel y'i gelwid ganddo. Mae'n deisyf gweld Cristnogion yn helpu'r tlodion yn gyntaf yn lle pregethu. 'Erbery castigated the churches for their blindness to society's needs. Because of their obsessive concern for forms of church government, ministries and ordinances, the churches were proving themselves to be irrelevant to the issues of the day' (ibid.).

The Bishop of London, The Welsh Curate, and Common Prayers with Apocrypha in the End (1652/3)

Ysgrifennodd Erbery bedwar tract yn ystod y cyfnod yr ysgrifennodd *The Sword Doubled* (1652). Casglwyd hwy at ei gilydd a'u cyhoeddi yn Ionawr 1652/3 o dan y teitl uchod. Y pedwar tract oedd *The Bishop of London, The Welsh Curate, Apocrypha* a *The General Epistle to the Hebrews*. Cyd-destun *The Bishop of London* a *The General Epistle* oedd trafodaethau yn London House, cartref eglwys o Annibynnwyr a Bedyddwyr yn ystod misoedd olaf y Senedd Hir, a ddiddymwyd gan Cromwell ym mis Ebrill 1653. Roedd Erbery wedi cymryd rhan yn y drafodaeth gyntaf ac wedi mynychu'r gweddill. Yn ystod un drafodaeth pan oedd Christopher Feake a John Simpson, dau aelod blaenllaw o Blaid y Bumed Frenhiniaeth, yn siarad, torrodd Erbery ar draws Simpson, a oedd yntau wedi codi i ddadlau yn erbyn Feake. Aeth y cyfarfod yn flêr. 'Informality gave way to chaos', chwedl John Morgans (2011, t. 129). Dyma ddigwyddiad holl-bwysig ym mywyd Erbery, oherwydd o'r eiliad honno ymlaen

cyhuddwyd Erbery o fod yn wallgofddyn oherwydd ei gymeriad tanllyd, ei gredoau heresiol a'i wrthwynebiad tuag at arweinwyr crefyddol pob mudiad.

The Bishop of London

Yn *The Bishop of London* esbonia Erbery fod eglwys All Hallows, canolfan Plaid y Bumed Frenhiniaeth, a symudodd maes o law i London House, wedi cyfarfod i weddïo am gynrychiolwr newydd. Gwna sylwadau am bensaerniaeth yr adeilad a dulliau gweddïo'r eglwys, gan fod Annibynwyr a Bedyddwyr yn cyd-addoli yno. Ni chafodd lawer o flas ar yr addoliad ond penderfynodd ddychwelyd yno er mwyn gweld 'if the Spirit of Jesus would yet appear in the Churches of Christ so called' (t. 2).

Roedd yr hyn a ddywedodd Simpson yn 'lowe and legal' ym marn Erbery (t. 5) ac am hynny gwrthwynebodd ef yn gyhoeddus. O'r herwydd, 'men said there, I was mad'; ond amddiffynnodd Erbery ei hun gan ddweud, 'yet truly I spake of nothing but words of Soberness and Truth' (t. 5).

Os cyfrifwn dystiolaeth Erbery yn gywir, ymddengys mai ymdrech gan yr arweinyddion crefyddol i'w ddistewi oedd rhoi'r label 'gwallgof' arno. Casgliad Erbery am y cyfarfod oedd: 'Sirs, your Prayers are legal, and your Preachings legal: I see you are all in the dark, and so I bid you Goodnight' (t. 7). Yn dilyn hyn cododd William Parker, swyddog yn y Fyddin, i hysbysu'r gynulleidfa o 'Ranting Spirit' Erbery. Ymateb Erbery oedd dweud wrtho 'to his face, that he spake lyes before God and men' (ibid.). Gyda'r geiriau hynny, gadawodd Erbery, 'waiting when God will come down, and manifest himself to all his people' (t. 8). Parodd y digwyddiad hwn loes calon iddo. Dywedodd, 'Oh that the gathered Churches and scattered Saints could see themselves in Babylon, as dead dry bones.' Nid welai unrhyw ddiben gweddïo 'for a way of progagating the Gospell'

nac am undod a chytgord 'till wrath be poured forth on all their Forms and Flesh [...] Then the Spirit shall come from on high, and gather up all the Saints and men in God' (ibid.).

Hyd yn oed yn y tract bychan hwn, yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant oedd prif ffocws y cynnwys. I Erbery, roedd gorthrwm yn bla yn yr eglwys a'r unig obaith oedd bod Iesu Grist yn dyfod yn yr ysbryd i lanhau'r eglwys a'i rhyddhau. Dim ond wedi hynny y gallesid ystyried a gobeithio am gyfnod gogoneddus i'r eglwys.

The Welsh Curate

Darllena *The Welsh Curate* fel cwyn yn erbyn cyflwr eglwysi'r wlad. Mae Erbery yn lladd ar ordinhadau'r eglwys ac yn lladd ar ei gweinidogion, yr 'idol-Shepherds' (t. 11). Ei gred yn nyfodiad buan y Drydedd Oruchwyliaeth sy'n flaenllaw eto. Dywed fod Bedydd a Swper yr Arglwydd hyd yn oed yn ystod yr Ail Oruchwyliaeth adeg yr Apostolion ddim ond yn fuddiol i'r disgyblion gwan; a dim ond ffurfioldeb gwag yw'r ordinhadau hyn ers i'r eglwys syrthio i gyfnod o wrthgiliad. Serch hynny, mae Erbery yn obeithiol oherwydd mae ganddo ffydd yn nyfodiad y Drydedd Oruchwyliaeth. A beth yw ei obaith? 'God himself in the midst of his people [...] the new Jerusalem [...] when God shall dwell with men' (t.15).

Tosturia at filwyr, 'the lowest form for spiritual Saints', gan mai 'butchers of mankind' ydynt. Mae'n gweld pwysigrwydd y Fyddin yn y gwaith o ddymchwel gorthrymder ond ni fydd lle i'r Fyddin pan sefydlir y Drydedd Oruchwyliaeth yn llawn. Mae lle i'r Fyddin, 'till oppression, and the peoples poverty' yn cael eu diddymu. Allan o ymdrechion y Fyddin 'God will bring forth perfect Government,

and glory on earth, wherein righteousness shall dwell; when no form of Religion shall appear' (t. 16) ac ni bydd angen y Fyddin mwyach.

Dyma dract diddorol lle mae Erbery eto yn arddel ei gred yn nyfodiad y Drydedd Oruchwyliaeth. Dyma pryd y sefydlir llywodraeth berffaith, ac y bydd heddwch a chyfiawnder yn teyrnasu ar y ddaear gydag ymddangosiad Duw yng nghalonau'r Saint.

Apocrypha

Yn *Apocrypha* mae Erbery yn traethu am rywbeth sy'n amlwg yn agos at ei galon, sef ei gyd-Gymry. Byrdwn ei neges yw'r ffaith nad yw'r efengyl yn cael ei phregethu na'i chyhoeddi yn yr eglwys a rhybuddia y bydd yr efengyl yn cael ei rhoi yn nwylo anghredinwyr. 'God is turning the world upside down' (Morgans, 2011, t. 138). Ond ym mha ffordd y bydd y byd yn cael ei droi ben i waered? Yn syth atgoffa Erbery'r darllenwyr mai dyddiau blin o ryfela yw eu dyddiau hwy: 'nothing among you, but war, wrath, and want of grace'. Serch hynny, gobeithia y bydd hyn yn cael ei wyrdroi, 'so from all our wars and wranglings, God will bring perfect peace and truth unto all his people at last' (t. 1).

Cyfeiria Erbery at y Cymry fel 'better Gentlemen, being pure Britaines' (t. 2). Cyfeiria hefyd at Paul fel Cymro (fel y gwna yn *The Welsh Curate*) a'r rheswm y gwna hynny yw am fod Erbery yn credu mai disgynyddion i'r Israeliaid yw'r Cymry. Hynny yw, maent yn genedl wedi'i neilltuo'n arbennig gan Dduw, a sefydlwyd ffurf bur ar yr eglwys yng Nghymru ar y dechrau. Mae R. Tudur Jones yn nodi fod cyfnod y Piwritaniaid Cymreig mewn alltudiaeth yn Lloegr ar ddechrau'r Rhyfel Cartref yn bwysig (1966, t. 44). Roedd yn gyfnod pwysig oherwydd daethant i gyswllt â Phiwritaniaid eraill a syniadau a diwinyddiaeth radical. Awgrymaf fod y cyfnod o alltudiaeth yn bwysig hefyd gan i'r Piwritaniaid

Cymreig alltud lunio paralelau rhyngddynt â'r Israeliaid alltud yn y gaethglud adeg yr Hen Destament, yn aros am gael brofi rhyddid a gwardigaeth gan Dduw. Awgrymaf hefyd fod y cyfnod o alltudiaeth yn bwysig gan ei bod wedi pwysleisio i'r Piwritaniaid Cymreig mai Cymry oeddynt gan greu ymdeimlad dyfnach o wladgarwch ynddynt.

Er bod i Gymry'r gorffennol berthynas arbennig â Duw, 'the Church was one Heaven', mae'r eglwys yng Nghymru bellach wedi cwmpo, 'now but Earth, and the Earthly power, in their Ordinances, Designes, Desires, and Delights'. Am hyn, mae Duw am weithredu, gan 'turning men upside down, their inside out' (ibid.).

Wffitia Erbery'r syniad o genhadu gan fod yr eglwys yng Nghymru yn amhur ac yn sathredig. Mae'r eglwys wedi syrthio oddi wrth yr efengyl i'r fath raddau fel mai swydd yr anghredinwyr yw troi'r eglwys 'from our forms of Religion to the power of righteousness' (ibid.). Erbyn hyn mae Erbery o'r farn mai cyfiawnder a heddwch daearol yw prif ddiben dyn, nid edifarhau am bechod a dod i berthynas â Duw drwy gredu yn Iesu Grist. Does dim sôn ganddo am bregethu a chredu'r efengyl, ond yn hytrach ceisio heddwch daearol rhwng dynion ac ymgynraedd at gyfiawnder drwy ffyrdd mwy seciwlar megis diwygio systemau cyfreithiol a sifil y wlad. Nid yw'n syndod i arweinwyr Piwritanaidd, a ystyriai bregethu edifeirwch a throi at Grist am waredigaeth yn hollbwysig, ei alw'n wallgofddyn. Mae Erbery yn awgrymu y dylai'r eglwys fynd at yr anghredinwyr er mwyn i'r anghredinwyr hwythau dystiolaethu i'r eglwys fod 'all men are in God [...] to think evil of no man, is the best religion, to do good to all, and to do to every one, as we would that men do to us [...] This and many more that is Gospel and glad tydings to all, every Scholar will tell you, that Heathens can teach' (t. 3).

Yn ôl Erbery, 'the everlasting Gospel and glad tydings to all men, shall first be made known to our British Isle' (t. 5), ac yn benodol, yng Nghymru. Credai hyn oherwydd 'these Northern Isles were the first that acknowledged Christ', ac ar y pryd y Brythoniaid, hynafiaid y Cymry, oedd trigolion yr Ynysoedd hyn. 'Lucius the first Christian King, was a Britain; and Constantine the great, the first Christian Emperour in the world, was a Britain or Welshman' (t. 6). Dywed hyn oherwydd dwy chwedl ynghylch achau Cystennin. Yn ôl un chwedl, ei dad-cu oedd Coel Hen, Brenin Prydain, sef tad chwedlonol Helen, mam Cystennin. Y chwedl arall yw mae ei rieni oedd Sant Elen a Macsen Wledig. Mae'r ddwy chwedl felly yn honni fod gan Cystennin wreiddiau Prydeinig. Esbonia Erbery, gan i Gristnogaeth ymsefydlu'n gyntaf yng Nghymru, mai yng Nghymru y profwyd hefyd y Gwrthgiliad yn gyntaf. Dyma lle y sefydlwyd gau athrawiaeth, gau grefydd a seremoniaeth Babyddol, ac oherwydd hynny, profir y Drydedd Oruchwyliaeth yn gyntaf yng Nghymru hefyd.

I Erbery, canlyniad y Gwrthgiliad yw strwythur a threfniadau crefyddol sy'n caethiwo'r Ysbryd. Mae'n sylwi fod yr Albanwyr, yn hanesyddol, wedi dymchwel Esgobyddiaeth, fod y Saeson wedi dymchwel Presbyteriaeth, ac mae'n rhagweld y bydd y Cymry yn dymchwel trefn y Bedyddwyr a'r Annibynnwyr yn eu tro. 'One falls after another,' meddai 'as if nothing should stand on English earth, but pure Spirit, but the Lord himself' (t. 7). 'All will fall, and first in Wales,' meddai Erbery yn hyderus broffwydol. Ond mae'n herio'r Cymry i fwrw ati'n gyflym, rhag ofn i'r Albanwyr achub y blaen arnynt!

Hiraetha Erbery am flynyddoedd cynnar eglwys gynnull Llanfaches, 'the first Independent Church [...] where the Saints have out-lived their persecutors' (t. 8). Cawn yr argraff mai dyna oedd eglwys ddelfrydol Erbery. Dywed yn hiraethus:

there were not more spiritual and suffering Saints in any part of English ground, as were in Wales; so self-denying, and dying to the world, yea so wise-hearted and knowing Christians; let all the English Counties about them testifie, and will tell, how many Saints from Somerset, Gloucestershire, Herefordshire, Radnor, Glamorganshire came in multitudes with delight to Lanvaghés (ibid.).

Mae'n hiraethu am waith yr Ysbryd, am y meddyliau dyrchafedig, am yr iaith nefolaidd, am y gweddïau a'r gwaith a welwyd, a gafwyd ac a brofwyd yn Llanfaches. Nid oedd ordinhadau yn agos i'r eglwys honno, 'all was Spirit and life' (t. 9).

Fel yna y bydd hi eto yn y dyfodol yn ôl Erbery, 'but they are enbondaged to their Pastors and Teachers'. Am hyn, wylai Erbery: 'Ah pity pitty poor Wales! how are thy mighty fallen?' (ibid.). Dywed Erbery, 'Wales is a poor oppressed people, and despised also,' ac oherwydd y cyflwr truenus hwn, dywed yn gadarn, 'Oh there's a place for Christ to come' (ibid.). Am hynny mae'n falch i gyhoeddi nad oes eglwyswr na phresbyter yn pregethu â phŵer yn ne Cymru a dywed fod mwy yng Nghymru nag yn Lloegr sy'n 'dead in Christ'. Dywed hyn oherwydd ei gred erbyn hyn oedd y daw'r Drydedd Oruchwyliaeth drwy anghredinwyr a gweithgarwch cymdeithasol, yn hytrach na thrwy bregethu. Am hyn, dywed yn hyderus, 'yee [Saeson, Albanwyr, Gwyddelod] shall shortly see what gallant Spirits, and noble hearts we have in Wales' (ibid.).

Cyfeiria Erbery at waith Morgan Llwyd yng ngogledd Cymru, gwaith David Walter yn ne Cymru ac at y ffaith fod newid ar droed ym mywyd y Bedyddwyr: 'Yea, all the Baptized Churches now in Wales, are going from the Waters to the Air, yea to Fire, and the heavenly Spirit; for all speak high things, of the raing of Christ on earth, at hand' (tt. 9-10). Mae'n rhaid mai cyfeirio at ddylanwad cynyddol y Crynwyr ymhlith y Bedyddwyr y mae Erbery yma yn hytrach na dylanwad Plaid y Bumed Frenhiniaeth yn eu plith, gan mai credu yn

nyfodiad ysbrydol Iesu Grist yng nghalonnau'r Saint a wna Erbery erbyn hyn yn hytrach na dyfodiad corfforol a llythrennol buan Iesu Grist fel y gwna'r Pumed Brenhinwyr. Esboniai James fod y Crynwyr yn 'gwadu'r weinidogaeth, y sagrafennau a seremonïau, yn gwrthod talu'r degwm,' ac 'yn credu ym mewnfodaeth Duw' (1992, t. 82). Â James ymlaen i ddweud mai sect ymosodol a aflonyddai ar fywyd eglwysi oedd y Crynwyr gan wrthod dangos parch at neb mewn awdurdod (ibid., tt. 82-3). Yn 1654 bu farw Erbery, a dyna'r flwyddyn yr anfonodd George Fox, sylfaenydd y Crynwyr, 60 o genhadon allan o'i ganolfan yng ngogledd Lloegr i Gymru a de Lloegr. Teg fyddai awgrymu y buasai Erbery wedi ymuno â rhengoedd y Crynwyr pe bai wedi byw.

Yn ôl Erbery, pan ddaw'r Ysbryd bydd yn diwygio'r sectau gwahanol fel bod y Saint yn gallu teyrnasu'n gywir, nid fel brenhinoedd daearol mewn grym a phŵer, ond mewn cyfiawnder, heddwch a llawenydd. Dyma yw'r Milflwyddiant, y Drydedd Oruchwyliaeth, wedi ymddangosiad Crist yng nghalonnau'r Saint. Dyma'r 'New Jerusalem [...] coming down from God out of Heaven' y disgwyliai Erbery iddi gael ei sefydlu yn gyntaf ym Mhrydain ac yn benodol yng Nghymru, 'Wales is the sides of the North, being just the wing of great Britain, the greatest Isle of the world, where will be the City of the great King' (t. 11).

Dyma dract diddorol arall lle mae Erbery yn tanlinellu ei gred fod yr Eglwys Gristnogol yn gorwedd dan Orthrymder Mawr a bod hynny'n cael ei ymgorffori mewn ordinhadau, trefn a strwythurau eglwysig sy'n gorthrymu gwaith yr Ysbryd. Fodd bynnag, gwêl Erbery y Gorthrymder hwn yn dod i ben wrth i Dduw, yn yr Ysbryd, ddod i galonnau'r Saint ac wrth i ffurfiau eglwysig ddymchwel. Wrth i fwy a mwy o gredinwyr brofi presenoldeb mewnol Duw yn eu calonnau bydd y Drydedd Oruchwyliaeth yn gwawrio, sef cyfnod o gyfiawnder, heddwch a llawenydd yn yr Ysbryd dan deyrnasiad y Saint. Mae'n bwysig hefyd

gofio rhan ganolog Cymru yn y drefn hon i Erbery. Yn hyn o beth mae'n etifedd i'r Ddamcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd, gan bwysleisio fod eglwys bur Gristnogol wedi bodoli yng Nghymru yn y gorffennol a bod rhan anarferol o bwysig i Gymru yn hanes Cristnogaeth. Y Brythoniaid oedd rhai o'r cyntaf i gredu'r efengyl ac oherwydd hynny byddai Duw yn sicr o fendithio Cymru'n gyntaf ar doriad y Drydedd Oruchwyliaeth.

The General Epistle to the Hebrews

Mae'r tract hwn yn gysylltiedig â'r un cyntaf, sef *The Bishop of London*, ac yma gwelwn Erbery yn ymateb i'r trafodaethau a gafwyd yn London House yn 1652. Fel y nodwyd eisoes, roedd Erbery wedi torri ar draws un o'r cyfarfodydd hynny. Yma gwelwn Erbery yn esbonio ei hun eto. Awgryma hyn fod sôn am ei ymddygiad gwyllt a hanes amdano'n colli arno wedi mynd ar hyd ac ar led. Dywed ar ddechrau'r tract, 'Be not offended, for I was forced in spirit to what I spake unto you at London house' (t. 1). Ond nid yw'n ymddiheuro.

Byrdwn neges Erbery eto yw bod yr eglwys yn gorwedd dan Orthrymder ac y deillia'r Gorthrymder hwn o ffurfioldeb ordinhadau, trefn a strwythurau eglwysig gan fod unrhyw fath o ffurfioldeb ac unffurfiaeth yn lladd rhyddid a gwaith yr Ysbryd. 'Yea,' dywed Erbery, 'the Lord hath sworn that he hates and abhors the excellency of Jacob, that is, the Church in her highest form' (ibid.). Mae Erbery yn gweld y Gorthrymder yn parhau, 'for the Apostacy will be so full, and their filthiness so appear to all, that they shall be afraid and ashamed to be called the People of God' (t. 2).

Cyflwr sâl iawn yw un yr eglwys dan y Gorthrymder. 'Since the Apostacy,' dywed Erbery, 'since the Spirit of Christ has departed, and the spirit of Anti-christ come with power in the Church; the Church has been no more the house

of God, but a Babel; no more the spouse of Christ, but the great whore' (ibid.). Dyma ddweud mawr gan Erbery. Credai hyn oherwydd bod yr eglwys wrth 'joyning with her ['the great whore,' hynny yw, y grym sy'n caethiwo'r Eglwys] in Ordinances, have been defiled; yea (the spirit of life and love being gone from the body, and the body dead and divided in Babylon) as all who touch the dead become unclean' (ibid.).

Dywed Erbery fod yr eglwys, o dan y Gorthrymder, wedi bod yn aflan, yn gnawdol, yn drachwantus ac yn greulon ers 1400 o flynyddoedd. Esbonia sut y gwnaeth Esgobyddion erlid Presbyteriaid, yna bod Presbyteriaid wedi erlid Annibynwyr ac yna bod Annibynwyr yn eu tro wedi erlid Bedyddwyr. Am hyn, dywed Erbery, 'truly then 'tis neither honour nor safety to be in Church-fellowship this day, but a shame, and will be a suffering in the flesh' (t. 3).

Serch hynny, fel y gwelwyd droeon o'r blaen, mae Erbery yn disgwyl cyfnod pan fydd y Gorthrymder yn dod i ben. Tan yr amser hwnnw, mae'n annog y Saint i aros, 'till all the Saints with us be filled with the Spirit from on high' (t. 4). Pwysa arnynt i aros yn Jerwsalem - nid y ddinas lythrennol ei hun, ond y Jerwsalem haniaethol, 'the indwellings of God [...] where there is no Temple, but the Lord God himself and the Lamb' (ibid.). Mae'n holl bwysig aros nes dyfodiad yr Ysbryd yng nghalonau'r Saint oherwydd heb yr Ysbryd hwnnw byddai unrhyw eglwys neu drefn a ffurfir yn cael eu hadeiladu yn nerth dyn yn hytrach na Iesu, ac oherwydd hynny 'we are liable to Babylons plagues, death, mourning, famine, and fire' (ibid.).

Cyngor Erbery yw hyn:

'Tis safest then for you and me, to be alone, from all men, unto God, or to be as the godly of old, the honest Puritans were; to be self-denying, and strict in our life, sweet in love together, doing good to all, and suffering for well doing, to be true in our words, just in our dealings; to watch our owne hearts and this present evil world, to be preserved pure and spotless in it,

to have our conversation in Heaven, and use all earthly things in a heavenly manner, to minde things that are above, not in place, but in affection and attainment, to see Christ sitting at the right hand of God in our hearts, and nothing rainging there but himself; thus walking humbly with our God, and waiting for his glorious appearance in us; we then were in all good duties, more in Spirit and less in form, thus 'twas with us formerly (tt. 5-6).

Dyma brawf o feddwl ac ymresymu clir a chadarn heb unrhyw awgrym o salwch meddwl. Dyma'r cyflwr y dymunai Erbery i'r Saint fod ynddo, 'waiting when the Spirit will come from on high, and take us up all into God, when God shall be all in all' (t. 6).

Diwedda Erbery'r tract gan ddatgan nad oes ganddo unrhyw grefydd na pherthynas ag unrhyw un, 'and yet to have fellowship with all in God. Farewell' (ibid.). Gyda hynny, disgwyliid i Erbery ymbellhau o fywyd cyhoeddus. Ond nid felly y bu.

William Erbery to the Lord General Cromwell (1652)

Ysgrifennodd Erbery lythyr at Oliver Cromwell ar 19 Gorffennaf 1652. Fe'i cyhoeddwyd mewn cyfrol dan olygyddiaeth John Nickolls yn 1743. Yma mae Erbery yn canmol buddugoliaeth filwrol Cromwell ac yn deisyf arno i ddymchwel y gormeswr cyffredinol trwy roi ar waith sawl polisi cymdeithasol yn syth. Mae Erbery yn cydnabod i Dduw ddefnyddio Cromwell a'r Fyddin i wneud 'great thinges' adeg rhyfel, ond mae'n atgoffa Cromwell fod dynion yn disgwyl pethau mawrion ganddo ef hefyd mewn ystod cyfnod o heddwch. Gwaith Cromwell yn ystod yr adeg honno fydd dymchwel y gorthrymwr ac i 'ease the oppressed of their burdens, to release the prisoners of their bands, and to relieve poore familys with bread'. Er mwyn gwireddu hyn mae Erbery yn awgrymu y dylid codi treth ar y cyfoethogion anghyfiawn, ar seneddwyr tramgwyddus, ar lysoedd

anghyfiawn, ar ddegymau offeiriadon, ar ffioedd cyfreithwyr, ar glercwyr di-angen ac ar swyddogion niferus eglwysi cadeiriol. 'Now the poare of the nation are waiting at your gates, beseeching your Excellency to move effectually our present Governors, to hasten a publique treasury for them'. O weithredu argymhellion Erbery cedwid y Weriniaeth yn bur a sanctaidd ac fe addolid Duw. Dymuniad Erbery yw i'r llythyr gael ei gyflwyno i'r Senedd yn enw trigolion Caerdydd.

A Call to the Churches

Yn 1652 dechreuodd Morgan Llwyd a William Erbery lythyru â'i gilydd. Roedd Morgan Llwyd yn gymeradwywr dan Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru ac roedd Erbery yng Nghaerdydd pan dderbyniodd lythyr Llwyd a'r ddau yn rhannu profiadau ysbrydol tebyg i'w gilydd (Morgans, 2012, t. 154). Yr hyn a gawn yn *A Call to the Churches* yw llythyr cyntaf Llwyd at Erbery a'i ymateb yntau ac yna llythyron Erbery at arweinwyr eraill gan gynnwys Vavasor Powell.

Yn ei ragymadrodd mae Erbery yn ysgrifennu at eglwysi Bedyddiedig de Cymru. Llawenha fod Llwyd bellach yn 'walking up to the Angelicall world and withdrawing himself into the inner world' (t. 2). Mae Erbery hefyd yn honni fod y Gorthrymder Mawr 'appears most visible in your Churches' (t. 3). Yn y rhagymadrodd hwn mae Erbery hefyd yn ymhelaethu ar ddadl a fu rhyngddo ef a David Davies, gweinidog Bedyddwyr Gelli-gaer, yn Llantrisant. Mae'n ddadlennol oherwydd gwelwn o gasgliadau Erbery o'r ddadl (tt. 3-4) ei fod bellach yn arddel lawn Cyffredinol, hynny yw, y gred fod Iesu Grist wedi marw dros holl ddynol-ryw, yn wahanol i'r gred Galfinaidd mewn lawn Neilltuol, sef bod Crist wedi marw dros yr etholedig yn unig, ac felly dim ond yr etholedig fydd yn cael eu hachub. Nid yw Erbery yn gweld 'glad tydings' (t. 4) yn y fath gred.

Dychwelodd Erbery bythefnos yn ddiweddarach i bregethu yn Llantrisant ac felly hefyd Davies. Pregethodd Davies yn Gymraeg, ond yn Saesneg y pregethodd Erbery a thestun ei bregeth oedd ymddangosiad Duw yn y dyddiau diwethaf. Pregethodd Erbery fod 'he [Duw] would so appear in man, that men should be made like him' (t. 5). Dywedodd hefyd 'that God would be both a Heaven and a Hell to men, that most men should be in Hell upon earth, as that some should have a Heaven here'. Soniodd hefyd y deuai Duw fel tân yn y dyddiau diwethaf (ibid.). Gwelwn fod y tân hwn yn dod i gynrychioli diwedd y byd i Erbery ac y dylid ei ddisgwyl ar ddiwedd y Drydedd Oruchwyliaeth. Bydd Duw yn amlygu ei hun mewn modd mor rymus nes bod y greadigaeth yn dân i gyd a hyn fel petai'n diweddu'r greadigaeth.

Â Erbery ymlaen i ddweud nad yw Annibynwyr na Bedyddwyr yn llawn ddeall yr efengyl a bod 'may be a seed of it [anwybodaeth o'r efengyl] in them, as also was in legal Saints' (t. 7). Yn wir, 'it appears, there has not been in the Churches a Gospel-faith, at least formally, for virtually there might be in some, but formally and effectually there has not been a Gospel-faith in the Saints these 1400 years' (t. 9). Dyma'r Gorthrymder Mawr wrth gwrs. Gwir grefydd i Erbery yw hyn: 'in knowing fellowship with the Father and the Son in the Spirit, to know our union with God in Christ, and Christ so in us, that we are one in the Father, as He, in the same love and life in God with him' (t. 12). Mae Erbery yn cydnabod fod cariad rhwng y Bedyddwyr â'i gilydd, 'but where's Lots love, to call Sodomits and Sinner?' (ibid.). Cariad at eraill yw'r prawf pennaf o wir ymwybyddiaeth o'r efengyl, ac nid yw'r Bedyddwyr yn ymarfer y cariad hynny. Yn wir, mae'r Gorthrymder yn parhau dros Gymru gan fod eglwysi a sectau yn anghytuno. 'Ah poor Wales, many Pastors have destroyed thee, and distract thee! How many have I heard crying out, where to find their Religion [...] Oh!

that God would send men of one mind to minister the word to Wales' (t. 13). Undod a chariad yw nod Erbery, ond oherwydd nad ydynt yn bodoli, 'we all in these days are not only his dead Body as the legal and Gospel-Churches were, but we are the dead Body in Babylon [...] ever since the Apostacie' (t. 19).

Yn ei ymateb i lythyr Morgan Llwyd, dyddiedig 12 Awst 1652, mae Erbery yn sôn eto am y Drydedd Oruchwyliaeth a ddaw pan ddaw Iesu Grist yn ysbrydol i galonnau'r Saint. Mae Erbery yn gwahodd y Saint i ddyfod allan o fedd y cnawd i fyd yr Ysbryd. I Erbery, mae'r Gorthrymder Mawr yn dyfod i ben, 'God is dashing, dividing, disquieting and destroying all comforts', a bydd hyn o gymorth i'r Saint i ddarganfod Duw yn trigo ynddynt. Nid dyfod oddi uchod yn gorfforol a wna Iesu, ond dyfod oddi mewn, yng nghalonnau'r Saint (Morgans, 2012, t. 156). Yn y llythyr mae Erbery yn annog Llwyd a'r Saint i aros ac i brofi blaenffwrth yr hyn sydd gan Dduw wedi'i gynllunio i'r ddynolryw gyfan.

Mae Erbery yn canfod enaid hoff gytûn yn Llwyd. Meddai yn ei lythyr at Llwyd: 'seeing we are both in the Eternal Spirit, with the spirits of just men made perfect' (t. 24). Esbonia'n syth mai'r Atgyfodiad cyntaf yw 'the rising of the Saints [...] where the rising of the spiritual body to incorruption, immortality, power and glory, is the glorious appearing of the second Man, the quickning Spirit, the Lord from Heaven (in us) to the heavenly Image'. Dyma'r 'third estate of the Saints now approaching' (t. 25), sef yr hyn y mae Erbery yn ei alw'n Drydedd Oruchwyliaeth. Mae'n dweud ei fod yn aros yn dawel am ddatguddiad llawn o Dduw ynddo ef ac yn yr holl Saint. Bydd yr ymddangosiad hwn megis daeargryn, yn difetha trefn, ordinhadau, swyddogion, eglwysi a chymdeithasau, ac fe gesglir yr holl Saint i addoli'r Arglwydd yn y Jerwsalem Newydd, gan ryddhau'r Saint o'u caethiwed ysbrydol, hynny yw, eu hordinhadau a threfn eglwysig. Ceir undod, 'and they live in the Eternal Spirit together: then the two

sticks also, the divided societies of Saints shall become one' (t. 26). Dyma'r Drydedd Oruchwyliaeth, y Milflwyddiant, i Erbery, 'when all thing both in heaven and earth shall be gathered up into one, all the Saints of highest appearances, and of lowest performances [...] shall be gathered up into one, into that glory, into God himself' (ibid.). Er mwyn i hyn ddigwydd rhaid i ddynion aros ac encilio o'r byd:

There's no building of Temples in Babylon, nor joyning there in Church-fellowship; for that will fall, and we with it, till we retire alone into our selves, or the Spirit rather in us; and this we must be, every man apart by himself [...] Then the multitude of the Isles shall rejoyce, when the Lord comes to Raign (ibid.).

Mae'r Saint i fod yn ynysoedd unig, ond ar alwad yr utgorn pan ddaw yr Ysbryd ar doriad gwawr y Drydedd Oruchwyliaeth, 'then all the poeple of God shall become one Land, one Continent, wherein the Lord alone shall live' (t. 27). Yn y Drydedd Oruchwyliaeth bydd y Saint yn mwynhau rhyddid gogoneddus gan y bydd Duw yn ei amlygu ei hun yn y Saint ac felly bydd y Saint fel Duw. Nid yn unig bydd y Saint yn gweld Duw ond bydd dynion yn gweld Duw yn y Saint.

Yr ail lythyr gan Erbery yn y casgliad yw ei lythyr at Henry Walter (1611–1678?), cyfaill i Wroth ac un o'r tri Phiwritan a anfonwyd i Gymru yn 1650 dan Ddeddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru i bregethu yn Gymraeg. Ynddo mae'n pwysleisio eto ei gred yn y Drydedd Oruchwyliaeth sydd i'w disgwyl yn fuan. Mae Erbery yn hapus i ddatgan ei fod ef a Walter yn perthyn i'r Jerwsalem Newydd ond nad yw'r holl Saint eto yn profi'r fath fendith. Serch hynny, daw hyn i'w rhan yn fuan, 'when the glory shall be revealed in them, they shall then see the new Jerusalem coming down from God out of heaven, and him alone dwelling in them' (t. 29). Awgryma hyn nad un digwyddiad sydyn oedd dyfodiad y Drydedd Oruchwyliaeth i Erbery, ond proses. Mae Erbery yn disgwyl y

Drydedd Oruchwyliaeth ac yn cydnabod eu bod yn byw 'in these last times'. Pan fydd y Jerwsalem Newydd yn cael ei sefydlu, bydd y Saint megis 'healing of the Nations' (t. 30). Mae Erbery yn gweld fod ar eglwysi a chymdeithasau dynol angen dybryd am iachâd ac y daw yr iachâd hwnnw adeg y Drydedd Oruchwyliaeth gan y bydd undod rhwng y Saint yn yr Ysbryd, 'and bond of peace, being one body' (ibid.). Mae hyn, wrth gwrs, yn gwrthgyferbynnu â chyflwr yr eglwysi yn 1652. 'How many Churches [are] divided in Spirit and in Form also, one from another, and in themselves?' yw cwestiwn rhethregol Erbery (t. 31). Mae Erbery yn galw ar Walter i aros am yr atgyfodiad cyntaf, 'when God shall be all in all, that we may all hear him in his speaking with power' (ibid.).

Thema'r trydydd llythyr, wedi ei ysgrifennu ar 23 Awst 1652 at Ambrose Mostyn, Piwritan a fu yn pregethu yn sir Drefaldwyn gyda Vavasor Powell ac aeth i Wrecsam gan olynu Morgan Llwyd yno yn 1659, yw annilysrwydd ordinhadau eglwysig. Honna eu bod yn mygu'r Ysbryd gyda'u ffurfioldeb. Dywed hefyd fod yr eglwys yn rhanedig gan fod anghydweld ynghylch y Bedydd a'r Cymun:

the Ordinances, which are as the Childish tradition of Childrens Baptisme; the breaking of bread, which should be the Communion of Christs body, cannot be administred; because the body is not onley dead, as the dry bones of Babylon, but divided, as the two flicks there; and how then can there be a communion, when there is no union of the body? (t. 32).

Pethau allanol yw'r ordinhadau i Erbery ac iddo ef, y pethau mewnol sydd bwysicaf, ac yn bennaf ymddangosiad Duw yng nghalonau'r Saint, sef 'the new Jerusalem coming down from God out of Heaven'. Yn wir, dywed, 'I teach nothing now to man, but the new Jerusalem' (ibid.). Mae hynny wedi dod yn gwbl amlwg erbyn hyn, o ddarllen gweithiau Erbery! Yn y Jerwsalem newydd,

esbonia Erbery, bydd y Saint yn cael eu casglu ynghyd yn un, ni fydd teml, ni fydd dulliau gwahanol o addoli, 'God will be seen to dwell in his people, with that light and love, that many Nations shall be joyed to the Lord' (t. 33). Dyma eto'r hyn a elwir ganddo yn Drydedd Oruchwyliaeth, pan fydd yr eglwys yn mwynhau cyfnod o undod pur, lle y bydd presenoldeb Duw yn amlwg yn eu plith, a bydd hynny'n dwyn y cenhedloedd at Dduw. Bydd y cyfnod hwn yn dechrau, fel rydym wedi darllen droeon bellach, pan ddaw Duw i lawr ac amlygu ei hun yng nghalonau'r Saint, o'r mwyaf i'r lleiaf (t. 34).

Llythyr at Vavasor Powell yw'r pedwerydd llythyr, dyddiedig 26 Awst 1652. Roedd Vavasor Powell yn cefnogi Plaid y Bumed Frenhiniaeth. Yn ôl eu dehongliad nhw o'r Beibl roeddent yn disgwyl Ailddyfodiad corfforol Iesu Grist a fyddai'n arwain at y Milflwyddiant pan fyddai'r Saint yn teyrnasu'n ddaearol gyda Iesu am fil o flynyddoedd. I Erbery, roedd y fath syniad yn wrthun erbyn 1652. 'Spiritual understanding of Christ' sy'n bwysig i Erbery. Dylid ond disgwyl ailddyfodiad ysbrydol (t. 37) gan fod 'the Kingdome of God is within us' (t. 38). Yn wir, 'the second coming will be more in the Spirit yet' (t. 39). Mae agwedd ac ymffrost y Pumed Brenhinwyr yn wrthun i Erbery. 'Some of your followers,' meddai Erbery yn heriol wrth Powell, 'have begun to reign already as Kings, but not with Christ' (t. 36).

Llythyr at Walter Cradock yw'r pumed llythyr, ond mae hefyd yn llythyr at holl Saint Cymru. Erbyn ysgrifennu'r llythyr hwn ar 31 Awst 1652 cawn ddarlun trist o William Erbery. Dywed nad yw'n derbyn gwahoddiadau nac yn cael croeso ymhlith cynulleidfaoedd de Cymru, ond dywed nad yw'n ymddiheuro am ei ymddygiad nac am yr hyn a ddywedodd yn gyhoeddus. Dywed ei fod yn fodlon cario'i gywilydd a marw gyda'r eglwysi, hynny yw, rhannu digofaint Duw yn eu herbyn gyda nhw, gan ei fod mor sicr bod Duw ar fin cyfodi'r eglwysi adeg

ei 'glorious appearance [...] in us now ready to be revealed in these last times'. Pan ddaw, bydd y Saint yng Nghymru yn cerdded fel y gwnaethant gynt, ond hyd yn oed yn fwy buddugoliaethus, wrth iddynt fod yn fwy ymwybodol o bresenoldeb Duw ynddynt. Byddant yn cerdded yn burach ac yn fwy cyfiawn ymhlith dynion. Dyma'r Jerwsalem Newydd, 'where dwells righteousness' (tt. 41-2). Mae Erbery yn ymwybodol o'r anghydfod ymhlith y Saint yng Nghymru. Gwêl fod y Saint yng Nghymru hefyd yn rhagweld dyfodiad Duw ond eu bod yn mynd ati i'w ddwyn i fod yn y ffordd anghywir. 'one of you saing, that one Form should knock out another till that come' (t. 42). Her Erbery iddynt yw hyn:

I am come in the Spirit of Love, with meeknesse and fear, to give an account of the hope that is in me, to my own Country first, where I hold forth nothing but the new Jeruslaem, in which God shall gather all the Saints first, even those who look for his coming; in whom he will so appear in power and glory, dwelling in the midst of them, that many Nations shall joyn to the Lord in that day (ibid.).

Fel yr ydym wedi gweld o'r blaen, Cymru sydd â'r fraint, yn ôl Erbery, o brofi'r cyfnod gogoneddus yma'n gyntaf. Ond un o ganlyniadau stad ogoneddus yr eglwys yw y bydd llawer o bobl, ac nid y Cymry yn unig, yn heidio at Dduw oherwydd gymaint fydd dylanwad a gogoniant yr eglwys:

What multitudes of men shall inhabit that City, the Prophets shew; not only that Jerusalem shall be without Walls, and that a Nation shall be born in one day, but many shall flow in like the Sea; that our hearts shall fear and be enlarged for the abundance of Savage people that shall come in and cover us (ibid.).

Cyd-destun y llythyr olaf yn y casgliad yw anghydfod cyhoeddus arall, y tro hwn rhwng Erbery a Henry Nicholls, gweinidog a chanddo fywioliaeth yn Llangrallo (*Coychurch*) a gofal eglwys gynnull yn Eglwys Fair y Mynydd (*St Mary Hill*), ger y Bont-faen. Ysgrifennodd Erbery y llythyr hwn o Lundain ar 13 Ionawr 1652/3 at Davy Walter, a fu'n un o bregethwyr teithiol Morgannwg yn 1646 ac yn un o

gomisynwyr Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru yn 1650. Dywed Erbery yn ei lythyr ei fod yn 'waiting for a higher Power and Spirit to appear in the Saints [...] This is all I have taught my dear Country-men in Wales' (t. 46). Mae Erbery yn amlinellu'r ddadl â Nicholls fel a ganlyn:

First, That the new Jerusalem is a state of the Saints in this life. This he [Nicholls] denied.

Secondly, That the Saints this day have not a Gospel-faith. This he affirmed.

Thirdly, That God is in union with mankind. This he was negative too.

Dyma, felly, yr hyn a welodd Nicholls yn 'Errour and Heresie' yn Erbery (t. 46). Mewnfodaeth Crist yng nghalonau'r Saint oedd neges Erbery eto. Eglura Noel Gibbard i Erbery bregethu 'fod Duw mewn undeb â dynoliaeth, nes creu'r argraff ei fod yn derbyn math ar bantheistiaeth' (1979, t. 32).

Noda Erbery iddo weld newidiadau mawr yn y gymdeithas a chredai fod hyn yn rhagfynegi dyfodiad y Drydedd Oruchwyliaeth:

I say, the weakest of scattered Saints this day do greater works then Christ did in the dayes of his flesh; though the Spirit appear not in them nor they as doing those works [...] the weakest, even worms do this day thresh mountaines, throw down hills, tear the rocks, and whole armies in pieces, break kingdomes, binde kings, nobles, and judges, yea judge the world and Angels of Churches (t. 50).

Dyna'r hyn a welai Erbery yn digwydd yn ei ddydd. Ond gobeithiai am fwy adeg y Drydedd Oruchwyliaeth:

for now they [y Saint] begin to walk not by faith, but by sight (that's the third dispensation), which being full faith shall be swallowed up into vision, hope into possession of that glory, wherein we shall see God as he is, see his face, and the Father's Name on our foreheads; yea, his Name so visible and clear upon us, that all men shall see God the Father in us; and whole nations joyne to the Lord with us in that day (ibid.).

Ymddangosodd ymateb Henry Nicholls o dan y teitl *The Shield Single against the Sword doubled* yn 1653 ac ynddo mae'n ymateb i *A Sword Doubled*

(1652) ac i'r llythyr uchod gan Erbery at Davy Walter. Mae Nicholls yn ddirugaredd ac yn cyhuddo Erbery o heresi ac o gabledd ac mae'n troi at dystiolaeth eraill er mwyn atgyfnerthu ei safbwynt:

Before ever I read any of Master Erburies books, I had read in other mens works of his dangerous, and erroneous principles, not of, but against Religion; whereupon hearing of a Book of his come forth, bearing the Title of the Sword doubled, &c. I earnestly desired the sight of it [...] And seeing that too great a portion of the professing part of our dear Native Country, are ever ready to be slain, and drawn to a worse death, then that of the Sword, I have (by way of Answer to some particulars in that Book) endeavoured the composure of an Antidote against that spreading canker, and infection, that may endanger the souls of such as shall embrace the things delivered in it (t. 1).

Â Nicholls yn ei flaen i faeddu enw Erbery gan bwysleisio nad oedd ganddo unrhyw awdurdod. Dyma sut y disgrifiodd Nicholls Erbery:

Pastor of no Church; Sometimes Vicar of a Parish Church; None of the best (though a Minister of the newest Model that ever any yet knew.) Once an old English professed Saint, though now a professed Opposer of all the Saints, both Welsh, and English (t. 5).

Mae Nicholls hefyd yn disgrifio'r anghydfod yn y Bont-faen:

And on the twenty eighth day of the seventh month he came to Cowbridg, where he began to speak from Revel. 20. 12. but very little to that Scripture; but after the needless repetition of many things out of his printed Book [*A Sword Doubled*] he takes occasion to fasten all the reproaches he could on the Presbyterians, Independants, and Anabaptists, saying, If men could see their hearts, there was nothing but blood and murder in them against any that were not of their judgments: which did not little please the many Royalists that were there present (t. 8).

Serch hyn, mae Nicholls yn cydnabod i Dduw ddefnyddio dystiolaeth Erbery yn y gorffennol, pan ydoedd yn dilyn 'the ordinances of the Gospel, prayer, Preaching' (t. 32); ond bellach ni ellir ond gweddïo dros enaid Erbery, y byddai'n edifarhau ac yn troi yn ôl at wirioneddau'r efengyl:

The late Act of Parliament against Ranting, Heresie, and Blasphemy, hath bespoke that Magistracy, honourable, and precious, in the eyes of

Gods people, and yet do not I stir up the Christian Magistrate against Master Erbury, but if he hath not sinned the sin unto death, I pray for his conviction, and conversion, if God peradventure will give him repentance to the acknowledging of the Truth. I contend with him with no other weapon, but the Sword of the Spirit, which [...] may grate upon his Conscience, and cause him to remember from whence he is fallen, and do his first works, and come up to his first Love (t. 74).

The Honest Heretique

Bu farw Erbery yn sydyn ym mis Mawrth 1654. Cyhoeddwyd *The Great Earthquake*, gwaith a orffennodd, mae'n debyg, ychydig cyn ei farwolaeth, ym mis Gorffennaf 1654; ac yna yn 1658, cyhoeddwyd *The Honest Heretique*, gwaith a luniodd, yn ôl pob tebyg, yn 1653. Dyma ddwy gyfrol lle gwelwn Erbery yn esbonio'i athrawiaethau yn systemataidd. Pwysigrwydd *The Honest Heretique* yw mai ymateb personol Erbery ydyw i'r achos llys a ddygwyd yn ei erbyn yn Chwefror 1652/3. Yr adeg honno, daeth Erbery o flaen Pwyllgor y Gweinidogion Ysbeilliedig i ateb y cyhuddiad o gabledd. Wynebair Erbery gyhuddiadau difrifol – digon i'w ddedfrydu i farwolaeth. Roedd ei achos llys yn 'major event in the calendar', chwedl John I. Morgans (2011, t. 189). Cyhuddodd Edmund Chillenden, Bedyddiwr a Phumed Brenhinwr, Erbery o alw'r Saint yn buteinwyr ac yn bechaduriaid a'r apostolion a'r proffwydi'n fwystfilod. Cyhuddodd Erbery hefyd o ddatgan nad oedd y Saint neu'r aelodau eglwysig yn gwybod unrhyw beth a bod Duw yn dod i ddinistrio gwybodaeth yr holl Saint. Cyhuddodd Skippon, yr uwchgadfridog Seneddol y bu Erbery yn gaplan byddin iddo, Erbery o alw Iesu Grist yn fwystfil. Cyhuddodd Thomas Grey⁵⁷ Erbery o alw Swper yr Arglwydd yn aflan a bwrdd y cymun yn fwrdd

⁵⁷ Roedd Grey, y Barwn Grey o Groby (1623–1657), yn swyddog milwrol. Yn un o deyrnladdwyr Siarl I roedd yn aelod o Gyngor y Wladwriaeth rhwng 1649 a 1654 cyn cael ei garcharu am fod yn Bumed Frenhinwr yn 1655.

puteiniaid, am alw am ddiidymu bedyddio, cymuno a phregethu, am alw am dderbyniad i Babyddiaeth a Mwslemiaeth, am wadu Duwdod Crist ac am ddatgan y byddai Duw yn dinistrio Bedyddwyr a'r llywodraeth (gol. Morgans, 2011, tt. 189-91).

Fersiwn llawn o ymateb Erbery sydd yn *The Honest Heretique*. Parhaodd yr achos llys nes 9 Mawrth 1652/3, 'when Erbery was eventually cleared of heresy and blasphemy' (Morgans, 2011, t. 194). Mae Erbery yn amddiffyn ei hun o bob cyhuddiad o heresi ac eto yn arddel ei gred yn nyfodiad buan y Drydedd Oruchwyliaeth mewn iaith a delweddu bywiog:

But being brought forth in the Land of the Living, in the Lord himself, 'Tis a blessing to me, and to many with me, who are born at this time, not onely into Eternity above, but here below, in the Land of approaching light, and promised liberty, where the Dead are looking out of their Graves to rise, and the Captives be redeemed at last from all that Bondage on their Spirits and States (t. 313).

Mae Erbery yn obeithiol oherwydd mae'n gweld mai 'Duw gyda ni' yw arwyddair y cenhedloedd ac mae'n gweld 'Christ rising in our present Governours, Civil and Martial, proclaiming Liberty to all the People of God, to go out of Babylon, and to build Jerusalem anew' (ibid.).

Mae Erbery yn gweld dydd yn dod pan fydd Duw yn achosi 'Love will arise out of our Divisions; and perfect Order, at last, out of this Confusion (t. 315). Mae dyfodiad Iesu Grist yng nghalonau'r Saint yn annog y Saint i weithredu yn enw cyfiawnder a rhyddid ac mae'n rhagweld Jerwsalem, Dinas Duw, yn cael ei hadeiladu o'u cwmpas. Fel rhan o'r gwaith adeiladu, mae Erbery yn herio'r awdurdodau i edrych yn deg ar Fwslemiaid: 'so this Christian Common-wealth appearing so favourable to the Jews, why not to the Turks?' (t. 333). Mae'n nodi fod Böhme yn dysgu fod Mwslemiaid yn cydnabod Iesu fel dyn arbennig a'i fod yn rhagweld y byddai'r Mwslemiaid yn troi at Iesu Grist. Mae

Erbery yn croesawu'r syniad yn dwymgalon: 'What if God should so appear among men [Mwslemaid]' er mwyn 'besiege all the Superstitious Christians, and Western Churches' (ibid.).

Nid wyf yn derbyn y cyhuddiad fod Erbery wedi colli ei feddwl oherwydd mae ei resymu'n drefnus a'i ddadleuon yn gywrain. Ond mae'n amlwg o'r achos llys ac o ddarllen gweithiau Erbery nad oedd erbyn diwedd ei fywyd yn arddel yr athrawiaeth uniongred a dderbynnid yn gyffredinol gan y Piwritaniaid. Yn ystod blwyddyn olaf ei fywyd ni wyrodd o'i gred fod y Drydedd Oruchwyliaeth, y Jerwsalem Newydd, sef ei ddehongliad ef o'r Milflwyddiant, ar wawrio, pan fyddai Duw yn ymddangos ac yn datguddio ei hun yn y Saint trwy ei Ysbryd a hynny yn dwyn i fod gyfnod o gyfiawnder, rhyddid a heddwch i'r greadigaeth gyfan. Pan ryddhawyd ef o'i garchariad yn ddiuog cyhoeddodd sawl tract yn ymwneud â phynciau llosg y dydd. Maent yn ailadrodd llawer iawn o'r hyn y mae Erbery eisoes wedi'i fynegi yn ei gyfrolau blaenorol, ac am hynny, rwyf ond yn cynnig crynodeb o rai ohonynt.

Yn *Ministers for Tythes* (1653) gwelwn Erbery'n gwrthwynebu'r syniad o weinidogion a phregethwyr yn derbyn tâl gan y llywodraeth trwy'r degwm, fel y gwnaeth cyn hynny yn *The Grand Oppressor or The Terror of Tithes* (1652) ac yn *The Sword Doubled* (1652). Yn y cyfrolau hynny roedd y degwm yn cynrychioli gorthrwm ar y tlodion: 'Why not oppression be presently eased, at least of Lawyers and Tithes?' (*Sword Doubled*, t. 75). Yn *Ministers for Tythes* mae'n gwrthwynebu'r degwm am ddau reswm. Yn gyntaf, mae'n honni y byddai'n gosod baich anghyfiawn ar y tlawd, sef yr un ddadl eto, ac yn ail, credai y dylai'r wladwriaeth a'r eglwys fod yn annibynnol ar ei gilydd, felly ni ddylai'r llywodraeth ariannu gweithgarwch yr eglwys.

Ar 12 Hydref 1653 mynychodd Erbery lansiad llyfr gan ei gyfaill, yr athro a'r pregethwr, John Webster. Fel Erbery, roedd Webster yn hoff o ddadleuon. Dywed adroddiad yn y *Mercurius Politicus* ar 12 Hydref, 'they [Erbery a Webster] endeavoured to knock down Learning and the Ministry both together [...] these [...] babled to and fro [...] it came out to a mutiny or tumult'. Cyhoeddodd Erbery *A Monstrous Dispute* ar 18 Hydref, ac yma mae'n amddiffyn ei farn ei hun ac un Webster. Dywed nad oedd gweinidogaeth effeithiol yn ystod y gorthrymder gan nad oedd yr Ysbryd Glân yn bresennol i fendithio'r weinidogaeth. Dywed hefyd na ddylid gweddio mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae Erbery yn beirniadu gweinidogion am chwennyach cyfoeth: 'Let their own conscience, and the experience of these times witness, if godly Ministers were ever more greedy of gain; none will preach under one hundred pound per an.' (t. 197). Mae Erbery wedi colli pob ffydd mewn gweinidogion crefyddol erbyn hyn. Oherwydd hyn mae'n datgan y bydd Duw yn defnyddio ynadon a gweinidogion sifil er mwyn cyflawni'i bwrpasau ar y ddaear:

This fire is the Spirit of the Lord in our godly Magistrates, who are the most absolute men, both Civil and Martial, by Land and Sea, joyned together to manage the great design of God this day, in destroying all that is of man (or fleshly Ministry) and setting up God alone in the Land, that at last we may cease from man, and God may be All in All (ibid.).

Yn *The Mad Mans Plea* (1653) gwelwn Erbery yn ateb y cyhuddiad o wallgofrwydd mewn modd dychanol. 'let me tell the wise, That fools are the wisest men, and mad men the most sober minded' (t. 1). Mae Erbery fel petai'n coffleidio ac yn mabwysiadu'r label gyda balchder.

Mae *The Babe of Glory* (1653) yn cynnwys llythyrau a anfonwyd at Erbery gan wahanol ddynion, gan gynnwys Morgan Llwyd. Mae'r dynion hyn yn

rhannu syniad Erbery 'of the sense of the inner presence of Christ, and the imminence of the Third Dispensation' (Morgans 2011, t. 232).

Yn *The North Star* (1653) cawn gasgliad o lythyron a phamffledi. *The North Star* yw'r teitl a roddir i'r casgliad ac i'r gyfres o lythyron rhwng Morgan Llwyd ac Erbery. Eglura Morgans:

Both shared an experience of the indwelling of Christ, and both were convinced that God's action in contemporary history was a foretaste of the coming of the Kingdom. God was internally motivating the saints, and externally shaping the destiny of humankind through his work of liberty and righteousness (Morgans, 2011, tt. 237-8).

Yn ogystal â *The North Star* ceir llythyron dan y teitlau *A Whirlwind from the South*, *The Children of the West*, *A Flash of Lightning from the East*, *The Woman Preacher*, *The Idol Pastor* ac *The Wretched People*. Llythyr at y Saint yn Plymouth nad oeddynt yn perthyn i eglwysi cynnull yw *A Whirlwind from the South*. Yn y gyfrol hon ac yn *Idol Pastor* a *The Wretched People* mae Erbery yn dangos ei fod yn ffafrio eglwysi gwasgaredig. Hynny yw, Saint nad oeddent yn perthyn i unrhyw fath o eglwysyddiaeth, fel, er enghraifft, Cynulleidfaoliaeth fel y'i sefydlwyd yn Llanfaches yn 1639 ac yng Nghaerdydd gan Erbery yn 1640. Gellir galw'r eglwysi gwasgaredig hefyd yn eglwysi anweladwy gan nad ydynt yn cydymffurfio ag eglwysyddiaeth benodol; felly mae aelodau'r math yma o eglwys yn hysbys i Dduw ei hun yn unig. Er nad oedd yn adnabod y Saint hynny yn Plymouth yn bersonol, roeddent yn cytuno ag ef oherwydd nid oeddent yn perthyn i unrhyw eglwys. Saint gwasgaredig oeddent heb fod yn aelodau mewn unrhyw gynulleidfa benodol ond yn rhannu'r un farn ag yntau a'r un disgwyliadau am y Drydedd Oruchwyliaeth:

when the Mystery of God shall be finished at the sounding of the seventh Trumpet, or last dispensation, which I call the third, in respect of Law and Gospel-order [...] the glorious appearing of the great God and Saviour, the new Heaven and new Earth, the new Jerusalem where God

shall dwell with men, even God himself: not God in Covenant only, as under the Law, nor God in Christ only, as under the Gospel-dispensation, but God in us, this Paul calls the Glory to be revealed in us, the manifestation of the Sons of God [...] not one Nation, as the Church of the Jews, nor believers of all Nations, as the Church of Christ, but many whole Nations shall joyn at last [...] And because no Saint shall fully rise till all the Saints, the whole body, be redeemed; therefore the Apostle was waiting for the Adoption, the Redemption of the body, not of his body, or theirs only then living with him; but the Redemption of the body, that is, of the whole church of all the people of God (t. 123)

Mae'n amlwg fod Erbery yma eto yn arddel y gred mai Ailddyfodiad ysbrydol yng nghalonnau'r Saint, 'God in us', sydd i'w ddisgwyl, a hwnnw'n esgor ar y Drydedd Oruchwyliaeth (sy'n cyfateb i'r Milflwyddiant); ac wrth i bobl yng Nghymru a Lloegr brofi hyn, byddai cenhedloedd y byd yn dilyn nes bod yr Eglwys Gristnogol ledled y byd yn gyflawn. Trwy gyfrwng ei brofiadau personol a'i ddehongliad ef o Jeremeia 50:3 daeth Erbery i'r casgliad mai yng Nghymru a Lloegr y byddai'r gwaith yn dechrau:

If I may speak my experience, 'tis this, Babylons fall is from the North, Jer. 50.3. and the Northern Nations have been for the fall of spiritual Babylon; other Heresies fell by the Eastern and Western worthies, and Affrican Fathers of the South also, as Augustine and others; but the Antichristian Hierarchy, has fallen first in the North of the world, Popery in France, Germany, and England also before by Wickliffe, &c. Prelacy by the Scots, the Scots Presbyters by the English, the new English Independency by the Welsh, or the Baptized Churches there [...] the Spirit of Jesus rising in north-Wales, is for the fall of all the Churches in the South (t. 126).

Cyfeiria Erbery at Ailddyfodiad corfforol Iesu Grist. Wrth drafod esgeuluso gwaith cymdeithasol, megis gofalu ar ôl anghenion y tlawd, dywed Erbery, 'Wo is me, if the Lord when he comes, finds me so doing [anwybyddu'r tlawd a'r newynog], though I speak like an angel' (t. 125). Cyfeiria Erbery yma at waith Iesu Grist fel barnwr ac felly cymrwn fod Erbery yn dal i gredu y daw Iesu Grist ar ddiwedd y byd yn gorfforol i farnu'r byd, a hynny ar ei drydydd dyfodiad fel y petai.

Llythyr at Fedyddwyr Gwlad yr Haf, Dyfnaint a Wiltshire yw *The Children of the West* ac ynddo mae Erbery yn siarad yn erbyn ffurfioldeb eglwysig gan fod ffurfioldeb yn mygu'r Ysbryd, yn arwain at raniadau, ac felly'n gorthrymu'r Saint. Serch hyn, mae Erbery eto yn obeithiol fod y Drydedd Oruchwyliaeth yn dyfod i ddymchwel y gorthrymder hyn. Os llythyr personol at gyfaill oedd *The North Star* a llythyr at eneidiau hoff cytûn oedd *A Whirlwind from the South*, roedd *The Children of the West* yn llythyr o feirniadaeth wedi ei anelu at y Bedyddwyr, a oedd yn gyflym ymsefydlu yng Nghymru. Yn y llythyr mae'n dathlu'r ffaith fod y drefn Esgobol, Presbyteriaeth ac Annibyniaeth yn colli tir gan ei fod yn gweld methiannau ynddynt, bob un ohonynt. Mae hefyd yn gweld methiannau yn y Bedyddwyr, yn bennaf am eu bod yn pwysleisio pwysigrwydd cymuno a bedyddio – ordinhadau yr oedd Erbery yn eu gweld yn rhwystr i'r unigolyn a geisiai berthynas uniongyrchol â Duw. Yn y llythyr gwelwn Erbery yn dadlau unwaith eto fod gan Gymru wreiddiau Cristnogol pur a hynafol, yr 'old Christian Religion [...] the Western Romish Church was the first Christian Church in the world [...] the Christian religion was in Britain before it was in Rome'. I Erbery, mae gobaith presennol y Saint yng Nghymru yn y ffaith fod diwrnod ar ddyfod a fyddai'n chwyldroi y wlad. Ni ellir ond casglu mai cyfeirio at yr Ailddyfodiad ysbrydol – 'the appearance of the Great God in you' - a dyfodiad y Milfwyddiant y mae Erbery yma:

In Joel 3.16. The Lord shall roar out of Sion, and utter his voice from Jerusalem, and the Heavens and the earth shall shake [...] When was this Scripture fulfilled in you? I profess you are Sion, God dwells in you; you are Jerusalem, the City of God, God dwells with you. I pray, when did the Lord utter his voice from you Jerusalem, and roar in you Sion? Well, he hath not yet, Why so? because the Lord is yet silent, and saith nothing, he is still; but a day is coming that the Lord will roar in the midst of you, then the Heavens and the earth shall shake, your heavenly apprehensions, and your earthly performances, your heavenly hopes, and your earthly afflictions, all shall shake in that day of the appearance of the great God in you (t. 140).

Mae *A Flash of Lightning from the East* yn dract pwysig. Ynndo 'Erbery proclaims the Christian hope. A new world of righteousness, mercy and justice is being ushered in by the people of the Lord in power' (Morgans 2011, t. 266). Yma mae Erbery eto yn ddi-sigl yn y gred a fynegwyd yn gyntaf ganddo yn 1647, mai Ailddyfodiad ysbrydol yw un Iesu Grist yng nghalonau'r Saint cyn y Milflwyddiant a phan amlygir Iesu Grist ynddynt adeg yr Ailddyfodiad ysbrydol hwnnw, sefydlir y Drydedd Oruchwyliaeth. Dim ond trwy amlygiad Duw yng nghalonau'r Saint a'r cyfiawnder a ddaw o hynny, y gellir sefydlu'r Milflwyddiant, sef y Drydedd Oruchwyliaeth. Nid oes a wnelo strwythur eglwysig penodol ddim â'r peth. Egyr y pamffled yn hyderus:

The coming of Christ, and his second appearance in us, will not be in any particular form of Religion, or private opinion of man, but in the power of righteousness and universal appearance of God in his people [...] 'tis neither in gathered Churches, nor Conventicles of Seekers, nor yet in the Desart of Bewildernessed and scattered Saints; he'll come in none, yet comes All at once, as Lightning shines from East to West (t. 144)

Dywed fod y Saint yn edrych ymlaen at y Drydedd Oruchwyliaeth a theyrnasiad Duw, pan fydd heddwch a chyfiawnder yn teyrnasu a gorthrymwyr yn cael eu dymchwel. Honna hefyd fod syched yn rhyngwladol am gyfiawnder:

There is a little small remnant of the Sons of Peace, and the quiet in the Land, who are waiting for this to hasten on the Nation; in whom also there is an universall looking for of Righteousness, Mercy, and Justice from the people of the Lord in power, that nothing may appear in them but God only; and do to others, not only as we would that men should do unto us, but as God would do to men. This is the reign of God and of Christ, who shall judg the poor of the people, save the children of the needy, and break in pieces the oppressor (t. 145).

Ysgrifennodd Erbery *The Woman Preacher* (1653) yn ystod misoedd olaf Senedd y Saint. Mae'n ymateb i aelodau Plaid y Bumed Frenhiniaeth, yn

benodol William Kiffin a John Simpson. Roedd Plaid y Bumed Frenhiniaeth yn wrthwynebus i lywodraeth Cromwell ac yn y tract mae Erbery yn erfyn arnynt i gefnogi Cromwell yn heddychlon. Ar yr un pryd mae'n beirniadu dehongliad llythrennol Kiffin a Simpson o'r Beibl ac yn galw am drafodaethau heddychlon rhwng Cromwell a'r Pumed Brenhinwyr. Sylwa Erbery fod pob llywodraeth yn gorthrymu'r tlawd ac yn tyfu i fod yn anoddefgar wrth i'w grym gynyddu. I Erbery, bydd Duw yn cyflawni'i fwriadau trwy'r iselradd, y tlawd a'r gwan:

The woman that sits in the chimney corner [...] the scullion or common soldier [...] Such common creatures and obscure fellows there are abroad, who are not taken notice of nor respected by men, but by God they are, who will send them forth [...] with power and glory [...] The feeble, the weakest Saints God will most glorifie with power from on high, to bring forth the glorious appearance of himself to the world (t. 147).

Byrdwn *The Idol Pastor* (1653), sy'n llythyr at eglwysi cynnull Llanfaches, a *The Wretched People* (1653), sy'n llythyr at Saint gwasgaredig yng Nghaerdydd a thrwy Gymru benbaladr, yw bod y Drydedd Oruchwyliaeth gerllaw. Ynddynt mae Erbery yn mynegi'r farn nad oedd strwythur Llanfaches yn gywir. Roedd Erbery o'r farn fod eglwys gynnull fel un Llanfaches yn amhur ac mai eglwysi gwasgaredig, fel Caerdydd a Plymouth, oedd yn gweithredu'r dull cywir o fywyd eglwysig. Mae o'r farn y daw dydd pan fydd Duw yn dwyn ynghyd y Saint gwasgaredig. Dywed yn *The Wretched People* (1653):

Our first scattering was by coming into gathered Churches; by looking on forms, we lost the Spirit and power of godliness. Here we are scattered again, less godliness appearing, than was in us before. Well, God will yet gather us again, gather us up to himself, to the Spirit of Jesus, which appearing in us with power and glory, will manifest to the world who our Pastor is, even he who keeps us as a Shepherd doth his flock (t.163).

Datgan Erbery eto yn *The Wretched People* ei gred fod y Drydedd Oruchwyliaeth gerllaw, pan brofir dyfodiad ysbrydol Iesu Grist yng nghalonnau'r Saint. Mae o'r farn fod dynolryw yn byw dan orthrwm a chaethglud Babyloaidd,

ond pan ddaw Iesu Grist a thrigo yng nghalonnau dynion ceir rhyddid yn y Jerwsalem Newydd:

The last time of my being in this Countrey, I was carried forth to speak of New Jerusalem, that's the third dispensation, or glorious discovery of God in men, when God himself shall dwell gloriously in the midst of his people, Zach. 2.10, Rev. 21.2, 3 [...] But that method which God took in bringing forth his people of old from Babylon, the same he takes with his people now, in these three things [...] Thus 'twill be in these last daies before the New Jerusalem come down; Almost all the people of God will fall to open wickedness, being partakers of Babylons sins. They shall then suffer without and within a sore captivity (t. 164).

Mae i *An Olive Leaf* (1653/4) a *The Man of Peace* (1653/4) wedd wleidyddol benodol wrth i Erbery, o bawb, geisio heddwch yng nghanol dadleuon ffyrnig ei ddydd. Pan ddiddymwyd Senedd y Saint gan Cromwell ar 12 Rhagfyr 1653 chwalwyd gobeithion Plaid y Bumed Frenhiniaeth gan eu bod nhw'n credu fod Senedd y Saint yn rhagflaenydd i deyrnasiad Milflwyddol Iesu Grist. Bradwr oedd Cromwell yn eu barn hwy bellach, ond ceisiodd Erbery eu perswadio i weld beth oedd cymhelliant Cromwell a phwysleisio'r hyn oedd ganddynt yn gyffredin. Anogodd y Milflwyddwyr, yn *An Olive Leaf* i sefydlu teyrnasiad Crist yn eu calonnau: 'that you and I may retire into the inner World, and not dwell in the outward Court, which is given to the Gentiles, nor to expect the reign of the Saints with Christ, in outward glory and Government' (t. 300).

Mae Erbery hefyd yn gwadu Ailddyfodiad llythrennol Crist ac yn gwadu y bydd Crist yn dod yn gorfforol ar ddiwedd y byd: 'Whether Christ shall come to reign personally in flesh, and how, I know not: but that he shall come in flesh again (as you said) I question, if it be not far from that spirituall appearance promised' (*An Olive Leaf*, t. 188). Mae hefyd yn gwadu'r teyrnasiad daearol am gyfnod o fil o flynyddoedd llythrennol: 'his Kingdome is for ever: and truely 'tis marvailous to me, that so many Saints should interpret the thousand years, so

carnally, when themselves confesse that all the Revelation besides, is a mystery' (*An Olive Leaf*, t. 190). Mae hefyd yn erfyn ar y Pumed Brenhinwyr i sylweddoli na fydd gogoniant teyrnasoedd daearol i'w gymharu â theyrnasiad Crist a'i Saint. Ni fydd llywodraeth ysbrydol Crist yn un bydol: 'But this Monarchical Government of Christ, and the Saints of the most high with him, will not be in worldly Government and glory' (*An Olive Leaf*, t. 189). Ar y llaw arall mae Erbery am i'r Pumed Brenhinwyr weld fod Duw yn defnyddio llywodraeth Cromwell er daioni: 'the people of God are in present power (as 'twas never before) [...] and they led forth with that boldness and that forbearance appearing in the powers also, and such peace and love still abiding in both' (*An Olive Leaf*, t. 191).

Yn *The Man of Peace* (1653/4) mae Erbery am i'r Pumed Brenhinwyr gymryd cysur yn y ffaith fod y Drydedd Oruchwyliaeth ar ddyfod ac y bydd llywodraeth Cromwell oherwydd hynny yn gweithredu cyfiawnder:

seeing we wait for a new Heaven and a new earth, wherein dwelleth righteousness, and this righteousness is promised to be on earth as well as in heaven; that is the Civil as well as Ecclesiastick state (for our officers shall be peace, and our exacters righteousness), therefore in the third dispenstation now approaching (wherein the people of God are in highest power), all things in heaven and earth shall be gathered up into Christ not only in Saints in common, but the State is to act in Christ, and as Christ Jesusu would do to men (t. 208).

Yn ogystal â hyn dywed Erbery 'the Power being now in the hands of the people of God, God will truly talk with them, if they offend; yea, trouble them too' (t. 210) ac yn ychwaneg, dywed, "'tis like the Lord will blesse the present Government' (t. 211) am nad yw'r Wladwriaeth yn gysylltiedig â'r Eglwys.

Beth a ddywedwn felly am y dyn rhyfeddol hwn, William Erbery, dyn a oedd mor ddylanwadol yn ei ddydd fel bod 600 o bobl yng nghyffiniau Caerdydd

yn unig yn barod i brynu ei gyfrol gyntaf yn 1639? Mae ei ddiwinyddiaeth yn newid dros amser ac yn bur gymhleth i'w chrynhoi. Yn ganolog i athrawiaeth Erbery ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant oedd bod Duw am ddatguddio ei ogoniant a'i fawredd pan ddeuai a datguddio ei hun yng nghalonau dynion. Tybiaf fod Erbery nes o leiaf 1647 yn credu yn nyfodiad corfforol Iesu Grist wedi'r Milflwyddiant. O 1647 ymlaen tybiaf iddo gredu ei fod yn byw mewn cyfnod pan oedd pwrpasau Duw yn cael eu cyflawni. Pan gyflawnid ei bwrpasau, byddai Duw yn oll yn oll. Fel pob Cristion, credai fod hanes yn cael ei arwain at uchafbwynt dan oruchwyliaeth Duw, ond i Erbery, roedd hanes yn cael ei rannu yn dair Oruchwyliaeth. Y gyntaf oedd Goruchwyliaeth y Gyfraith, sef cyfnod yr Hen Destament a'r cyfamod a wnaeth Duw â'i bobl trwy Moses. Yr Ail Oruchwyliaeth oedd un y Mab, sef cyfnod gweinidogaeth ddaearol Iesu Grist a chyfnod yr Apostolion. Fodd bynnag, credai Erbery fod y cyfnod hwn wedi dod i ben yn ystod y Gwrthgiliad wrth i ddynolryw fethu adlewyrchu llun a delw Duw. Dyma gyfnod pob math o eglwysyddiaeth gan gynnwys eglwysi cynnull, wrth i'r eglwys Gristnogol gael ei llygru a hynny'n arwain at gynnydd yn nylanwad yr Anghrist. Mae Erbery yn gweld bai ar Eglwys Rufain a holl strwythurau eglwysig ei ddydd gan nad oedd yr un ohonynt heb ei fai. Yn ystod y Gwrthgiliad ac yn sgil strwythurau eglwysig annigonol a oedd yn cynnwys sacramentau, collwyd addoliad pur ac uniongyrchol i Dduw. Erbyn 1653 gwelwn fod Erbery yn cynnwys pob math o eglwysyddiaeth, hyd yn oed eglwysi cynnull fel un Llanfaches, fel ffurf lywodraeth eglwysig sy'n atal dynion rhag profi presenoldeb Duw. Ond ni cholodd Erbery obaith a dysgodd fod agoswydd at Dduw o fewn cyrraedd pawb. Credai y byddai gwirionedd a rhyfeddod mawr yr efengyl, sef Duw ynom, yn cael ei amlygu ar ddiwedd y Gwrthgiliad pan ddeuai'r Drydedd Oruchwyliaeth. Yn ystod diwrnodau olaf y Gwrthgiliad ceir yr Ailddyfodiad

ysbrydol pan fyddai Iesu Grist yn dod, yn raddol, i deyrnasu yng nghalonau'r Saint. Dyma Dduw ynom, 'the second appearance of Christ [...] the new Jerusalem [...] God himself shall minister in his own glory and power, nothing but God shall appear in man', fel y dywed Erbery yn *The Great Earthquake* (1654, t. 50). Datblygodd Erbery y gred hon ymhellach gan ddysgu y bydd pawb yn profi hyn, hyd yn oed Mwslemiaid (*The Honest Heretique*, t. 333). Pan ddeuai Iesu Grist, byddai'r strwythurau eglwysig yn dymchwel ac ynadon yn cael eu defnyddio i sefydlu teyrnas Duw, gyda heddwch a chyfiawnder yn teyrnasu nes bod presenoldeb Duw megis tân yn llosgi nes 'we shall never see no more forms of creatures or churches' (ibid., t. 50). Gwelodd Erbery, yng nghanol cyffro a chwyldroadau ei ddydd, bwrpasau Duw a phroffwydoliaethau yn cael eu cyflawni a'r Drydedd Oruchwyliaeth yn dechrau gwawrio. O 1647 ymlaen, daeth Erbery dan ddylanwad y Ceiswyr, a dyna sy'n egluro ei ffocws ar y Drydedd Oruchwyliaeth. Ceir cyfeiriadau yma ac acw at ddyfodiad corfforol Iesu Grist ar ddiwedd y Drydedd Goruchwyliaeth i farnu'r byd, fel yn *A Whirlwind from the South* (t. 125), ond erbyn diwedd ei fywyd mae Erbery yn gwadu Ailddyfodiad corfforol Crist.

Er i Erbery wyro oddi wrth athrawiaeth draddodiadol Biwritanaidd ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant, serch hynny, mae'n unigolyn pwysig a hynny oherwydd goblygiadau cymdeithasol ei gredoau. Ef oedd y Piwritan cyntaf i ddeisebu'r Senedd ac ymbil arnynt i sefydlu system bregethu i efengyleiddio Cymru, a hynny yn y Gymraeg ac wedi'i noddi gan y Senedd. Gofynnodd am hyn wyth mlynedd cyn cyflwyno Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru. Ni allwn ddweud na fyddai'r Ddeddf wedi'i chyflwyno pe nas ymbiliasai Erbery – mae'n ddigon tebygol y byddai rhywrai eraill wedi gwneud

hynny – ond ef oedd y cyntaf ac felly arloesodd ym maes cenhadu yng Nghymru.

Yn ogystal â hyn, roedd cyfiawnder cymdeithasol yn sylfaen i'w weledigaeth o'r Drydedd Oruchwyliaeth. Cyfiawnder, rhyddid a heddwch oedd nodweddion ei baradwys ddaearol lle byddai croeso i bob cenedl a phob crefydd, gan mai cariad ac undod fyddai wrth wraidd y greadigaeth newydd honno. Heb os, fe gafodd radicaliaeth Erbery ddylanwad ar ferw syniadol ei ddydd ac erbyn y 1630au roedd hyd at 600 copi o'i deitlau cyhoeddiedig yn gwerthu er nad oedd hynny wrth gwrs yn profi fod y rhai a brynai ei gyhoeddiadau o angenrheidrwydd yn cytuno á'i safbwyntiau. 'Evidently Erbery had a following and probably a readership too, among many who did not agree with him' (Trevett, 1996, t. 26).

Teithiodd Dorcas Erbery, merch William, gyda James Nayler, amddiffynwr mwyaf y Crynwyr, yn ei orymdaith fesianaidd i fewn i ddinas Bryste ar 24 Hydref 1656. Er nad oedd Erbery yn Grynwr, awgryma Trevett fod ganddo gysylltiad clos a dylanwadol â chenhedlaeth gyntaf y Crynwyr (ibid, t. 27). Bu'n pregethu'n aml mewn ardaloedd ym Mryste a Gwlad yr Haf nid nepell o gartrefi teuluoedd a chefnogwyr mwyaf brwd y Crynwyr. Ysgrifenna Ralph Farmer yn ddeifiol am weithredoedd Erbery a Morgan Llwyd ym Mryste yn ystod gaeaf 1653 yn ei gyfrol *Satan Inthron'd in his Chair of Pestilence* (1657). Ysgrifennodd fod cynulleidfa wedi ymateb yn annisgybledig i bregethu Erbery trwy 'coming and going as if it had been a bear-baiting [and] riding upon the pews' (t. 49). Disgrifiodd Erbery fel, 'that poor creature' a Llwyd 'a person known well enough to be hare-brain'd and fanatick' wedi dwyn allweddi ei eglwys oddi wrtho 'by threats and menaces' er mwyn pregethu. Dywedodd fod un Cymro yn y pulpud a'r llall yn sefyll ar gadair yn 'abuse the people with their delusions' (tt. 48-49).

Cymaint oedd dylawnad y ddau Gymro nes bod yr ynadon yn analluog i'w hatal a bod Erbery wedi arwain ymgyrch i ddiarddel gweinidog 'godly and Orthodox' o'r ddinas (t. 49).

Dywed Trevett fod arweinwyr cynnar y Crynwyr wedi creu golygfeydd tebyg a bod Erbery 'had moved in precisely the same circles as those who became Friends of Truth (1996, t. 27). Yn wir, cyhuddwyd y Crynwyr o lawer o'r un pethau ag y cyhuddwyd Erbery ohonynt yn ystod ei yrfa: cabledd, antinomiaeth, sociniaeth a goddefgarwch i Fwslemiaid ac Iddewon. 'Such things,' eglura Trevett, 'combined with similarities in their teaching concerning social justice, the indwelling Spirit, tithes and ritual made it inevitable that Erbery should be seen as the godfather of the Friends of Truth in Wales' (ibid, t. 28). Cymaint oedd dylanwad Erbery ar y mudiad nes fod William Penn yn Hydref 1693 yn annog Crynwyr ifanc i ddarllen gwaith John Saltmarsh, John Webber a William Erbery ymhlith eraill (ibid). Gellir dadlau hyd yn oed mai Erbery ei hun a ddyfeisiodd yr enw 'Society of Friends' a ddaeth yn enw ar fudiad y Crynwyr (ibid, t. 29). Dywed Trevett: 'William Erbery would have been aware of what was happening' parthed dechreuadau y Crynwyr yn Lloegr ac yng Nghymru. Mae digon o dystiolaeth i awgrymu ei fod wedi bod yn ddylanwad uniongyrchol, ac anuniongyrchol trwy Morgan Llwyd a'i ferched a'i wraig, ar ddechreuadau y Crynwyr. Dangosa Trevett i'r Erberiaid benywaidd dyfu'n hynod o ddylanwadol a phiodi Crynwyr dylanwadol eraill (ibid, tt. 32-43). 'There would have been much in the teaching of William Erbery to lay the ground for their change' (ibid, t. 43).

Roedd Erbery yn berchen tir yn ardal Merthyr Tudful, un o ganolfannau cynnar radicaliaeth ac Anghydfurfiaeth yng Nghymru, a bu ganddo gysylltiadau clós â'r ardal, drwy gydol ei fywyd. Mae Bowen yn awgrymu fod Erbery wedi mynd â radicaliaid o Ferthyr gydag ef i lobïo'r Senedd Hir yn 1640 ynghylch yr

165

angen am bregethu effeithiol yng Nghymru (2011, t. 357). Daeth ei wraig a'i ferched yn Grynwyr dylanwadol ym Merthyr ac y mae Lydia Erbery, merch William, wedi ei chladdu yn Quakers Yard. Felly anghywir iawn fyddai cyhuddo Erbery o fod yn wallgofddyn, a dim arall.

Yr hyn sy'n drawiadol hefyd am Erbery yw'r gwahaniaethau sylfaenol rhwng ei Biwritaniaeth ef a Phiwritaniaeth William Wroth. Er i'r ddau fwynhau cysylltiadau clos yn y 1630au datblygodd Erbery Piwritaniaeth wahanol iawn i un Wroth. Calfinaidd uniongred oedd Piwritaniaeth Wroth ac eglwys gynnull oedd ei un ef tra arddelai Erbery filflwyddiaeth ac ymbellhaodd o Galfiniaeth. Pregethodd cyffredinoliaeth a mynnodd fod pob eglwysyddiaeth, gan gynnwys eglwysi cynnull, yn rhwystr i unigolyn rhag cyrraedd Duw. Er iddo gadw mewn cysylltiad ag arweinwyr arall Phiwritaniaeth Gymreig megis Morgan Llwyd a Walter Cradock roedd ei ddiwinyddiaeth yn gwbl unigryw. Mae ei ddyhead i lythyru dynion fel Llwyd a Cradock a rhai o eglwysi Lloegr yn dangos fod ganddo gonsym dros ei gyd-Gymry a'i gydnabyddion, ac yn dangos eto nad mudiad unffurf oedd Piwritaniaeth, a hyd yn oed yng nghylchoedd llai Cymru, roedd iddi wahanol fynegiadau.

3. Walter Cradock (c.1610–1659)

Daeth Walter Cradock i sylw'r awdurdodau eglwysig yn 1634 pan ysgrifennwyd at Archesgob William Laud i gwyno am Biwritaniaid de Cymru:

The bishop of Llandaff certifies that this last year he visited in person and found William Erbury, vicar of St Mary's Cardiff and Walter Cradock his curate have been very disobedient to your majesty's instructions, and have preached very schismatically and dangerously to the people. That for this he has given the vicar a judicial admonition, and will further proceed, if he do not submit. And for his curate being a bold ignorant young fellow, he hath suspended him, and taken away his licence to serve the cure (Wharton, 1695, t. 533).

Fel y gwelwyd eisoes, anufudd-dod y dynion hyn oedd gwrthod darllen a dilyn *Llyfr y Chwaraeon* 1633 a oedd yn gorchymyn y dylid cynnal rhai chwaraeon ar y Sul. Wedi'i ddiarddel, aeth Cradock i Wrecsam, Amwythig, Llundain, Brampton Bryan, Llanfair Dyffryn Tefeidiad a mannau eraill. Mae lle i gredu ei fod wedi gael ei esgymuno gan ei deulu hyd yn oed, a byddai hynny efallai'n esbonio pam yr oedd yn symud o'r naill le i'r llall. Rheswm arall dros fynd i Wrecsam oedd y ffaith ei bod hi'n ganolfan i'r Piwritaniaid yng ngogledd Cymru oherwydd ei lleoliad ar y ffin â Lloegr a'i statws fel tref farchnad boblogaidd. Cafodd guradaeth Wrecsam, lle 'parodd ei weinidogaeth gyffro mawr yn y dref a'r gymdogaeth' (Rees, 1912, t. 7) nes bod perchnogion tafarndai y dref yn cwyno amdano. Un o sgil-efeithiau ei weinidogaeth yn Wrecsam oedd tröedigaeth Morgan Llwyd. Wedi ei erlid gan dafarnwyr y dref, aeth Cradock i Amwythig lle bu'n gyfrwng i Richard Baxter ddod i sicrwydd ffydd ac oddi yno aeth i ardal Brampton Bryan dan nawdd Syr Robert Harley, un o brif noddwyr y Piwritaniaid Cymreig. Oddi yno âi ar deithiau pregethu i siroedd Amwythig, Maesyfed, Brycheiniog a Cheredigion. Gwelwn ef yn 1639 yn Llanfaches yn helpu sefydlu achos Wroth yno. Gyda dyfodiad y Rhyfel Cartref gwelwn ef yn symud i Fryste ac yna i Lundain. Yn hytrach nag anghofio am Gymru, yr hyn a welwn yn ei ysgrifeniadau yw baich trwm dros ei famwlad a'i gyd-Gymry. Gwelwyd eisoes sut yr arweiniodd ymdrechion y Piwritaniaid Cymreig, yn enwedig ymdrechion cynnar William Erbery, at basio Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru yn 1650, ac o dan awdurdod y Ddeddf honno gwelwn Cradock yn gweithio fel un o'r rhai a drwyddedai ddynion cymwys i bregethu a gweinidogaethu yng Nghymru. Sir Fynwy oedd prif faes ei lafur o hynny ymlaen. Ymsefydlodd ym Mrynbuga yn 1653, gan ddod yn 1655 yn ficer Llangwm, y plwyf y ganed ef ynddo. Bu farw yn 1659 yn hanner can mlwydd oed.

Dywed Noel Gibbard mai 'staunch Cromwellian' oedd Cradock (1977, t. 6). Yn wahanol i Vavasor Powell a Morgan Llwyd, lleisiodd Cradock ei amddiffyniad o Cromwell yn *The Humble Representation and Address* (1655/6), gan gasglu 700 llofnod yn datgan teyrngarwch i'r Arglwydd Amddiffynnydd. Safbwynt Powell a Llwyd oedd bod Cromwell yn camddefnyddio'i awdurdod, fel y gwnaeth y Brenin, ond roedd Cradock o'r farn mai Cromwell oedd yr arweinydd cywir. Derbyniodd Cradock wahoddiad i angladd Cromwell yn 1658.

Ond beth oedd ganddo i'w ddweud am yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant, a sut, os o gwbl, oedd ei gredoau ynghylch yr athrawiaethau hyn yn effeithio ar ei ymwneud ef â'r byd o'i gwmpas? Rydym yn ffodus iddo gyhoeddi llawer yn ystod ei fywyd, yn wahanol i William Wroth.

The Saints fulnesse of Joy in their fellowship with God (1646)

Dyma gyfrol gyntaf Cradock, a gyhoeddwyd yn 1646. Pregeth ydyw ar 1 Ioan 1:3-4 a bregethodd gerbron y Senedd yn y flwyddyn honno a byrdwn y bregeth yw'r llawenydd sydd yn eiddo i'r Saint am eu bod wedi'u huno â Duw trwy Iesu Grist. Yn y bregeth mae Cradock yn sylwebu ar gwmp y Brenhinwyr yn Rhydychen yn 1646 ac yn dweud â sicrwydd: 'I was filled with admiration, to see how all the *pride of that place was brought downe in one day*. Thought I surely the design of God in these days, is to bring downe one proud thing after another, that exalts it selfe against Christ' (1646, tt. 30-1). Mae cyfeiriadaeth eschatolegol Feiblaidd amlwg yma.⁵⁸ Dyma ddangos fod Cradock yn ystyried

⁵⁸ Ezeia 2:12: Canys dydd ARGLWYDD y lluoedd fydd ar bob balch ac uchel, ac ar bob dyrchafedig; ac efe a ostyngir.

Iago 4:6: Canys dydd ARGLWYDD y lluoedd fydd ar bob balch ac uchel, ac ar bob dyrchafedig; ac efe a ostyngir.

1 Pedr 5:6: Yr un ffunud yr ieuainc, byddwch ostyngedig i'r henuriaid. A byddwch bawb yn ostyngedig i'ch gilydd, ac ymdrwsiwch oddi fewn â gostyngeddrwydd: oblegid y mae Duw yn gwrthwynebu'r beilchion, ac yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig. ⁶ Ymddarostyngwch gan hynny dan alluog law Duw, fel y'ch dyrchafo mewn amser cyfaddas.

digwyddiadau ei ddydd yn nhermau gwaith a bwriadau Duw ac o bersbectif eschatolegol. Nid yw'n dweud yn benodol bod y digwyddiadau hyn yn arwain at yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant, ond cawn awgrym ei fod yn ystyried cynnwrf ei ddydd yn rhan o gynllun Duw.

Cawn sylwebaeth yn ogystal ar gyflwr Cymru:

And what if you should spend one single thought upon *poore contemptible Wales*? it's little indeed, and little respected [...] oh let not *poore Wales* continue *sighing, famishing, mourning* and *bleeding*, while you have your daies of *feasting, rejoicing, Thanksgiving* and *praising* God [...] Oh how loath I am to mention it to you? is it not a sad case that *in thirteen Counties there should not be above thirteene conscientious Ministers who in these times expressed themselves firmly and constantly faithfull to the Parliament, and formerly preached profitably in the Welch Language twice every Lords Day?* (1646, t. 34).

Dyma 'heartfelt plea for parliament to support the spiritual needs of his native land' (Morgan, 2018, t. 86). Gwelwn yr un ymbilio yn erfyniadau Erbery. Nid yw Cradock yn gofyn llawer, dim ond am ddigon i gadw corff ac enaid ynghyd i'r rhai sydd am wasanaethu Duw:

Yet (praised by our God) some few there be (though I my selfe am unworthy to be reckoned amongst them) who are ready and willing to *spend* and be *spent* for the glory of God, and the good of their country: oh what you would allow them some small competency of maintenance for their incouragement; be it please, but meere food and payment (1646, t. 34).

Rhaid oedd aros hyd 1650 a chyhoeddi Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru er mwyn gweld ceisio ateb galwad Cradock ar raddfa fawr. Erbyn hynny gwelwyd elfen wleidyddol ychwanegol i'r Deddf Taenu'n ogystal, sef ceisio tawelu 'cavaleering spirit' y Cymry (gol. Birch, 1742, ii, t. 256). Gwelwn yn 1646 Cradock, Richard Symonds ac Ambrose Mostyn yn cael cyflog i fod yn bregethwyr teithiol yng Nghymru. Dyma ddangos fod Cradock yn wleidyddol effro, a mwy felly na rhai o'r Aelodau Seneddol o Gymru gan mai gweithred

rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol o'i ran oedd gofyn am ymgyrch efengyleiddio cenedlaethol. 'On most of the issues before the Commons during this parliament down to 1642, the position of the Welsh MPs often appears to have been reactive rather than proactive' (Bowen, 2007, t. 238). Gwelwn yma Cradock, ac Erbery, yn ceisio dangos i'r Aelodau Seneddol sut i wneud eu gwaith. Diddorol nodi mai Sir Robert Harley o Brampton Bryan a fu'n gefn i'r Piwritaniaid Cymreig, yn hytrach nag Aelod Seneddol o Gymru.

Cawn gyfeiriad pellach at ddigwyddiadau'r dydd wrth i Cradock ddweud hyn: 'you may perhaps see new troubles arise, Satan may rage yet more then ever, (the last times will surely be the worst)' (1646, t. 35). Dyma sylw sydd â goblygiadau eschatolegol iddo. Mae Cradock yn cyfeirio yma at Satan yn gweithio trwy gydol y dyddiau diwethaf ar ei hyd. Hynny yw, roedd cyflwr y byd yn mynd i waethygu cyn y diwedd felly nid yw fel petai yn disgwyl y Milflwyddiant yn yr oes bresennol cyn yr Ailddyfodiad. Yma mae Cradock yn cydnabod y bydd cyfnod yn dod pan fydd dylanwad Satan yn cynyddu fwyfwy ond, dyna fydd 'last times' Satan cyn y difethir ef, yn unol â dysgeidiaeth Paul yn 2 Timotheus 3.

Gospel-Libertie (1648)

Yn ail gyfrol Cradock gwelwn ef yn hybu cenhadaeth fyd-eang: 'therefore the Gospel being not to be limited to one cuntrye, but to be spread to many nations, Christ hath left a latitude for the conveniency of all nations' (t. 24); a thrwy bregethu a chredu'r efengyl ceir heddwch:

see whether it conduce to bring anything to the *peace* of the saints, and people of God; and if it bring *love* it will bring *peace*; *for the fruit of the spirit is, love, joy, peace*; *peace* always goes with *love* [...] We must *follow peace with all men* [...] get the same disposition to *peace* as men have to *persecute* Religion' (t. 71).

Pwyslais ar genhadu a heddwch sydd yma ac felly mae oblygiadau cymdeithasol amlwg i'w athrawiaeth.

Glad Tydings from Heaven; To the worst of sinners on earth (1648)

Yn y gyfrol hon cawn bwyslais eto ar genhadu:

or take it more restrained as generally the godly doe, that by creature here is meant the *Gentiles*, in opposition to the *Jewes*, for they knew that they were to preach the *Gospel* to the Jewes [...] go which way you will, goe to the *Gentiles*, to *Sinners*, to any men, or women that you can call creatures, *Scithians*, *Barbarian*, *bond or free*, goe and preach the Gospel to them, bring them glad tidings, and newes, that Jesus Christ hath brought *life, & grace, & salvation* freely for them (t. 4).

Ceir adlais o Colosiaid 3:11⁵⁹ yma. I Cradock, efengyl seml yw'r efengyl Gristnogol: '*That the Ministrie of the Gospel [...] containes nothing byt glad tidings, and good newes even to the worst of sinners*' (t. 6). Wrth ystyried symrlwydd yr efengyl, dywed Cradock:

There is nothing in all this but only good newes, glad tidings; as that the *poore* should have salvation by Christ, that the *broken hearted* should be *healed*, that the *Captives* should be *delivered*, that the *blinde* should *receive their sight*, and that them that are *bruised* should be *set at liberty*, and them that are *slaves* should have the *yeare of Jubilee*, the *acceptable yeare of the Lord* (t. 8).

Diddorol gweld Cradock wrth ddyfynnu o Eseia 61:1-2⁶⁰ a Luc 4:18-19⁶¹ yn ychwanegu'r term Jiwbilî. Mae'r cyfeiriad yma at y Jiwbilî yn bwysig. Mae Cradock yn benthycar dywediad a'r ddelwedd o'r gyfraith Iddewig a gaed yn

⁵⁹ Lle nid oes na Groegwr nac Iddew, enwaediad na dienwaediad, Barbariad na Scythiad, caeth na rhydd: ond Crist sydd bob peth, ac ym mhob peth.

⁶⁰ Ysbryd yr ARGLWYDD DDUW sydd arnaf; oherwydd yr ARGLWYDD a'm heneiniodd i efengylu i'r rhai llariaidd; efe a'm hanfonodd i rwymo y rhai ysig eu calon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sydd yn rhwym; ² I gyhoeddi blwyddyn gymeradwy yr ARGLWYDD, a dydd dial ein DUW ni; i gysuro pob galarus.

⁶¹ Ysbryd yr Arglwydd sydd arnaf fi, oherwydd iddo fy enenio i; i bregethu i'r tlodion yr anfonodd fi, i iacháu'r drylliedig o galon, i bregethu gollyngdod i'r caethion, a chaffaeliad golwg i'r deillion, i ollwng y rhai ysig mewn rhydd-deb, ¹⁹ I bregethu blwyddyn gymeradwy yr Arglwydd.

Lefiticus 25:8-13 pan orchmynnir i'r Iddewon ryddhau caethweision a dychwelyd tir i'r perchnogion gwreiddiol. Mae Cradock yn defnyddio darlun y Jiwbilî felly er mwyn darlunio cyfnod yn y dyfodol lle bydd rhyddid ac adnewyddiad yn amlwg wrth i'r efengyl Gristnogol deyrnasu. Sôn y mae Cradock wrth gyfeirio at y Jiwbilî am dröedigaeth bersonol sy'n dod o glywed yr efengyl ac ymateb iddi, ond mae i'r term ystyriaethau eschatolegol hefyd.

Cyfeirir at yr Ailddyfodiad:

Then the Gospel tells us that in due time he will come againe from heaven as he went, and bring a Crowne with him, and actually subdue all his peoples enemies, and give them the same glory that he hath, and they shall be one with God for ever as he is; he will come and take poor sinners to himselfe, that they shall be *where* he is, and as he is, world without end' (t. 16).

Mae'n glir o'r dyfyniad hwn mai ar ddiwedd y byd y daw Iesu Grist yn ôl, a hynny er mwyn barnu.

Â Cradock ymlaen i sôn unwaith yn rhagor am angen ysbrydol y wlad gan annog cenhadaeth:

O, I would to God that wee did see how the poore Countries in the North, and West of England, in many places, in Townes, they have not so much as a Service-booke, not so much as reading; if God settle, and compose these times the Lord give you hearts to joyne together to finde out a course, to send the Ministers of the Gospel to bring the glad tidings to poore people, that lie in the Mountaines of darknesse, and in the shadow of death (t. 49).

Un ffordd o ateb yr angen oedd cael cyflenwad digonol o bregethwyr ac mae'n erfyn ar yr awdurdodau i hwyluso'r ffordd i ddynion a oedd am bregethu: 'let us not be so *curious*, or scrupulous, as to hinder people that they should not preach the Gospel' (ibid.). Dywedodd nad oedd angen gradd prifysgol i bregethu a chroesawodd y syniad o 'coblers' a 'tinkers' yn meddiannu'r pulpod.

Er ei fod yn poeni ynghylch cyflwr Cymru, nid yw'n anobeithio oherwydd mae'n gweld Duw ar waith:

This is an age wherein God comes and fills his people with the glorious light of the Gospel [...] And surely the time is coming that young men shall see visions, and old men shall dream dreames, and God will pour out his Spirit upon all flesh, and they shall prophesie [...] I have observed, and seen, in the Mountains of Wales, the most glorious work that ever I saw in England, unlesse it were in London; the Gospel is run over the Mountaines between Brecknockshire, and Monmouthshire,⁶² as the fire in the thatch; and who should doe this? (tt. 49-50).

Ceir cyfeiriadaeth yma at Joel 2:28-29⁶³ ac Actau 2:16-18⁶⁴ sydd yn cysylltu pregethu, derbyniad ac effaith yr efengyl ag eschatoleg. O'r hyn y mae eisoes wedi'i weld yn Llanfaches, ac yn fwy fyth yn y mynydd-dir rhwng Brycheiniog a Mynwy, mae Cradock o'r farn bod Duw yn gweithio'n rymus a bod cyfnod ysbrydol gogoneddus yn gwawrio. 'What times are these!' (t. 50) mae'n dychmygu y Saint yng Nghymru yn cyhoeddi. Wrth edrych ar dystiolaeth yr amseroedd, hydera fod cyfnod o fendith yn gwawrio. Ni ddefnyddia Cradock y term Milflwyddiant. Gall hyn, o bosibl, awgrymu bod Cradock yn ofalus i beidio â defnyddio'r term oherwydd ei gysylltiad â chredoau radicalaidd a milwriaethus. Rwyf wedi nodi eisoes fod y dyfyniad uchod yn cyfeirio at Actau 2:17 sy'n sôn am 'y dyddiau diwethaf'. Gellid dehongli Actau 2:17 i olygu fod 'y dyddiau diwethaf' wedi dechrau adeg y Pentecost, hynny yw, fod proffwydoliaeth Joel wedi'i chyflawni adeg y Pentecost. Mae Cradock fodd bynnag fel petai'n eu trin

⁶² Mae Cradock yn amcangyfrif fod 'about 800 godly people' yn y mynydd-dir hwn. Diddorol nodi fod Merthyr Tudful yn gorwedd yn yr ardal hon, gan atgyfnerthu'r sylw fod i Erbury fwy o ddylanwad, yn enwedig yng nghyffiniau Merthyr Tudful, nag a dybiwyd.

⁶³ A bydd ar ôl hynny, y tywalltaf fy ysbryd ar bob cnawd; a'ch meibion a'ch merched a broffwydant, eich henuriaid a welant freuddwydion, eich gwŷr ieuainc a welant weledigaethau: ²⁹ Ac ar y gweision hefyd ac ar y morynion y tywalltaf fy ysbryd yn y dyddiau hynny.

⁶⁴ Eithr hyn yw'r peth a ddywedwyd trwy'r proffwyd Joel; ¹⁷ A bydd yn y dyddiau diwethaf, medd Duw, y tywalltaf o'm Hysbryd ar bob cnawd: a'ch meibion chwi a'ch merched a broffwydant, a'ch gwŷr ieuainc a welant weledigaethau, a'ch hynafgwyr a freuddwydiant freuddwydion: ¹⁸ Ac ar fy ngweision ac ar fy llawforynion y tywalltaf o'm Hysbryd yn y dyddiau hynny; a hwy a broffwydant.

fel arwyddion o rywbeth sydd eto i ddod yn llawn yn y dyfodol: 'surely the time is coming' (ibid.). Hynny yw, nid yw'r amser wedi dyfod eto. Mae Cradock yn sicr ei farn ei fod yn tystio i lwydd yr efengyl o'i gwmpas ac mae'n gweld cyfnod yn y dyfodol pan gyflawnir proffwydoliaeth Joel yn llawn pan fydd 'young men shall see visions, and old men shall dreame dreames, and God will poure out his Spirit upon all flesh, and they shall prophesie'. Gwelwn eto bwyslais ar genhadu yn y gyfrol hon.

Divine Drops distilled from the fountain of Holy Scriptures (1650)

Casgliad o bregethau yw *Divine Drops distilled from the fountain of Holy Scriptures* a gyhoeddwyd yn 1650. Ceir cyfeiriad at yr Ailddyfodiad mewn pregeth ar Eseia 9:12-13:

You know, a little while ago, we thought that the Lord was coming to end the wars. The Lord gave us victory upon victory, after many corrections, and judgments before; and we thought they were now over, but we were deceived, as we were many times before. You know God hath been many times about to end our miseries, but he hath sent back for his mercies, and so he hath done now; he hath very strangely called back his mercies, and loving kindness, and hath stretched out his hand many ways against us (t. 2).

Yma mae Cradock yn cydnabod iddo gredu fod Ailddyfodiad Iesu Grist ar ddyfod oherwydd iddo gredu mai gwaith Duw oedd buddugoliaethau milwrol Byddin y Senedd yn ystod y Rhyfel Cartref a bod y buddugoliaethau hynny yn siŵr o arwain at Ailddyfodiad Iesu Grist. Siomwyd ef, canys ni ddaeth Iesu Grist yn ôl, ond yn ychwanegol at hynny, roedd Cradock wedi profi cyfnod o wrthgiliad a chaledi trwy'r wlad.

Mae'n ychwanegu at y darlun ansicr hwn mewn pregeth ar Eseia 16:1-3 pan ddywed:

there are times in the latter end of the world, wherein the very heaven and earth shall once more be shaken: That is, there shall be such troubles, and calamities now in the latter end of the world, that men shall think that God is shaking, not onely Kingdoms and Nations, but Heaven and Earth, the whole Universe, and is ready to pull it down (t. 15).

Ceir cyfeiriadau at Mathew 24:29-31⁶⁵ a Haggai 2:6-7⁶⁶ yn y dyfyniad uchod sy'n adnodau ag iddynt gyfeiriadau eschatolegol. Gwêl gyfnod yn y dyfodol o ryfela a thyndra. Disgwylia orthrymder cynyddol cyn yr Ailddyfodiad.

Mewn pregeth ar Micha 4:1-3 mae Cradock yn nodi y dylid disgwyl gweld cyflawniad pedwar peth cyn diwedd y byd. Yn gyntaf dylid disgwyl gweld llwyddiant i'r eglwys Gristnogol:

That is, the Church and people of God and the things of God shall be exalted in this world above all other things. [...] the times shall come when God shall raise his Church, and people, and his laws and ordinances, and every thing of his, above the world, and the Saints shall be more glorious, and more respected then all the people in the world besides (tt. 122-3)

Yn ail, dylid disgwyl gweld llwyddiant i'r efengyl Gristnogol wrth i bobl ei derbyn: 'When Christ and his Laws, and Ordinances shall be exalted, there will be a greater Harvest among the people then ever there was before' (t. 123). Law yn llaw â hyn bydd gwledydd gelyniaethus i'r efengyl yn troi at Grist a bydd Duw yn galluogi'r efengyl i ledaenu: 'there are few Nations that hear of the Name of Christ: but then many Nations shall come, many Nations that lye in Paganism, and Heathenism, and darkness, God will finde a way to spread the favor of the

⁶⁵ Ac yn y fan wedi gorthrymder y dyddiau hynny, y tywyllir yr haul, a'r lleuad ni rydd ei goleuni, a'r sêr a syrth o'r nef, a nerthoedd y nefoedd a ysgydwir. ³⁰ Ac yna yr ymddengys arwydd Mab y dyn yn y nef: ac yna y galara holl lwythau y ddaear; a hwy a welant Fab y dyn yn dyfod ar gymylau y nef, gyda nerth a gogoniant mawr. ³¹ Ac efe a ddenfyn ei angylion â mawr sain utgorn; a hwy a gasglant ei etholedigion ef ynghyd o'r pedwar gwynt, o eithafoedd y nefoedd hyd eu heithafoedd hwynt.

⁶⁶ Canys fel hyn y dywed ARGLWYDD y lluoedd; Unwaith eto, ennyd fechan yw, a mi a ysgydwaf y nefoedd, a'r ddaear, a'r môr, a'r sychdir; ⁷ Ysgydwaf hefyd yr holl genhedloedd, a dymuniant yr holl genhedloedd a ddaw: llanwaf hefyd y tŷ hwn â gogoniant, medd ARGLWYDD y lluoedd.

Gospel to them' (t. 124). Ni fydd pobl yn troi at Gristnogaeth yn grintachlyd, ond o'u gwirfodd: 'There shall be a great deal of willingness to come to Christ [...] the time shall come, that as soon as the people hear they shall obey [...] then abundance of people shall come in to the Lord [...] with strength and power' (ibid.). Yn drydydd, dylid disgwyl gweld heddwch rhyngwladol: 'The Lord will end these wars that are among the Nations, that make the lives of people and of the Saints uncomfortable.' Yn bedwerydd, bydd Duw yn cadarnhau ffydd y Saint sydd wedi gwrthgilio o'u ffydd: 'The Lord will *gather* the people that *halt* and go *aside*, and he will *settle*, and *confirm* them in the truth' (t. 127). Mae Cradock, felly, yn disgwyl gweld cyflawniad y pethau hyn, sef llwyddiant yr eglwys Gristnogol, lledaeniad yr efengyl, twf mewn heddwch rhyngwladol a chadarnhau ffydd y Saint. Ond mae'n rhaid profi'r 'presence of miseries' (ibid.) yn gyntaf: 'As people that are in a storm, we should look when the cloud will be over, that the Lord will give fairer weather, and remove all these things, when the last, and blessed, and best dayes shall come' (ibid.).

I Cradock, pregethiad clir o Air Duw fyddai'n galluogi i 'miseries [...] halting [...] errors' a 'blasphemies' ddod i ben (ibid.), sef y 'miseries' a nodwyd uchod. Y rheswm nad oedd ef a'i gyfoeswyr yn byw yn y dyddiau godidog oedd prinder pregethu cywir a chyson. Ond gobeithiai am ddydd buan pan fyddai Duw yn nerthu dynion i bregethu'n rymus: 'Now you know there is but little teaching [...] There will be a power, that when the Saints hear the word from God [...] there shall be a power with the word, whereby they shall be enabled to do it' (t. 125). 'The time shall come' pan fydd Duw yn gwneud hyn, sef 'in the last days' (t. 124).

I Cradock, felly, roedd llwyddiant yr eglwys Gristnogol, lledaeniad yr efengyl, twf mewn pregethu nerthol a heddwch rhyngwladol yn nodweddu'r

dyddiau diwethaf. Credodd ei fod yn byw mewn cyfnod o 'miseries' ond y dylid 'wait patiently' am 'fairer weather' (t. 127).

Roedd Cradock yn disgwyl cyfnod gogoneddus ar ddiwedd y byd, ond credai mai cipolwg yn unig ar y pethau hyn a brofai yn ei oes ei hun: 'in the last times, in these times, and in later times then these (though these be called the last times) the glorious times that shall be just at the end of the world, the people of God will be a praying people in those days' (t. 152). Credai Cradock ei fod yn byw yn y dyddiau diwethaf (h.y. ers y Pentecost) ond bod llwydd yr efengyl yn mynd i ddwysáu nes cyrraedd cyfnod gogoneddus cyn diwedd y byd. Yr arwydd amlycaf iddo nad ydoedd yn byw yn y dyddiau diwethaf oedd y ffaith nad oedd yr Iddewon eto wedi profi tröedigaeth at Gristnogaeth:

Now the Jews are not yet come in, neither are those glorious times yet come to the Jews and Gentiles that shall follow upon their coming, yet it is said when they shall come in, praying shall be in such request in those days that even the conversation of the Jews is called a pouring on them the spirit of grace and supplication (ibid.).

Gospel-Holinesse (1651)

Yn ystod blynyddoedd cynnar y Rhyfel Cartref bu Cradock yn Llundain yn pregethu yn Eglwys All-Hallows-the-Great a oedd yn ganolfan i Blaid y Bumed Frenhiniaeth yn ystod blynyddoedd y Rhyfel Cartref. Yno pregethodd gyfres ar Eseia 6:5⁶⁷ a droswyd yn 1651 yn gyfrol yn dwyn y teitl *Gospel-Holinesse*. Ynddi dadleua fod modd i'r Cristion brofi nefoedd ar y ddaear, 'because he sees God' (t. 17). Mae'n annog y gwrandawr i genhadu a phregethu, oherwydd pregethu'r gair yw'r modd o argyhoeddi pechadur o'i bechod a'i arwain at Dduw mewn ffydd. 'A converting work must be aimed at in the preaching of the

⁶⁷ 5 Yna y dywedais, Gwae fi! canys darfu amdanaf: oherwydd gŵr halogedig ei wefusau ydwyf fi, ac ymysg pobl halogedig o wefusau yr ydwyf yn trigo: canys fy llygaid a welsant y brenin, Arglwydd y lluoedd.

Gospel', meddai Noel Gibbard am agwedd Cradock at bregethu (1977, t. 16).

Dywed Cradock ei hun:

If there be such a sight of God to be enjoyed in this world, and that by his word and Spirit; me thinks this might teach you highly to prize, and esteeme the preaching of the Gospell, the word of Christ [...] So doe you consider that the preaching of the Gospell by poore and weake meanes, it is that shell, that Cabinet, wherein these glorious treasures are found; therefore esteeme it, and prise it highly, look on it with reverence, look for the Pearle in it; prise it, and prise God for it (tt. 24-5).

Pwysleisia Cradock y daw Iesu Grist un dydd i farnu'r byd. Dydd ofnadwy fydd hynny yn ôl Cradock i'r sawl nad yw wedi derbyn yr efengyl:

We are to consider, the sonne of Man, the Lord Jesus Christ hath two sorts of dayes: He hath one day that every wicked man shall see, when they shall be eating and drinking as in the dayes of Noah; when the Son of man shall come to judge according to my Gospel, as Paul preacheth, & according to the Gospel that you have here preached; That is, one day of the Son of Man. And thou that wilt not receive Christ, thou shalt have thy belly full of that day, it will be a terrible day, a day of blacknes and darknes when the earth shall reele as a drunkard, and the heavens shall be gathered together as a scrowle, and the world shall be on fire, and thou shalt be at thy wits end, it will be a terrible day: the Lord deliver thee from that day (t. 26).

Ond y mae gan Grist 'ddiwrnod' arall cyn hynny. 'Dydd gras' yw hwnnw, hynny yw cyfnod rhwng ei ddyfodiad cyntaf a'i ailddyfodiad pryd y mae'n cynnig maddeuant trwy bregethiad yr efengyl:

But the Son of Man hath another day, that is, the day of grace, the day wherein the Son of man in the preaching of the Gospell would bestow grace upon thy soule. Why doth he call that the day of the Son of Man more then the other? He delights more in it; he delights not in the death of a sinner. This is that sweet day that Jesus Christ delights in, to offer himself to thee, and to lay before thee, life and salvation by his death (t. 27).

Dyfodiad ysbrydol, real a hollbwysig yw ei ddyfodiad i'r credadun yn yr efengyl. Yn wir, 'the jewel in the treasure of the Gospel is the righteousness provided by God for the unrighteous' chwedl Gibbard (1977, t. 9). Ond rhybuddia Cradock y

dylid disgwyl Ailddyfodiad corfforol Iesu Grist hefyd. Pan ddaw fel hynny, fe ddaw i farnu'r byd:

I conclude with this word, carnall wicked men, are never humbled in this world, that is certaine, unlesse the Lord change them, and reveale himself to them: but there is no wicked man in the world, but he shall have a Humiliation, such as it will be. There will be a day when the worst man in the world, shall in some parts be humbled: you shall read in Luke 2. how men shall be at their wits ends, for feare of what shall come upon them. And in Revel. 6. when the Lord shall come to judgement, they shall runne to the Rocks, and to the Caves, and to the Mountains to hide them from the presence of God (tt. 96-7).

Yng nghyd-destun 'y dyddiau diwethaf', dywed Cradock fod disgwyl mawr am weld cyflawni'r proffwydoliaethau yn Llyfr y Datguddiad, er ei fod yn cydnabod bod anghytuno ac ansicrwydd ymhlith y Saint ynghylch eu hunion natur:

I shall conclude with one Word more, and that is this, that this beeing so, that this is to walk according to the spirit. Then we should long very much for the fulfilling of those Prophecies, and Promises, that God hath made unto us concerning the latter times. There is no Saint almost now, that I know, but expects glorious times, only one Saint thinks that the glory of the Saints shall be in this thing, and another in that thing, but every Saint expects continually the fulfilling of those Prophecies and promises set down in the latter end of the Revelations, and they are glorious ones, whatsoever the meaning of them is, and I think the cheefe thing there promised which shall be the height of our happinesse, that the new Jerusalem shall come down from Heaven (tt. 290-1).

Yn y paragraff hwn cawn gip ar gyffro a gobeithion ac ysbryd chwyldroadol 1651. Yn Datguddiad 21, dysgw'n fod Ioan, awdur Datguddiad, wedi derbyn gweledigaeth o Jerwsalem yn disgyn o'r nef ac yn cael ei sefydlu ar y ddaear. Yn nisgrifiad Ioan o'r ddinas fe'i cyffelybir i briodferch hardd a dywedir fod pabell Duw wedi'i sefydlu gyda dynion ac na fydd galar, tristwch, llefain, poen na marwolaeth. Fe wneir pob peth yn newydd, hynny yw, sefydlir paradwys. Dysgw'n fod Ioan yn cael ei gymryd yn yr ysbryd i gopa mynydd er mwyn cael

gweld y Jerwsalem Newydd yn well. Gwêl ogoniant Duw ynndi, yn llewyrchu fel maen gwerthfawr, fel iasbis, yn loyw fel grisial. Un nodwedd ddiddorol yw nad oes teml yn y Jerwsalem Newydd, 'canys yr Arglwydd Dduw Hollalluog, a'r Oen, yw ei theml hi' (Datguddiad 21:22). Yn y ddinas hon mae y cadwedig yn byw ac mae brenhinoedd y ddaear yn ei gogoneddu a'i hanrhydeddu. Hynny yw, dyma baradwys wedi ei sefydlu ar y ddaear.

I Cradock, sefydlu'r Jerwsalem Newydd ar y ddaear yw'r broffwydoliaeth odidocaf:

though it be a consequent, yet it is not chiefly, and properly such a way of government, this, or that, or the other way, though it be true that Government will follow up on it, yet if the meaning of it were only to reforme our Churches (though that were a blessing) or that Christ, should come, and reigne here temporally, and give us Inheritances, and riches, and the like, truly a Saint would not long much for these things. But the New-Jerwsalem shall come down from Heaven, and abundance of blessings that shall goe along with it (t. 291).

Bydd yr efengyl yn teyrnasu pan ddaw y Jerwsalem Newydd:

we shall have the light of the Gospel clearly revealed unto us, and we shall have the Gospel clearly revealed unto us, and we shall have Gospel principles fully put into our soules, which by Antichrist, by Babilon we have been seduced of these thirteene or fourteene hundred years (t. 291).

Roedd Cradock yn byw yn y gobaith fod cyfnod euraid i'r eglwys wrth law, sef y Jerwsalem Newydd fel y'i gelwid hi yma. Rhywbeth real iawn oedd y Jerwsalem Newydd i Cradock, nid stad ysbrydol haniaethol fel Jerwsalem Newydd Erbery. Credai'n sicr y byddai dynion yn troi at Iesu Grist. Dywed: 'But the Lord will send a light into our hearts, to know the truth, in the power, and spirit, and to square our hearts to it' (t. 291). Oherwydd fod y cyfnod hwn wrth law, bydd hynny'n sicr o arwain yn ei dro at Ailddyfodiad Iesu Grist. Am hyn, mae'n hiraethu am y Jerwsalem Newydd:

We are not wholly gone out of Antichrist yet. But the Lord will send a light into our hearts, to know the truth, in the power, and spirit, and to square our hearts to it. For that is the new Jerusalem [...] This also should move us exceedingly to long for the coming of Jesus Christ to glory, for his coming to us, or our coming to him' (tt. 291-2).

Ond rhaid cofio i Cradock ddweud, wrth sôn am y proffwydoliaethau: 'whatsoever the meaning of this' (t. 291). Er nad oedd yn barod i roi dehongliadau llythrennol o'r proffwydoliaethau a geir yn y Beibl, ni olygai hynny nad oedd yn ymddiddori mewn gwleidyddiaeth. Yn wir, fel y gwelwyd, roedd yn hynod wleidyddol o ran ei weithgareddau ymarferol yn y Senedd a'i ddylanwad personol ar Cromwell adeg y werin-lywodraeth. Dywed Geoffrey F. Nuttall, 'In his lifetime there can be no doubt that Cradock was very widely revered in England as well as in Wales' (1957, t. 22). Cysylltir ef yn agos â dau arweinydd amlycaf yr Annibynwyr, sef John Owen, Is-Ganghellor Prifysgol Rhydychen, a William Bridge, gweinidog yn Great Yarmouth. Yn 1655 eisteddodd gydag Owen a Bridge ac eraill 'on the Commission set up by the Government to consider the advisability of the readmission of the Jews' (ibid., t. 23).

'Cradock was, above all, a preacher,' chwedl Nuttall (ibid, t. 24), a llawenydd y Cristion oedd ei hoff destun. Mynnodd Cradock nad oedd llawenydd y Cristion yn rhywbeth i'w gadw'n breifat, ond yn hytrach ei rannu, gan mai newyddion da yw'r Efengyl Gristnogol:

The Ministry of the Gospel [...] it is only good newes, there is not one word of bad newes, not one line, not one sillable, or title, but only glad tidings, sweet and good newes to the heart of the worst of sinners' (1648b, t. 7).

Mynnodd hefyd fod yr Efengyl yn ei hanfod yn syml a dylid ei gyflwyno'n syml fel bod pawb yn gallu ei ddeall a'i dderbyn, ond nid oedd yn wrthwynebus i addysg o gwbl. 'For Cradock it is part of the simplicity of the gospel that God deals with men with tenderness and understanding, as a father with his children'

(Nuttall, 1957, t. 26). Cyfeiria Cradock yn fynych at blant mewn darluniau ac mae'n erfyn ar ddynion i ddod at Dduw â meddwl a chalon plentyn. Am mai newyddion da yw'r efengyl Gristnogol, trista Cradock o weld Cristnogion yn cweryla ac oherwydd hynny roedd yn 'grieved by the bitterness existing between Presbyterians and Independents' (ibid, t. 27). Dywed, 'Every little difference, and discent makes not a new religion' (1648a, t. 134), a mynnodd, 'being between brethren, and for a thing so small, why should there be strife among us?' (ibid, t. 126). Yn wir, rhybuddiodd fod dynion yn anghofio am dduwioledeb wrth fyned ar ôl strwythurau eglwysig. Nid ymrwymiad tuag at eglwysyddiaeth benodol sydd angen, ond yn hytrach

more of the spirit of the Gospel, and of the Principles of the New Testament in us; and then for matter of Government of Churches, those things would follow: For set up Government and Discipline before this comes into the soule, truely it is to build Castles in the ayre (1673, t. 292).

Mynnodd mai rhywbeth eilradd oedd eglwysyddiaeth. Cwyna fod

the godly goe one against another, and all *Jure Divino*; every one will have an absolute rule for all the Saints, and every one will make the best of their game, and so screw and wrest the Scriptures' (1648a, t. 99).

Nid pregethau gwleidyddol yn unig ydoedd pregethau Cradock oherwydd dylanwadai y cyd-destun ehangach arno, sef 'the tension between Presbyterians and Independents which had dogged the success of parliament's religious mission to the realm following the outlawing of the Book of Common Prayer in January 1644 and the eventual abolition of episcopacy in October 1646' (Morgan, 2018, t. 89). Sefydlwyd Cymanfa Westminster yng Ngorffennaf 1643 gan y Senedd a'i pwrpas oedd 'Christianization of the realm through a learned ministry within a parish-based, non-Episcopal though still hierarchical national establishment' (ibid). Y Presbyteriaid oedd yn y mwyafrif yng Nghynulliad San Steffan. Ond credai'r Annibynwyr, neu'r Cynulleidfaolwyr, tu

182

fewn a thu allan i'r Cynulliad, 'that godly renewal could only succeed through creating gathered congregations of so-called 'visible saints' (ibid). Roedd Cradock yn amlwg o blaid sefydliadau crefyddol yn derbyn cefnogaeth gan y Wladwriaeth, ond roedd yn 'dubious of hierarchical religion' ac roedd o blaid Cynulleidfaoelaeth, er iddo geisio hyrwyddo heddwch ymhlith y ddwy garfan: 'Presbytery and Independency are not two religions but one religion to a godly, honest heart: it is only a little ruffling of the fringe' (1648a, t. 135).

Oherwydd y cyd-destun hwn, gwelwn Cradock, yn ei weithiau, yn pregethu'n erbyn deddfoliaeth. Eglura Morgan sut yr oedd hyn yn wendid gyffredin ymhlith y Piwritaniaid, yn enwedig yr Annibynwyr:

Those whose consciences had been awakened through the preaching of the gospel were in danger of being over-scrupulous in nurturing their own piety or else of judging harshly others whose religious experience did not wholly replicate their own' (2018, t. 87).

Er mwyn ceisio osgoi hyn, 'Cradock made a sharp distinction between justification, which was dependent absolutely on the objective sacrifice of Crist, and sanctification through which the justified sinner would strive to live the moral life' (ibid). Ac er mwyn llwyddo yn hyn o beth, gwelwn Cradock hefyd yn gwahaniaethu'n glir rhwng yr Hen Destament (Y Gyfraith) a'r Newydd (Yr Efengyl). Mae'n dadlau na allai'r Presbyteriaid brofi fod Presbyteriaeth yn Feiblaidd a rhybuddia 'the headie people' ymhlith yr Annibynwyr o'r un peth (ibid, t. 127). Rhybuddia hefyd fod dadlau a rhoi pwyslais ar y sacramentau yn tynnu oddi ar symlrwydd a godidogrwydd yr Efengyl (Nuttall, 1957, t. 30). Felly i Cradock,

It was not only Laudians who had been obsessed with the right administration of baptism and the Lord's Supper, but there were too many godly people who were overzealous about the ordinances at the expense of the weightier matters of tolerance and love' (Morgan, 2018, t. 89).

Gwedd wleidyddol arall i'w bregethu, a gwedd hefyd sy'n gysylltiedig â'i syniad o symlwrwydd yr Efengyl, oedd ei bwyslais ar bwysigrwydd ffydd bersonol ac mai hynny, yn hytrach na hyfforddiant ffurfiol, oedd yn wir gymhwyso dyn a'i wneud yn gymwys i bregethu:

Let us not be so curious and scupulous as to hinder people that have no degrees in the university, or, it may be, have not the knowledge of tongues [...] let us not pick quarrels with them to stop their mouths and so to hinder the preaching of the gospel [...] It is strange you should have pulpits ring with calling them tub-preachers, tinkers and cobblers. We should think better of them. Why? They are filled with good news, and they go tell it to others' (1648b, t. 49).

Dyma, o bosibl, yr elfen fwyaf wleidyddol radical am bregethu Cradock, sef y pwyslais ar urddas a roddai i'r dyn cyffredin.

Gwnaeth hyn oherwydd roedd am weld yr Efengyl syml, ond godidog, yn llwyddo ym mhob man, gan gynnwys Cymru. Dyma obaith eschatolegol fel yr ydym wedi gweld eisoes. Roedd am i Gymru a'r ddaear gyfan fod yn llawn gwybodaeth o'r Arglwydd ac er mwyn hyrwyddo hyn pwysleisiodd yr angen am weinidogaeth bregethu effeithiol. Ond eto i gyd, nid rhywbeth newydd mo hynny.

Eglura Morgan:

as for the doctrines of election, the concept of God's sovereignty in salvation, the need for effective gospel preaching and the necessity for personal conversion, there was little material differences between the likes of Rhys Pritchard [...] and those of Walter Cradock (2018, t. 91).

Efengyl Cradock 'was the self-same doctrine as had been taught by Welsh theologians since the days of Bishop Richard Davies' (ibid, t. 93). Ond yr hyn oedd yn wahanol am Cradock 'was the verve, effectiveness and uncompromising vitality with which these convictions were applied to the lives of ordinary people through the act of preaching' (ibid, tt. 93-94). Polisi wleidyddol llywodraeth Cromwell oedd efengyleiddio'r wlad a sicrhau ffyniant yr efengyl ymhlith trigolion gwlad a honai fod yn un Gristnogol, ac ymhlith y Piwritaniaid

Cymreig, 'Cradock was the preacher *par excellence*' (ibid, t. 94) a nid syndod felly mai ei enw ef oedd yr enw cyntaf ar y rhestr o bregethwyr teithiol a gafodd y swydd, dan nawdd y Ddeddf Taenu, i efengyleiddio Cymru a rhoi ar waith bolisi gwleidyddol y Senedd. Gwelwn fod yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant yn athrawiaethau gweithredol yng ngweinidogaeth Cradock, yn enwedig yn *Glad Tydings* (1648). Ond mae hefyd yn cwestiynu diben poeni am ystyr proffwydoliaethau Beiblaidd yn *Gospel-Holinesse* (1651). Yn hyn o beth mae'n wahanol i Wroth a Erbery yn yr ystyr ei fod â mwy o ddiddordeb mewn milflwyddiaeth y cyfnod na Wroth ond yn llai o ran hynny nag oedd Erbery. Mae hefyd yn wahanol yn yr ystyr ei fod yn ymwneud â gwleidyddiaeth gwlad y cyfnod. A yw hyn yn brawf pellach mai Piwritaniaethau Cymreig, yn hytrach na Phiwritaniaeth Gymreig, yr ydym yn ei drafod?

III. Oliver Thomas, Evan Roberts, Christopher Love a John Lewis

1. Oliver Thomas (1598–1653)

Fel Wroth, Erbery a Cradock, llafuriai Oliver Thomas yng Nghymru pan nad oedd Piwritaniaeth eto wedi gwreiddio yn y wlad; ond yn wahanol iddynt hwy, un a aned yng ngogledd Cymru ydoedd. Ni wyddom ddim am ei deulu na'i gartref, ond ei fod yn fab i deulu bonheddig o Sir Drefaldwyn ac iddo gael ei eni tua 1598. Ef, o bosibl, yw'r Oliver Thomas a gofrestrodd yn Ysgol Amwythig yn 1609, pryd y disgrifiwyd ef fel 'mab i ŵr bonheddig ac aer', er na ddywedir o ble y daeth yr Oliver Thomas hwnnw. Os oedd Oliver Thomas yn hanu o deulu cyfoethog o Sir Drefaldwyn, naturiol ddigon fyddai iddo fynychu Ysgol Amwythig ac ni chofrestrwyd yr un Oliver Thomas arall yn yr ysgol honno yn y blynyddoedd oddeutu 1609 (gol. Morgan, 1981, t. xii).

Cofrestrodd Thomas yn Neuadd Hart, Rhydychen ar 8 Tachwedd 1616, yn ddeunaw oed, gan raddio yno ym 1620. Prifathro Hart Hall ar y pryd oedd Dr. Theodore Price, Cymro o Dan-y-foel, plwyf Llanenddwyn, Sir Feirionnydd, a dyn a gyhuddwyd o fod yn 'Papist at heart' (Mallet, *History of the University of Oxford*, II, 1926, t. 297). Yn wahanol i Gaergrawnt, roedd Rhydychen yn brifysgol geidwadol er fod carfanau angheidwadol, dylanwadol wedi eu sefydlu yno erbyn chwarter cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg. 'Digon teg cymryd felly fod Oliver Thomas wedi ei dynnu i mewn i'r ffrydiau Calфинаidd a oedd yn Rhydychen yn ystod ei flynyddoedd cyntaf yno' (ibid, t. xiv). Yn yr un flwyddyn priododd â Mary yn eglwys Santes Fair, Amwythig lle y cyfeirir ato fel 'mynester' (*Shropshire Parish Registers Lichfield Diocese*, Vol. XVIII, St Mary's

Shrewsbury (Shropshire Parish Register Society, 1911)) er mai disgrifio'i hun fel 'eglwyswr' a wna Thomas yn *Car-wr* 1631 (t. 11).

Erbyn iddo briodi, roedd Thomas naill ai'n dal bywoliaeth eglwysig neu'n bregethwr teithiol. Llwyddodd Arminiaeth i ddisodli Calfiniaeth mewn rhai colegau yn ystod ail ddegawd y ganrif a phan benodwyd Laud yn Archesgob, 'prin y cafodd Calfiniaeth gyfle wedyn gan brif arweinwyr y colegau' (ibid, t. xv). Byddai Thomas wedi bod yn ymwybodol o'r dadlau a'r tensiwn hynny yn ystod ei ymweliadau â Rhydychen cyn derbyn ei radd MA ym 1628. Ni wyddom beth yn union a wnaeth Thomas rhwng 1620 a 1628 ond roedd wedi gwneud ei gartref yn West Felton ger Amwythig erbyn 1628. Penodwyd Samuel Hildersham yn rheithor yno yn 1628. Roedd ef, fel ei dad, yn Biwritan, ac ymddengys i Oliver Thomas weithredu fel curad answyddogol iddo yn West Felton (ibid., t. xvi). Roedd Samuel Hildersham yn un o brif ladmeryddion Presbyteriaeth a daeth yn ei dro yn aelod o Gymanfa Westminster, a bwriwyd ef allan o'i fywoliaeth yn dilyn Deddf Unffurfiaeth 1662.

Ymddengys mai prif waith Thomas wedi iddo orffen ei yrfa golegol oedd bod yn bregethwr ac yn ddarlithydd teithiol. Gwyddom hefyd iddo ef a Mary gael wyth o blant rhwng 1628 a 1642: Lasarus (1628), Timothy (1630), Abigail (1632), Elisabeth (1633), Titus (1635), Miriam (1637) a Ruhamah (1640). Bu farw Ruhamah yn bythefnos oed a chladdwyd mab arall iddynt, Nathaniel, ar 16 Gorffennaf 1642, ac yn ôl ei ewyllys roedd ganddo ddwy ferch arall yn ogystal, sef Mary a Martha. Mae'n rhaid fod y ddwy ddiwethaf wedi cael eu geni cyn 1628, y flwyddyn dechreuodd cofrestr plwyf West Felton. Rhoddodd enwau Beiblaidd bob yr un i'w blant, ac roedd hynny'n gyffredin ymhlith y Piwritaniaid. Diddorol nodi iddo enwi un yn Elisabeth. Mae Elisabeth yn enw Beiblaidd yn amlwg, ond hefyd yn enw ar frenhines na fyddai'r Piwritaniaid radical yn ei

187

hedmygu. Dengys hyn efallai nad oedd Thomas yn cyfrif teyrnasiad Elisabeth yn un drychinebus wedi'r cyfan, o safbwynt Piwritaniaeth.

Yn dilyn ei yrfa golegol mae'n debyg fod Thomas wedi mynd yn bregethwr neu'n ddarlithydd teithiol dan nawdd. Gwyddom iddo bregethu yn Wrecsam yn 1628 am i Arise Evans gofnodi iddo deimlo galwad ddwyfol uniongyrchol i fynd i Lundain ar ôl gwranddo ar Thomas yn pregethu ar Ganiad Solomon 2:10. Roedd Syr William Meredith yn noddi darlithyddiaethau yn ardal Caer a Wrecsam a gallwn gasglu fod Thomas yn perthyn i'r garfan fechan o bregethwyr a darlithwyr a deithiai ac a bregethai i geisio sefydlu Piwritaniaeth a thaenu'r efengyl yn yr ardaloedd hynny yn niwedd y 1620au.

Yn ogystal â phregethu roedd Thomas yn awdur. Rhwng 1630 a dechrau'r Rhyfel Cartref yn 1642 bu'n brysur yn pregethu ac yn cyhoeddi, a bu hynny'n gyfrwng i gadarnhau achos y Piwritaniaid yng Nghymru. Erbyn 1639 yr oedd wedi'i ddiarddel o esgobaeth Llanelwy, ond ceir cofnod amdano'n pregethu ym mhlwyf Holt yn esgobaeth Caer y flwyddyn honno, pryd y disgrifiwyd ef fel 'a stranger who lives in another diocese and suspended for nonconformity and one that had no licence to preach within this diocese' (County Record Office, Consistory Court Papers EDC 5. 1639. Miscellaneous). Ymddengys iddo, felly, fel Wroth, Erbery a Cradock, gael ei gosbi gan y sefydliad eglwysig o dan Archesgob Laud. Gydag ef yn pregethu ar yr achlysur hwnnw yn Holt roedd Richard Blinman, Piwritan o Went a fu'n weithgar yn y mudiad Piwritanaidd ar y Gororau ac a fudodd i America maes o law. Roedd Blinman yn gyfaill digon agos i William Wroth, sefydlydd yr eglwys anghydfurfiol yn Llanfaches, iddo fod yn dyst i ewyllys Wroth, a disgrifiwyd Blinman ar yr achlysur y pregethodd yn Holt yn 1639 fel 'a man who did not ordinarily conforme himself to ye discipline of Ye Church of England' (ibid.).

Roedd Richard Blinman ac Oliver Thomas ill dau hefyd ymhlith y rhai a oedd yn bresennol adeg sefydlu'r eglwys yn Llanfaches yn 1639. Gwelwn, felly, fod Oliver Thomas yn rhan o rwydwaith o arweinwyr Piwritanaidd yng Nghymru a'r Gororau. Yn wahanol i eglwys gynnull Llanfaches, tynnwyd Thomas i fewn i'r 'vigorous proto-Presbyterian sub-structure which characterized Puritan witness in parts of Shropshire and Chesire' (Morgan, 2018, t. 54).

Nid yw hanes Thomas yn ystod pum mlynedd cyntaf y Rhyfel Cartref yn hysbys. Roedd yn West Felton ddydd Nadolig 1647 a cheir tystiolaeth ei fod yn weinidog yng Nghroesoswallt yn yr un flwyddyn, sy'n awgrymu o bosibl ei fod yn gweinidogaethu yn y ddau le ar yr un pryd, o dan y drefn Bresbyteraidd a fodolai yn Sir Amwythig (ibid., t. xix). Yn 1649 penodwyd Thomas yn un o Gomisiynwyr Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru. Roedd ganddo'r pŵer felly i benodi pregethwyr yn ei ranbarth a chosbi gweinidogion analluog ac annuwiol. Roedd rhaid i Thomas ei hun ddewis rhwng bywoliaeth Croesoswallt a Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Dewisodd Llanrhaeadr ar 14 Mai 1650 ac yno bu'n gwasanaethu tan ei farwolaeth yn 1652. Claddwyd ef yn West Felton, 6 Ebrill 1652.

Car-wr y Cymru yn anfon ychydig gymmorth (1630).

Dyma gatecism yn cynnig cymorth i rieni fagu'u plant yng ngwirioneddau'r efengyl. Bwriad gwreiddiol Thomas oedd i'r catecism yma fod yn atodiad i *Car-wr* 1631. Ymddiddan rhwng tad (yr holwr) a phlentyn (yr atebwr) ydyw ac argraffwyd y gwaith gan Nicholas Okes yn Llundain dros Philemon Stephens a Christopher Meredyth yn 1630.

Egyr 'Y Tad' y gyfrol drwy ddweud wrth ei blentyn, 'gwybydd fod Duw yn gorchymmyn i ni sy Dadau, a Mammau, feithrin ein plant mewn addysc, ac

athrawiaeth yr Arglwydd' (t. 1). Dyna, mewn brawddeg, grynhoi'r gyfrol. Pwrpas y catecism yw pwysleisio pwysigrwydd darllen, deall, trysori a chredu'r Beibl, 'i ogoniant Duw, ac i iechydwrriaeth eich eneidiau' (ibid.). Mae'r iaith yn syml ac yn blaen, a hynny er mwyn sicrhau fod y darllenydd yn llawn ddeall cynnwys y gyfrol. Esbonir ynddo bynciau megis pechod gwreiddiol, y Creu, y Cwmp, euogrwydd a chosb am bechod, iachawdwriaeth trwy Grist a'r chwe pheth a roddir gan Grist er mwyn caffael iachawdwriaeth; ailenedigaeth, gwybodaeth o Dduw a chyflwr truenus dyn, ffydd yng Nghrist, edifeirwch, ysbryd gweddi, ysbryd adnewydd-deb ac ufudd-dod. 'Drwy gyfuno dysgu'r Ysgrythurau a gwrando ar bregethu, tybiai'r *Car-wr* y byddai'r plant yn gadwedig' (Morgan, 1981, t. xxxvi). Yn hyn o beth mae'r gwaith yn nodweddiadol Biwritanaidd.

Mae'r gyfrol yn Galfinaidd ei diwinyddiaeth. Er enghraifft, mae'r plentyn yn ymwybodol iawn o'i lwyr lygredigaeth: 'Nyni blant bychain wrth naturiaeth ydym blant digofaint megis eraill, yn feirw mewn pechodau [...] yn llygredig oll' (t. 2). Ffydd yn unig sydd yn gallu achub dynolryw golledig: 'Adenedigaeth; canys Crist a ddywed: oddieithr geni dŷn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw. Io. 3. 3.' (t. 4.). Mae Duw yn datguddio'r gwirioneddau hyn 'drwy ei air scrifenedig yn yr Scrythur lân' a hefyd drwy bregethu (t. 6). Mae'r Beibl a phregethau hefyd yn dangos sut y dylid gwasanaethu Duw (t. 7). Mae'r gyfrol yn waith Piwritanaidd, yn canolbwyntio ar bwysigrwydd addysgu, darllen, gweddïo, pregethu a moesoldeb personol, ond ni cheir cyfeiriad at yr Ailddyfodiad na'r Milflwyddiant ynddi.

Car-wr y Cymru, yn annog ei genedl (1631)

Cyhoeddodd Thomas ei ail gyfrol tua blwyddyn wedi cyhoeddi Beibl Bach 1630 ac mae teitl cyflawn y gyfrol yn esbonio ei fwriadau:

Car-wr y Cymru, Yn annog ei genedl anwyl, a'i gyd-wlad-wyr er mwyn Crist ai heneidiau i chwilio, yr Scrythyrau, yn ol gorchymyn Crist. Ioh. 5. 39. Y rhai, yr awr' hon yn ddiweddar a brintwyd o newydd yn Gymraec; ac a geir ar werth yn llyfran cynnwys, a bychain eu maintioli a'i prîs, drwy fawr ddiwydrwydd, a thraulswrn [sic] o wyr Duwyol, enwog ac ewyllys-gar i wneuthur daioni i'r Cymru.

Pwysigrwydd darllen a deall yr Ysgrythur oedd byrdwn neges Thomas felly, ac y mae prif destun y gyfrol yn ymwneud â'r sgwrs rhwng y 'Car-wr' a'r 'Cymro' 'ynghylch gorchymmyn Crist am chwilio yr Sgrythurau' (t. 30). Pwysig nodi hefyd ei fod wedi derbyn sêl bendith Robert Llwyd, awdur *Llwybr Hyffordd*, y cyfeiriwyd ato eisoes fel dyn oedd yn arddel Piwritaniaeth gymedrol. Dywed Llwyd: 'Hwn wedi i mi ei ddarllen, a'i ystyried, mi â lawenychais yn fawr wrth weled ei ewyllys-garwch ef, a'i awyddfryd i wneuthur daioni i'w wlad-wŷr, yn enwedig yn achosion eu hiachawdwriaeth' (Thomas, 1631, t. 119).

Mae'n cyflwyno'r gyfrol i'r rheini oedd wedi gweithio tuag at gyhoeddi'r Beibl Bach a chyfrannu at ei gyhoeddi yn 1630. Yn y cyflwyniad Saesneg hwnnw, mae'n canmol y rhai a chanddynt 'loue vnto the truth' am hybu'r gwirionedd yn y Gymraeg ymhlith teuluoedd trwy gyhoeddi'r Beibl Bach. Oherwydd bod y Beibl Bach yn iaith y werin bobl ac mewn diwyg hwylus, rhad, cafodd 'the Word of Life and Saluation' fynediad i aelwydydd a chartrefi'r Cymry. I Thomas, mae'r Beibl 'aboue all other writings'. Mae'n gorffen y cyflwyniad gydag apêl ar i gyhoeddwyr y Beibl Bach geisio sicrhau pregethwyr i'r Cymry.

Yn dilyn y cyflwyniad hwn ceir adran fer yn Saesneg yn cymharu ynganiad llythrennau yn y Gymraeg ag ynganiadau'r llythrennau hynny yn y Roeg a'r Hebraeg. Ffynhonnell wreiddiol yr adran seinogol hon oedd cyfrol William Salesbury, *A briefe and a playne introduction* (1550).

Yn y rhagymadrodd Cymraeg i'r gyfrol, mae Thomas yn cyfarch clergwyr Cymru, gan ddweud ei bod hi'n amlwg i bawb ond 'Gwilledyddion deillion' (t. 3)

ei bod yn ddyletswydd arnynt hwy a'u holl braidd i 'chwilio yr Scrythyrau' (ibid.). Mae'n galw arnynt i annog eu plwyfolion i brynu copïau o'r Beibl Bach, sy'n 'hawdd i'r tlawd eu cael, fel y gallo pob dyn anyscedig â dim athrylith dduwiol ynddo, o medr ddarllen ei iaith ei hûn (yr hyn â ddylei pawb ei fedru) gan fanwl chwilio Gair Duw, a bod yn hyspys ynddo' (t. 4). Un cymhelliant pwysig i'r clerigwyr wneud hyn oedd y byddai darllen a deall y Beibl yn peri i'w plwyfolion gael gwell gwybodaeth am yr efengyl. Trwy gael mynediad i wirioneddau'r efengyl byddent wedyn yn meithrin gwell dealltwriaeth o bregethau'r clerigwyr. Fel canlyniad, byddai mwy o obaith iddynt ddod yn Gristnogion a hynny yn ei dro yn dod â'r 'glôd, a'r ggoniant [sic] a ddigwydd i chwi yn Eglwys Crist yn ei ddyfodiad ef' (t. 11). Dyma gyfeiriad prin gan Thomas at yr Ailddyfodiad. Dywed, pan ddeuai'r Ailddyfodiad, y byddai Cristnogion megis coronau i'r pregethwyr a fu'n gyfrwng iddynt gael trôedigaeth, ac yna yn y 'bÿd â ddaw', bydd 'yr Athrawon â ddiscleiriant fel discleirdeb y ffurfafen, a'r rhai â droant lawer i gyfiawnder, fyddant fel seir bÿth yn draggwydd' (ibid.).

Â Thomas ymlaen i annog y clerigwyr i fod yn esiampl drwy 'ddyfal chwilio Gair Duw' a 'myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd, a nôs' (t. 12). Mae'n dweud hyn oherwydd mae'n gweld fod nifer o glerigwyr Cymru 'yn anghynefin a Gair cyfiawnder, ac am hymy [sic] yn anghyfarwydd, ac yn anghymen i gyfarwyddo eriall [sic]' (t. 13). Noda fod rhwng 40 a 60 o eglwysi ym mhob esgobaeth yng Nghymru heb bregethwyr a beirniadodd ei gyd-glerigwyr am esgeuluso pregethu: 'Gwae hwynt-hwy ryw ddydd rhai ni ddeffroant mewyn prÿd o swrthgwsc eu difraŵch i areilio ac i borthi praidd Crist â orchymynwyd iw gofal, ac i fod yn siâpl iddynto astudrwydd yn chwilio yr Scrythyrau' (t. 14). Mae Thomas hefyd yn annog clerigwyr i ddarllen llyfrau defosiynol ac i ysgrifennu 'l[l]yfrau newyddion [...] neu cyfieithu llyfrau o waith rhai dyscedig eraill' (t. 16).

Mae hefyd yn gyfrwys iawn yn apelio at falchder cenedlaethol cynhenid y Cymry trwy nodi: 'Cywilydd Eglwyswyr Cymru yw bod cymmaint o lyfrau da yn Saesonec, ac mewn ieithoedd eraill, a chyn lleied nifer yn Gymraec' (ibid.). Yn yr un modd dywed ymhellach ymlaen, gan gyfeirio at y Ddamcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd: 'Er derbyn o'n henafiaid ni gynt ffydd Grist lawer cant o flynyddoedd o'u blaen hwy; a bod (yn ddiammeu) Gair Duw y pryd hynny yn aml i'n plith ni [...] megis yr oeddym ni gynt yn blaenori ar y saeson mewn crefydd Gristnogawl; felly y maent hwythau heddyw yn rhagori llawer arnom ninnau mewn gwybodaeth, a zêl i wasanaethu Duw' (t. 71). Yr hyn sy'n wahanol rhwng y Sais a'r Cymro yw'r ffaith fod gan y Cymro ddiffyg dymuniad i 'chwilio yr Scrythurau' (ibid.).

Mae Thomas hefyd yn gweld fod anlythrennedd y Cymry yn y Gymraeg yn fagl. Dywed, 'Cywilydd Cymru yw bod cynnifer o honynt yn medru ieithoedd eraill, ac etto heb fedru darllein eu hiaith eu hûn' (t. 72). Mae'n annog aelodau llythrennog teuluoedd i ddysgu eu perthnasau i ddarllen er mwyn iddynt allu darllen y Beibl. Ond, gofynna'r 'Cymro', pa ddiben i'r 'cyffredin bobl' allu darllen y Beibl os nad ydynt yn gallu deall ei ystyr? (t. 75). Ateb y 'Car-wr' yw bod rhannau o'r Beibl yn hawdd i'w deall. Ond os daw rhywun ar draws darn anodd i'w ddeall, 'yna angenrhaid yw cyrchu at ryw *Philip* i gael cyfarwyddyd; canys *gwefusau yr offeiriaid a gadwant wybodaeth, a'r gyfraith a geisiant o'i enau ef* [Mal. 2. 7]' (t. 76). Mae Thomas hefyd yn pwysleisio'r angen i'r tlawd gael Beibl – gwell yw i forwynion a gweision dreulio'r Suliau a'r gwyliau yn darllen y Beibl a gwrando arno 'nac ar bottiau, a phibellau, a phibyddion' (t. 77).

Ar ddiwedd y gyfrol ceir casgliad o wyth gweddi. Mae'r weddi gyntaf wedi'i hysgrifennu er mwyn i'r Cymro weddio am ras i iawn-chwilio'r Ysgrythurau. Gweddi dros Gymru gan y 'Car-wr' yw'r ail. Mae'r drydedd weddi

'i'w harfer mewn teulu' yn y bore a'r bedwaredd ar gyfer gweddi'r teulu gyda'r nos. Gweddiâu'r penteulu ar fore a nos Sul yw'r bumed a'r chweched weddi, a'i weddi cyn ac ar ôl bwyd yw'r seithfed a'r wythfed.

Nid yw Thomas yn cyfeirio'n fanwl at yr Ailddyfodiad a nid yw'n cyfeirio o gwbl at y Milflwyddiant. Yr hyn a gawn yma yw 'a desire, common to all reformist churchmen of the time, to spread piety and biblical knowledge through the land' (Morgan, 2018, t. 55). Ymhyfrydai Thomas yn y ffaith fod y Beibl bellach ar gael i bob math o ddynion:

i'r llafur-wr, ar crefl-wr, i'r Saer, a'r gwŷdd ar crŷdd; i'r pan-wr, a'r gôf, a'r taeliwr, i'r siop-wr, a'r eurych, ie i bôb grâdd o ddŷn, er gwaeled fyddo'r gŵr [...] Canys y mae eneidiau dynion gwael issel-radd mor werthfawr ger bron Duw ac ydyw eneidiau y gallhog' (tt. 34-5).

Drych i Dri Math o Bobl (1647)

Erbyn 1647 roedd Cymru a Lloegr wedi dioddef pum mlynedd o ryfel, ac yn y flwyddyn honno cyhoeddwyd cyfraniad llenyddol olaf Oliver Thomas. Nid oes copi o argraffiad cyntaf y gwaith hwn wedi goroesi, ond ymddangosodd copi yn *Tryssor y Cymru* dan olygyddiaeth Stephen Hughes yn 1677, dan y teitl 'Drych i Dri Math o Bobl', ynghyd â phregeth gan Arthur Dent a gwaith gan Richard Baxter. Ynddo mae 'Carwr y Cymru' yn 'anfon Tri o ddrychau ysprydol i dri math o bobl [...] Sef Drych i'r Anghristion oer, Rith gristion claiar, Gwir gristion brwd' (gol. Morgan, 1981, t. lxxv). Casglwn mai dyma'r tri math o bobl a welai Thomas o'i amgylch o ddydd i ddydd. Yn dilyn dadansoddiad o'r tri math yma o bobl, ar ddiwedd y gwaith mae'n cynnig tair gweddi addas i gyd-fynd â'r tri chyflwr.

Egyr Thomas y gyfrol yn frawychus gan ddatgan:

Chwychwi bobl gymru ydech yn tybied ag yn gobeithio, eich bôd oll yn wir gristnogion, o herwydd eich bedyddio a dwfr, ach bôd yn cymeryd arnoch broffesu y wir grefydd, gwybyddwch er hyn ei gyd fôd y rhan

fwiaf o honoch yn ych camgymeryd eich hunain, canys eglur ydiw fôd llawer o honoch yn Anghristianogion a mwy o honoch yn rhith Christnogion a rhan leiaf o honoch yn wir Gristnogion (ibid., tt. 211-12).

Mae Thomas yn arddel ac yn dysgu Cristnogaeth Galfinaidd yn y gyfrol hon. Er enghraifft, mae'n annog y gwir Gristnogion i edrych yn nrychau yr Anghristnogion a'r Rhithgristnogion er mwyn gweld 'beth oeddych gynt, cyn i dduw [sic] eich galw ach dewis, ach adnewyddu yn ôl ei ddelw ei hun' (t. 213). Disgrifia marwolaeth Crist fel yr aberth unwaith ac am byth dros bechod. Dywed mai gwaed Iesu yn unig a all olchi pobl 'oddiwrth eich holl bechodau ach aflendid' a'u gwneud yn 'wir Gristnogion' (t. 213) Canlyniad hyn fydd, 'bydd i chwi gyfran yngrhist [sic] wedi iddo eich golchi drwy ei waed, ach puro drwy bregethiad ei air ai yspryd' (t. 213).

Â Thomas yn ei flaen i gymharu'r hyn sy'n gwahaniaethu'r tri chyflwr. Er enghraifft, yr hyn sy'n peri tristwch i'r Anghristnogion yw cael eu rhwystro rhag parhau gyda'u ffyrdd drygionus. Yr hyn sy'n tristáu'r rhith Gristion yw peidio â derbyn 'y parch ar cyfri y mae rhai gwaelach ag annheilyngach yn ei dÿb ef yn ei gael'; ond yr hyn sy'n tristáu'r gwir Gristion yw 'ei bechodau ei hun , ag eraill, a chystuddiadau pobl dduw, gida ei dlodi ysprydol ai wendid, am nad all ef wasanaethu duw yn well' (tt. 217-18). Â'r rhestr ymlaen i gymharu agwedd y tri chyflwr tuag at bynciau megis y tafod, y glust, y traed, ofn ac ewyllys.

Gweddïau ar gyfer yr Anghristnogion a'r Rhithgristnogion 'gwir ediferiol', ynghyd â gweddi o ddiolchgarwch ar gyfer y gwir Gristion, sy'n cloi'r gwaith. Mae cymhelliant cymdeithasol amlwg i'r tair gweddi hyn. Ynddynt mae Oliver Thomas yn ei gwneud hi'n hawdd i'r Cymry roi mynegiant i'w dyheadau a'u dymuniadau ar ôl iddynt ystyried i ba gategori y perthynant. Mae cymhelliant efengylol amlwg i'r gweddïau hefyd, gan fod Thomas yn ceisio arwain y rhai a

berthynai i'r tri chyflwr i edifeirwch ac i berthynas o ddiolchgarwch a llawenydd yn Nuw'r Gwaredwr.

Buchedd dynion a'u tynged dragwyddol oedd ar flaen meddwl Thomas. Dau ddymuniad amlwg oedd ganddo, sef i'r Cymry 'chwilio yr Scrythurau yn ôl gorchymmyn Crist', ac iddynt ddod i 'weled, a gwybod pa fodd y dylem weddio ar Dduw am faddeuaint, a thrugaredd am â aeth heibio, ac am Râs o hyn allan i ni ac i'n tylwyth i'w gŷd wasânaethu ef [...] ddydd, a nôs holl ddyddiau ein heinioes (*Car-wr y Cymru, yn annog ei genedl*, 1631, tt. 93-4).

Gan nad yw'n cyfeirio at yr Ailddyfodiad na'r Milflwyddiant, pa gyfiawnhad sydd felly dros gynnwys Oliver Thomas yn y traethawd hwn? Roedd Thomas yn bresennol yn sefydlu eglwys Llanfaches yn 1639 a thybiwn iddo ef a Cradock weithio'n agos â'i gilydd wrth i'r ddau ohonynt weinidogaethu yn y gogledd-ddwyrain. Er hynny, profa Thomas efallai nad cywir yw tybio fod yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant yn rymoedd gweithredol ym meddwl y Piwritaniaid Cymreig, fel yr oeddynt i'r Methodistiaid, er enghraifft. Roedd Wroth yn dawedog amdanynt, Erbery yn amlwg yn rhoi pwysigrwydd iddynt, a Cradock yn chwarae â'r syniad o'r milflwyddiant yn *Gospel-Holinesse* (1648). O ystyried nad oedd y Piwritaniaid Cymreig yn niferus, a bod y dynion hyn wedi gweithio a chyfeillachu â'i gilydd, mae'n ddiddorol nodi nad ydynt yn rhannu'r un syniadau. Mae pwyslais gwaith Thomas yn ymarferol. Heblaw am ragordeiniad, nid yw Thomas yn trafod athrawiaethau dadleuol (fel yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant), a nid yw chwaith, er ei fod yn arddel Presbyteriaeth, yn trafod eglwysyddiaeth: mae'n anwybyddu 'baptismal theology and Eucharistic practice. The festivals of the church year, the Nativity, Easter and Whitsun, garner no mention at all. The author goes out of his way not to give offence' (Morgan, 2018, t. 56).

Noda Morgan fod gweithiau Thomas yn 'far from being an exercise in Puritan ideology, the *Car-wr* is a contribution to the mission of the reformed church broadly understood' (ibid, t. 57). Serch hynny, Piwritan ydoedd yn anad yr un dim arall. Ond dengys Thomas fod Piwritaniaeth gymedrol yn perthyn i arweinyddiaeth y Piwritaniaid Cymreig ac nad oedd yr Ailddyfodiad na'r Milflwyddiant yn rymoedd gweithredol i bawb ohonynt. Gellir gweld yn Thomas a'i Biwritaniaeth gymedrol proto-Bresbyteraidd, er iddo helpu i sefydlu eglwys Llanfaches, mai gwell yw ystyried Piwritaniaeth Gymreig yn nhermau Piwritaniaethau, amlweddog Cymreig

2. Evan Roberts (c. 1587 - 1650)

Ni wyddom ddim am deulu a bywyd cynnar Evan Roberts. Gan ei fod yn derbyn £100 y flwyddyn am bregethu, teg fyddai cymryd yn ganiataol iddo dderbyn addysg brifysgol. Cofrestrodd rhyw Evan Roberts o sir Ddinbych yn Neuadd Sant Edmwnd ym Mhrifysgol Rhydychen ar 3 Mai 1605, ac mae Merfyn Morgan yn dadlau fod lle i gredu mai'r Evan hwn Evan Roberts (gol. Morgan, 1981, t. xxvii). Fel Oliver Thomas, felly, byddai Roberts wedi dod o dan ddylanwad Piwritaniaid Rhydychen. Graddiodd yn 1608 ac er nad yw ei enw ymhlith y darlithwyr Piwritanaidd a noddwyd gan dirfeddiannwyr cefnog, credir ei fod yn gweithio yn esgobaeth Tyddewi erbyn y 1630au.

Roedd esgob Tyddewi yn ystod y 1630au, Theophilus Field⁶⁸, yn elyniaethus tuag at anghydfurfwyr a rhwystrodd ef 'one Roberts a lecturer' rhag pregethu yn 1634/5. Dywed adroddiadau cyfoes fod yr esgob wedi'i wahardd 'for Inconformity' (ibid. t. xxviii); ond ni wyddom ble'r oedd y Roberts hwn yn pregethu na phwy oedd ei noddwr.

⁶⁸ Yn ddiddorol, roedd Theophilus yn fab i John Field, awdur *An Admonition to Parliament*.

Cymerwn fod Roberts wedi gadael esgobaeth Tyddewi ac ymgartrefu ar y Gororau oherwydd yn 1640 cyhoeddodd gatecism yn dwyn y teitl *Sail Crefydd Ghristnogol* gydag Oliver Thomas. Yn 1646 fe'i penodwyd yn weinidog ym mhlwyf Llanbadarn Fawr gan Bwyllgor y Gweinidogion Ysbeiliedig. Yno bu wrthi'n pregethu ac yn cataceisio'r plwyfolion yn y Gymraeg a'r Saesneg (sy'n dangos fod trefi megis Aberystwyth wedi'u Seisnigo i ryw raddau erbyn y 1640au). Ym mis Mai 1647 gwelwn Roberts yn derbyn bywoliaeth Llanrhaeadr-ym-Mochnant, lle y bu'r Esgob William Morgan yntau'n offeiriad. Yno y gwasanaethodd hyd at ei farwolaeth yn 1650, ac fe'i dilynwyd yno gan Oliver Thomas.

Mae digon o dystiolaeth ar gael sy'n dangos y gellid cyfrif Evan Roberts yn un o arweinwyr cynnar y Piwritaniaid Cymreig. Daeth Llanbadarn Fawr yn un o brif ganolfannau Piwritaniaeth yng Nghymru a degawd wedi apwyntiad Roberts i'r plwyf, yn 1656, cynhaliwyd gynhadledd fawr yno gan Vavasor Powell, Morgan Llwyd ac eraill lle'r ymgynullodd 400 o Biwritaniaid o saith neu wyth o siroedd Cymru i drafod sefyllfa grefyddol a gwleidyddol Cymru (Richards, 1920, t. 198). Honna John Lewis i Langurig hefyd dyfu'n ganolfan Biwritanaidd dan arweiniad Vavasor Powell ac Evan Roberts (1646, t. 32). Awgryma Morgan gymaint oedd effaith Roberts ar blwyfi Llanbadarn Fawr a Llanrhaeadr nes i'r ddau blwyf roi £20 y flwyddyn yr un o bensiwn i Elanor, gwraig Roberts.

Sail Crefydd Ghristnogol (c. 1640; ail argraffiad yn 1688)

Catecism Cymraeg yw'r gyfrol hon, wedi'i hysgrifennu ar y cyd rhwng Oliver Thomas ac Evan Roberts. Nid oes copi cyflawn wedi goroesi yn anffodus. Cyhoeddwyd llyfr yn dwyn yr un teitl yn y flwyddyn 1688 ac mae'r ddau yn

198

cyfateb yn agos i'w gilydd ac felly gellir awgrymu mai ailargraffiad o gyfrol 1640 yw cyfrol 1688.

Mae'r rhagymadrodd yn annog y darllenwyr i ddefnyddio'r cyhoeddiad i ddysgu am Dduw ac mae'r awduron eto'n apelio at falchder gwlatgarol y Cymry trwy ganmol rhinweddau a duwioldeb y Saeson. Ceir gweddi ar ddiwedd y rhagymadrodd sy'n sôn am bwysigrwydd dysgu egwyddorion Cristnogol i'r teulu.

Mae'r catecism yn cyffwrdd â phrif wirioneddau Cristnogaeth; natur Duw, natur pechod, y Deg Gorchymyn a swyddi Iesu Grist a'i waith achubol. Yng nghanol yr adran hon y mae'r unig gopi sydd wedi goroesi o argraffiad 1640 yn dod i ben yn ddisymwth. Mae ail argraffiad 1688 yn rhoi inni'r gyfrol yn ei chyflawnder. Â'r awduron ymlaen i drafod natur ffydd, edifeirwch a sancteiddhad gan bwysleisio defosiwn personol:

Go. Oni ddylem ni ddarllen a gwranddo gair Duw gartref?

At. *Ein dyled ni ydyw chwilio yr sgruthur lân beunydd, trwy ddarllen, gwranddo a myfyrio* (tt. 195-6).

Yna esbonnir cynnwys Gweddi'r Arglwydd, dysgir am natur a phwrpas y sacramentau (Bedydd a Swper yr Arglwydd), sonnir am yr hyn a fydd yn digwydd i'r duwiol a'r annuwiol ar ôl iddynt farw, ac yna mae'r catecism yn gorffen trwy sôn am Ddydd y Farn. Gofynnant:

Go. Pa bryd y cwbl gyflawnir dedwyddwch yr etholedigion?

At. *Yn nydd farn ofnadwy, ac ar yr adgyfodiad cyffredin*, Psal. 17. 15 (t. 206).

Mae Thomas a Roberts yn credu y gwelir yr atgyfodiad cyffredinol hwn ar yr un adeg â'r Ailddyfodiad. Maent hefyd yn gwbl glir pwy fydd y Barnwr:

Go. Pwy a fydd y Barnwr?

At. *Christ, Arglwydd a Brenin yr eglwys*, Acts 10. 42 (ibid.).

Maent hefyd am i'r darllenydd fod yn gwbl glir beth fydd natur yr Ailddyfodiad:

Go. Pa fodd y daw Christ ir farn?

At. *Mewn modd gogoneddus, gyda lliaws aneirif o angylion nerthol*, 1 Thes. 4. 16. 2 Thes. 1. 7 (ibid.).

Dywed yr awduron y caiff dynion eu barnu yn ôl eu gweithredoedd, 'y rhai ydynt arwyddion eglur, naill oi ffydd, ai anghrediniaeth'. Yr hyn a ddigwydd i'r anghredadun fydd distryw tragwyddol tra caiff y duwiol 'weled Duw a Christ yn eglur wyneb yn wyneb, a mwynhau cymdeithas byth-barhaus â hwynt, mewn gogoniant tragwyddol, yn yr enaid ar corph, mewn amgenach mesur, nag y dichon calon dyn yr awrhon ei amgyffred nai deallt' (tt. 206-7).

Sail Crefydd Gristnogawl (1649)

Dyma ail gyfraniad llenyddol Evan Roberts. Golygiad ydyw o gyfieithiad Robert Holland o waith William Perkins, *The Foundation of Christian Religion*, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1591. Rydym eisoes wedi cyfeirio at Robert Holland a William Perkins yn ein hastudiaeth o Biwritaniaid cymedrol.

Egyr Roberts y gyfrol â llythyr yn Saesneg at y darllenydd yn esbonio fod yr wyddor wedi'i hatgynhyrchu ar ddechrau'r gyfrol 'chiefly for their sakes who would learne to read Welsh themselves, or would instruct and teach others to reade Welsh' (gol. Morgan, 1981, t. 231). Dywed Roberts ei bod hi'n bwysig cynnwys yr wyddor gan fod llawer o Gymry yn deall rhywfaint o Saesneg, 'yet know nothing in there owne language' (ibid.). Canlyniad dysgu'r wyddor, ac felly gallu darllen Cymraeg, yw y byddai'n haws addysgu teulu, ffrindiau a chymdogion nad oeddynt yn abl i ddarllen Cymraeg na Saesneg. Canlyniad yr anlythrennedd hwn oedd bod llawer o bobl yn 'ignorant of the Word of God, and so carelesse of knowing it, that among twenty Families, there can scarce one

Welsh Bible be found'; ac os oedd Beibl Saesneg i'w gael mewn teulu, 'it is but uselesse, in respect of the generalitie of those which know nothing and understand nothing in that tongue' (ibid., t. 232). Roedd anllythrennedd yn un o brif achosion y sychder ysbrydol yn y wlad, ac er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r gwendid hwnnw y bu i Roberts gynnwys yr wyddor fel atodiad i'r gyfrol.

Unwaith eto, natur Duw, cyflwr dyn, gwaith Iesu Grist, trefn iachawdwriaeth a sancteiddhad oedd prif bynciau'r catecism. Wrth ystyried iachawdwriaeth, gofynnwyd y cwestiwn, 'Pa rai yw y moddion arfaredig, cyffredyn i gaffael ffydd trwyddynt?' Ceir yr ateb pendant:

I mae ffydd yn dyfod trwy bregethiad gair duw yn inig; a thrwy hwnnw y mae yn cynhyddu beunydd, megis y mae hefyd trwy wenidogaeth y sacrafenau Sacramentau a gweddi' (t. 248).

Daw rhan gyntaf y catecism i'w derfyn wrth sôn am gyflwr a sefyllfa pob un wrth ymadael â byd amser. Dywedir yno:

Pawb ol[!] a gyfodant eilwaith a'i cyrph ei hunain ir farn ddiweddaf; yn oll pa un y rhai duwiol a feddiannant deyrnas nefoedd; ond yr anffyddloniaid ar gwrthodedig a fyddant yn yfferm iw poeni yna gidâr cythrel ai angelion yn dragywyddol (t. 249).

Nid yw'r catecism yn cyfeirio o gwbl at yr Ailddyfodiad na'r Milflwyddiant yn yr adran gyntaf. Yn yr ail adran ceir esboniadau manylach am bynciau'r adran gyntaf. Yn yr esboniad manylach ar fywyd ar ôl marwolaeth, dysgwn eto y dylid disgwyl yr Ailddyfodiad ar ddiwedd y byd:

H. Beth a ganlyn ar ol marwolaeth?

A. Dydd y farn.

H. Pa arwydd sydd i adnabod y dydd hwnnw rhagor dydd arall?

A. Tân a ddifa'r nefoedd ar ddaiar ychydig cyn dyfod y barnwr.

H. Pwy a fydd y barnwr?

A. Iesu Crist mab Duw.

H. Pa fodd y bydd ei ddyfodiad ir farn?

A. Efe a ddaw yn y cwmmylau mewn mawredd a gogoniant, gidag aneirif lu o Angylion (t. 284).

Mae'r Ailddyfodiad i'w ddisgwyl, felly, pan ddaw Iesu Grist i farnu ar ddiwedd y byd, ac ni cheir cyfeiriad yn y catechism at y Milflwyddiant. Yr hyn a gawn gan Roberts, yn ei olygiad o gyfieithiad Holland o waith Perkins yw catecism yn 'dysgu'r athrawiaeth Galfinaidd i'r genedl Gymreig, yn dwyn ffurf catecism sy'n rhan o ddulliau dysgu'r cyfnod' (Morgan, 1981, t. lxxxvii). Gweithgarwch cymdeithasol mawr Roberts oedd addysgu a thaenu'r efengyl ymhlith y Cymry, yn enwedig ymhlith y Cymry Cymraeg.

Yn achos Oliver Thomas ac Evan Roberts ill dau, gwelwn fod cenhadu ac addysgu eu cyd-Gymry yn agos at eu calon. Cadarnheir hyn ymhellach yn achos Oliver Thomas gan y ffaith ei fod yn un o gomisiynwyr Deddf y Taenu. Ni allwn ddysgu llawer am eu credoau ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant o'u gweithiau, serch hynny. Ni chyfeiria Oliver Thomas at y Milflwyddiant o gwbl a dim ond dau gyfeiriad amlwg at yr Ailddyfodiad sydd yn ei waith, sef cyfeirio at Gristnogion fel coronau i weinidogion yr efengyl adeg yr Ailddyfodiad a phan eglura Thomas a Roberts ystyr yr Ailddyfodiad yn *Sail Crefydd Ghristnogol* (1640) sy'n nodweddiadol Galfinaidd ac i'w ddisgwyl mewn catecismau.

Yr hyn sy'n ddiddorol am Thomas a Roberts yw'r ffaith fod y ddau ohonynt, fel arweinyddion cynnar Piwritaniaeth Gymreig, wedi gweithio'n agos â'i gilydd, ond eto roedd gwhaniaethau yn bodoli rhyngddynt o ran eu Piwritaniaeth. Piwritan cymedrol oedd Thomas tra roedd Roberts yn fwy radical; diarddelwyd Roberts am anghydfurfiaeth gan esgob Tŷ Ddewi a bu'n gweithio'n agos â Vavasor Powell. Dengys hyn eto felly mai Piwritaniaethau Cymreig oedd ar waith yng Nghymru. Ond dengys Thomas a Roberts fod y Piwritaniaethau yma yn cyd-weithio'n rhadlon â'i gilydd (yn achos Thomas a Roberts) a hynny nid oherwydd bod gweledigaeth unfrydol ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant yn bodoli rhyngddynt, ond oherwydd eu hawydd, fel dywed

202

Thomas ar flaenddalen *Car-wr* 1631, i 'annog ei genedl anwyl, a'i gydwladwyr er mwyn Crist ai heneidiau'.

3. Christopher Love (1618–1651)

Brodor o Gaerdydd oedd Christopher Love ac fe'i ganed ar 25 Mawrth 1618. Pan oedd yn ei ardegau cynnar daeth dan ddylanwad William Erbery a hynny wrth ei glywed yn pregethu. 'In fact, his father concluded that young Christopher had been seized with a strange fire of melacholy, what we would call depression' (Kistler, 1994, t. 6). Felly, ymddengys i'w dad ddehongli'r profiadau a gafodd y mab dan weinidogaeth Erbery fel iselder ysbryd yn hytrach na phrofiad ysbrydol. Er i'r mab erfyn ar y tad i ganiatau iddo fynd yr eilwaith i wrando ar Erbery, gwrthod a wnaeth. Serch hynny, bu i Love anufuddhau i benderfyniad ei dad. Dywed Owen i Love glymu 'a rope to his window, slid down it, and went off to church. It then transpired that he would leave his bed in the middle of the night to pray and fast with a group of other young men in Cardiff with similar spiritual cravings, and that his association with Erbury was growing more intimate as time went on' (1966, t. 89). Noda Kistler fod criw o bobl ifanc

at the same time, been brought to a relationship with Almighty God. Now, they would often assemble together for the purpose of fasting and prayer. When their parents were in bed, they would meet twice a week. The meetings were always late at night so as not to neglect their school work or displease their parents' (Kistler, 1994, tt. 7-8).

Daeth tad Love i wybod am anufuddod ei fab a'r canlyniad oedd iddo 'branded him a hopeless youth [...] a young Puritan'. Arweiniodd hyn i 'Erbery requested

that Christopher be allowed to live in his own house. He would take care of him and see to his education. To this, Mr. Love consented' (ibid, t. 8).

Bwriad tad Love oedd ei anfon i Lundain, ond dywed Owen i Erbery a mam Love, a oedd a chydymdeimlo â Phiwritaniaeth, helpu Love i fynd i Rydychen ac yn benodol i Neuadd New Inn, lle'r oedd y Piwritan, Dr Christopher Rogers, yn diwtor. Cofrestrodd Love yno yn 1636 fel 'poor scholar'. Tyfodd perthynas glòs rhwng Love a Rogers: enillodd Love ysgoloriaeth gan Rogers i barhau â'i astudiaethau a daeth Love yn gaplan i deulu Rogers.

Nid syndod felly, ac yntau wedi bod dan ddylanwad Erbery a Rogers, mai Love oedd y myfyriwr cyntaf i wrthod cydymffurfio â chanonau William Laud yn 1640. Roedd y canonau yn dysgu fod breintiau dwyfol i'r frenhiniaeth. Dysgent hefyd y dylid sefydlu trefn esgobol wladol, pwysleisient bwysigrwydd seremonïaeth Anglicanaidd, gorfodent bregethwyr i bregethu undod eglwysig, ac roedd y canonau hefyd yn cosbi ymneilltuwyr yn llawdrwm. Roedd Laud wedi dod yn Archesgob ryw dair blynedd cyn i Love gofrestru yn Rhydychen.

Yn sicr, fe gafodd wleidyddiaeth a chrefydd y cyfnod ddylanwad mawr ar Love: 'disputations undoubtedly encouraged a controversial spirit' yn Love (ibid., t. 19), a magodd ysbrydolrwydd dwfn tra oedd yn Rhydychen. Disgrifia Criddle y ffordd y gwnaeth Love 'subjected himself to severe self-examination and imposed strict discipline to preserve self-control and to exercise himself regularly in prayer, meditation and Bible reading. The confessional was abhorred by the Puritan, yet much time was spent in private confession of sin in his own room' (ibid., t. 32).

Graddiodd yn BA ym mis Mai 1639, ond gwrthododd gael ei ordeinio am nad oedd yn cytuno ag Esgobyddiaeth. Fe'i penodwyd yn gaplan i siryf Llundain ym mis Mehefin 1639. Yn y swydd honno cafodd ei barchu am ei

204

ysbrydolrwydd. Dywed Criddle i deulu'r siryf 'loved and respected him, yet they held him in awe [...] His strict and holy life inspired them with reverence for him, for he spent much time alone in prayer and meditation' (ibid., t. 64). Galwyd ef i fod yn ddarlithydd Eglwys y Santes Ann a'r Santes Agnes yn Aldersgate, ond ni chaniataodd Esgob Llundain gyflog iddo, a hynny o dan gyfarwyddyd William Laud. Yn sgil hynny teithiodd Love i'r Alban i geisio cael ei ordeinio'n weinidog gan y Presbyteriaid yno. Ond ni ddaeth dim byd o'r cynllun hwnnw a phenderfynodd ddychwelyd i Lundain.

Gwelwn dystiolaeth o gymeriad tanbaid a Phiwritanaidd Love yn ystod ei daith yn ôl o'r Alban. Ni theithiodd ymhellach na Chastellnewydd ar Dein (*Newcastle upon Tyne*) cyn iddo gael ei garcharu am ei bregethu Piwritanaidd. Rhyddhawyd ef, ac erbyn hyn, yn 1641, roedd y Brenin a'r Archesgob dan bwysau gan y Senedd Hir. Pan esgorodd yr anghydfod rhyngddynt ar y Rhyfel Cartref, doedd dim amheuaeth ble roedd cydymdeimlad Love, 'and when eventually the King decided to resort to force, the young Welshman did not hesitate to declare in a public sermon at Tenterden, in Kent, that Parliament was perfectly justified in taking up the same weapon to defend its liberties and those of the people it represented' (Owen, 1966, t. 91).

Apwyntiwyd Love yn gaplan ar y gwarchodlu yng Nghastell Windsor, gan dderbyn £150 y flwyddyn. Dyma gyfnod hollbwysig i Love canys pan oedd yn caplan yno bu'n pregethu fel darlithydd a derbyniodd gynnig William Twisse (1578–1646) i gael defnyddio ei lyfrgell. Roedd Twisse yn gynfilflwyddydd ac ef a gyfieithodd gwaith dylanwadol Joseph Mede, *Clavis Apocalypticae* (1627) i'r Saesneg yn 1643 dan y teitl, *Key to the Revelation*. Ysgrifenna Mede yn helaeth am y Milflwyddiant. Roedd Mede yn fathamategydd a cheisiodd bennu dyddiad i'r Ailddyfodiad yn seiliedig ar ddarlleniad llythrennol o Datguddiad. 'He clearly

believed in the literal return of Christ and the reign of the bride of Christ on earth during a thousand-year millennial kingdom' (Hindson, 1996, t. 250). Ar ôl i'r Presbyteriaid sefydlu eu hunain yn y llywodraeth, 'Christopher Love finally received the ordination he had so strenuously sought' (Kistler, 1994, t. 35). Ordeiniwyd ef ar Ionawr 23 yn 1644 yn eglwys Aldermanbury.

Diddorol nodi'r sylw 'Christopher Love seems to have always been politically active' (ibid, t. 48). Yn 1642 ysgrifennodd dract o'r enw *The Debauched Cavalier* a chymharodd cafaliriaid Lloegr â Midaniaid yr Hen Destament. Gwelai Love a'i gyd awdur, George Lawrence, chwe pheth yn gyffredin rhwng y cafaliriaid (y Brenhinwyr) a'r Midaniaid:

1. 'They were full of rage and blasphemy'.
2. 'They were men of cruelty and oppression'.
3. 'They were rambling renegades'.
4. 'They were a crafty and subtle generation'.
5. 'They were unclean both in body and in spirit'.
6. 'They were frequent in plotting combinations with the children of the East (ibid)'.

Ond yn ei bregeth, *Englands Distemper* y gwelwn wedd wleidyddol Love ar ei amlycaf.

Englands Distemper (1645)

Pregeth a bregethodd Love yn Uxbridge wrth i swyddogion y Senedd a'r Goron gyfarfod i drafod telerau heddwch oedd *Englands Distemper*. Cymal cyntaf y seithfed adnod o Salm 120, sef 'I am for Peace' sydd i'w weld fel is-deitl ei bregeth, ond yn anffodus er ei fod ef 'for Peace' nid felly'r pleidiau a gyfarfu, a methwyd yn llwyr a chanfod cyfaddawd a fyddai'n arwain at heddwch parhaol.

Mae Love yn datgan ar gychwyn ei bregeth, 'Tis the sword (not disputes nor treaties) that must end this controversie [sef yr erledigaeth gan

Esgobyddion], wherefore turn your ploughshares into swords, and your pruning hooks into spears, to fight the Lords battels, to avenge the blood of Saints which hath been spilt' (t. 7). Mae'n glir nad oedd Love yn rhagweld cadoediad rhwng y Brenhinwyr a'r Seneddwyr: 'whiles our enemies goe on in their wicked practices, & whiles we keep to our principles, we may as soon make fire and water to agree, and (I had almost said) reconcile Heaven and Hell' (t. 9).

Jeremeia 33:16⁶⁹ oedd testun y bregeth. Canolbwyntiodd Love ar y ffordd y mae Duw yn iacháu'r wlad. Dywedodd fod yr holl wlad yn dioddef o afiechyd a hynny oherwydd y gwenwyn a gyflwynwyd ym mhregethau'r clerigwyr, sef 'hurftul doctrines and poysonful errors' (t. 16). Un 'gwenwyn' oedd y ddysgediaeth y gallai'r Brenin weithredu fel y mynnai wrth ymwneud â'i ddeiliaid: 'affirming that Kings might do what they list, that the lives, wives, liberties and estates of their subjects are to be disposed by the King according to his own will' (ibid.). O ran athrawiaethau rhestra'r rhain i gyd fel enghreifftiau o 'wenwyn' – Ewyllys Rydd, Cwmpo oddi wrth Ras, Iawn Cyffredinol, diddymu'r Gyfraith Foesol a gwrthod edifarhau dros bechod (t. 17). Dywed hefyd fod ofergoeliaeth, gweinidogion gwael, diffygion ym mhregethu'r Gair, methu cadw diwrnodau ympryd a'r Saboth yn wenwyn marwol. Mae hefyd yn lladd ar bensaerniaeth ac addurniadau eglwysig a gwisgoedd seremonïol yr offeiriadon ac yn beirniadu deiliaid Eglwys Loegr am beidio ag erlid Pabyddion. Yn ei dyb ef roedd y Pabyddion hwythau yn euog o wenwyno'r wlad.

Mae rhaniadau ym mywyd gwleidyddol ac eglwysig y wlad hefyd yn wenwyn i Love:

Is not our King the Head, divided from his Parliament; the representative Body of this Kingdom, and is not one member divided

⁶⁹ Yn y dyddiau hynny Jwda a waredir, a Jerwsalem a breswylia yn ddiogel; a hwn yw yr enw y gelwir ef, Yr Arglwydd ein cyfiawnder.

from another; if you look into the publike affaires of State, oh what divisions are there! Is not Protestant against Protestant? Nobleman against Nobleman? (t. 19).

Canlyniad hyn oll yw gwneud dynion yn anabl i dderbyn a charu'r efengyl. Mae Love yn parhau â'r ddelwedd effeithiol o'r wlad fel dyn sâl ar fin marw wrth restru cwestiynau rhethregol y gallai Duw ofyn, megis, 'Will ye have your Bishops in their pomp [...] againe? Will ye have your Common Prayer [...] againe?' Petai'r atebion yn gadarnhaol, yna byddai cyflwr truenus y wlad yn sicr o barhau. Dywed Love mai'r milwyr seneddol yw'r llawfeddygon ac mai'r Seneddwyr yw'r ffigwyr (tt. 20-1). Cyngor y ffigwyr yw i 'take up Armes in the defence of our Lawes, Religion and Liberties' (t. 21). Ond, er mawr siom i Love, nid yw dynion yr oes yn talu sylw i gyngor y ffigwyr. Sut felly y mae gwella cyflwr y wlad? Y mae Duw yn alluog i achub y wlad, ond ym marn Love nid yw'r trigolion am dderbyn iachâd gan eu bod yn parhau i arddel Esgobyddiaeth a'r Llyfr Gweddi Gyffredin (t. 22). Mae'r ddau beth hyn wedi disodli pregethu ac wedi arwain at anwybodaeth ac ofergoeliaeth. I Love, yr unig adeg y gellir iacháu gwlad yw pan fydd y wlad honno yn ymwybodol o'i chyflwr enbydys ac yn galw ar Dduw am gymorth (t. 27), fel y mae 2 Cronicl 7:14⁷⁰ yn nodi. Yn ogystal â hyn, bydd Duw yn iacháu'r wlad pan fydd y wlad honno'n troi oddi wrth ei hofergoeliaeth a'i heilunod. I Love, golyga hyn ddinistrio addurniadau eglwysig. Iddo ef mae Eseia 30:22-23⁷¹ yn annog gweithredu o'r fath. Mae Love hefyd yn rhagweld Duw yn iacháu'r wlad pan gesglir criw o 'ffigwyr' ynghyd. I

⁷⁰ 14 Os fy mhobl, y rhai y gelwir fy enw arnynt, a ymostyngant, ac a weddiant, ac a geisiant fy wyneb, ac a droant o'u ffyrdd drygionus: yna y gwrandawaf o'r nefoedd, ac y maddeuaf iddynt eu pechodau, ac yr iachâf eu gwlad hwynt.

⁷¹ 22 Yna yr halogwch ball dy gerfddelw arian, ac effod dy dawdd-ddelw aur; gwasgeri hwynt fel cadach misglwyf, a dywedi wrthynt, Dos ymaith. 23 Ac efe a rydd law i'th had pan heuech dy dir, a bara cnwd y ddaear, ac efe a fydd yn dew ac yn aml; a'r dydd hwnnw y pawr dy anifeiliaid mewn porfa helaeth.

Love, yr Arglwyddi a'r Cyffredin yn y Senedd a ddylai gydnabod natur afiach y wlad a'i anghenion a hwy yn anad neb arall ddylai chwilio am y datrysiad hanfodol. Pwysleisia mai heddwch a gwirionedd yw moddion Duw a'i bod yn hollbwysig i'r ffigsigwyr yn y Senedd ddefnyddio'r rhinweddau hyn i iacháu'r wlad. Ond er iddo bwysleisio gwerth heddwch a gwirionedd, mae'n nodi bod gwirionedd yn bwysicach na heddwch. Heb arddel gwirionedd nid oes gobaith iacháu'r wlad (t. 40).

Dyma bregeth sydd wedi'i chynllunio'n rhesymegol ac yn effeithiol. Mae'n darlunio'r wlad fel claf ar ei wely angau ac yn dangos sut y bu i'r Goron ac Esgobyddiaeth ei llusgo i'r cyflwr enbydys yma. Yr unig obaith am iachâd yw gwaith Duw trwy'r Senedd. Gwelsom eisoes o'i bregeth yn Tenterden ei fod o blaid rhyfel cyfiawn. Yn ei farn ef:

the King had encroached upon the liberties of his subjects, his demands had been too exacting and were still very exacting upon those who followed him. If unjust peace were made the land would return to the condition as they had been before the war. The resort to arms was to Love the only way by which the nation could be purged of error (Criddle, 1933, t. 99).

'He had sufficiently offended nearly everyone', meddai Kistler (1994, t. 49) ac nid syndod felly iddo gael ei garcharu yn ei gartref yn Llundain gan Dŷ'r Cyffredin nes bod y trafodaethau heddwch yn dirwyn i ben. Wedi iddo adennill ymddiriedaeth y Senedd a'r Presbyteriaid, fe'i hordeinwyd yn Bresbyteriaid ac o'r diwedd fe'i penodwyd yn fugail Eglwys y Santes Ann a'r Santes Agnes, Aldersgate yn 1645. Fodd bynnag, erbyn 1647 roedd gwleidyddiaeth y dydd wedi dechrau ei flino unwaith yn rhagor.

Yn ei gyfrol *The Maine Point of Church* (1647) mae'n beirniadu Oliver Cromwell am orthrymu Presbyteriaeth ac yn beirniadu'r Fyddin Model Newydd o roi penrhyddid a llwyfan i radicaliaeth. Erbyn dienyddiad Siarl I roedd Love, a

209

llawer un arall, wedi colli ymddiriedaeth yn Cromwell a'i Senedd ac wedi penderfynu 'that any system would be preferable to the military depotism set up by Cromwell' (Owen, 1966, t. 95). Wrth i'r farn hon gynyddu, hon roedd Love a Presbyteriaid tebyg iddo yn dyheu am sefydlu'r Frenhiniaeth unwaith yn rhagor.

Ym mis Mawrth 1651 arestwyd Thomas Coke, un o gefnogwyr y Frenhiniaeth. Roedd dogfennau yn ei boced yn tystio i gynllun rhwng Brenhinwyr Lloegr a'r Alban a'r Presbyteriaid yn erbyn Cromwell a'i Weriniaeth. Roedd Siarl II eisoes wedi'i goroni'n frenin yn yr Alban ac er mwyn achub ei groen ei hun, dywedodd Coke fod stoc o arfau yn Llundain yn nwylo arweinwyr Presbyteriaid ar gyfer gwrthryfel. Yn sgil hyn, arestwyd arweinwyr y Presbyteriaid yn Llundain, a Love yn eu plith. Yn ddiarnheul, roedd Love wedi bod yn cynllwynio i ail-sefydlu'r Frenhiniaeth. Eglura Criddle:

Love had taken his vow to support the Covenant and such an action bound him irrevocably to do his utmost to preserve the person of the monarch, and to work for uniformity in religion in the three kingdoms, which he believed loyalty to the Covenant would eventually make actual (ibid., t. 171).

Roedd Love hyd yn oed yn gweddïo'n gyhoeddus y byddai Siarl II yn dychwelyd o'i alltudiaeth. Roedd Love hefyd wedi gwrthod *Statute of Treason* (1649) Cromwell a oedd yn gorfodi pawb mewn awdurdod, gan gynnwys gweinidogion yr efengyl, i dyngu llw na fyddent yn crybwyll enw Siarl yn gyhoeddus. Ar 20 Mehefin 1651 ymddangosodd Love gerbron yr Uchel Lys yn San Steffan â sefydlwyd yn arbennig ar gyfer yr achos, a'r cyhuddiad yn ei erbyn oedd 'conspiring to raise an insurrection with a view to restoring Prince Charles to the throne; inviting Scots to invade England; providing them with arms and money; and corresponding with the declared enemies of the State' (Owen, 1966, t. 96). Arestwyd deuddeg o ddynion, yn weinidogion, diwinyddion, awduron ac

esbonwyr beiblaidd. 'This was no insignificant group of political malcontents' (Kistler, 1994, t. 53). Ond allan o'r deuddeg, dim ond un â ddienyddiwyd, a Love oedd hwnnw a hynny ar 23 Awst 1651. Yn ystod y cyfnod hwn roedd yn weinidog yn St. Lawrence Jewry ac yn amlwg yn weinidog poblogaidd. Talwyd iddo y swm sylweddol o £150 y flwyddyn am bregethu ddwy waith ar y Sul ac ar ddyddiau ymryd ac am weinyddu'r sacramentau unwaith y mis. Derbyniodd £20 hefyd er mwyn adnewyddu'r ficerdy. Yn 1650 cytunodd aelodau'r eglwys gyfrannu £50 yn ychwanegol tuag at ei gyflog a £126 arall yn 1651. Yn sicr, dyma brawf o'i boblogrwydd fel gweinidog a gwerthfawrogiad ei braidd ohono. Yn wir, dewiswyd ef i fod yn aelod o Gymanfa Westminster, ond prin fu ei ymddangosiadau yno. 'Most likely Dr. William Twisse's admiration for him had much to do with his selection' (Kistler, 1994, t. 38).

Dyma ddyn a feiddiodd weithredu'n danbaid dros ei gredoau. Ond beth oedd ei ddysgeidiaeth ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant a sut y dylanwadodd hyn ar ei weithgarwch cymdeithasol, os o gwbl? Yn *Heavens Glory, Hells Terror* (1653), sy'n gyfres o bregethau ar Colosiaid 3:4⁷², dywed Love yn blwmp ac yn blaen ei fod yn gwrthod y gred yn ymddangosiad corfforol Crist i sefydlu Milflwyddiant:

That the appearing of Christ in glory in this Text, is not meant after the Jewish sense. The Jews they apprehend by the appearing of Christ, and those Promises in Scripture about it, that it relates to the coming of their promised Messiah in the flesh, that he shall reign as their temporal King in pomp and Majesty amongst them upon earth. Now this appearing of Christ in the flesh is past already, and not to come, and therefore in this sense cannot be admitted (tt. 31-2).

Mae'r Meseia eisoes wedi dyfod i'r byd, sef fel y baban a aned ym Methlem.

Mae'n anghytuno hefyd â dehongliad y Milflwyddwyr, 'that is, that Christ must

⁷² Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gydag ef mewn gogoniant.

appear personally upon earth, and that here he shall live among his people'. I Love, dylid disgwyl gweld ymddangosiad corfforol Crist ar ddiwedd y byd pan ddaw i farnu:

By Christ's appearing here, is meant that glorious manifestation of Jesus Christ upon earth at that time, when he shall come at the last day to judge both quick and dead, those that are living at the day of judgment, and those that are already dead before that day (t. 32).

Dyma ei farn hefyd yn ei gyfrol *Souls Cordial* (1653), casgliad o'i bregethau a gyhoeddwyd wedi iddo farw. Yn y bregeth ar Ioan 14:3⁷³, yn ail hanner y gyfrol, mae'n rhybuddio'r darllenydd yn erbyn llyfrau sy'n dweud 'that CHRIST shall come from Heaven, and dwell a thousand yeares upon the Earth' (t. 71). Y llyfr oedd ar feddwl Love, heb os, oedd *The Personall Reigne of Christ Upon Earth* (1642) gan Henry Archer.⁷⁴ Roedd y llyfr hwn yn allweddol yn natblygiad y Bumed Frenhiniaeth, ac erbyn cyhoeddi *Souls Cordial* roedd y Blaid honno yn ei hanterth gyda Vavasor Powell a Morgan Llwyd yn gefnogwyr iddi yng Nghymru. Mae Love yn gwbl glir ei farn, a hynny oherwydd nad oedd modd cysoni'r farn honno â chynnwys y Beibl yn ei dyb ef: 'I shall quote expresse Scriptures, that Christ shall not come in person out of Heaven till his last coming to judge the World' (1653, t. 73). Yr adnod gyntaf a ddefnyddia i amddiffyn ei safbwynt yw Actau 3:21. Yng nghyd-destun yr adnod hon dywed Love:

The Milleners hold that the restitution of all things may be at the time of Christs Personall Reigne, but I shall shew you that this restitution of all things cannot be till Christs judging the world. First there cannot be a totall abolition of time in the World, at the thousand yeares, all things cannot be restored, for sinne bringeth the creature under a curse, it is apparent that it cannot be till christs last coming to judge the world (ibid.).

⁷³ 3 Ac os myfi a af, ac a baratoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun; fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd.

⁷⁴ Roedd Henry Archer hefyd yn cael ei adnabod fel John Archer.

Yn ôl Love felly, ni ddylid disgwyl yr Ailddyfodiad nes diwedd y byd pan ddeuai Crist yn ôl i farnu. Ni ddylid disgwyl ymddangosiad sydyn, llythrennol gan Grist er mwyn sefydlu Milflwyddiant, ond yn hytrach deuai Crist ar ôl gweld tri pheth yn digwydd. Gan gyfeirio at 1 Corinthiaid 15:23-24⁷⁵, meddai:

First, every man must rise, *vers.* 23. Now that cannot be at a thousand years, because they [y Milflwyddwyr] themselves hold this, that there shall onely be a Resurrection of the Martyrs, and here the Scripture saith, *that every man shall rise*, which cannot be till the day of Judgement (t. 77).

Yn ail, dylid ystyried diwedd y byd law yn llaw ag Ailddyfodiad Crist: 'Secondly, when Christ comes, then comes the end; the Apostle tells us of his coming and the end of the World; to note, that Christs coming and the end of the World shall be together' (ibid.). Yn drydydd:

He [Iesu Grist] delivers his Kingdome up to his Father, whereas if Christ should reigne a thousand years here, it could not be said to be giving up of a Kingdome but to the taking of a Kingdome into possession, he must resigne all to God the Father. When the Scripture is so expresse it is a wonder that men can fancy such fantastical thoughts that Christ must come as an Earthly monarch to reigne here a thousand years (ibid.).

Ond i Love, Hebreaid 9:27-28 yw'r adnodau tyngedfennol ac yng ngoleuni'r adnodau hyn mae'n 'argue against Christ coming to reigne upon the Earth for a thousand yeares' (ibid.). 'First, it is expresly in the Scriptures that Christs coming there spoken of, it referres to the day of judgment in *vers.* 27.' O ystyried yr adnod hon dywed Love na all Crist ddychwelyd i'r ddaear cyn y diwrnod hwn i deyrnasu oherwydd byddai ei ymddangosiad drachefn i farnu yn drydydd ymddangosiad:

⁷⁵ 23 Eithr pob un yn ei drefn ei hun: y blaenffwrth yw Crist; wedi hynny y rhai ydynt eiddo Crist yn ei ddyfodiad ef. 24 Yna y bydd y diwedd, wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad: wedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth.

then the Apostle must call that his third coming, there was but one coming which was from Heaven to the Wombe of the Virgin, and there is no other coming, but a second coming, that is to judgment, that is his second coming (t. 78).

Yng ngoleuni'r adnodau hyn â Love ymlaen i ddadlau nad yw'r syniad o deyrnasiad daearol Crist am fil o flynyddoedd yn cyd-fynd â'r syniad o'i Ailddyfodiad 'er iachawdwriaeth'. Dywed:

it cannot be said to our Salvation, if his coming were to reigne a thousand years upon the earth, it were onely a worldly way, but Christ comming it must referre to the last and great coming, wherein the World shall be judged, and the Soules of the Elect shall be saved (ibid.).

Mae Love yn argyhoeddiedig mai dyma ystyr yr adnodau, 'because the Scripture doth manifest that when Christ comes personally out of Heaven, there are such Concomitants of his coming that can be referred to no other time then his last coming to judge the World' (tt. 78-9). Y peth cydredol cyntaf yw'r ffaith fod y Beibl yn nodi pan ddaw Crist yn ôl, fe ddaw â'r Saint a'i angylion gydag ef. I Love, mae hyn yn brawf na ellir credu yn namcaniaethau'r Milflwyddwyr: 'Those that fancy Christs coming a thousand years, they cannot prove that Christ shall come with his Saints and Angells, for the Scripture that seemes to carry it that way, doth not speak of Angells and Saints coming' (t. 79). Yr ail ddigwyddiad cydredol â'r Ailddyfodiad yw casglu'r cyfiawn a'r anghyfiawn at ei gilydd er mwyn iddynt gael eu barnu gan Iesu Grist. Defnyddia Love 2 Thesalonaiad 2:9 i ddadlau ei achos yma. Dywed fod Ailddyfodiad Iesu a'r casglu ynghyd yn mynd law yn llaw â'i gilydd. Dyfynna Love Mathew 25:31-32 i atgyfnerthu'i safbwynt. Yng ngolwg Love, ni ellir cyfiawnhau safbwynt y Milflwyddwyr yng ngoleuni'r adnodau hyn: 'Those that pretend that Christ shall come to reigne a thousand yeares upon the earth, they cannot prove that then all shall bee gathered together, they onely pleade for the Martyrs, and none

else, therefore it cannot be referred to his coming to reign a thousand years' (t. 82). Y trydydd digwyddiad sydd i fynd law yn llaw â'r Ailddyfodiad yn ôl Love yw diwedd y byd. I Love mae 1 Corinthiaid 15:24 yn brawf o 'when Christ comes, then comes the end' (ibid.). Eto, ni ellir cyfiawnhau safbwynt y Milflwyddwyr yng ngoleuni'r adnod hon. Y pedwerydd digwyddiad i gyd-fynd â'r Ailddyfodiad fydd atgyfodiad y cyfiawn a'r anghyfiawn, ac yn olaf dylid disgwyl gweld iachawdwriaeth eneidiau'r etholedig. Rheswm pwysig felly pam na all Love dderbyn dysgeidiaeth y Milflwyddwyr yw bod y Beibl, iddo ef, yn nodi'n glir fod pum digwyddiad i fynd law yn llaw â'r Ailddyfodiad; ond o ddilyn dysgeidiaeth y Milflwyddwyr fod Ailddyfodiad corfforol Crist yn mynd i ragflaenu'r Milflwyddiant, nid yw'r digwyddiadau hyn yn mynd i ddigwydd adeg yr Ailddyfodiad. Felly, yng ngolwg Love, mae dysgeidiaeth y Milflwyddwyr yn anfeiblaidd a dylid ei gwrthod. Dyma enghraifft o'i bregethu a'i dadlau trefnus a rhesymegol, a'r cwbl yn seiliedig ar ei ddehongliad ef o'r Beibl. Nid yw Love yn cyflwyno dadl heb fod adnod ganddo i atgyfnerthu ei bwynt. 'When the Scripture speaks of Christ coming out of Heaven, the Scripture doth annex five Concomitants with it, that it cannot be true of Christs coming upon the Earth, but to come to judge the World' (t. 83).

Mae Love hefyd yn gwrthod dysgeidiaeth y Milflwyddwyr oherwydd pe deuai Ailddyfodiad corfforol Crist cyn y Milflwyddiant a phetai'n aros ar y ddaear am fil o flynyddoedd, 'it would be worse for Christ, and it would be worse for us then now it is' (ibid.). Ni allai Love dderbyn y ffaith y byddai'n rhaid i Grist adael y Saint a'r angylion yn y nefoedd a byw ymysg dynion pechadurus ar y ddaear. Pe bai Crist yn dychwelyd i'r ddaear, yna byddai hyd yn oed y Saint ar y ddaear ar eu colled oherwydd byddent yn colli 'Christs everlasting Intercession'. Hynny

yw, yn ôl Love ac yn unol â Hebreaid 8:4⁷⁶, pe bai Crist yn dychwelyd i'r ddaear byddai'r Saint yn colli bendithion Offeiriadaeth Crist. Dyna, felly, resymau Love dros beidio â chredu yn Ailddyfodiad corfforol Crist i deyrnasu am fil o flynyddoedd ar y ddaear.

Â Love yn ei flaen i bwysleisio yr 'Incongruities and Absurdities' a ddaw o gredu yn Ailddyfodiad corfforol Crist cyn ei deyrnasiad daearol milflwyddol. Y cyntaf yw obsesiwn Milflwyddwyr i bennu dyddiad penodol i'r Ailddyfodiad. Mae Love yn atgoffa'r gwrandawyr, 'Christ saith, none in the World can tell' pan ddaw Crist yn ôl i deyrnasu. Yr ail beth sy'n gwneud milflwyddiaeth yn 'absurdity' i Love yw'r ffaith y byddai Ailddyfodiad a theyrnasiad corfforol Crist yn peri iddo weld eisiau cymdeithas â'i Dad Nefol. Dywed, 'Crist hath more hapinesse in the imediate enjoyment of his Father in Heaven, then hee can have here upon Earth' (t. 86). Yn drydydd, petai Crist yn dychwelyd am fil o flynyddoedd, yna byddai'n gadael yr eglwys daearol mewn cyflwr gwaeth ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Seilia Love ei ddadl ar Datguddiad 20:5-8. Wedi'r mil o flynyddoedd gollyngir Satan yn rhydd a bydd yntau yn dinistrio 'multitudes of the godly' (t. 87). Dadl arall sy'n profi mai ffwlbri yw cred y Milflwyddwyr yn ôl Love yw'r ffaith fod rhaid credu mewn tri dyfodiad er mwyn dilyn eu dadl, sef yr Ymgnewdoliad, yr Ailddyfodiad i'r ddaear i sefydlu'r mil o flynyddoedd ac yna trydydd dyfodiad i farnu'r ddaear, 'but the Scripture makes but two comings of Christ' (ibid.). Yn ogystal â hyn, o gredu yn nyfodiad Crist i'r byd i deyrnasu am fil o flynyddoedd

this incongruity will follow, that either the Saints and Angells must come, or not come with Christ; if they must come with Christ, then it is a losse to them, for them to come to leave the imediate [*sic*] presence of God, and come upon the Earth where wicked men shall be amongst them (t. 88).

⁷⁶ 4 Canys yn wir pe bai efe ar y ddaear, ni byddai yn offeiriad chwaith; gan fod offeiriad y rhai sydd yn offrymu rhoddion yn ôl y ddeddf:

Ar y llaw arall, os na ddônt gyda Crist, byddant yn hiraethu am bresenoldeb Crist am fil o flynyddoedd.

I Christopher Love, mae Ailddyfodiad Crist i deyrnasu'n ddaearol yn achosi problemau oherwydd natur Teyrnas Duw. Dywed:

if Christ shall come to reigne upon Earth, then Christs Kingdom must be a worldly & terrene Kingdom, then it will be against the Word of God, he must be a visible King to the Jewes, and a visible King to all the World besides; this would follow then that Christs Kingdome must not be a spirituall Kingdome, but a Terrene, a Worldly pompous Kingdome (ibid.).

I Love, mae hyn yn gwbl anysgrhythurol gan fod Ioan 18:36 yn dysgu mai teyrnas ysbrydol yn hytrach nag un ddaearol yw un Crist. Iddo ef, felly, mae cred y Milflwyddwyr yn nheyrnasiad daearol Iesu Grist yn brawf nad ydynt yn credu ym mrenhiniaeth nefol Crist. Hynny yw, mae Love yn dweud nad yw Milflwyddwyr yn credu fod Iesu yn Frenin yn y nefoedd ac nad oes ganddo deyrnas ar hyn o bryd nes ei Ailddyfodiad. Cawn yr argraff mai dyma'r rheswm pennaf pam na all Love ddilyn dysgeidiaeth y Milflwyddwyr, oherwydd iddo ef mae Iesu Grist yn Frenin:

When hee was in the Cratch and borne in the Stable, hee was a King at that very houre [...] The Apostle referres it to *Christs* Birth and *Christs* Resurrection. *Christ* when hee arose from the Dead hee was a king then, and the Gospell under *Christs* time is called a Kingdome [...] Christ was a King, though hee would not be an Earthly King to destroy Earthly Governments, Therefore when the people in a tumult would have made him a King, yet hee would not [...] Hee was a King, when hee was on that slow contemptible creature [asyn], so that now to say *Christ* shall come to reigne as King, it is to intimate to the World, as if *Christ* were not a King at this day, and whereas hee is King of Kings, and Lord of Lords in heaven, therefore cannot come a thousand yeares to reigne on the Earth (tt. 89-90).

Wedi rhestru'r 'Incongruities and Absurdities' uchod, mae Love yn mynd yn ei flaen i restru adnodau sy'n sail i gred y Milflwyddwyr ac yna'n chwalu eu dadleuon. Cyfeiria at Datguddiad 20:2-6, 2 Pedr 3:7-13, Daniel 2:44, Effesiaid

5:5 a Mathew 26:29 fel adnodau sy'n sail i gred y Milflwyddwyr, ac yn rhesymegol ac yn drefnus â Love drwyddynt gan ddangos sut, yn ei farn ef, y mae dehongliad y Milflwyddwyr yn anysgrhythurol.

I Love, nod ac amcan y Cristion yw peidio â disgwyl ymddangosiad corfforol Crist, ond 'to have Jesus Christ as King to reigne in your hearts by mortification, to rule in thy Heart by his Spirit, to Mortifie thy head-strong lusts that are in thee' (t. 110) Yn ogystal â hyn, dylid 'labour to have Christ to reigne in his Church by a well-ordered Discipline, that the Government of Christ may be established in the place where you dwell' (ibid.) Gan na ddylid disgwyl ymddangosiad Crist tan y Farn Olaf, 'doe not trouble your selves about Niceties, and Obscurities, about his coming upon the Earth, but labour to be fitted and prepared for his last and great coming' (ibid.).

Mae Love hefyd yn cwestiynu ymddygiad y Milflwyddwyr:

if Christ should come to reigne upon the Earth, which the Scripture no ways speaks of, then certainly the Saints of these times they doe make but a bad preparative for Christs reigne, men that doe impale Saintship, and monopolize Saintship unto themselves, and say they are the people of God; The Church of Christ and the Saints of Christ, they make but a bad preparation for Christs coming, to live in sensuality as they doe, and comit such wickednesses as they doe upon the Earth (ibid.).

Ym marn Love, nid oedd ymddygiad y Milflwyddwyr yn cymell Iesu Grist i ddod i deyrnasu ymysg Cristnogion oherwydd roeddynt yn ymddwyn mewn modd oedd yn 'scandall to Saints, a scandall to Religion, and would be a scandall to that thousand yeares of Christ if hee should come to reigne' (t. 111).

Dyna a ddywed Love am y gred y daw Iesu Grist i deyrnasu ar y ddaear gyda'r Saint am fil o flynyddoedd cyn diwedd y byd. Fodd bynnag, roedd Love yn gwbl glir a sicr ei gred fod yr Ysgrythur yn tystio i Ailddyfodiad corfforol Iesu

Grist ar ddiwedd y byd. I Love, o ddarllen yr Ysgrythur, mae chwe nodwedd i

Ailddyfodiad Iesu Grist:

First, hee shall come *certainly*.
Secondly, hee shall come *personally*.
Thirdly, he shall come *visibly*.
Fourthly, hee shall come *gloriously*.
Fifthly, hee shall come *terribly*.
And sixthly, hee shall come *unexpectedly*. (ibid.).

Mae Iesu Grist yn sicr o ddychwelyd gan fod yr Ysgrythur yn dysgu hyn, e.e. Actau 17:31 a Mathew 26:64. Pan ddaw, bydd yn ymddangos yn bersonol ac yn gorfforol. Mae Love yn cyfeirio at Origen (o.c. 183/84–253/4) a'i gred mai rhywbeth haniaethol oedd Ailddyfodiad Iesu Grist. Mae Love yn anghytuno ag Origen gan bwysleisio y dylid disgwyl gweld Iesu Grist yn dychwelyd yn gorfforol. Eto, mae Love yn selio'i gred ar yr Ysgrythur, e.e. 1 Thesalonïaid 4:17. Bydd yr Ailddyfodiad sicr a phersonol hefyd yn un weledol. I Love mae Actau 1:11 yn brawf o hyn ac felly hefyd Mathew 26:64 a Mathew 24:30. Yn ôl Love, 'All men shall see the glory of *Jesus Christ*, the wicked shall see him to their Amazement, and consternation, and the godly shall see him to their joy, and Consolation (tt. 116-17).

Yn ogystal â bod yn ymddangosiad sicr, personol a gweledol, yn ôl Love bydd Ailddyfodiad Iesu Grist yn ymddangosiad gogoneddus:

and there shall bee many things that shall make the coming of Christ to be a glorious coming, he shall come in the clouds, these glorious bodies shall be the triumphant and swift Chariots of the Sonne of God, wherein he will come to judge the World; And his Attendants shall make him glorious (t. 117).

I Love mae Daniel 7:10, 2 Thessalonïaid 1:7, Mathew 24:30 a Mathew 16:27 yn brawf o Ailddyfodiad gogoneddus Crist, a hyn o'i gymharu â'i ddyfodiad cyntaf i'r byd. I Love, daeth Iesu Grist yn gyntaf ar ffurf caethwas - Philipïaid 2:7 - ond

yn ei Ailddyfodiad daw mewn gogoniant a mawredd Brenin. Pan ddaeth yn gyntaf, nid oedd ganddo neb i weini arno, ond adeg ei Ailddyfodiad bydd y Saint a'r angylion yn gweini arno. Pan ddaeth yn gyntaf, roedd yn gwisgo cadachau baban, ond yn ei Ailddyfodiad, 'he shall be as it were cloathed with the Clouds of Heaven' (t. 118). Pan ddaeth i gario a chario ac yn cynrychioli holl bechodau a chamweddau dynol-ryw:

But the second time, hee shall come without sinne, hee shall not have our sinnes by imputation cast on him, because when hee comes againe hee shall make a totall Abolition of sinne; Therefore there needs no imputation of our sinnes upon *Jesus Christ*. Thus you have a fourth way of coming, hee shall come *Gloriously* (ibid.).

Nodwedd arall o Ailddyfodiad Crist fydd natur ofnadwy y digwyddiad. I Love, mae Eseia 13:9 a Datguddiad 6:17 yn brawf o hyn. Nodwedd olaf Ailddyfodiad Iesu Grist i Love yw'r ffaith y daw yn ddirybudd. Serch hyn, noda Love y dylid disgwyl gweld pethau penodol yn digwydd cyn yr Ailddyfodiad, megis 'the powers of Heaven shall be shakened, the Sun, Moone and Starrs shall be darkened [...] but beloved the coming of Christ shall be when men are not aware of it' (t. 120).

Â Love ymlaen i gymhwyso'r athrawiaeth. Y cymhwysiad pennaf i Love yw y dylai'r athrawiaeth achosi arswyd ac ofn yng nghalonnau dynion. Yn gyntaf, dylai'r Ailddyfodiad achosi arswyd ac ofn yng nghalonnau dynion drygionus, 'because first all the secrettest sinnes that ever a wicked man hath comitted in this World, they shall be made manifest to all' (t. 121). Mae Love hefyd o'r farn fod yr Ailddyfodiad i greu arswyd ac ofn yng nghalon y Cristion. Dywed fod Iesu Grist, adeg ei Ailddyfodiad, yn mynd i farnu gormeswyr y tlawd a'r anghenus, Cristnogion sy'n poeni mwy am bethau materol na'u ffydd yng Nghrist, Cristnogion sy'n byw yn afradlon a dynion sydd heb gariad

gwirioneddol tuag at Grist. Dengys hyn fod gan Love gonsyrn gymdeithasol. Mae Love hefyd yn rhybuddio dynion sydd heb ildio i'r efengyl, sydd yn wrthwynebus i grefydd ac sy'n gwatwar duwioldeb. Mae'r Ailddyfodiad hefyd yn peri arswyd yng nghalonau pobl sydd heb brofi gras, dynion sy'n byw i drachwantau'r cnawd a'r byd, yn bennaf godinebwyr, meddwon, rhai sy'n rhegi, yn torri'r Saboth ac yn puteinio. Yn olaf, mae Love yn dweud yn blwmp ac yn blaen:

Christs coming againe it is dreadful to all men, who live and strengthen themselves by popular tumults and insurrections; In oposing [*sic*] and destroying of a lawfull Magistracy, that have destroyed Judges, Rulers, Governments, it will be a woefull time to them (t. 130).

Heb os nac oni bai, rhybudd a neges i Cromwell a'i blaid yw hyn, am iddynt hwy godi yn erbyn y Goron, disodli'r Eglwys Wladol a gosod eu system unbeniaethol hwy eu hunain yn ei le. Eglura Criddle i John Owen (1616–1683), diwinydd mwyaf yr Annibynwyr, 'preached before the House of Commons, and showed that according to his view the preparation for the kingdom of Christ was to be by the destruction of monarchy' (1933, t. 202). Byddai'r fath agwedd wedi bod yn wrthun i ddyn fel Love. Dywed Love, 'Men that under pretence of power and the like, shall trample downe Rule, Government, Authority and Dignity, but the Lord hath another day to judge them that will not be judged here, hee will judge them with a chiefly [judgement]' (tt. 130-1).

Mae'n amlwg o sylwadau Love ei fod yn gwbl wrthwynebus i filflwyddiaeth, yn enwedig milflwyddiaeth dreisgar Plaid y Bumed Frenhiniaeth. Dywed Criddle yn gywir, 'Love did not agree with the Jewish idea adopted by this sect that the Messiah would return to the earth to establish a kingdom in which He would rule in righteousness, with great majesty, triumphing over His enemies' (1933, t. 206). I Love, dylid disgwyl Ailddyfodiad Iesu Grist ar ddiwedd

y byd er mwyn barnu pawb pan ddaw yn gorfforol gyda'r Saint a'r angylion i achub eneidiau'r etholedig a chosbi'r anghyfiawn. Ni phoenai am geisio pennu dyddiad i'r Ailddyfodiad gan mai megis lleidr yn y nos y deuai a dylid talu'r sylw pennaf i sicrhau fod Iesu Grist wedi dyfod mewn modd ysbrydol i galonnau'i wrandawyr. Yr hyn a gawn yng ngwaith Love yw gwaith 'theological, with a very distinct practical basis' (Jones, 1932, t.162). Tröedigaethau, gan bwysleisio Brenhiniaeth Crist a chyflwr tragwyddol yr enaid wedi'r Farn, ynghyd â phwyslais ar fywyd sanctaidd Cristnogol tra ar y ddaear hon, oedd prif fyrdwn Love. Er ei fod yn dangos peth gonsyrn cymdeithasol, nid yw'n rhoi pwyslais ar genhadaeth byd-eang ac nid yw'n cyfeirio at droedigaeth yr Iddewon. Mae hyn yn gosod Love ar wahân i'r holl Biwritaniaid Cymreig eraill, hyd yn oed Cradock, Thomas a Roberts, nad oeddynt yn arddel milflwyddiaeth gryf.

Rhyfedd felly yw cynnwys *The Strange and Wonderful Predictions of Mr. Christopher Love* oherwydd yr hyn a gawn yn y gyfrol hon yw cyfres o broffwydoliaethau a broffwydodd Love ddeng niwrnod cyn ei ddienyddio a dywedir bod ei gyfeillion agos yn llygad dystion i'r proffwydoliaethau a dderbyniodd. Cwynai y cyfeillion am greulondeb y cyfnod, ond ymateb Love oedd, 'And think you this is an evil time? No, no; this is the very time when grace and true godliness can be distinguished from hypocrisy' (t. 3). Â Love ymlaen i ddweud fod y cyfnod yn un 'to discern between him that serveth God, and him that serveth him not' (t. 4) gan ychwanegu 'the spirit of the Lord causeth me to utter' (t. 5). Ceir ganddo saith proffwydoliaeth, sef:

1. 'This usurped authority, now in the hands of Cromwell, shall shortly be at an end.'
2. 'England shall be blessed with meek kings and mild governments.'
3. 'Powerful preachers and dull hearers, good sermons to them will be as music to a sleepy man. They will not hear but not understand, nor lay the Word to heart to practice it in their lives, to walk by it.'

4. 'O England, thou shalt wax old in wickedness. Thy sins abound like those of Sodom, they voluptuousness shall cry aloud for vengeance.'
5. 'They shall threaten and chastise thee, yet in mercy and love will He look on those that fear Him and call upon His name. He will spare and save them alive in the day of His anger, when the wicked shall be sifted from amongst you as the chaff is sifted from among the wheat.'
6. 'For out of thee, O England, shall a bright star arise, whose light and voice shall make the heathen to quake and knock under with submission to the gospel of Jesus. He shall be as a sound of thunder in the ears of the wicked, and as a lantern to the Jews to lead them to the knowledge of Jesus, the only Son of God, and the true Messiah, whom they so long mistrusted.'
7. 'For the short work spoken of by the apostle, which the Lord is to make upon the earth in the latter age of the world cannot be far off. Observe, my dear friends, while you live, my calculations of the dates in the book of Revelation, and in Daniel, which the Spirit of the Lord led me into, for the Lord will reveal it to some of His own ere that time come. For the nearer the time is, the seals shall be taken away, and more and more shall be revealed to God's people, for the Lord doth nothing without He reveals it by His Spirit to His servants, the prophets. [...] I do not mean now that any new prophet shall arise, but the Lord by His Spirit will cause knowledge to abound among His people, whereby the old prophecies shall be clearly and perfected understood.' (tt. 5-6)

Â Love i broffwydo y bydd daeargrynfeydd mawr yn 1779, rhyfeloedd yn yr Almaen ac America yn 1780, diwedd Pabyddiaeth yn 1790 a diwygiad cyffredinol yn 1795. 'The stars will wonder, and the moon turn as blood, in 1800. Africa, Asia, and America, will tremble in 1803.' Yna,

A great earthquake over all the world, in 1805. God will be universally known to all: Then a general reformation, and peace for ever, when the people shall learn war no more. Happy is the man that liveth to see this day! (t. 7).

Er mor ddiddorol yw cynnwys y gyfrol fechan hon, sydd hefyd yn cynnwys proffwydoliaeth gan Pierre Jurieu am y Chwyldro Ffrengig, ni ymddangosodd y gyfrol tan ail hanner y ddeunawfed ganrif, ac o ystyried mor wahanol oedd dysgeidiaeth Love am y Milflwyddiant yn ei bregethu o gymharu a'i 'proffwydoliaethau' yn y gyfrol hon, rhaid eu diystyru fel gwaith ffuglennol.

I grynhoi, felly, dyn ei gyfnod a'i amser oedd Christopher Love, a'r cyfnod hwnnw'n un o chwildroad gwaedlyd. Bu'n ganolog yn nhrafodaethau peryglus y

Presbyteriaid wrth gynghreirio â Phresbyteriaid yr Alban i geisio gorseddu Siarl II a hynny ar ôl iddo golli pob ffydd ac ymddiriedaeth yn Oliver Cromwell. Roedd Love yn gwbl glir ynghylch ei gredoau yn yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant. Digwyddiad yn perthyn i ddiwedd y byd oedd yr Ailddyfodiad. Roedd yn Bresbyteriad pybyr ac yn wrthwynebus i'r Annibynwyr a'r sectau, ac yn ei gyfrol, *Souls Cordial*, gwelwn ef yn beirniadu credoau'r milflwyddwyr yn hallt. Nid yw Ailddyfodiad Iesu Grist i sefydlu'r Milflwyddiant yn gwneud unrhyw fath o synnwyr Beiblaidd iddo. Dim ond adeg yr Ailddyfodiad corfforol ar ddiwedd y byd y mae'n disgwyl i bethau mawrion ddigwydd, megis atgyfodiad pawb, Dydd y Farn a Iesu Grist yn rhoi ei deyrnas i'w Dad. Un Ailddyfodiad sydd i'w ddisgwyl, a hynny'n sicr yn un personol, gweledol, gogoneddus a sydyn. Nid yw Love yn disgwyl gweld Milflwyddiant yn cael ei sefydlu ar y ddaear cyn nac ar ôl yr Ailddyfodiad.

O ystyried hyn, beth oedd oblygiadau cymdeithasol credoau Love ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant? Gwleidydd y llysoedd, y gorseddleoedd a chynghreirio oedd Love. Rhyfel a aeth â'i fryd yn 1645 er mwyn gallu disodli Esgobyddiaeth, a bwrw ati i gynllunio yn erbyn Cromwell a wnaeth yn 1653. Y rheswm yr ymgyrchodd i ddiorseddu Esgobyddiaeth oedd er mwyn hwyluso'r ffordd i Bresbyteriaeth gymryd ei lle. Rhybuddiai y byddai'r Ailddyfodiad yn frawychus ond nid oes tystiolaeth yn *Englands Distemper* nac yn *Souls Cordial* bod hyn wedi esgor ar fyrdwn arbennig dros genhadaeth rhyngwladol tuag at y diwrnod hwnnw. Cymeriad tanllyd ac aflonydd oedd Christopher Love a chwaraeodd ran arwyddocaol yng ngwleidyddiaeth gynhyrfus y dydd. Yr argraff a geir yw mai gwleidyddiaeth oedd yn mynd â'i fryd, a'i fod yn gweld rhyfel fel modd i ddatrys problemau gwleidyddol a chrefyddol.

Rhyfedd meddwl mai tad ysbrydol Love oedd Erbery. Dywed Love ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth:

As for Master Erbury, though he is fallen into dangerous opinions, yet, he my spirituall Father, I do naturally care for him, as Timothy did for Paul, my heart cleaves to him in love, more than to any one man in the World (1651, t. 36).

Mae'n ddi-ddorol fod Love ac Erbery wedi datblygu credoau cwbl wahanol i'w gilydd ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant ac ar fater eglwysyddiaeth. Prawf, efallai, o natur gymhleth, chwyldroadol a radical y cyfnod. Er mai yn Lloegr y gweinidogaethodd Love, ac er nad oes unrhyw dystiolaeth wedi dod i'r golwg eto sy'n dangos fod ganddo unrhyw fath o fyrdwn neilltuol dros Gymru a'r Cymry, mae'n enghraifft arall o natur trawsnewidiol a chymysglyd Piwritaniaeth Gymreig sy'n dangos eto nad mudiad unffurf o gwbl ydoedd.

4. John Lewis (fl. 1646–1656)

Gwyddom i John Lewis gael ei eni yn fab i James a Mary Lewis yn Glascrug, Llanfarian ym mhlwyf Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. Roedd yn Bresbyteriad a alwodd ar ei gyd-Gymry i dderbyn y cyfamod rhwng y Presbyteriaid a'r Albanwyr yn ystod blynyddoedd cynnar y Rhyfel Cartref. Roedd yn Ynad Heddwch yng Ngheredigion ac yn 1650 fe'i apwyntiwyd yn un o gomisiynwyr Deddf Taenu.

The Parliament Explained to Wales (1646)

Yn ôl Lewis ei hun, 'a Gentleman, a cordiall Well-wisher of his Countries happiness' yw awdur y llyfr hwn. Mae o'r farn fod Duw yn gweithio mewn modd pwerus yng Nghymru: 'God's great mercies and deliverances towards us, have no small affinity with theirs [Israel]' (t. 9). Gwêl y Senedd fel y 'great champions of his [Duw] name and glory' (t. 11). Ar y llaw arall, 'damnable monsters' yw

gelynyon y Senedd ac maent wedi achosi i'r boblogaeth anghofio gorchmynion Duw (ibid.). I Lewis, y Senedd yw'r 'wholsome physick to an ill desperate body' (t. 12), gan ddilyn yr un ddelwedd a ddefnyddiodd Love yn *Englands Distemper*, ac mae'n disgwyl gweld Duw yn defnyddio'r aelodau mewn modd grymus yn y dyfodol agos: 'I make no doubt but the Lord will raise those, whose pens will set forth the glory of his acts in these our dayes, which truly (well considered) are little inferior to his wonders of old' (ibid.). Â Lewis ymlaen i esbonio dechreuadau'r Senedd, cynnydd y Senedd 'in arms' (t. 13) ac yna ei chyflwr presennol. Rhybuddia na ddylai'r Senedd chwennych pŵer daearol er mwyn gallu bod yn gyfrwng i wneud gwaith Duw: 'the Parliament must be broken in their outward power, that the work may more sensibly appeare to have only proceeded from God' (t. 14).

'Mercies of God' oedd buddugoliaethau milwrol y Senedd i Lewis (t. 15). O ystyried y buddugoliaethau hynny, daw Lewis i'r casgliad, 'that doubtless the Lord hath some great thing or other a hatching, and to bring into the world; and if so, what can the world behold more likely for such a designe, then this awefull engine, the Parliament of England' (tt. 16-17). Yn wir, awgryma Lewis mai trwy'r Senedd y sefydlir teyrnas Crist ar y ddaear:

I am no prophet, but I dare say with confidence and modisty, that this great thing, the Parliament of England may be a means that God hath ordained in eternall wisdom not only to shake Rome but even the Turkish Empire, and put up the Kingdom of His Son Iesus Christ in all the world' (t. 17)

Mae'n credu hyn am dri rheswm. Yn gyntaf, dywed Lewis mai caethiwed a dallineb ysbrydol dyn sy'n achosi llwyddiant i'r Anghrist a'r Twrc. Ym marn Lewis, 'what fairer means canst thou imagine to shake off slavery and blindness, then the course the Parliament drives at?' (ibid.). Gall y Senedd, felly, fod yn fodd i achub dynion o'u caethglud a'u goleuo yn eu dallineb, a thrwy

hynny hyrwyddo dyfodiad Teyrnas Crist. Yn ail, mae'n nodi fod 'the Lord hath evermore singled out this land, as a scene where to act any great matter of his glory' (ibid.). Yn y cyswllt hwn mai Lewis yn arddel y Ddamcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd, gan ddweud mai ym Mhrydain y gwelwyd 'the first-born Church', gan fod y 'Christian faith did (as it were) post over other regions to come hither first'. Yna, 'when Christendome fell into a deep sleep of idolatry and superstition, hence must spring a [John] Wycliffe to awaken it' (ibid.). Gan fod Duw wedi bendithio Prydain yn y gorffennol, byddai'n siŵr o barhau'n ffyddlon a gweithio i berffeithio'r Diwygiad Protestannaidd yn y wlad, a hynny drwy gyfrwng gwaith y Senedd, a'i obaith wedyn yw y bydd dylanwad y gwaith hwnnw yn lledu trwy'r byd. Yn drydydd, ac yn bwysicaf i'n hystyriaeth ni, mae Lewis o'r farn bod y Senedd yn gyfrwng i gyflymu dyfodiad y Milflwyddiant: 'It were not amisse to observe, that it is the guesse and expectation of many of God's children, that the Kingdome of Christ will appeare now in the later end of the world, in greater glory then ever it did' (ibid.). Nid yw Lewis yn derbyn y gred y daw Iesu Grist yn gorfforol ac yn llythrennol i sefydlu'r Milflwyddiant: 'I am no maintainer of a temporall and personall reign of our Saviour upon earth, 'though (for ought I can see) it is an opinion that contains nothing but consolation to God's children' (tt. 17-18). Mae Lewis yn disgwyl gweld 'the extension and amplitude of the Church' ar y ddaear cyn yr Ailddyfodiad, yn unol â'i ddehongliad ef o broffwydoliaethau Eiseia a'r proffwydi eraill (t. 18).

Yn ogystal â thystiolaeth y Beibl, dywed Lewis fod dynion ym mhob oes, trwy ysbrydoliaeth ddwyfol, wedi rhagweld 'a most happy state of the Church in the later times' (ibid.). Tyn sylw at y ffaith fod John Foxe yn *The Actes and Monuments* yn cyfeirio at Bridget o Sweden, Katherine Senensis, John Huss, Girolamo Savanorola ac eraill – pob un yn eu dydd yn ymgyrchu dros ddiwygio'r

eglwys ac yn gweld dyddiau gogoneddus yn dod i'w rhan maes o law. Mae Lewis yn gweld y Senedd yn cyflawni ac yn perffeithio gwaith y bobl hyn: 'our eyes seeing the great work of these times, so much tending to the accomplishment of these things we cannot but admire the Lord, and acknowledge this Parliament, not wholly a device of man' (t. 19).

Ar ddiwedd yr adran ar hanes y Senedd ceir cyfeiriad at berthynas Cristnogaeth a Mwslemiaeth. Wrth ystyried ei obaith am gyfnod euraid i'r eglwys yn yr oes bresennol mae Lewis yn gofyn y cwestiwn: 'But how may this be, seeing the Turk is likeliest to be the great master of the world, and at this present looks terribly towards Christendom?' (t. 20). Ateb Lewis yw: 'This may prove a flash of lightening before his ruine.' Awgryma y bydd cryfder y Mwslemiaid yn fodd 'to procure peace [and] charity among Christians, which is seen to be but too miserably wanting', wrth iddynt uno yn erbyn gelyn cyffredin, a'i anogaeth yw: 'Let us everyone kill the Turks at home, his crying bosome sins, and we shall be surely able to cope with him abroad' (ibid.). Mae'r ymateb yma yn frawychus ac yn wrthun i ni heddiw, ac mae'n anodd penderfynu yn bendant ai lladd Mwslemiaid yn llythrennol yr oedd Lewis yn ei argymell neu a yw y 'Twrc' yn cynrychioli unrhyw rym gelyniaethus tuag at yr efengyl. Rwy'n amau fod y ddau beth yn wir. Â Lewis ymlaen i ddweud, 'let us do our parts, and God will surely do his, and in his good time put his hook in this Senacheribs nose' (ibid.). Brenin Assyria rhwng 705–681 CC oedd Senacherib. Roedd yn elyn i'r Israeliaid ac fe'u caethiwodd. Trwy gyfeirio at Senacherib mae'n bosibl mai ymbil am ddymchwel a gorchfygu'r caethiwed ysbrydol â achosir gan bwerau ysbrydol drwg (Senacherib) y mae'r Saint (yr Iddewon) yn ei brofi a wna Lewis; ond y mae'n dweud ar ddiwedd y paragraff fod y Twrc, er gwaethaf ei 'present greatnesse', megis 'Tom Thumb against Christ and his Kingdome' yn

awgrymu efallai mai grym milwrol daearol sydd gan Lewis mewn golwg yn benodol yma.

Yn yr ail adran, lle mae Lewis yn ceisio amddiffyn y Senedd yn erbyn amheuwyr, eglura nad codi arfau yn erbyn y Brenin a wnaethant, ond 'in his, and in the Kingdom's defence, against a malignant party' (t. 21). Pwysleisia hefyd fod cyfrifoldeb ar Gristnogion i godi arfau os 'our Masters credit and honour is touched' (t. 22). Ond mae'n mynnu nad annog gwrthryfel a wna, ond yn hytrach 'to take off that error that court-divinity obtruded upon us, that in no case whatsoever arms are to be medled with, be God's glory, and conscience ever so much concerned' (ibid.). Mae Lewis hefyd yn ceisio esbonio'r tensiwn parhaus rhwng teyrngarwch i'r Brenin ar y naill law, ac i Dduw ar y llaw arall: 'I do think that our loyalty and obedience to Kings, is alwayes subordinate to God, and we should through them alwayes looke upon Him' (t. 23). Dywed Lewis ei bod hi'n well cael eich cyfrif yn fradwr i'r Brenin na bradychu Duw.

Yn y drydedd adran mae Lewis yn troi ei sylw at gyflwr Cymru. Mae'n goeglyd ei agwedd wrth ddweud fod y Cymro yn ei ystyried ei hun yn Brotestant da, dim ond iddo ddarllen y Llyfr Gweddi Gyffredin rywsut-rywsut neu wrando ar 'wretched sermon now and then, and that either by an ignorant, or scandalous minister, or both' (t. 30). Mewn nodyn ar ymyl y ddalen dywed, 'In many places not a sermon scarce once a yeare' (ibid.). Honna fod y Cymry yn ymarferol yn dal yn Babyddion, neu yn waeth, heblaw am rai uchelwyr a gwŷr addysgedig. Meddai ymhellach, wrth eu hatgoffa o'r hyn oedd hanfod Pabyddiaeth yn ei dyb ef, fod 'swarm of blinde, superstitious ceremonies [...] among us, passing under the name of old harmless customs' (ibid.). Serch hyn, dywed Lewis, 'the Lord is in hand to do great things for us' (t. 31). Mae ganddo'r hyder i ddweud hyn oherwydd bod Duw eisoes wedi gweithio mewn ffyrdd grasol yng Nghymru. Yr

enghraifft gyntaf mae'n ei nodi yw bod y Cymry wedi cael eu trin yn fwy caredig na'r disgwyl gan fyddin y Senedd: 'We were not such friends to the Parliament as to have so good dealing and quarter as we have had [...] when we deserved a whipping, He gives the rod to our friends hands' (ibid.). Yr ail enghraifft yw am fod y Beibl wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg ac ar gael yn awr o fewn cyrraedd y bobl trwy Feibl Bach 1630. Yn ganlyniad, 'In some places of Wales the Gospel doth already kindle', ac yn enwedig 'by the worthy and godly endeavour of Mr. Cradock' (ibid.). Ychwanega Lewis mewn troed-nodyn fod Cradock yn bwriadu cyhoeddi'r Testament Newydd yn Gymraeg mewn cyfrol fechan, a fydd 'of much use in short time to introduce the knowledge of the Gospel among us' (ibid.). Y drydedd ffordd y mae Duw wedi gweithio eisoes yng Nghymru yn ôl Lewis yw drwy gyhoeddi llyfrau defosiynol yn y Gymraeg, ac mae'n nodi'n arbennig bwysigrwydd geiriadur Dr John Davies, Mallwyd. Yn bedwerydd, mae Lewis yn cyfrif y ffaith fod y Gymraeg yn iaith fyw yn arwydd o fendith Duw ar ei wlad 'after so many conquests of us, and attempts to extinguish it' (t. 32). Os yw Duw wedi cadw'r Gymraeg yn fyw mewn ffordd mor ryfeddol, mae wedi'i chadw er mwyn iddi ei ogoneddu Ef ac er mwyn i'r Gair gael ei phregethu drwyddi (ibid.).

Gyda Duw eisoes wedi bendithio Cymru i'r fath raddau â hyn, 'who knowes then, but we may recover our ancient blessing, and become as famous for Christianity at the last as were at first?' (ibid.). Gwelwn Lewis yma eto yn arddel y Ddamcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd. Dywed fod pregethu'r efengyl, athrawiaeth gywir, ffydd fywiog ac addoliad pur wedi ffynnu yng Nghymru yn y dechrau, ac o'r herwydd mae'n gyfrifoldeb arnom i fanteisio ar y cyfle presennol ac ymdrechu i ailsefydlu'r rhinweddau hynny yn ein plith. Gobaith Lewis yw bod y Cymry 'still retain something of [our ancient progenitors'] noble and Christian genius', er bod 'that dark cloud of superstition which came from Rome, and then

darkened their light, is still to this day undispeled, and hinders us from the primitive light of the Gospel' (t. 33). Mae Lewis yn pwysu a mesur yr hyn a wêl o'i gwmpas ac yn dod i'r casgliad fod Duw yn darparu 'materials to reare up his Gospel among us' (t. 34). Sylweddola fod sychder ysbrydol yn nodweddu Cymru, ond mae'n ffyddiog ei fod yn clywed 'abundance of rain' ar y gorwel.

Dywed:

so after this great famine of the Word (blessed be God) we do now at last (me thinks) as it were, ken a little cloud rising like a mans hand, and that ere while the Heavens will grow black with clouds and wind, and we shall have a great rain and the Lord of the harvest will give a plentiful increase (ibid.).

Yng ngoleuni ei hyder fod cyfnod o fendith ar fin dod, mae Lewis yn annog y Cymry i ymroi i Dduw ac i gefnogi aelodau'r Senedd. Pan ddaw'r efengyl yn rymus, bydd yn puro'r eglwys a'r wladwriaeth. I Lewis, yr unig ffordd o sicrhau fod yr efengyl yn dod i'n plith yng Nghymru yw dod o hyd i ffordd o hyrwyddo'r weinidogaeth Gristnogol, a'r ffordd orau o wneud hynny, meddai, yw 'by founding some solemn places in Wales for the profession of the more necessary kind of arts and good literature [...] such a course would prove a notable encouragement to our countries' (tt. 34-5). Dyma Lewis yn galw am sefydlu prifysgol yng Nghymru. O gael prifysgol yng Nghymru a thrwy fendith yr efengyl, 'few yeares would afford us a goodly number fit to serve at the altar' (t. 35). Roedd Lewis, y mae'n amlwg, yn rhoi pwys mawr ar addysg, ac ar addysg ddiwinyddol yn arbennig, fel cyfrwng a allai wella cyflwr ysbrydol ei wlad.

Some seasonable and modest thoughts (1656; ail argraffiad 1659)

Cyflwynodd Lewis yr argraffiad cyntaf, yn 1656, i Oliver Cromwell. Mae'r cyflwyniad yn gyfogyd braidd: 'May it please your Highnesse, These poor

leaves, as Beggars in their guise and tone, creep from their Author into the shade and shelter of your great Name' (t. i). Cyfeirir at Gymru fel gwlad sy'n 'lay a british claim unto you' (ibid.). Roedd rhai o hynafiaid Cromwell yn Gymry (Bowen, 2009, tt. 168-94) ac mae Lewis yn defnyddio hynny fel abwyd i Cromwell dosturio wrth Gymru. Erbyn yr ail argraffiad yn 1659 roedd Cromwell wedi marw, ac mae'n cyflwyno'r argraffiad hwnnw i Arthur Haselrig, sef un o'r pum aelod seneddol y ceisiodd Siarl I eu harestio yn 1642, gweithred a arweiniodd at ddechrau'r Rhyfel Cartref. Wrth gloi'r cyflwyniad i'r ail argraffiad, mae'n diolch i Haselrig am ei waith ef a'r Seneddwyr eraill, ac yn gweddïo y bydd Duw yn parhau i'w harwain 'even to the fulfilling of that blessing of the Prophet in these our days, for Justice to flow like a stream, and Judgment like a mighty torrent throughout all the parts of the Land' (1659, t. vi).

Wedi dweud hynny, mae'n amlwg fod sêl Lewis dros y Senedd yn glaeiar iawn erbyn 1656. Mae'n beirniadu'r anrhefn a ddaeth yn dilyn 'our late purgation of the temple' (t. 28) ac yn awgrymu y dylid ystyried ail-sefydlu 'our mere *tolerable* ejected Ministers upon their *reformation*' gan nad oedd ddigon o weinidogion yng Nghymru yn dilyn polisi'r Deddf Taenu (t. 29). Roedd Lewis hefyd yn anhapus â gweithgarwch y Piwritaniaid mwy radical yn ystod y Ddeddf Taenu: 'So much trouble and loss of charity I conceive is a remedy worse than the disease.' (t. 5)

Yn wir, mae Lewis yn cwestiynu llwyddiant y Deddf Taenu:

People now generally mutter [...] that when they customarily assemble, they come [...] to serve and worship God and not merely to hear and be instructed. Now as for some thousands that are said to be converted amongst us by late preaching (my charity bids me hope, really to Christ, and praise be to God for it) yet others [...] complain, that for many more thousands, for want of preaching or any other public duties of religion, and the distance and scarcity of ministers (at least such as they will attend to) are ready to make defection, and fall away to popery if not utter profanity and neglect and contempt of all religion (tt. 4-5).

Sgil effaith y Ddeddf Taenu yn ôl Lewis fel yr eglura Morgan oedd,

By downplaying the role of the sacraments the itinerants had overstated the significance of preaching, and even the liturgical use of the Lord's Prayer was despised as being formalistic and papistical. Those who yearned for the old ways were traduced as formalists and antichristian; church buildings, now regarded as superstitious, had been allowed to fall into disrepair while ancient and venerable traditions everywhere had gone by the board (2018, tt. 130-1).

Mae'n amlwg fod blynyddoedd y Deddf Taenu wedi cymedroli ysbryd Lewis.

Dywedodd:

I humbly conceive that it would not do amiss to correspond and comply with the people in some of their more tolerable modes and customs [...] and not too rigidly inveigh against them. As their aptness to observe some of the ancient festivals, as the nativity and resurrection of our Saviour and the like, referring to the great actions of our redemption, all the Christian churches of the world (laying aside Rome) as the Eastern and the Reformed churches hath ever anciently, and doth observe them, and the charity and hospitality of such times doth much balance the abuse and corruptions imputed to them; and with us in Wales the people generally from an ancient use much spend the time in pious hymns and songs, celebrating the birth and actions of Christ, which at least keeps them in some awe and reverence of God, and their anniversary course no doubt makes some more impression upon them, than not at all (tt. 12-13).

Ar wahân i'r cyflwyniadau, y mae cynnwys argraffiad 1656 a 1659 union yr un peth a'r tudalennau yn cyfateb i'w gilydd i'r dim hyd yn oed. Cyflwr crefyddol Cymru ac addysgu'r Cymry yw testunnau Lewis yn y gyfrol. Mae'n esbonio termau diwinyddol perthnasol megis crefydd, taeniad, efengyl, pregethu, eglwys a saint, gan gynnig cyngor ar sut i bregethu'n effeithiol. Noda fod 'thousands that are said to bee converted amongst us by late preaching' (1656, t. 3), ond dywed 'that far many more thousands for want of preaching [...] are ready to make defection, and fall away to Poperie, if not utter prophanenesse, and neglect, and contempt of all Religion' (tt. 3-4). Am hyn, nod Lewis yn y gyfrol yw bod o gymorth i lwydd 'Religion, and the Propagation of the Gospell amongst us' (t. 4).

Yn yr ail ran mae Lewis yn egluro'n drefnus 'helps and means to advance Religion among us' (t. 25). I Lewis mae trefn a llywodraeth yn angenrheidiol i hyrwyddo llwyddiant yr efengyl yn ogystal â gweinidogaeth effeithiol (ibid.). Noda nad yw plwyf Llanbadarn Fawr, sy'n cynnwys 2000 o gymunwyr, wedi cael gweinidog sefydlog ers blwyddyn. Beirniadaeth o'r Ddeddf Taenu yw hyn. 'The aim of the Propagation Act, in his view, had been to ensure the spread of vital Christianity in Wales [...] What had occurred, alas, was that too few settled clergy had been instituted while sectarianism had grown rife' (Morgan, 2018, t. 131). Mae'n gofyn i'r llywodraeth ystyried ailgyflwyno gweinidogion analluog a oedd wedi cael eu taflu allan o'u bywioliaethau, ar yr amod eu bod wedi profi newid yn eu ffyrdd. Nid yw'n gweld y cyflenwad o weinidogion o'r eglwysi Annibynnol yn ddigonol, 'because I see them not trained but in some plain English or Welsh books' (t. 29). Yr ateb i Lewis yw'r

Lamps of the Land, the Universities; indeed a favour from them (under his Highnesse [Oliver Cromwell], whose goodnesse we lay claim to) as to have a dispensation for a Colledge or two among us in Wales, would, doubtlesse, highly advance us for a supply of able Mnisters (t. 30).

Ac o safbwynt ariannu'r prifysgolion hyn, meddai, 'let us consider the Revenues of our 4 Bishopricks, which are slipped into several private hands' (ibid.).

Wrth gloi dywed Lewis mai gweithredu cariad, heddwch ac undod ymhlith Cristnogion oedd y ffordd i sefydlu Teyrnas Crist ar y ddaear hon a'r ffordd o ledaenu Teyrnas Duw a hyn o bosib yn dynodi newid pwyslais i un llai milwriaethus yn Lewis er ei fod yn cadw'n wrthwynebus i Mwslemiaid a Pabyddiaeth. Rhagwelai y byddai Duw yn dymchwel 'the Evil Spirit of Error, and Dissention' cyn hir (tt. 40-1). Roedd y Twrciaid, meddai, yn gweddïo 'that the Discords and Dissentions of Christendom may continue' (t. 41); ond roedd

Lewis yn awyddus i Gristnogion 'make it our great work and businesse to have Charity with each other' (t. 42).

Roedd Lewis yn llythyru â Richard Baxter ynghylch traddodiadau a choelion gwerin, yr ocwlt a'r angen i sefydlu prifysgol yng Nghymru. Gwelwn hyn yn *The Certainty of the Worlds of Spirits* a gyhoeddwyd yn 1691. Nid oedd Baxter yn arddel syniadaeth milflwyddol o gwbl⁷⁷. Ymddengys i Lewis anfon llythyr ato am y tro cyntaf ar 25 Mai 1656 yn canmol *The Unreasonableness of Infidelitie* (1655). Yn y llythyr mae Lewis yn gofyn i Baxter i 'setting forth the reverence of divine worship, at least among the vulgar, as alsoe to define & state Divine Worship; for I humble conceive meere preachinge doeth not essentiat it' (D.W.L.MSS., 59.2.128). Gwêl Lewis sawl ofergoel 'popish & antichristian' yn ei blwyf, ac mae am i Baxter gynnig cyfarwyddyd iddo ar sut i sefydlu addoliad cywir er mwyn sefydlu undod Gristnogol. Mae Baxter yn ateb Lewis ar 25 Mehefin 1656 gan ddweud nad oes modd i gredinwyr uno fel y gwna Pabyddion, ond y dylid ceisio 'partial unity'. Mae'n cynnig chwe cam y dylid eu cymryd er mwyn dod o hyd i'r undod rhannol yma:

1. greater meekness and moderation in Christian people ;
2. moral reformation in the ministry ;
3. a discovery of, and instence upon, the true principles of unity ;
4. the rigorous execution of disipline ;
5. a greater obedience towards ministers ;
- and 6 'some prudent gentle coercion of the magistrate' (D.W.L. MSS., 59.2.126)

Yn ail lythyr Lewis at Baxter mae'n ymbil ar Baxter i ysgrifennu gwaith 'concerning the necessity of human learning, notwithstanding the help afforded by the Holy Spirit' (Nuttall, 1954, t. 123). Cyd-destun y cais hwn yw'r ysbrydion y bu Lewis honni eu gweld ar ddau achlysur: 'a Dozen in the shape of Men, and two or three Women' a ymddangosodd i rhyw ddyn ar ochr ei wely, ac yna 'the

⁷⁷ Yn 1691 gwelwyd dadl gyhoeddus rhwng Baxter a Thomas Beverley. Roedd Beverley o blaid milflwyddiaeth a Baxter yn ei erbyn. Gweler Jeffrey K. Jue. 2006. *Heaven Upon Earth: Joseph Mede (1586-1638) and the Legacy of Millenarianism*, tt. 163 - 167

strange and usual appearance of Lights (called in Welch, Dead Men's Candles) before Mortality' (cyhoeddwyd llythyr Lewis yn Baxter, *The Certainty of the Worlds of Spirit*, tt. 129-132). Yn y llythron dilynol cawn Lewis a Baxter yn trafod ysbrydion, 'Subterranean Spirits, called Knockers [...] little Statured, about half a yard long' (ibid, t. 133), a seremoniaeth eglwysig ac ymddangosiadau Canhwyllau'r Corff. Am y diwethaf, dywed Lewis, 'I scarce know any Gentleman or Minister of any standing but hath seen them' (ibid, t. 135). Anfonodd John Davies o Lanfihangel-genau'r-glyn lythyr at Baxter hefyd yn adrodd hanesion Canhwyllau Corff yr ardal. Cawn hefyd lythyr gan Dr. John Ellis, 'one of the ablest divines I know in Wales,' chwedl Lewis (ibid, t. 137). Roedd Ellis, fel Lewis, yn deisyf prifysgol i Gymru. Mae Lewis hefyd yn annog Baxter i bwysu ar unigolion cyfoethog i helpu sefydlu prifysgol i Gymru. Yn ei ragymadrodd i'r gyfrol *The Crucifying of the World* (1658) gwelwn Baxter yn cynnwys 'A Catalogue of seasonable Good Works,' a'r nawfed oedd 'to erect a college (at Salop I think the only fitt place, for many Reason) for the education of Scholars for the use of Wales' (t. lvi).

O ddarllen llythyr Baxter at Lewis a ysgrifenyd ar 5 Mehefin 1657 (D.W.L.MSS., 59.1.127) gwelwn fod Baxter wedi bod yn erfyn am gefnogaeth ariannol ar gyfer sefydlu prifysgol i Gymru er deng mlynedd. Amwythig erbyn hyn oedd lleoliad delfrydol Baxter ar gyfer y brifysgol, ac er ei bod yn dref Seisnig, roedd hi ddigon agos i Gymru 'that your sons may learne English' ac roedd hi'n dref ag amddiffynfeydd 'if warre should arise', ac roedd yno ysgol ffynnianus yn barod, ble ddysgodd Cradock ei hun am rai blynyddoedd. Ni ddaeth dim o ymdrechion Lewis a Baxter i sefydlu prifysgol i Gymru, ond ni phallodd ddyhead Baxter i addysgu'r Cymry o gwbl. Dyfynna Nuttall o ddyddiadur Philip Henry pan ysgrifennodd hwnnw'n 1666. 'Receivd from Mr.

Jackson of Shrewsb. 120. welsh bookes to bee distributed freely, in North Wales, tis Mr. Baxter's call to the unconverted' (1954, tt. 133-134). Eglura Nuttall i'r weithred hon, ac ymdrechion Baxter, baratoi'r ffordd i weithgareddau'r Welsh Trust dan arweiniad Thomas Gouge. 'Gouge's trust was,' fel yr eglura Nuttall, 'in turn, the progenitor of the charity-school movement which was to do so much for Wales. In this way the efforts of John Lewis [...] for the education of [his] fellow-countrymen proved not altogether without fruit' (ibid, t. 134).

I grynhoi felly, yn 1646 gwelodd Lewis fuddugoliaethau trwy gyfrwng byddin y Senedd a gobeithiai mai rhagflas o bethau gwell i ddod yn y dyfodol oeddynt. Dysgodd y byddai Teyrnas Dduw yn cael ei sefydlu trwy gyfrwng y Senedd ac am hynny amddiffynnodd y Fyddin a'r Senedd gan bwysleisio fod Duw yn bwysicach nag unrhyw frenin. Roedd Cymru a chrefydd y Cymry yn holl bwysig iddo. Arddelodd y Ddamcaniaeth Eglwys Brotestannaidd a digalonnai o weld mor brin oedd pregethwyr yng Nghymru. Ond eto, ar yr un pryd, ni ddigalonnai oherwydd disgwyliai brofi cyfnod gogoneddus y Milflwyddiant ar y ddaear a hynny'n dechrau yng Nghymru. Roedd yn gweld yr efengyl yn llwyddo ychydig yng Nghymru eisoes ac roedd pob awgrym fod llwyddiant mwy ar y gorwel: cyfieithwyd y Beibl, roedd Duw yn bendithio gweinidogaeth Walter Cradock, roedd llyfrau defosiynol Cymraeg yn cael eu cyhoeddi ac roedd yr iaith Gymraeg yn parhau i fod yn iaith fyw; ac am hynny gobeithiai y deuai Cymru yn enwog unwaith eto am ei ffydd. Er bod yr efengyl wedi dechrau llwyddo yng Nghymru, fe ddisgwyliai am lwyddianau pellach. Nid oes tystiolaeth wedi dod i'r golwg eto sy'n profi'n ddigamsyniol mai ei gred yn y Milflwyddiant a'i cymhellodd i ymgyrchu dros sefydlu prifysgol i Gymru, ond fe ellid awgrymu mai dyna oedd sail ei lafur called ym maes addysg a'i waith cenhadol. Enghraiff pellach o'i

ymroddiad i addysg a chenhadu oedd iddo alw am sefydlu gcoleg hyfforddi gweinidogion yng Nghymru er mwyn hyfforddi dynion abl i gyhoeddi'r efengyl.

Erbyn 1656 roedd sêl Lewis dros y Senedd wedi oeri'n llwyr, ond gwelwn ef eto yn rhoi cryn bwyslais ar yr angen i addysgu ei gydwladwyr. Yn ei ragymadrodd i *Seasonal and modest thoughts* mae'n cyflwyno ac yn esbonio geiriau i'w ddarllenwyr. Mae hyd yn oed yn cynnig cyngor ar sut i bregethu. Roedd yn addysgwr wrth reddf a'i bwyslais ar genhadu yn amlwg. Cynigodd argymhellion ar sut i wella cyflwr ysbrydol Cymru gan nodi fod angen llywodraeth a gweinidogaeth Gristnogol effeithiol. Eto, pwysleisiodd bod y prinder gweinidogion yn broblem mor ddifrifol fel bod angen ystyried ail hyfforddi ac ailsefydlu'r gweinidogion analluog a oedd wedi colli eu bywioliaethau. Yr ateb delfrydol i'r creisis fyddai sefydlu coleg yng Nghymru er mwyn hyfforddi gweinidogion.

Mynnodd Lewis fod gan y fyddin ran bwysig i'w chwarae wrth sefydlu'r Milflwyddiant a dylid lladd gelynion llythrennol ac ysbrydol Cristnogaeth er mwyn hwyluso dyfodiad y Milflwyddiant. Nid ysgrifennodd Lewis am yr Ailddyfodiad ond roedd ei gred fod y Milflwyddiant gerllaw yn amlwg. Roedd ar dân dros addysgu'r Cymry, cynnig cymorth i bregethwyr a sefydlu coleg a fyddai'n hyfforddi pregethwyr. Llwyddiant i'r efengyl fyddai'n arwain at y Milflwyddiant yn ôl Lewis, ac yng ngoleuni hynny gwelwn ef yn ymroi i addysgu, ac yn benodol i geisio ffordd effeithiol i addysgu pregethwyr.

IV. Morgan Llwyd a Vavasor Powell

1. Morgan Llwyd (1619–1659)

Ganed Morgan Llwyd yng Nghynfal Fawr, plwyf Maentwrog, sir Feirionnydd. Addysgwyd ef mewn ysgol yn Wrecsam yn 1634–5, pan oedd y dref un o brif ganolfannau Piwritaniaeth. Yno y profodd dröedigaeth wrth wrando ar bregethu Walter Cradock, a oedd yn gurad yno ar y pryd. Bu Llwyd yn ddisgybl ysbrydol i Cradock drwy gydol y cyfnod yr oedd y ddau ohonynt yn byw yn Wrecsam. Dadleua Nuttall iddynt fod wedyn gyda'i gilydd yn Llanfair Dyffryn Tefeidiad yn sir Amwythig, nid nepell o Brampton Bryan, cartref Syr Robert Harley, am i'w wraig, Brilliana, gyfeirio at 'Mr. Floyd' sawl tro ac am i Morgan Llwyd ei hun ganu:

ym Merionydd gynt im ganwyd
yn Sir Ddinbech im newidwyd
yn Sir y Mwythig mi wasnaethais (gol. Ellis, 1899, t. 57).

Roedd Syr Robert Harley a'i wraig, Brilliana, yn noddwyr pwysig i'r Piwritaniad, a thrwy ei gysylltiadau â Brampton Bryan cafodd Llwyd gyfle i fwynhau cymdeithas â rhwydwaith o Biwritaniaid eraill. Roedd Llwyd yn bresennol yn Llanfaches yn 1639 pan sefydlwyd yr eglwys ymneilltuol gyntaf. Adeg y Rhyfel Cartref bu'n gaplan ym myddin y Senedd ac yn ystod y teithio hynny daeth o dan ddylanwad Plaid y Bumed Frenhiniaeth. Dywed Thomas Richards mai Vavasor Powell oedd amddiffynnydd mwyaf milflwyddiaeth Plaid y Bumed Frenhiniaeth, ond mai yn Morgan Llwyd 'it receives its fullest expression' (1920, t. 186). Symudodd yn ôl i ogledd Cymru yn 1644 fel pregethwr ac yna yn 1650 penodwyd ef yn Brofwr o dan Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru yn 1650. Roedd wedi symud yn ôl i Wrecsam yn 1647. Yn 1656 daeth yn weinidog ar yr

eglwys gynnull yno, ac yno y bu hyd ei farwolaeth yn 1659. Llwyd yw un o awduron amlycaf yr iaith Gymraeg ac mae ymchwil helaeth wedi'i wneud arno ef, ei waith a'i ddylanwad⁷⁸. Am hynny cyfyngaf fy hun i drosolwg o'i waith, gan ganolbwyntio ar ei athrawiaeth ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant a'u goblygiadau cymdeithasol.

Yr Ailddyfodiad

Arwyddodd Llwyd lythyr at Oliver Cromwell wedi dymchwel y Senedd Hir ar 20 Ebrill 1653 dan y teitl *A voice out of the hearts of diverse that waite for the Lord Jesus in Denbighshire in North Wales* ac mae geiriad y teitl hwnnw yn brawf pendant o ddisgwyliad Llwyd am yr Ailddyfodiad. Gwelwn yr hiraeth yma'n glir hefyd mewn crynhoad o'i ffydd (sydd, ac eithrio'r ddau gymal olaf, yn seiliedig ar 1 Timotheus 3:16):

Duw a ymddangosodd yn y cnawd, a gyfiawnhawyd yn yr ysbryd, a welwyd gan angelion, a bregethwyd i'r cenhedloedd, a gredwyd iddo yn y bÿd, a gymmerwyd i fynu mewn gogoniant, ac a ddaw eilwaith mewn anrhydedd mawr, ac am dano ef yr ydym ni yn disgwil (gol. Ellis, 1899, t. 210).

Eglura Geraint H. Jenkins i'r 'revolutionary period kindled great expectations in the mind of Llwyd', ac â ymlaen i fanylu: 'he was convinced that these convulsive years heralded a new millennium in the course of which the saints would rule with justice and magnanimity' (1987, t. 3). Gwelwn o'i weithiau mai Llwyd oedd un o brif ladmeryddion daliadau Plaid y Bumed Frenhiniaeth yng Nghymru o'r flwyddyn 1647 hyd oddeutu 1651–52, ac yn ystod y blynyddoedd hynny gwelwn ef yn cymell y Cymry i baratoi at wireddiad y Bumed

⁷⁸ M. Wynn Thomas. 1992. *Morgan Llwyd: ei Gyfeillion a'i Gyfnod*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru; Goronwy Wyn Owen. 1992. *Morgan Llwyd*. Caernarfon: Gwasg Pantycelyn; idiem. 2001. *Rhwng Calfin a Böhme: Golwg ar Syniadaeth Morgan Llwyd*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Frenhiniaeth, sef cyfnod o deyrnasiad gan Grist a'i Saint ar y ddaear yn dilyn ei Ailddyfodiad. Roedd Llwyd a'r Pumed Brenhinwyr yn disgwyl yr Ailddyfodiad pryd y byddai Iesu yn trechu gelynyon y Saint. Yna byddai Iesu Grist yn teyrnasu yn gorfforol gyda'i Saint am fil o flynyddoedd cyn iddo ddychwelyd eto ar ddiwedd y byd i farnu wedi'r cyfnod o ddrygioni mawr ar ddiwedd y Milflwyddiant ar ôl i Satan gael ei ryddgau. Eglura Edward Rogers yn ei gofiant i'r Pumed Brenhinwr John Rogers (g.1627):

Christ was now coming to reign personally and visibly in the fifth [monarchy] and that when he came he would utterly destroy all those anti-christian Kings, Priests and Laywers [sic] who now sat on his throne and usurped his powers. Then the saints would possess the earth, ruling it under Christ as his ministers, and executing justice upon all his enemies' (1867, t. 40).

Cawn yr awgrym yma fod Iesu Grist yn dychwelyd yn gorfforol er mwyn trechu Ei elynion, yna bydd Crist a'i Saint yn llywodraethu gyda'i gilydd. Dywedir am Morgan Llwyd a Vavasor Powell, eu bod yn barod iawn i ryfela dros yr achos 'in order to rid their fellow countrymen of what they saw as the spiritual tyranny imposed upon them by zealous Laudians. To them, the [civil] war was a spiritual crusade; a campaign for Christ against the forces of evil and darkness, and an opportunity to prepare the way for a massive campaign to save men's souls' (Jenkins, 1987, t. 7). Roedd yr ymgyrchu a'r rhyfela hyn yn bethau yr oedd yn rhaid iddynt ddigwydd, yn eu tyb hwy, er mwyn hwyluso'r Ailddyfodiad, ac yn nwylo Llwyd a Powell 'dechreuodd milflwyddiaeth lythrennol fod yn gwbl dderbyniol a pharchus mewn rhai cylchoedd yng Nghymru' (Owen, 2008, t. 65).

Mae Llwyd mewn cerdd yn 1647 yn mynegi ei ddisgwyliad fod yr Ailddyfodiad ar y trothwy:

lord, shall we live to meet the Judge?
yes, sons come all ashore:
A child that lives shall wonders see

A saint that sleeps, much more (gol. Ellis, 1899, t. 22).

Gwelwn hefyd natur ddisgwylgar Llwyd yn nhudalennau *Llyfr y Tri Aderyn* (1653). Dywed y Golomen: 'O ddechreuad y bÿd hyd y diluw yr oedd mil a chwechant ac un mlynedd, ar bymtheg a deugain: felly mi a'th gynghoraf i ddisgwyl canys mae fo yn agos' (gol. Ellis, 1899, t. 198). A dywed y Golomen eto: 'Mae'r dydd yn gwawrio' (ibid., t. 216). Mewn llythyr at William Erbery yn 1653 dywedodd am y dydd gorfoleddus disgwylledig ei fod yn 'dawning more and more' (gol. Davies, 1908, t. 260); a dywed gyda sicrwydd mawr wrth gyfeirio yn *Llythyr ir Cymru Cariadus* (1653) at addewid Eiseia 11:9, 'mae hyn yn agos' (gol. Ellis, 1899, t. 121). Dyma rai dyfyniadau eraill i ddangos fod agosrwydd yr Ailddyfodiad yn elfen amlwg ac allweddol yng ngweithiau Llwyd:

y dydd mawr sydd yn agos (ibid., t.194, cf. t. 198).

Brenin mawr a ddaw or dwyrain
Mae fo'n agos: cenwch blygain (ibid., t. 60).

Mae'r holl ysgrythurau, ar taerion weddiau
ar Dayargrynfaâu yn dangos
fod cwmp y penaethiaid, a Gwae yr offeiriaid
a Haf y ffyddloniaid yn agos (ibid., t. 83).

Atseinio proffwydoliaeth Jeremeia a wna wrth gyfeirio at yr haf. Dywed Jeremeia yn 8:20: 'Y cynhaeaf a aeth heibio, darfu yr haf, ac nid ydym ni gadwedig.' Gwelwn Llwyd yn fynych yn troi at natur ar gyfer ei ddelweddau a'i drosiadau:

Hosanna crye king Jesus comes, He-ele summer with him bring
a meeke just strong faire lasting Prince Againe Hosanna sing (ibid., t. 19)

O glorious Lambe, thou king of saints
wee praise and worship thee
that gave us leave to live in spring
lord lett us summer see (ibid., t. 23).

O Wales, poore Rachel, thou shalt beare

Sad Hannah now rejoyce
The last is first, the summer comes
to heare the turtles voice (ibid., t. 28).

Cyfeirir yma at Genesis 29:31 a 30:22 ac 1 Samuel 1. Menywod amhlantadwy yn y Beibl oedd Rachel ac Hanna, ond ganwyd plant iddynt yn y diwedd. Yr ergyd yw fod Cymru wedi bod fel menyw amhlantadwy ond ei bod yn mynd i esgor ar blant ysbrydol.

Mae Llwyd yn glir ei farn o'r camau sydd i arwain at yr Ailddyfodiad. Mae'n disgwyl difa heresi (Rhufain) a gau grefydd (Mwslemiaeth) yn ogystal â thröedigaeth Israel:

Y Pab a ddifethir, Ar Iddew a elwir
ar Twrc a ddymchwelir yn greulon,
y Cyntaf yn Rhufain, yr Ail yn y dwyrain
ar trydydd ynghoelfain yr afon (ibid., t. 83).

Sylwer fod Llwyd yn defnyddio'r un ieithwedd â John Lewis wrth drafod Mwslemiaeth, sy'n dangos fod cynfilflwyddwyr ac ôlfilflwyddwyr yn rhannu'r un farn am Fwslemiaeth a gau grefyddau. Canai hefyd am ddychweliad yr Iddewon mewn cerdd yn 1646:

Harke what a sound the dead bones make
The Jewes with Jesus rise (ibid., t. 26).

ac eto wrth iddo ddarlunio'r Iddewon fel y Sulamees a anerchir yng Nghaniad Solomon 6:13 (Morgan, 1995, t. 81):

Make way, Remove the blocks, stand by
O wellcome Jewes by mee
A shulamite in Jesus coach
I long thy face to see (gol. Ellis, 1899, t. 26).

Gwelwn, felly, fod Llwyd yn disgwyl gweld dychweliad yr Iddewon yn ystod ei fywyd ef ei hun, a hynny'n paratoi'r ffordd ar gyfer yr Ailddyfodiad.

Gwêl Llwyd gysgod o'r Ailddyfodiad ym mhopeth o'i gwmpas, gan gynnwys y cymun:

By breaking bread we show thy death and mind thy wondrous love
Until thou come to us againe in glory from above (ibid., t. 9).

Yn sail i'r gred hon y mae dysgeidiaeth Paul yn 1 Corinthiaid 11:26: 'Canys cynifer gwaith bynnag y bwytaoch y bara hwn, ac yr yfoch y cwpan hwn, y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd oni ddelo.' Yn wir, i Llwyd, Gair Duw sy'n sail i'r holl ddisgwyliadau hyn. Dywed yn blaen:

Our Lord is coming once againe, as all the scripture say
Even so lord Jesus quickly come and make no long delay (ibid., t. 9).

ac â ymlaen hyd yn oed i geisio proffwydo pa flwyddyn yn union y deuai Crist yn ôl i deyrnasu:

fifty goes big, or fifty sixe
or sixty five some say
But within mans age, hope to see
all old things flung away (ibid., t. 22).

Wrth geisio pennu union flwyddyn yr Ailddyfodiad roedd Llwyd wedi dilyn tair fformiwla bosibl. Y cam cyntaf wrth ddilyn y fformiwlâu hyn oedd darganfod digwyddiad yn hanes yr eglwys i gyfateb â Daniel 7:11. I Blaid y Bumed Frenhiniaeth, yr adwaith yn erbyn Cristnogaeth o dan Julian yr Ymherodr oedd y garreg filltir hon mewn hanes, a digwyddodd hynny tua o.c. 360 neu 366. Yn ôl un dehongliad o Datguddiad 6:3, daw'r Deyrnas neu'r Frenhiniaeth newydd 1290 o ddyddiau wedi hyn. Cymerodd Llwyd fod y dyddiau yn golygu blynyddoedd, ac ar ôl gosod y ddau rif at ei gilydd daeth i'r casgliad y dylai'r Ailddyfodiad ddigwydd naill ai yn 1650 neu yn 1656. O ddilyn yr ail fformiwla cymerir dechrau teyrnasiad y Pab yn o.c. 400 neu 406 fel y garreg filltir, ac wrth

ychwanegu blynyddoedd Datguddiad 6:3 unwaith yn rhagor, deuir i'r casgliad mai yn 1660 neu yn 1666 y dylid disgwyl yr Ailddyfodiad. Fel y dywedodd Llwyd:

Cyn mil a chwechant a chwe deg
mae blwyddyn deg yn dyfod (ibid., t. 87).

Yn ogystal yr oedd yna drydedd fformiwla y gallesid ei dilyn, sef dyblu rhif y bwystfil (Datguddiad 13:18), sef 666, er mwyn cael 1332, cyfrif blwyddyn Cyngor Nicea, sef o.c. 325, fel y garreg filltir, ac adio'r ddau gyda'i gilydd i gael 1657.

Yr oedd yr Ailddyfodiad yn rhywbeth real iawn i bobl y cyfnod a gwelwn hyn wrth i Llwyd ar wynebdden *Llyfr y Tri Aderyn* annog ei ddarllenwyr i ystyried cynnwys y llyfr yn ddifrifol 'cyn dyfod, 666', a chyn iddynt farw, pe digwyddai hynny cyn yr Ailddyfodiad:

In number sixe if Christ comes not
hee will kisse mee before
Hee will untye my natures knott
I shall bee seene no more (ibid., t. 80).

Y Milflwyddiant

Gwaith mwyaf adnabyddus Morgan Llwyd yw *Llyfr y Tri Aderyn* ac yn y gwaith hwn esbonia arwyddion dyfodiad Crist cyn mynd ati i ymdrin â natur y Frenhiniaeth newydd a chynnig sylwebaeth ar faterion y dydd. Dywed Nuttall, 'for a blueprint of what it was hoped to accomplish in the Nominated Parliament the speeches of the Dove in Llwyd's *Llyfr y Tri Aderyn* could hardly be bettered' (1957, t. 44). Yma gwelwn Llwyd yn proffwydo gwrthwynebiad Plaid y Bumed Frenhiniaeth i Oliver Cromwell. Proffwydodd y byddent yn gwrthod yr Eryr, sef Cromwell, 'i fod yn swyddog arnynt ac am hynny fy nghyngor i yw i ti mewn prŷd edrych yn dy glych' (gol. Ellis, 1899, t. 168)

Yn yr un flwyddyn â *Llyfr y Tri Aderyn*, cyhoeddodd hefyd y pamffledi *Llythyr at y Cymru Cariadus a Gwaedd Ynghymru yn Wyneb pob Cydwybod*. Ei gymhelliant wrth wneud oedd paratoi ei gyd-Gymry am y Bumed Frenhiniaeth, sef y Milflwyddiant. Un o'r pethau sy'n bwysig am Llwyd yw ei barodrwydd i ysgrifennu yn y Gymraeg er mwyn i'r mwyafrif o'r Cymry ddeall ei waith ac ystyried ei neges. Eglura E. Lewis Evans: 'Mynnai iddynt ddilyn y golau heb betruso, a bod yn sicr o'u hachos' (1930, tt. 60-1). Gwelwn Llwyd yn ogystal yn llunio rhestr o safonau moesol newydd i'w dilyn megis 'Na ddyger bywyd dyn am anifail' (gol. Ellis, 1899, t. 264).

Roedd Llwyd yn ŵr a gymerai ddiddordeb byw yn holl ddigwyddiadau ei oes 'ac y mae ei feirniadaeth graff ar gymdeithas yn gyson â ffeithiau hanes' (Evans, 1930, t. 53). Mae'n cysylltu digwyddiadau ei ddydd â chyflawniad proffwydoliaethau'r Beibl. Ysgrifennodd: 'You would enquire of present affaires in all Europe, then heare ye newes out of *Revel*. 11. 13. 15. 17. 18 [...] the good beginning in Meirion will quietly conquer' (gol. Davies, 1908, t. 252). Mae'n gweld holl weithgarwch chwyldroadol y cyfnod yn brawf o waith Duw ac iddo ef mae Cymru, a Meirionnydd yn enwedig, yn chwarae rhan allweddol. Mae'r gwaith mae wedi'i weld yng Nghymru yn achosi iddo obeithio am fwy:

Hee hath of late done farre above
what wee could aske or thinke
He gives his churches in his love
Salvations cup to drinke (gol. Ellis, 1899, t. 73).

Roedd Llwyd a'r Pumed Brenhinwyr yn disgwyl rhyfeloedd gwaedlyd cyn yr Ailddyfodiad. Dyna pam roeddent yn barod i ddefnyddio grym braich yn y Rhyfel

Cartref. Dyna pam hefyd roedd Llwyd yn cadw llygaid barcud ar ddigwyddiadau y Cyfandir. Mae'n gweld teyrnasoedd y Cyfandir ym mhroffwydoliaeth Daniel⁷⁹:

Deg teyrnas a heidiant, ei Milwyr a hedant
Tref Rufain a dynnant ir adfyd.
Sef Brit. Ffraing Hung. Scotland Den. Russ. Germ. a Pholand,
A Hispaen a Swedland yn unfryd (ibid., t. 44).

Mae John Rogers yn defnyddio'r un iaith yn ei gyfrol *Sagir, or, Doomes-day drawing nigh, with thunder and lightening to lawyers* (1654). Dywed fod teyrnasoedd Ewrop i'w gweld ym mhroffwydoliaethau Daniel a bydd 'the thrones of Justice, or Day of Judgement will reach France, Spaine, Denmark, Poland, &c. with all the rest of the ten Hornes' (t. 128). Defnyddia Llwyd a'r Pumed Brenhiniwyr lawer o'r un rethreg ag ymgyrchwyr Brexit ein hoes ni! Roedd Llwyd a'r Pumed Brenhinwyr yn gweld ymdrechion teyrnasoedd y Cyfandir i uno yn ffwbri ond hefyd yn fygythiad i Loegr Brotestannaidd. Iddynt hwy roedd teyrnasoedd y Cyfandir yn gymysgwch o Babyddiaeth a Mwslemiaeth ac felly'n perthyn i'r Anghrist. Esbonia Evans i Blaid y Pumed Frenhiniaeth ddyfeisio celwyddau am deyrnasoedd y Cyfandir gan greu 'bradwrus ofn' (1930, t. 54).⁸⁰

Roedd Llwyd a'r Pumed Brenhinwyr yn astudio chwyldroadau a newidiadau cyfoes yn ofalus felly ac yn gweld newid ar droed. Disgwylent bethau mawrion gan Dduw a cheisiwyd gwneud pethau mawrion yn enw Duw. Gwelwyd dienyddiad Siarl I gan Llwyd yn rhan o gynllun Duw, dadleuodd fod Duw wrthi'n cyhoeddi dyfodiad yr oes newydd trwy amryw arwyddion:

The signes in heaven before that day

⁷⁹ Daniel 7:23-24: Fel hyn y dywedodd efe; Y pedwerydd bwystfil fydd y bedwaredd frenhiniaeth ar y ddaear, yr hon a fydd amryw oddi wrth yr holl freniniaethau, ac a ddifa yr holl ddaear, ac a'i sathr hi, ac a'i dryllia. 24A'r deg corn o'r frenhiniaeth hon fydd deg brenin, y rhai a gyfodant: ac un arall a gyfyd ar eu hól hwynt, ac efe a amrywia oddi wrth y rhai cyntaf, ac a ddarostwng dri brenin.

⁸⁰ Gweler <http://www.fulfilledprophecy.com/page/the-10-nations/> am ddarllen pellach am ddehongliadau eschatolegol am yr Undeb Ewropeaidd.

have well nigh all beene seene
with signes on earth, the figtree sprouts
his branch and leaves are greene (gol. Ellis, 1899, t. 22).

Roedd ei ddisgwyliadau a'i feirniadaeth yn cydreddeg â'r Rhyfel Deng Mlynedd ar Hugain ar y Cyfandir ac aflwyddiannau Protestaniaeth, megis cwmp Gustavus Adolphus a gorthrymu'r Huguenotiaid. Esboniai pam yr oedd aflwyddiannau hyn yn destun gobaith mewn llythyr at ei fam yn 1652: 'mae'n rhaid iddynt gael tippyn o rwysg cyn marw, am nad ydynt hwy etto ddigon uchel i gwmpo, na ninnau'n ddigon isel i godi' (gol. Davies, 1908, t. 243).

Oherwydd eu gwrthwynebiad i'r Pab, penderfynodd Plaid y Bumed Frenhiniaeth gefnogi ochr Gwilym o Orange a'r Iseldiroedd yn erbyn Sbaen, a chanodd Llwyd am hyn. Dywedodd 'Some Dutch are deepe suspicious birds' ac â yn ei flaen i ddatgan ei gefnogaeth i Blaid y Bumed Frenhiniaeth:

Now Achors doore of hope in sight
they open to their gaine
With them wee quarter but one night
and so to Ffrance and Spaine (gol. Ellis, 1899, t. 77).

Roedd Llwyd yn ŵr 'who dreamed of a new heaven and a new earth, a man who yearned for the kingdom of Christ in the heart and in society' (Davies, 1955, t. 22). Roedd yn hollol hapus i wisgo label Milflwyddwr: 'Call mee a chiliast⁸¹ if you please' (gol. Ellis, 1899, t. 27). Credai Llwyd y byddai'r merthyron yn atgyfodi i lywodraethu yn y Milflwyddiant gyda'r Saint wedi'r Ailddyfodiad pan y dymchwelir gelynion Iesu Grist: 'Mae dynion gwych [...] yn barod i godi allan or pridd ag er hyny or nefoedd y descynnant' (ibid., t. 121). Yn ogystal â hyn credid y byddai'r Apostolion a'r Cristnogion Iddewig yn atgyfodi ac yn arwain y Saint a'r merthyron adeg y Milflwyddiant; byddai cenedloedd yn cael eu

⁸¹ Term arall am filflwyddwr. Daw o'r Groeg 'khiliasmos' neu 'khiloi,' sef, 'mil'.

graddio yn ôl eu cyflawniadau ysbrydol; Jerwsalem fyddai'r brifddinas; anghredinwyr fyddai ar waelod y gymdeithas theocrataidd; ac yn olaf deuai Crist yn ôl y trydydd tro wedi i Satan gael ei ryddhau i ddinistrio Gog a Magog.⁸² Yn y Beibl ceir proffwydoliaethau eschatolegol am genhedloedd elyniaethus o'r enw Gog a Magog yn codi i orthrymu pobl Duw.

Cyd-destun cynharaf Llwyd oedd milflwyddiaeth eithafol a llythrennol y Milflwyddwr. 'Heb amheuaeth yr oedd Llwyd yn filenarydd eithafol yn y pedwardegau hwyr ac yn ddiau cefnogai Vavasor Powell, lladmerydd tanbaid plaid y Bumed Frenhiniaeth yng Nghymru' (Owen, 1990, t. 100). Serch hyn, nid 'mere millenarian' ydoedd Llwyd (Nuttall, 1957, t. 40). Perthynai iddo dduwioldeb cynnes a theimladwy:

Let Christ my lord with kisses sweet
my doubting soule embrace (gol. Ellis, 1899, t. 10).

Cynrychiolai Senedd y Saint yn 1653 benllanw ar obaith Morgan Llwyd fod Ailddyfodiad corfforol Crist wrth law, a hynny'n agor ar gyfnod o Filflwyddiant lle y teyrnasai'r Saint; ond chwalwyd ei obaith pan chwalwyd y Senedd wedi chwe mis yn unig ac am hynny, er mai plentyn Plaid y Bumed Frenhiniaeth oedd Llwyd, fe droes ei olygon tuag adnabyddiaeth o bresenoldeb mewnol yr Ysbryd Glân ac arweiniodd hyn at eschatoleg gymedrol a chyfriniol.

Wedi methiant Senedd y Saint yn 1653, 'ei adwaith cyntaf oedd collfarnu'r cam trawsgyfeiriadol a gymerodd Cromwell' (Owen, 1990, t. 100). Gwyddom i Llwyd ymbil ar gyn-gomisiynwyr Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru i adael Lllys Chwarter Sesiwn Maesyfed yn 1654 a dod i wrando ar "seditious and dangerous sermons preached against his Highness the Lord

⁸² Datguddiad 20:8: Ac efe a â allan i dwyllo'r cenhedloedd sydd ym mhedair congl y ddaear, Gog a Magog, i'w casglu hwy ynghyd i ryfel; rhif y rhai sydd fel tywod y môr.

Protector”, persuading the people that there would be alterations shortly and that Cromwell, “giving him all the contemptible words that can be spoken”, would not be the Lord’s instrument in the great work’ (Richards, 1920, t. 209). Serch hyn, wedi dymchwel Senedd y Saint mae cyfeiriadau mewnol yn dominyddu ei waith ac fe’i gwelwn yn ymbellhau oddi wrth filenariaeth eithafol gyda chymorth William Erbery ac ysgrifeniadau’r cyfrinydd Almaenig, Jacob Böhme (1575–1624). ‘In itself this might represent a welcome return from an exploded millenarianism to a position more realistic and acceptable’ (Nuttall, 1957, t. 53). Symudodd at ystyr a phwyslais ysbrydol y cynfilflwyddwyr ac osgoi felly eithafiaeth Plaid y Bumed Frenhiniaeth gan ganolbwyntio ar eschatoleg gyflawnedig, sef mewnfodaeth bresennol Crist yn y galon ddynol. Er hyn, rhaid pwysleisio iddo beidio byth â cholli golwg ar ‘wrthrychedd yr Ailddyfodiad terfynol i farnu’r byd’ (Owen, 2008, t. 77) ac ni phallodd ei ddisgwyliadau am Ailddyfodiad llythrennol a chorfforol Iesu Grist i farnu ar ddiwedd y byd, er mai Milflwyddiant ysbrydol, yn canolbwyntio ar fewnfodaeth Iesu Grist yng nghalonau’r Saint, oedd y Milflwyddiant yn ei dyb ef o 1653 ymlaen.

Bellach, yr hyn a gawn yn ysgrifennu Llwyd yw ‘a note of God-seeking remote from politics’ (Nuttall, 1957, t. 51). Pwyslais diwinyddiaeth Böhme oedd ceisio’r golau oddi mewn, ac yn *Honest Discourse* (1655) gwelwn Llwyd yn coleddu’r gred hon: ‘But let them all censure as their humours or honors please [...] we have [...] store of love, joy, peace, friendliness, and goodwill within’ (gol. Davies, 1908, t. 240). Mae’n pwysleisio’r goleuni oddi mewn yn ogystal yn ei bregeth, *Where is Christ?*, a gyhoeddwyd yn yr un flwyddyn: ‘Though the bickerings of cold winter, of bondage and corruption be not suddenly over [...] the summer will come on upon the Saints (and that summer is in them)’ (gol. Ellis, 1899, t. 301). Yr oedd Llwyd bellach o’r farn fod yr Ysbryd Glân eisoes yn

teyrnasu yng nghalonnau'r Saint, ac felly ofer yn ei dyb ef oedd ceisio sefydlu Brenhiniaeth Crist drwy ymdrechion materol. Dyma a arweiniodd at ei oddefgarwch. Ofnai ef y byddai llywodraeth anoddefgar Plaid y Bumed Frenhiniaeth, pe deuai, yn rhwystr i waith goruwchnaturiol yr Ysbryd, gan arwain yr eglwys yn ôl i addoliad a dogmâu sychion cyn-ddiwygiadol (Owen, 1990, tt. 102-3).

Er gwaethaf siom Llwyd ym methiant Senedd y Saint, erbyn 1656 roedd wedi ymbellhau oddi wrth filflwyddiaeth filwriaethus Plaid y Bumed Frenhiniaeth. 'Llwyd a Powell oedd sylfaenwyr y weledigaeth apocalyptaidd Gymraeg,' chwedl Owen (2008, t. 77), ond yn dilyn deiseb wrth-Gromwelaidd Powell, *A Word for God*, yn 1655, ymbellhaodd y ddau sylfaenwyr oddi wrth ei gilydd. Plediodd Llwyd ar y deisebwyr i ddangos ysbryd mwy cymedrol tuag at y Ddiffynwriaeth, heb anwybyddu gwendidau Cromwell fel pechadur. Gwelwn ef hefyd yn coleddu credoau Böhme wrth iddo apelio ar ddeisebwyr i 'wait within ourselves on God' (gol. Jones & Owen, 1994, t. 67). Gwelwn yma'n glir bod Llwyd yn mewnoli'r Ailddyfodiad. Iddo ef, erbyn hynny roedd y gwir ryfel i'w weld yng nghalonnau dynion a lleisiai'r gred mai yn y galon y byddai Duw yn adeiladu ei deml, yn hytrach nag mewn eglwys wladol (ibid., t. 68). Roedd Llwyd wedi derbyn erbyn hynny mai rhywbeth naturiol oedd hi i Cromwell fabwysiadu teitl newydd mewn llywodraeth newydd (gol. Ellis, 1899, t. 168). Dywed Goronwy Wyn Owen: 'I un oedd wedi bod mor sicr o agosrwydd teyrnas Crist yr oedd Llwyd erbyn hyn wedi blino ar y Pumed Breniniaethwyr a'u hymdrechion gwleidyddol i balmantu'r ffordd i ailddyfodiad Crist, a chyhoeddodd ei fod yn awr o blaid Diffynwriaeth Cromwell' (2008, t. 84). Gwelir y gwahaniaethau amlwg rhyngddo ef a Vavasor Powell yn *An Honest Discourse* yn 1655. Yn y gwaith hwn defnyddiodd Llwyd ddeialog rhwng tri chymydog i leisio'r tensiwn a fodolai

yn ei feddwl ei hun. Mae Llwyd yn dadlau fod angen llywodraeth sefydlog ar y Saint ac felly'n annog ei ddarllenwyr i gefnogi llywodraeth Oliver Cromwell gan ei fod yn cynnig trefn a heddwch. Amddiffynna Cromwell yn erbyn y cyhuddiad o fydolrwydd a hunanoldeb ac o arwain llywodraeth a oedd yn ei hanfod yn ormesol. Gwelwn Llwyd yn ceisio denu 'ei ddarllenwyr i fod yn hirben a chynghori'r Arglwydd Amddiffynnydd i geisio gweithio dros heddwch a hunanymwadiad personol' (ibid., t. 85). Awgryma Goronwy Wyn Owen mai hiraeth am heddwch ac undeb yng ngwersyll y Piwritaniaid oedd cymhellant Llwyd (ibid.).

I grynhoi, felly. Ar ddechrau ei yrfa, gwelwn Morgan Llwyd yn arddel milflwyddiaeth filwriaethus Plaid y Bumed Frenhiniaeth. Roedd yn disgwyl yr Ailddyfodiad yn fuan. Yn 1648 roedd yn disgwyl y dydd hwnnw naill ai yn 1650, 1656, 1665 neu 1666 (gol. Ellis, 1899, t. 22). Mae'n enwi ei ferch yn 1650 yn Peace mewn paratoad a dathliad o'r heddwch milflwyddol oedd ar ddod (ibid., t. 36). Ar ddiwedd 1650, wedi gweld nad oedd Iesu Grist wedi dychwelyd, mae'n galw ar ddynion i baratoi ar gyfer 1660 (ibid., t. 60). Ond pa ddyddiad bynnag fyddai, roedd yn hollol sicr bod yr Ailddyfodiad 'within man's age' (ibid., t. 22). Mae Llwyd, fel y Pumed Brenhinwyr, yn gweld Ailddyfodiad Iesu Grist a diwedd y byd fel dau beth gwahanol. Bydd Iesu Grist yn dychwelyd ac yn sefydlu haf wedi'r gaeaf o anwybodaeth ac erledigaeth (ibid., tt. 23-30). Ond caiff y cyfnod gogoneddus hwn ei flaenori gan anghydfod sifil, trychinebau naturiol a rhyfela â'r Anghrist. Rhaid oedd trechu'r Babaeth a Mwslemiaid. Yn ystod y cyfnod hwn roedd hi'n hanfodol bod y Saint yn gweithredu. Roedd angen efengyleiddio'r Iddewon a'r holl fyd ac roedd rhaid diwygio'r eglwysi ymhellach fel eu bod yn wylaidd ac yn rhinweddol (ibid., tt. 121-2). Roedd Llwyd hefyd yn gofyn i'r rhai

252

mewn awdurdod fabwysiadu moeseg gwleidyddol newydd fel bod y Wladwriaeth yn gallu asio'n hawdd â chyfnod y Milflwyddiant (ibid., tt. 262-5). Mae goblygiadau cymdeithasol credoau Llwyd ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant yn amlwg. Ymrodd i gynhyrchu corff o lenyddiaeth er mwyn cenhadu ac addysgu'r Cymry, gan gynnwys Cymry Cymraeg. Yn ei weithiau mae Llwyd yn lleisio gobeithion y Pumed Brenhinwyr. Yn wir, ef oedd un o brif ladmeryddion y Blaid yng Nghymru a galwent hwy ar ddiwygio cymdeithasol gwaelodol gan gynnwys diorseddu'r Frenhiniaeth. Yn y Fyddin Model Newydd rhoddodd y Pumed Frenhiniaeth statws a pharch i'r tlodion gan i 'The Fifth Monarchists' hope of a social revolution in the millennium sprang from their dissatisfaction with both existing society and their place within that society' (Capp, 1972, t. 144). Ond wedi methiant Senedd y Saint, mabwysiadodd Llwyd syniadau Böhme. 'Boehme himself had no faith in the Sabbath [Milflwyddiant] of the chiliasts [Milflwyddwyr], asserting that the Sabbath of Rebirth and the Sabbath Eternal were all-sufficient for the children of God' (Richards, 1920, t.188). O hynny allan, felly, mae Llwyd yn annog ei ddarllenwyr i beidio ag edrych am Iesu Grist mewn digwyddiad yn y dyfodol, ond yn hytrach yn eu calonnau (gol. Ellis, 1899 t. 145; ibid t. 265). Mewn ffordd, mae Llwyd yn ymgorfforiad o'r gwahanol Biwritaniaethau Cymreig oedd yn bodoli o fewn y mudiad bychan yng Nghymru.

2. Vavasor Powell (1617–1670)

Brodor o Gnwclas yn Nyffryn Tefeidiad yn Sir Faesyfed oedd Vavasor Powell. Mae'n bosibl iddo fod yn fyfyrwr yn Rhydychen a bu'n athro yn Nghlun, lle y bu hefyd , mae'n debyg, yn gurad anordeinedig i'w ewythr. Yno y cafodd

253

dröedigaeth o dan weinidogaeth Walter Cradock (Nuttall, 1957, t. 12). Bu'n pregethu yn Llundain yn ystod y Rhyfel Cartref. Derbyniodd dystysgrif gan Gymanfa Westminster i bregethu yn 1646 ac ef oedd un o gomisiynwyr Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru yn 1650. Soniodd mewn un man am effaith y 'very famous godly Preacher' arno. Tybir mai Cradock oedd y pregethwr hwnnw. Fel yn achos Llwyd, mae cryn ymchwil wedi'i wneud ar fywyd a gwaith Vavasor Powell, yn enwedig gan R. Tudur Jones. Am hynny cyfyngaf fy hun i drosolwg o'i agweddau tuag at yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant a'u goblygiadau cymdeithasol.

Roedd Powell yn un o arweinwyr amlycaf Plaid y Bumed Frenhiniaeth, er na ddaeth i dderbyn Milflwyddiaeth filwriaethus y Blaid yn syth, fel y gwelwn. Dywed Goronwy Wyn Owen ei bod hi'n 'amlyg fod Powell a'i ddilynwyr wedi anwesu argyhoeddiadau gwleidyddol eithafol y Pumed Breniniaethwyr a hynny o ganlyniad i'w cred ddiysgog yn agosrwydd Ailddyfodiad Crist' (2008, t. 79). Yn ei waith fel prif Iadmerydd y Blaid yng Nghymru roedd Powell yn genhadwr pwerus. Wedi ffurfio Senedd y Saint yn 1653 proffwydodd Vavasor Powell am "afonydd o bob digonedd yn llifo at ddrysau'r wlad," ac ni phallai bendithion y llywodraeth ddelfrydol' (Evans, 1930, t. 59).

Christ Exalted (1651)

Gwelwn ddatganiad milflwyddol cyntaf Powell mewn pregeth gerbron y Senedd ar 28 Chwefror 1650. Cyhoeddwyd y bregeth dan y teitl *Christ Exalted* yn 1651. Fis cyn pregethu'r bregeth roedd Powell wedi'i benodi'n gomisiynydd dan Ddeddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru. Yn y bregeth mae'n trafod Teyrnas Crist

ac mae'n rhannu'r Deyrnas yn dair. Dywed fod i Deyrnas Crist wedd nefol, ysbrydol a daearol (t. 48). Dywed nad yw am drafod pynciau dadleuol megis y cwestiynau 'Whether Christ shall come and reigne in his owne Person and humane Nature upon earth' ac 'If he doth reigne, who shall reigne with him? whether all the Saints, or whether those only that suffered under Antichrist? or whether the people of the Jews only?' (tt. 51-2). Rydym wedi gweld fod Llwyd a'r Pumed Brenhinwyr yn disgwyl Ailddyfodiad corfforol Crist i ddinistrio'i elynion ac i ddwyn i mewn y Milflwyddiant, pryd y teyrnasa Crist a'i Saint, cyn deuai Crist yn ôl eto y drydedd gwaith i farnu pawb ar ôl i Satan gael ei ryddhau cyn diwedd y byd. Ni fyddai Pumed Brenhinwr wedi gweld y pynciau hyn yn rhai dadleuol; ond yn hytrach na thrafod y rhain, mae Powell am drafod 'those things which are without controversie' (t. 52).

Y pethau y cyfrifa Powell yn bynciau nad ydynt yn ddadleuol yw'r canlynol:

That Jesus Christ hath a right to all the Kingdoms of the world [...] The Lord hath power to dispose of the Kingdomes of the earth to whomsoever he pleaseth [...] Jesus Christ accounts no men so worthy, and so fit to rule his Kingdome (under him) as his Saints [...] that Scriptures declare, that Christ shall reigne in the world, and in the Nations of the world (tt. 52-5)

Mae Powell yn dweud y dylai'r Saint lywodraethu ar y ddaear 'seeing that the world is upheld for their sakes' (t. 57). Mae'n nodi fod gan y Saint hawl i ddefnyddio trais at y diben hyn: 'the Saints may lawfully fight, for wee read that they are to have a *two edged* sword' (t. 58). Mae'n gweld fod proffwydoliaethau y Beibl yn cyfiawnhau trais y Fyddin: 'in the same manner as Christs great and wicked enemies opposed him and destroyed his people, they shall be opposed and destroyed' (t. 61). Ond y ffordd bennaf y dinistrir gelynyon Iesu Grist yw trwy llwyddiant yr efengyl: 'By the rod of his mouth, or the Gospell, which is the

power of God' (t. 64). Mae Powell hefyd yn dadlau achos y tlawd a'r carcharor. I Powell mae lle iddynt hwy hefyd yng ngwaith Crist (t. 93). Cyhoedda Powell 'that meane men are exalted, and the great and noble ones laid aside' yn ei deyrnas (t. 62). Ac mae Powell yn datgan fod y Frenhiniaeth honno wrth law:

now Christ begins to take his great power, and to reigne, and now the Judgment is set, and power put into the hands of the Saints, [...] yea this yeare, 1650, that is comming [...] is to be the Saints yeare of Jubilee (tt. 91-2).

Mae Powell yn gweld tro ar fyd yn dyfod lle y bydd Iesu Grist yn frenin, felly rhaid i'r Saint lywodraethu, ac os oes rhaid codi arfau, gellir cyfiawnhau hynny. Nid yw'n trafod os daw Iesu Grist yn gorfforol ai peidio, ond dywed yn glir fod ei Frenhiniaeth gerllaw. Dyma Powell felly yn closio at syniadau'r Pumed Frenhinwyr ac yn pwysu 'more and more on Christ as an earthly Messiah' (Cohen, 1963, t. 335).

Cawn anhawster dilyn datblygiad athrawiaethol Powell yn glir wedi hyn. Nid oes gennym lawer o'i waith wedi'i gyhoeddi rhwng 1651 a 1661. Mae'n amlwg iddo ddatblygu ei gred ym Mrenhiniaeth ddaearol Crist i olygu dyfodiad corfforol Iesu Grist i'r ddaear. Dywed ei feirniad mawr, Alexander Griffith:

His chief work is to preach and advance Christs Personall Reign here on Earth, being the Antient Errour and Fopperie of the Chiliasts or Millenaries, hissed and exploded out of the Church of Christ in the very Infancy thereof (Griffith, 1654, t. 5).

Roedd Powell yn gefnogol i Cromwell a gwaith y Senedd rhwng 1650 a 1653 ac roedd yn mwynhau rhyddid Deddf y Taenu i bregethu ei genadwri. Daeth tro ar fyd pan ddiddymwyd Senedd y Saint (*Barebones Parliament*) ar 12 Rhagfyr 1653 ac y perswadiwyd Cromwell i dderbyn teitl Arglwydd Amddiffynnydd ar 16 Rhagfyr 1653. Ar 12 Rhagfyr roedd yr Aelodau Seneddol, yn absenoldeb y Pumed Brenhinwyr, wedi pleidleisio o blaid trosglwyddo awenau llywodraeth y wlad i Cromwell. Siomwyd y Pumed Brenhinwyr yn fawr. Iddynt hwy, roedd

Senedd y Saint a Deddf y Taenu yn arwydd fod yr Ailddyfodiad a Brenhiniaeth Crist ar ddyfod. 'To no extreme fanatic of the Saint's Parliament did the dissolution of December 1653 bring greater mortification than to him', meddai Thomas Richards am Vavasor Powell (1923, t. 204). Erbyn 1653 roedd Powell yn coleddu diwinyddiaeth Plaid y Pumed Frenhiniaeth felly. Fel awgryma teitl ei gyfrol gyntaf, *Christ Exalted*, roedd brenhiniaeth a rhagoriaeth Crist yn holl bwysig i Powell. Coda hyn gwestiynau megis 'Ym mha ffordd y mae arddel Crist fel Arglwydd i effeithio ar ymwneud pobl â'r wladwriaeth? [...] O'r amryw atebion a gynigiwyd i'r cwestiynau hyn, dewisodd Vavasor Powell gofleidio un Gwŷr y Bumed Frenhiniaeth' (Jones, 1971, t. 96)

Gwyddom i Powell bregethu yn erbyn Cromwell yn Blackfriars, Llundain ar 19 Rhagfyr 1653. Dyma'r lle

Where three or four Anabaptisticall ministers preach constantly with great bitternesse against the present government, but especially against his excellency, calling him the man of sin, the old dragon, and many other scripture ill names (gol. Birch, 1742, t. 621).

Fel rhan o bregeth Powell yn ei eglwys y diwrnod cyn hynny, ar 18 Rhagfyr, lediodd emyn a oedd yn cynnwys y geiriau a ganlyn:

His Saints shall reign with him on earth
And great ones they shall bow;
The battle and the Battle ax
And men of war shall know

That he will arise, and he will rule
And their power will fall
And Christ our great Commander,
He shall be our General (*Griffith*, 1654, t. 24).

Roedd y bregeth a ddilynodd drannoeth, ar 19 Rhagfyr, yn holl bwysig. Dyma pryd y peidiodd Powell â chefnogi llywodraeth Cromwell. Yn ei bregeth, ar Daniel 11:20-21, cyfeiriodd at Cromwell fel 'a vile person obtaining the kingdom

by flatteries' (gol. Green, 1879, t. 304). Yn y bregeth gofynnodd Powell gwestiwn rhethregol i'w gynulleidfa: 'let us go home and pray, and say, Lord, wilt thou have Oliver Cromwell or Jesus Christ to reign over us?' Roedd Powell yn ymwybodol fod y Pumed Brenhinwyr wedi troi cefn ar Cromwell. Arestwyd yr arweinwyr gan gynnwys Powell, Christopher Feake a Thomas Harrison. Rhyddhawyd Powell ar noswyl Nadolig ac ar ddydd Nadolig pregethodd ar Actau 5:25. Dywedir bod Powell a Llwyd yn pregethu 'seditious and dangerous sermons against his highnes the lord protector' yn 1653/4 (gol. Birch, 1742, t. 129). Wedi hyn gwelwn Powell yn pregethu yn erbyn llywodraeth Cromwell yn ddi-baid.

A Word for God (1655)

Pan dorrodd gwrthryfel brenhinol allan yng ngogledd Cymru yn 1655 brwydrodd Powell o blaid Cromwell, gan gymryd 130 o Frenhinwyr yn garcharorion (Jones, 1971, t. 117). Ond wedi i'r helbul ddod i ben aeth ati eto i feirniadu Cromwell a'i llywodraeth drwy gasglu llofnodion ar gyfer deiseb. Yn Nhachwedd 1655 cyflwynwyd *A Word for God* i Cromwell, a oedd yn cynnwys 322 o enwau. Yn ôl y deisebwyr roedd Cromwell wedi bradychu'r achos drwy gymryd arno rôl brenin. Rhybuddwyd y byddai'n rhaid iddo sefyll gerbron barn Duw ryw ddydd i ateb am ei weithredoedd. Roedd gan y deisebwyr wyth cwyn:

1. That the sins and present condition of this Nation holds parallel in many things with the old Israelites after the mighty wonders of God [...] For instance: They and we have soon forgotten God our Saviour, and the great works which he did.

2. That blessed cause, and those noble Principles propounded, and prosecuted by the old Parliament, and the good People of this Nation [...] are now altogether laid aside and lost; and another cause and interest [...] espoused and maintained.

3. The unadvised and unwarrantable changing of the Government and swearing thereunto, doth [...] put a necessity upon the chief undertaker thereof to overthrow the very foundation of a Common-wealth.
4. As a consequence and fruit of this forbidden Tree, many of the choice servants of God and faithfull of the Nation [...] are imprisoned.
5. Under pretence of necessity still to continue the heavy burdens of Taxes.
6. What abominable and horrible Impieties, Injustice and Oppression are there couched and covered under this new form [y Diffynwriaeth].
7. We cannot without grief mention the sad effects of the secret designe of Hespaniola,⁸³ to be the losse of so many mens lives.
8. We do declare and publish to all from our very hearts and souls, that those of us that had any hand in joyning with the Parliament and Army heretofore, had no other designe against the late King and his Party, save as they were enemies to our Lord Christ, his Kingdome and people, hinderes of his work, and oppressors of the Nation, and that it never came into our hearts to think or intend the pulling down of one person to set up another; or one unrighteous power to promote another (tt. 4-5).

Mae'r ddeiseb yn gorffen trwy alw ar y Saint i ymbellhau oddi wrth Cromwell a'i lywodraeth oherwydd 'this Government is not of God' (t. 5).

Ysgrifennodd Llwyd at 'my deare V.P.' yn beirniadu'r ddeiseb ac mae ei ymateb yn profi iddynt ymbellhau oddi wrth ei gilydd o ran gwleidyddiaeth a diwinyddiaeth erbyn 1656. Hefyd, ysgrifennodd Llwyd at y Cynol John Jones o Faesygarnedd, arweinydd milwrol Seneddol a brawd yng nghyfraith Cromwell.

Mynegodd Llwyd ei anghytundeb â'r ddeiseb:

When I saw & read the first paper called Word for God. I said the enemy was in it. & that I durst not subscribe it, because it would increase vaine ianglings & endless sinfull unprofitable replyes, wherein most people are apt vainly to lett their time run their hearts run their heads tongues hands pens all run out from God (in a sieve of vanity) in scribbling agst one another There is it seems one of my name (but not I) that subscribed that called The Word for God (Llsg. LLGC 11437B).

⁸³ Roedd Lloegr a Sbaen yn rhyfela rhwng 1654 a 1660 oherwydd masnach yn y Caribi.

Yn ogystal gofynnodd Llwyd i Powell: 'Is this the Doore out of Babilon? or do yee knocke at a wrong gate? [...] Lett us [...] without private mutterings find our work and waite within ourselves on God' (gol. Jones & Owen, 1994, tt. 60-1).

Hyd yn oed wedi'r Adferiad a naw mlynedd yn y carchar, ni phallodd ffydd Vavasor Powell yn ailddyfodiad buan yr Arglwydd Iesu. Roedd yn dal gfael yn y gobaith hwn hyd ddydd ei farwolaeth ac ysgrifennwyd y geiriau hyn ar ei garreg fedd:

Christ him released, and now he's joyned among
The martyred souls, whith whom he cries, How long?

Felly, i gynhoi, cennad Plaid y Bumed Frenhiniaeth yng Nghymru oedd Vavasor Powell. Dysgai yn 1650/1 fod gan Iesu Grist hawl dros holl deyrnasoedd y byd ac y gallai ddelio â nhw ym mha ffordd bynnag a ddymunai. Dysgai hefyd mai cyfrifoldeb y Saint oedd llywodraethu fel paratoadar gyfer teyrnasiad Crist, er nad oedd yn dysgu'n bendant yn 1650 y deuai Iesu Grist yn gorfforol ar ei Ailddyfodiad i sefydlu'i deyrnasiad. Byddai lle yn y deyrnas honno i'r tlawd yn hytrach na'r balch. Disgwyliai i hyn ddigwydd yn fuan ac o'r herwydd dylai'r Saint fod yn filwriaethus a dylid sicrhau fod yr efengyl yn cael ei phregethu. Mae'n anodd bod yn sicr o ddatblygiad credoau Powell ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant o 1651 hyd 1661. Erbyn 1653 roedd wedi ymuno â Phlaid y Bumed Frenhiniaeth, ac felly arddelai gynfilflwyddiaeth erbyn hynny. Y goblygiadau cymdeithasol i hyn oedd gwrthwynebiad ffyrnig a rhyfelgar tuag at unrhyw lywodraeth a ystyriai yn wrthwynebus i deyrnasiad Crist. Yn gyntaf, y Goron ac Esgobyddiaeth oedd y gelyn, yna Cromwell ei hun a'i lywodraeth a rwystrai deyrnasiad daearol Crist. Anogodd Powell wrthryfela milwrol. Ymroddodd hefyd i genhadu. Roedd yn achub cam y tlawd a'r gorthrymedig yn ogystal. Yn ei gyfrol *God the Father Glorified* (1649) bu'n ymbil ar ei

260

ddarlennydd i 'consider how to relieve, and how to refresh the poore' (t. 59). 'There should be no beggar in Israel, and in well govern'd Common-wealths there are not' (t. 60) yw her Powell. Yng ngoleuni hyn, mae'n ymbil ar swyddogion i 'labour to execute justice righteously and impartially' (ibid.). Dywed Edward Bagshaw, golygydd *Life and Death of Mr. Vavasor Powell* (1671), fod Powell yn 'exceeding hospitable, the Feasts that he used to make was not for the rich, but for the poor and aged, whom he often invited and supplied with Clothes, Schoos, Stockings, and all other necessary accommodations' (t. 111). Yn ogystal â hyn, 'a fifth part of all his income, either of the little he had of his own or otherwise (by providence came to him) he dedicated to the Lords service and gave it to any in want' (tt. 117-18). Yn ei bregethau a'i ymgyrchu lledaenodd y neges fod Brenhiniaeth Crist ar ddyfod. Hawliodd freintiau i'r Saint, yn dlodion neu'n gyfoethogion. Roedd yn llawenhau yn y sicrwydd y byddai lle amlwg i'r tlawd yn Nheyrnas Crist ac y dymchwelid balchder yr uchelradd. Er iddo ddioddef llawer oherwydd ei ddaliadau milflwyddol, daliodd i'w harddel hyd ei fedd.

V. Thomas Goodwin a Chyffesion Ffydd Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon

Fy mwriad yn y bennod hon yw edrych yn fras ar gredoau'r Piwritaniaid yng ngweddill Ynysoedd Prydain, gan fanylu'n benodol ar eu syniadau am yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant, er mwyn gosod y Piwritaniad Cymreig mewn cyd-destun ehangach. Byddaf yn gwneud hyn drwy edrych ar gyffesion ffydd y Piwritaniaid Seisnig yn bennaf, ond gan roi peth sylw hefyd i rai Albanaidd a Gwyddelig, er mwyn ceisio cael darlun cyffredinol.⁸⁴ Yna, bwriadaf fanylu ar ddysgeidiaeth Thomas Goodwin (1600–1680) ar yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant. Dewiswyd manylu arno ef am fod Goodwin yn ffigwr canolog ymhlith y Piwritaniaid yn ei ddydd. Chwaraeodd ran ganolog yng ngwleidyddiaeth y cyfnod wedi buddugoliaeth y Seneddwyr. Ef oedd un o gynghorwyr pennaf Oliver Cromwell. Yn ogystal, mae lle i gredu bod ei athrawiaeth ef ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant yn cynrychioli cred yr Annibynwyr, yn gyffredinol, gan mai ef oedd eu prif ladmerydd yng Nghymanfa Westminster.

Cyn mynd ati i edrych ar y cyffesion ffydd yn unigol, rhaid nodi ambell ystyriaeth. Dogfennau hanesyddol ag iddynt gyd-destun pendant yw'r cyffesion ffydd. *Cyffes Ffydd Westminster*, efallai, yw'r enwocaf o gyffesion ffydd y Piwritaniaid. Fel y nodwyd eisoes, yn 1643 galwodd y Senedd nifer o glerigwyr ac eraill ynghyd i Abaty Westminster i'w cynghori ynghylch diwygio credo, addoliad a threfn Eglwys Loegr, mewn cyfnod ar ddechrau'r Rhyfel Cartref pan oedd symudiadau cryf tuag at newid trefn yr Eglwys o Esgobyddiaeth i Bresbyteriaeth. Dyna'r 'Westminster Assembly' - Cymanfa Westminster - a byddai'n cyfarfod o 1643 hyd 1653. Allan o 121 aelod gwreiddiol, dim ond un

⁸⁴ Mae'r adran ar y cyffesion ffydd yn pwysu ar waith ymchwil Crawford Gribben yn *The Puritan Millennium* (2008), tt. 237-61.

Cymro yn dal bywoliaeth yng Nghymru a gafodd ei enwebu, sef Edward Ellis o Gegidfa ger y Trallwng. Roedd dau Gymro arall yn dal bywoliaethau yn Lloegr, sef Richard Buckley a Richard Lloyd, hefyd yn aelodau. Yn ogystal â'r rhain, roedd dau weinidog arall o Gymru yn aelodau o Gymanfa Westminster, sef Dr. Christopher Pashley o Benarlâg a William Nicholson o Landeilo, ond Saeson oeddynt. Pam tybed? Rhoddai Cymanfa Westminster fri ar raddedigion o Rydychen a Chaergrawnt a diwinyddion dysgedig oedd aelodau'r Gymanfa. Er bod y Piwritaniaid Cymreig yn addysgedig, fel y gwelsom, pregethwyr, cenhadon ac ymgyrchwyr oeddynt yn bennaf. Rhoddasant hwy eu hegri i gyfeiriadau eraill, megis ceisio gwella cyflwr ysbrydol Cymru. Esboniad arall yw mai Cynulleidfaolwyr oedd Llwyd, Erbery a Cradock pan ffurfiwyd y Gymanfa, a Phresbyteriaeth oedd yn dominyddu'r Gymanfa o'r cychwyn cyntaf. Gan fod y Cynulleidfaolwyr hefyd yn y lleiafrif nid syndod felly oedd peidio â gweld Cynulleidfaolwr o Gymro yn aelod ohoni.

Rhan o ffrwyth eu trafodaethau oedd *Cyffes Ffydd Westminster*, a luniwyd yn 1646 ac a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1647. Derbyniwyd y gyffes hon hefyd gan Eglwys yr Alban yn 1647. Presbyteriaid oedd yn y mwyafrif yn y Gymanfa, ac roedd sicrhau cefnogaeth Presbyteriaid yr Alban i'r Senedd yn y Rhyfel Cartref yn ystyriaeth bwysig yn y trafodaethau. Serch hynny, roedd eraill yn anhapus iawn ynghylch y bwriad i greu eglwys wladol Presbyteriaidd, a chafwyd dadlau brwd rhwng y pleidiau gwahanol yn y Gymanfa ar fater trefn eglwysig. Cyffes ffydd Ddiwygiedig oedd un Westminster, a bu llawer o gytuno ar rai materion diwinyddol sylfaenol. Gwelwyd ymgais hefyd i ganfod ffordd ganol rhwng y pleidiau gwahanol a gynrychiolid yn y Gymanfa i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl. Nid yw'r Gyffes yn manylu ynghylch yr agweddau hynny o'r trafodaethau lle methwyd a chael cytundeb. Heb os, mae union gynnwys y

gyffes hon, fel y cyffesion eraill, yn adlewychu'r sefyllfa gyfoes a gwerthoedd a diwinyddiaeth a'i lluniodd.

Ychydig iawn o sylw a roddir i eschatoleg yn y cyffesion ffydd ac ar yr adegau prin hynny yr ymddangosai y ffurf mwyaf cymedrol ohono a welir. Mae hyn yn awgrymu mai pwnc hynod ddadleugar ymhlith y Piwritaniaid oedd yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant.

Ond tybed a allai hyn olygu hefyd nad oedd y pynciau hyn yn rhai canolog i drafodaethau llunwyr y cyffesion. Fe welwyd eisoes yn y penodau blaenorol, er enghraifft, fod y lle a roddid i'r Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant yn amrywio'n fawr o unigolyn i unigolyn. I Erbery, Llwyd a Powell roedd yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant yn ganolog i'w diwinyddiaeth, ond nid felly i Wroth, Cradock, Thomas, Roberts a Lewis, fe ymddengys. Effeithiai eschatoleg ar strwythur eglwysig, gwleidyddiaeth a bywyd beunyddiol yn achos Erbery, Llwyd a Powell, ond yn y cyffesion ffydd ymddengys mai materion na haeddant ormod o sylw oeddynt, fel yng ngweithiau Wroth, Cradock, Thomas a Roberts. Gan gadw'r materion hyn mewn cof, awn ymlaen yn awr i fwrw golwg ar gyffesion y Piwritaniaid Seisnig, Albanaid a Gwyddelig.

1. *Cyffes Ffydd yr Albanwyr* (1560)

Lluniwyd *Cyffes Ffydd yr Albanwyr* dan oruchwyliaeth John Knox, diwygiwr oedd wedi bod yn alltud yn Frankfurt a Genefa ac wedi dod dan ddylanwad John Calfin. Roedd eschatoleg yn flaenllaw yn ei feddwl ef; testun ei bregeth gyntaf oedd Daniel 7:24-25. Roedd alltudion eraill y 1550au hefyd yn mynnu rhoi lle canolog i eschatoleg radical. Yn 1547 cyhoeddodd John Bale *The Image of Both Churches*, sy'n esboniad ar Ddatguddiad. Yn y gyfrol honno ceir hanes y wir Eglwys (Brotestannaidd) o'i chymharu â'r Anghrist (ar ffurf yr Eglwys

Babyddol). Yn 1557 cyhoeddodd John Olde Short *Description of Antichrist*, cyhoeddodd Bartholomew Traheron ddarlithoedd ar Ddatguddiad 4, a chyhoeddodd Robert Pownall *Admonition to the Towne of Callas* yn rhybuddio Lloegr o farn Duw. Dywedir yn y rhagair i Feibl Genefa (1560) fod alltudion Protestannaidd Prydain yn y 1550au 'love the comming of Christ Jesus our Lord' (Beibl Genefa, 1560, sig. iiiv).

Fodd bynnag, er gwaethaf diddordeb mawr John Knox mewn eschatoleg, yn debyg i'r hyn a welwn yn achos cyffesion ffydd eraill, nid oes llawer o arwyddion o'r diddordeb hwnnw i'w gweld yng nghyffes ffydd 1560. Dywedir yn yr erthygl, 'Of the Ascension':

To the Execution [o'r Farn] we certainelie beleve, that the same our Lord JESUS sall visiblie returne, as that hee was sene to ascend. And then we firmly beleve, that the time of refreshing and restitutioun of all things sall cum, in samekle that thir, that fra the beginning have suffered violence, injurie, and wrang, for richteousnes sake, sal inherit that blessed immortalitie promised fra the beginning

Sut, felly, y dylid cymhwyso'r athrawiaeth hon? Fel a ganlyn, yn ôl John Knox, eto yn yr un adran:

The remembrance of quhilk day, and of the Judgement to be executed in the same, is not onelie to us ane brydle, whereby our carnal lustes are refined, bot alsua sik inestimable comfort, that neither may the threatning of worldly Princes, nether zit the feare of temporal death and present danger, move us to renounce and forsake that blessed societie, quhilk we the members have with our Head and onelie Mediator CHRIST JESUS (gol. Schaff, 1877, tt. 449-50).

Gwelwn yma fod eschatoleg John Knox yn rhywbeth er cysur i Gristnogion dan erledigaeth. Nid oes milenariaeth yma, ac mae hynny'n cyd-fynd â'r ffaith fod Protestaniaid yr Alban wedi mabwysiadu'r ail *Gyffes Ffydd Helfetaidd* yn 1566. Perthynent i rwydwaith rhyngwladol 'pan-Calvinist' (Gribben, 2008, t. 246), ac roedd Calfiniaid Hwngari, Gwlad Pwyl a Genefa eisoes wedi mabwysiadu'r

gyffes hon. Un o nodweddion yr ail *Gyffes Ffydd Helfetaidd* oedd ei bod hi'n elyniaethus tuag at unrhyw fath o filflwyddiaeth (yn sgil gwrthryfel yr Ailfeddyddwyr ym Münster yn 1534-35). Ynndi condemnir y syniad milflwyddol, sef bodolaeth byd euraid ar y ddaear cyn Dydd y Farn dan deyrnasiad y Saint, a dymchweliad eu gelynon dan eu traed cyn neu ar ôl yr Ailddyfodiad. Nid oes milflwyddiaeth yn perthyn i eschatoleg Knox na'r Piwritaniaid Albanaidd, felly, yn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg. Amilflwyddiaeth sydd yma. Rydym yn byw yn y dyddiau olaf, mae Iesu Grist yn teyrnasu ar y nefoedd a'r ddaear o'i orsedd nefolaidd ac fe ddaw eto i'r ddaear i farnu'r byd pan sefydlir Nefoedd a Daear newydd.

2. Yr Erthyglau Gwyddelig (1615)

Erbyn 1615 roedd Piwritaniaeth wedi'i sefydlu'i hun yn rym pwerus ac amlwg yn Lloegr, Cymru ac Iwerddon. I'r Piwritan radical, roedd y *Deugain Erthygl Namyn Un* (1563) yn wan o'u cymharu â chyffes ffydd John Knox. Cyhoeddwyd *Erthyglau Lambeth* yn 1595 gan Brotestaniaid a oedd am weld diwygio *Erthyglau* 1563 ond gwrthododd y Brenin Iago hwy yn 1604. Serch hynny, derbyniodd Eglwys Iwerddon hwy yn 1615.

Mae i'r Erthyglau Gwyddelig 104 bennawd sy'n adlewyrchiad o eglwys yn ceisio plesio alltudion o anghydfurfwyr ar y naill law, ac ar y llaw arall blesio'r sefydliad Seisnig mewn gwlad lle roedd y mwyafrif o'r werin bobl yn driw i Babyddiaeth. Goruchwyliwr y gwaith oedd James Ussher, ac roedd ganddo ef, fel John Knox, ddiddordeb byw mewn eschatoleg. Pan ddaeth yn Ddoctor mewn Diwinyddiaeth yng Ngholeg y Drindod, Dulyn yn 1613, dewisodd bregethu ar Daniel 9 ac awgrymodd yn ei gyfrol gyntaf, *Gravissimae Quaestionis, de Christianarum ecclesiarum* (Llundain, 1613), y posibilrwydd o

266

ddau fileniwm (gol. Elrington, 1847, t. xi.). Trosolwg o hanes y Wir Eglwys yw'r gyfrol ac mae Ussher yn amddiffyn y Diwygiad Protestannaidd. Ar sail ei ddehongliad o Ddatguddiad 20, awgrymodd Ussher fod mil blynnyddoedd cyntaf hanes yr Eglwys yn gyfnod pan oedd Satan yn rhydd i erlid y Saint. Diwedd y mil blynnyddoedd cyntaf oedd yr adeg pan fyddai'r Eglwys Gatholig, drwy ddylanwad yr Anghrist, yn codi i fod yn rym wleidyddol bwerus. I Ussher, yr adeg yma yn hanes yr Eglwys oedd cyfnod yr Ymerawdwyr Harri III (1046–1056), a Harri IV (1084–1105) a'r Pabau Gregori VII (1073–1085) a Paschal II (1099–1118). Roedd Ussher felly yn gweld priodas glòs rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth fel rhywbeth gwael. I Ussher, roedd y Diwygiad Protestannaidd yn brawf fod yr ail fileniwm wedi dechrau (Gribben, 2008, tt. 97). Ond nid yw'r *Erthyglau Gwyddelig* yn adlewyrchu damcaniaethu o'r fath, ond yn sefyll ar dir diogel a chymedrol. Sonnir am y Farn yn yr adran sy'n sôn am waith Crist: 'until he return to judge all men at the last day' (gol. Schaff, 1877, t. 531). Safbwynt uniongred a geir yn yr *Erthyglau* am fywyd ar ôl marwolaeth: 'After this life is ended, the souls of God's children be presently received into Heaven, there to enjoy unspeakable comforts; the souls of the wicked are cast into Hell, there to endure endless torments' (ibid., t. 543). Ailddyfodiad Iesu Grist fydd diwedd y byd ac ar ei Ailddyfodiad atgyfodir y meirw a bernir y byd gan Iesu Grist:

At the end of this world the Lord Jesus shall come in the clouds with the glory of his Father; at which time, by the almighty power of God, the living shall be changed and the dead shall be raised; and all shall appear both in body and soul before his judgement seat, to receive according to that which they have done in their bodies, whether good or evil. (ibid., t. 544)

Nid oes sôn am Filflwyddiant. Wedi diwedd y byd sefydlir nefoedd a daear newydd: 'When the last judgement is finished, Christ shall deliver up the

Kingdom to his Father, and God shall be all in all' (ibid.). I James Ussher, fel yn ei weithiau eraill, y Pab yw'r Anghrist:

The Bishop of Rome is so far from being the supreme head of the universal Church of Christ, that his works and doctrine do plainly discover him to be that man of sin, foretold in the holy Scriptures whom the Lord shall consume with the Spirit of his mouth, and abolish with the brightness of his coming (ibid., 540).

Gwelwn yma felly gyffes ffydd uniongred sy'n hepgor unrhyw sôn am y Milflwyddiant. Dysgai James Ussher mai'r Ailddyfodiad a'r Farn a ddaw ar ddiwedd y byd cyn sefydlu nefoedd a daear newydd. Adlewyrcha'r gyffes hefyd y gred a dderbynnid yn gyffredinol, mai'r Pab yw'r Anghrist.

3. *Cyffes Ffydd Gyntaf Llundain* (1644)

Dyma gyffes ffydd yn perthyn i'r Bedyddwyr Calфинаidd. Fel y trafodwyd eisoes, pan ddaeth William Laud yn Archesgob yn 1628 cafwyd ymgyrch eithafol yn erbyn Piwritaniaid ac ymneilltuwyr gan y Goron a'r Eglwys. Wedi agor y Senedd Hir yn 1640 ac yna garcharu William Laud yn 1641, daeth ymneilltuwyr radicalaidd o'r cysgodion gan obeithio am gyfnod o ryddid ysbrydol i roi eu syniadau chwyldroadol ar waith. Roedd gan y Senedd Hir raglen filflwyddol. Cyhoeddwyd ganddynt gyfieithiadau o weithiau milflwyddol Joseph Mede a Thomas Brightman ac ailgyhoeddwyd ganddynt weithiau John Foxe a John Cotton. Yng nghanol bwrlwm y 1640au ni chafwyd sensoriaeth gan y wladwriaeth a chafwyd rhyddid o fewn Byddin y Senedd i drafod, i bregethu ac i rannu syniadau radical. Daeth bri ar filflwyddiaeth, gan ddiorseddu'r eschatoleg ddiogel oedd yng nghyffesion ffydd y gorffennol.

Roedd y Bedyddwyr, er enghraifft, yn datblygu rhethreg milenaraidd. Ar sail dehongliad o Ddatguddiad, condemniodd John Smyth y bedyddwyr babanod yn *The Character of the Beast* (1609), ac erbyn y 1640au

maentumiodd Christopher Blackwood yn *The Storming of Antichrist* (1644) fod Annibynnwyr a Phresbyteriaid dan ddylanwad yr Anghrist am eu bod yn bedyddio babanod. Mae'n arwyddocaol nad yw cyffes ffydd 1644 yn datgan mai'r Pab yw'r Anghrist. Dengys Christopher Hill sut y cafodd amrywiaeth o bobl eu gweld fel yr Anghrist ar hyd yr ail ganrif ar bymtheg. Yn eu tro, roedd pob un o'r rhai a ganlyn wedi cael eu hystyried yn Anghrist: esgobion, archesgobion, swyddogion yr awdurdodau sifil, Arminiaid, Iddewon a Mwslemiaid (1971, tt. 41, 78, 178, 181).

Yn rhannol am fod y Bedyddwyr yn tueddu i gael eu cysylltu ag ymddygiad barbaraid yr Ailfeddyddwyr adeg gwrthryfel Münster, aeth cynrychiolwyr o saith o eglwysi o Fedyddwyr Neilltuol yn Lundain ati yn 1644 i lunio cyffes ffydd. Teimlent fod rhaid iddynt lunio cyffes a fyddai'n eu gwahaniaethu oddi wrth Fedyddwyr Arminiaid ar y naill law ac Ailfeddyddwyr y Cyfandir ar y llaw arall. Gwelwn ddylanwad negyddol Ailfeddyddwyr Münster yn nheitl llawn eu cyffes ffydd, sef *Confession of Faith of Seven Congregations or Churches of Christ in London, which are commonly (but unjustly) called Anabaptists*.

Rhan o hynodrwydd y gyffes ffydd yw'r teitl ei hun sydd, ar un darlleniad, yn adlais o Ddatguddiad, penodau 2 a 3, lle mae Iesu Grist yn cyfarch y saith eglwys yn Asia Leiaf. Daeth yn ffasiwn gan y Piwritaniaid i weld y saith eglwys fel symbol o hanes yr eglwys, a'r seithfed eglwys, Laodicea (Datguddiad 3: 14-22), yn cynrychioli'r eglwys yn eu cyfnod hwy. Dywed un hanesydd 'the peculiar retention of the number Seven, hints at a prediction [*sic*] for allegory and mysticism, if not for the warlike Fifth-Monarchy doctrines outright' (Whitley, 1910, t. 405). Roedd llawer o bobl Plaid y Bumed Frenhiniaeth yn Fedyddwyr, ac roedd Plaid y Bumed Frenhiniaeth o'r farn fod yn rhaid troi at drais er mwyn

sefydlu'r deyrnas filflwyddol wleidyddol ar y ddaear. Ond nid yw'r gyffes hon yn dweud hynny.

Dywed yr ugeinfed erthygl: 'This kingdom shall be then fully perfected when He shall the second time come in glory to reign among His saints.' Mae mwy nag un darlenniad posibl. Gall olygu y bydd oes aur ar y ddaear yn dilyn Ailddyfodiad Iesu Grist. Ond o'i gymryd yng nghyd-destun yr adnodau o'r Ysgrythur a nodir ar ddiwedd Erthygl 20, a hefyd yng ngoleuni'r hyn a ddatgenir yn Erthygl 19:

Touching His Kingdom, Christ being risen from the dead, ascended into Heaven, sat on the right hand of God the Father, having all power in Heaven and earth, given unto Him, He does spiritually govern His Church, [...] continually dwelling in, governing and keeping their hearts in faith and filial fear by His Spirit [...] And on the contrary, ruling in the world over His enemies, Satan, and all the vessels of wrath (1644, <http://www.reformedreader.org/cccl/h.htm> [Dyddiad cyrchu: 26 Ionawr 2018]).

gellir casglu mai'r hyn y cyfeirir ato yn Erthygl 20 yw'r perffeithio ar y Deyrnas sy'n digwydd pan fydd Iesu yn sefydlu nefoedd a daear newydd ar ei Ailddyfodiad ar ddiwedd y byd. Yn sicr, y naill ffordd neu'r llall, nid oes sôn am oes aur cyn yr Ailddyfodiad: 'That all believers in the time of this life, are in a continual warfare, combat, and opposition against sin, self, the world, and the Devil, and liable to all manner of afflictions, tribulations, and persecutions, and so shall continue until Christ comes in His Kingdom' (ibid.). Wrth ystyried i'r Bedyddwyr ysgrifennu'r gyffes ffydd hon er mwyn gwrthweithio drwg Ailfedyddwyr milflwyddol a threisgar Münster, nid yw'n syndod efallai weld nad ffocws militaraidd, apocalyptaidd Plaid y Bumed Frenhiniaeth sydd iddi. Yn ddiddorol, ni chyfeirir at Ddatguddiad 20 unwaith drwy gydol y gyffes. Mae'n cloi gyda'r weddi, 'Come, Lord Jesus, come quickly' (Datguddiad 22 :20)..

4. *Cyffes Ffydd Westminster* (1647)

Lluniwyd *Cyffes Ffydd Westminster* yn 1646 a'i chyhoeddi yn 1647. Mae'n adlewyrchu eschatoleg Biwritanaidd gymedrol. Roedd dynion o argyhoeddiad milflwyddol yn rhan o'r cynulliad a alwyd i lunio'r gyffes, pobl megis Thomas Goodwin a George Gillespie. Er enghraifft, yn ei bregeth, *A sermon preached before the Honourable House of Commons at their late solemn fast Wednesday, March 27, 1644*, cyhoeddodd Gillespie fod ail-adeiladu teml filflwyddol Eseciel wedi dechrau flwyddyn ynghynt. Yn Eseciel 40 mae'r proffwyd yn cael ei gymryd gan Dduw mewn gweledigaeth o'r gaethglud i dir Israel. Yno mae'r deml yn cael ei hail-adeiladu ac yno hefyd mae gŵr 'a'i welediad fel gwelediad pres, ac yn ei law llyn llin, a chorsen fesur: ac yr ydoedd efe yn sefyll yn y porth' (ad. 3). Un ffordd o ddehongli'r weledigaeth hon yw mai Iesu yw'r gŵr ac mai'r teyrnasiad milflwyddol yw'r deml sy'n cael ei hadeiladu. Hefyd, cyhoeddwyd nifer o weithiau gan Gymanfa Westminster yn y cyfnod rhwng 1643 a 1647, gan gynnwys *Directory for the Publick Worship of God* yn 1644, oedd yn arddel milflwyddiaeth. Disgwylid gweld pethau penodol cyn Ailddyfodiad Iesu Grist, gan gynnwys:

the conversion of the Jews, the fullness of the Gentiles, the fall of Antichrist [...] for the deliverance of the distressed churches abroad from the tyranny of the antichristian faction, and from cruel oppressions and blasphemies of the Turk; for the blessing of God upon the reformed churches, especially upon the churches and kingdoms of Scotland, England, and Ireland, now more strictly and religiously united in the Solemn National League and Covenant (1644, http://www.reformed.org/documents/wcf_standards/index.html?mainframe=/documents/wcf_standards/p369-direct_pub_worship.html [Dyddiad cyrchu: 26 Ionawr 2018]).

Dyma obeithio optimistaidd am ddyfodiad cyfnod dedwydd cyn yr Ailddyfodiad, sef y Milflwyddiant. Serch hyn, roedd y gyffes ffydd ei hun yn fwy ceidwadol, am fod yr amrywiaethau barn ar y materion hyn yn gorfodi ei llunwyr i ddilyn llwybr

canol. Er enghraifft, nid oedd yn cyfeirio at dröedigaeth yr Iddewon nac ychwaith at waredigaeth rhag grymoedd Pabyddol a gelyniaethus. Ond, fel yn yr *Erthyglau Gwyddelig*, rhoddwyd adran benodol i eschatoleg ar ddiwedd y gyffes. Gwelwn, yn yr adran honno, i'r awduron fabwysiadu darlleniad ceidwadol o eschatoleg, gan bennu'r 'dyddiau olaf' i un diwrnod o farn ar ddiwedd y byd:

At the last Day, such as are found alive shall not die, but be changed: and all the dead shall be raised up, with the self same bodies, and none other, although with different qualities, which shall be united again to their Souls for ever (gol. Schaff, 1877, t. 671).

God hath appointed a Day wherein he wil judge the World in righteousnesse by Jesus Christ, to whom all power and judgment is given of the Father. In which Day, not onely the apostate Angels shall be judged, but likewise all persons that have lived upon Earth, shall appear before the Tribunal of Christ, to give an account of their Thoughts, Words, and Deeds; and to receive according to what they have done in the Body, whether good or evil (ibid., tt. 671-2).

Mae'r gyffes yn rhybuddio yn erbyn arfer y dydd o geisio pennu dyddiad penodol i ddiwedd y byd:

As Christ would have us to be certainly perswaded that there shall be a Day of Judgement, both to deter all men from sin, and for the greater consolation of the godly in their adversity: so will he have that Day unknown to men, that they may shake off all carnal security, and be always watchful, because they know not at what hour the Lord will come; and may be ever prepared to say, Come, Lord Jesus, come quickly. Amen (ibid., tt. 672-3).

Gyda'r geiriau hyn daw *Cyffes Ffydd Westminster* i ben. Fodd bynnag, mae *Larger Catechism* (1648) y Gymanfa yn ychwanegu manylion am eschatoleg at y gyffes ffydd. Gweler, er enghraifft, ddysgeidiaeth y Catecism ar Weddi'r Arglwydd:

Q. 191. What do we pray for in the second petition?

A. In the second petition, (which is, *Thy kingdom come*,) acknowledging ourselves and all mankind to be by nature under the dominion of sin and

Satan, we pray, that the kingdom of sin and Satan may be destroyed, the gospel propagated throughout the world, the Jews called, the fullness of the Gentiles brought in; the church furnished with all gospel-officers and ordinances, purged from corruption, countenanced and maintained by the civil magistrate: that the ordinances of Christ may be purely dispensed, and made effectual to the converting of those that are yet in their sins, and the confirming, comforting, and building up of those that are already converted: that Christ would rule in our hearts here, and hasten the time of his second coming, and our reigning with him forever: and that he would be pleased so to exercise the kingdom of his power in all the world, as may best conduce to these ends.

Cysylltir gweithgarwch y Piwritaniaid ag eschatoleg yma, gan gynnwys cenhadaeth fyd-eang, diwygiadaeth, eglwysyddiaeth a llywodraeth y Saint ar y ddaear cyn yr Ailddyfodiad. Er nad oes enwi'r Milflwyddiant fel y cyfryw, cyfeirir at ddinistrio teyrnas pechod a Satan, llwydd rhyngwladol yr efengyl a'r arwyddion sydd ynghlwm wrth hynny, megis tröedigaeth yr Iddewon. Mae hyn yn dangos yn glir fod Piwritaniaid Cymanfa Westminster yn gweld gweithgarwch daearol mewn termau eschatolegol, a milflwyddol.

5. *Datganiad Savoy* (1658)

Pan anfonwyd y pamffled *An Apologeticall Narration* (1643) yn uniongyrchol at y Senedd gan Annibynwyr Cymanfa Westminster yn 1644, daeth yn amlwg fod tensiynau yn y Gymanfa. Roedd yr Annibynwyr yn anfodlon â Phresbyteriaeth mwyafrif aelodau'r Gymanfa. Roedd llawer o arweinwyr y Fyddin Model Newydd yn Annibynwyr, gan gynnwys Oliver Cromwell ei hun, ac roeddynt yn ddigon grymus i rwystro'r Senedd rhag mabwysiadu Presbyteriaeth yn drefn eglwysig ar gyfer Eglwys Loegr. Erbyn y 1650au, yr Annibynwyr oedd y grym mwyaf yng ngwleidyddiaeth Lloegr, ond erbyn 1658 roedd eu hachos yn dechrau crebachu. Disodlwyd yr Annibynnwr John Owen o'i safle breintiedig a dylanwadol fel Is-

ganghellor Rhydychen gan y Presbyteriad John Conant (1608–1694) yn 1657 ac roedd hyn yn arwydd o golli tir a dylanwad ar ran yr Annibynwyr.

Datganiad Savoy yw'r ddogfen ar ffydd a threfn eglwysig a dderbyniwyd gan gynrychiolwyr eglwysi'r Annibynwyr a gyfarfu ym Mhalas Savoy, Llundain, yn Hydref 1658. Chwaraeodd John Owen a Thomas Goodwin ran amlwg yn ei llunio. Fersiwn diwygiedig *Cyffes Ffydd Westminster* yw cyffes *Datganiad Savoy* ac ar bwnc Dydd y Farn mae *Datganiad Savoy* yn gopi gair am air o *Gyffes Ffydd Westminster*, ar wahân i ychydig fanylion sillafu ac atalnodi. Ceir gwahaniaethau gwaelodol, fodd bynnag, pan drafodir eglwysyddiaeth. Pwysleisia *Datganiad Savoy* mai ar lefel yr eglwys leol y mae llywodraethu eglwysig i fod i ddigwydd:

The whole body of men throughout the world, professing the faith of the Gospel and obedience unto God by Christ according unto it, not destroying their own profession by any Errors everting the foundation, or unholiness of conversation, are, and may be called the visible Catholic Church of Christ; although as such it is not intrusted with the administration of any Ordinances, or have any offices to rule or govern in, or over the whole Body (ibid., tt. 721-2).

Yn ogystal â hyn ceir yn yr adran ar yr Eglwys ddatganiadau milflwyddol hyderus:

There is no other Head of the Church but the Lord Jesus Christ; nor can the Pope of Rome in any sense be Head thereof; but is that Antichrist, that man of sin, and son of perdition, that exalteth himself in the Church against Christ, and all that is called God, whom the Lord shall destroy with the brightness of his coming (ibid., t. 723).⁸⁵

As the Lord in his care and love towards his Church, hath in his infinite wise providence exercised it with great variety in all ages, for the good of them that love him, and his own Glory: so according to his promise, we expect that in the later days, Antichrist being destroyed, the Jews called, and the adversaries of the Kingdom of his dear Son broken, the

⁸⁵ Dyma Erthygl 26:4 yng nghyffes ffydd *Datganiad Savoy*. Ceir yma yr un geiriad ag erthygl 25:6 yn *Cyffes Ffydd Westminster*, ac eithrio'r cymal olaf, 'whom the Lord shall destroy with the brightness of his coming', sy'n ychwanegiad yn *Datganiad Savoy*

Churches of Christ being enlarged and edified through a free and plentiful communication of light and grace, shall enjoy in this world a more quiet, peaceable and glorious condition than they have enjoyed (ibid.).

Nid oes dim sy'n cyfateb i'r darn olaf hwn - sef Erthygl 26:5 - yng *Nghyffes Ffydd Westminster*. Dyma drywydd gwbl wahanol i *Gyffes Ffydd Westminster*, felly, a dyma yn sicr y gyffes ffydd fwyaf milflwyddol o eiddo'r Piwritaniaid. Er nad yw *Datganiad Savoy* yn trafod Datguddiad 20 yn benodol, mae'n cyfeirio yn Erthygl 26:5 at gyfnod o fendith ddaearol pan welir yr Anghrist yn cael ei ddinistrio, tröedigaeth yr Iddewon, dinistr gelynon Teyrnas Crist, llwyddiant nodedig i'r efengyl a dyfodiad cyfnod tawel, heddychlon a gogoneddus. Er nad yw'r *Datganiad* yn galw'r cyfnod hwnnw o dawelwch a heddwch yn Filflwyddiant, mae ei nodweddion a'r arwyddion sy'n rhagflaenu ei ddyfodiad yn awgrymu'n gryf mai cyfnod milflwyddol sydd dan sylw yma. Yn ôl *Datganiad Savoy*, dinistr yr Anghrist fydd dechrau'r camau sy'n arwain at y cyfnod o fendith, lle gwelir yr Iddewon yn troi at Grist, gelynon Crist yn cwmpo a llwyddiant i'r eglwys a'r efengyl gan adael y byd mewn heddwch ogoneddus cyn yr Ailddyfodiad. Yn ôl y gyffes 'the brightness of his coming' (2 Timotheus 2:8) bydd yn cychwyn hyn. Caiff y teyrnasiad milflwyddol ei ddechrau gan Iesu Grist, ond nid trwy ei ddyfodiad corfforol yn yr Ailddyfodiad.

Un peth sy'n drawiadol am y cyffesion ffydd hyn yw eu bod, mewn cyfnod cythryblus a radicalaidd, yn hynod o geidwadol ac ymataliol at ei gilydd ar faterion eschatolegol. Eglwysyddiaeth a soterioleg oedd prif fyrdwn y cyffesion ffydd hyn, ac er bod y Piwritaniaid yn breifat yn coleddu eschatoleg byw a gweithredol, fe'u gwelwn yn cadw ffrwyn ar y materion hynny yn eu cyffesion ffydd ac yn gwrthod coleddu ynddynt ddeongliadau penodol ynghylch yr

275

Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant, er cynifer o gyfrolau radical a ysgrifennwyd am y pwnc yn y cyfnod dan sylw. Nid yw hyn yn syndod, efallai, gan mai pwrpas sylfaenol cyffesion ffydd yw cyflwyno credoau mewn modd syml a threfnus gyda sylfaen Beiblaidd cadarn a chlir, a chanolbwyntio ar y materion sy'n uno.

Er mwyn gweld beth oedd safbwynt penodol Piwritaniaid y cyfnod ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant rhaid, felly, droi at weithiau unigolion. At y diben hwn trown yn awr at Thomas Goodwin.

2. Thomas Goodwin (1600–1680)

Ganed Thomas Goodwin yn swydd Norfolk ar 5 Hydref 1600 ar aelwyd Biwritanaidd. Aeth i Brifysgol Caergrawnt ym mis Awst 1613 a graddiodd o Goleg Crist yn 1616. Pwyslais addysg Caergrawnt oedd dyneiddiaeth a sgoластиаeth gyda'r bwyslais yn drwm ar reswm, rhethreg, metaffiseg, mathemateg, ffiseg ac ieitheg. Ond yr oedd Caergrawnt hefyd yn gartref i lawer o Biwritanaid fel y dangosa H.C. Porter yn *Reformation and Reaction in Tudor Cambridge* wrth nodi enwau'r rhai hynny darfu 'petitioned for Cartwright in 1570; those who protested against the new statutes in 1572; the supporters of Francis Johnston in 1589; the opponents of William Barrett in 1595; and those (some dons, some not) who were implicated in the *classis* organization' (1972, t. 207). Yn 1619, aeth Goodwin i Neuadd Catrin, Caergrawnt, ac etholwyd ef yn gymrawd yno yn 1620. Yn y cyfnod hwn daeth dan ddylanwad y pregethwr Piwritanaidd, John Rogers (c.1570–1636), a theithiai dros 35 milltir o Gaergrawnt i Dedham er mwyn ei glywed yn pregethu.

Yn 1625 penodwyd Thomas Goodwin yn un o bregethwyr y Brifysgol ac ymhen tair blynedd, yn dilyn marwolaeth John Preston (1587–1628), a oedd yn ddarlithydd yn Eglwys y Drindod, Caergrawnt, cafodd ei benodi'n olynydd iddo.

Roedd John Preston yn ddylanwad mawr ar Thomas Goodwin yn ystod ei flynyddoedd ffurfiannol yng Nghaergrawnt. Disgrifir ef gan Jonathan D. Moore fel dyn 'militantly anti-Papist and anti-Arminian' (2007, t. 20) ac fe welwn yr un agwedd yng ngweithiau Thomas Goodwin. Yn sgil ei Biwritaniaeth a'i anfodlonrwydd ynghylch dysgeidiaeth ei esgob, a oedd yn gefnogwr brwd i'r Archesgob William Laud, ymddiswyddodd Goodwin o'i holl ddyletswyddau yn y Brifysgol ac ymunodd â rhengoedd yr Annibynwyr yn 1634. Aeth i fyw yn Llundain a phriododd yno yn 1638, ond bu'n rhaid iddo ffoi oherwydd erledigaeth gan y Goron a'r Eglwys. Hwylodd i'r Iseldiroedd yn 1639. Yno, bu'n weinidog ar gynulleidfa Saesneg yn Arnhem, dwyrain yr Iseldiroedd. Cafodd gyfle i arbrofi ym mater diwygio eglwysig yn ei eglwys annibynnol a chynulleidfaol yn Arnhem. Gallwn fentro bod y rhyddid crefyddol a brofid gan yr alltudion yn foddion iddynt drafod a rhannu syniadau radical a chyffrous a ddeuai'n ganolog i'r Chwyldro Piwritanaidd maes o law.

Wedi i'r Senedd Hir wahodd yr alltudion anghydfurfiol yn ôl yn 1641 dychwelodd Thomas Goodwin a llawer o'r alltudion eraill i Loegr a bu'n weinidog ar gynulleidfa Paved Alley oddi ar Lime Street, Llundain. Yn yr Iseldiroedd roedd wedi cael cyfle i roi ei eglwysyddiaeth ddelfrydol ar waith ac felly wedi iddo ddychwelyd i Loegr roedd mewn sefyllfa ragorol i fod yn rhan ganolog o aildrefnu a diwygio'r Eglwys Wladol. Daeth Thomas Goodwin yn adnabyddus fel un o bregethwyr disgleiriaf y traddodiad Piwritanaidd. Yn sgil hyn dewiswyd ef yn aelod o Gymanfa Westminster, a oedd yn gyfrifol am drafod ail-strwythuro Eglwys Loegr a llunio *Cyffes Ffydd Westminster*. Ymlynodd Thomas Goodwin at garfan y Cynulleidfaolwyr yn ystod y trafodaethau a gwelwn ei enw ar restr awduron *An Apologeticall Narration* (1643). Fel y soniwyd eisoes, dyma bamffled a anfonwyd gan Gynulleidfaolwyr Cymanfa

Westminster yn uniongyrchol at y Senedd yn gwrthwynebu eglwysyddiaeth Bresbyteriaidd. Roedd yn bregethwr poblogaidd gerbron Tŷ'r Cyffredin a gwobrwywyd ef am ei ddoniau â llywyddiaeth Coleg Magdalen, Rhydychen, a bu yno tan yr Adferiad yn 1660. Wedi buddugoliaeth y Seneddwyr yn y Rhyfel Cartref, 'Goodwin [...] became a principal architect of the Cromwellian church' (Jones, 1980, t. 45). Bu'n gaplan i Oliver Cromwell o 1656 ymlaen ac roedd yn bresennol gydag ef wrth erchwyn ei wely angau. Bu'n gomisiynydd i Gymanfa Westminster yn 1650, bu'n gyfrifol dros benodi gweinidogion cymwys yn 1653 ac yn 1658 bu'n un o awduron *Datganiad Savoy*.

O 1660 ymlaen, camodd oddi ar y llwyfan cyhoeddus a bu'n fugail ar gynulliad Annibynnol Fetter Lane, Llundain. Ni ddiodeffodd yn sgil yr Adferiad na'r Ddeddf Unffurfiaeth, fel y diodeffodd Piwritaniaid megis John Bunyan (1628–1688). Roedd yn ddyn poblogaidd ymysg y Piwritaniaid cymedrol a'r rhai mwy eithafol, ac efallai bod ofn ar yr awdurdodau wynebu achos terfysg pe baent wedi cam-drin dyn o'i statws ef. Arhosodd yn Llundain gyda'i braidd yn ystod Pla 1665–66 a bu'n gweinidogaethu yno hyd ei farwolaeth ar 18 Chwefror 1680. Oherwydd rhychwant ei ddyddiadau a'i ymdrechion i sefydlu trefn Annibynnol, awgryma Mark Jones mai Thomas Goodwin oedd y Piwritan olaf a'r Anghyddfurfiwr (swyddogol a chyfreithlon) cyntaf (1980, t. 54).

Casglwyd ei waith llenyddol, yn bregethau ac yn esboniadau ar y cyfan, rhwng cloriau deuddeg cyfrol yn 1861–66 yn y gyfres 'Nichol's Series of Standard Divines'. Gwelwn ef yn canolbwyntio ar yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant yn *An Exposition of the Revelation* (1639), *An Exposition of the First Chapter of the Epistle to the Ephesians* (1640au cynnar), *A Glimpse of Syons Glory* (1641, pregethwyd y bregeth hon pan oedd yn alltud yn yr Iseldiroedd) a *The Great Interest of States and Kingdoms* (1646). Byddaf yn

trafod y gweithiau hyn yn gronolegol er mwyn gweld sut, os o gwbl, y datblygodd athrawiaeth Thomas Goodwin ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant.

An Exposition of the Revelation (1639)

Yr hyn sy'n bwysig i'w nodi o'r cychwyn cyntaf yw'r ffaith i Thomas Goodwin ddehongli Llyfr y Datguddiad fel proffwydoliaeth o ddigwyddiadau hanesyddol penodol yr oedd yn llwyr ddisgwyl gweld eu cyflawni yn ystod ei oes ei hun. Yn ail, mae dylanwad Thomas Brightman (1562–1607) a Joseph Mede (1586–1638) yn drwm ar y gyfrol. O ddarllen ei waith, gwelwn fod Thomas Goodwin yn ddarllenydd brwd ac yn gyson gyfeirio at awduron eraill. Yn y gyfrol dan sylw cyfeirir at Thomas Brightman chwe gwaith a Joseph Mede dair gwaith ar ddeg. Dyma ddynion a ddatblygodd ddehongliad llythrennol, hanesyddol a milflwyddol o Lyfr Daniel a Lyfr y Datguddiad gan ddylanwadu'n drwm ar Blaid y Bumed Frenhiniaeth, fel y gwelwyd eisoes. Oherwydd dylanwad y ddau yma, aethpwyd ati gan Thomas Goodwin i ddehongli Datguddiad yn yr un modd.

Yng ngoleuni hyn, ac wrth gofio cyd-destun y gwaith (roedd Thomas Goodwin yn gweinidogaethu yn eglwys alltud Arnhem yn yr Iseldiroedd ar y pryd) nid syndod ei weld yn canolbwyntio ar yr Eglwys Babyddol yn y gwaith. Mae'n cysylltu cwmp yr Anghrist â chwmp yr Eglwys Babyddol. Dyma bwyslais ei hen fentor, John Preston, yn ogystal. Pabyddiaeth yw'r Anghrist iddo ef ac o ddilyn trywydd y syniad hwn i'w ben draw, byddai Eglwys Loegr a'r Archesgob William Laud a'u seremonïaeth led-Babyddol hefyd yn cynrychioli'r Anghrist. Esbonia Jeffrey Jue: 'Mede's anti-Catholic position was admired by most Puritans who easily adapted and redirected his criticism toward Archbishop Laud and the English Church' (2006, t. 177).

Yn nhyb Thomas Goodwin, roedd yr eglwys wedi bod yn gorwedd yn hir dan ddylanwad yr Anghrist, 'namely, the Pope' (gol. Nichol, III, 1861, t. 65). Disgrifia Goodwin y Pab fel y 'beast with ten horns' (gw. Datguddiad 13:1) a dywed ei fod ef a'i glerigwyr yn 'mould the Christian religion [...] and the worship thereof, into a true likeness and conformity to the heathenish religion, which the [Roman] empire before was framed into' (gol. Nichol, III, 1861, t. 68). Serch hyn, roedd Thomas Goodwin yn credu ei fod yn byw ar drothwy'r Milflwyddiant gogoneddus. Roedd diwedd teyrnasiad Pabyddiaeth yn bosibl ac felly roedd sefydlu'r Milflwyddiant yn bosibilrwydd real hefyd. Yn lle dilyn dehongliad Joseph Mede, sef mai yn 1736 y dylid disgwyl gweld diwedd Pabyddiaeth, seliodd Goodwin ei obeithion ef ar Daniel 11:11-12, lle y gwelir dau rif, sef 1290 a 1335. Mae Goodwin yn mynd ati i ychwanegu'r rhifau hyn 'from the "ceasing of the daily sacrifice" – that is, [...] from Julian's Time', sef o.c. 360-36 (gol. Nichol, III, 1861, t. 198). O'u hychwanegu cawn ddau ddyddiad, sef 1650-56 a 1690-1700. Dyma ddau arwyddbost a awgrymai mai rhwng y blynyddoedd 1650 a 1700 y dylid disgwyl gweld dymchwel Pabyddiaeth ac mai yn 1700 y byddai dechrau'r Milflwyddiant, sef 'the glorious kingdom of Christ' (gol. Nichol, III, 1861, t. 198).

Roedd Thomas Goodwin yn disgwyl gweld pethau eraill yn digwydd cyn sefydlu'r Milflwyddiant, yn bennaf erledigaeth ar y diwygwyr, sef y Gorthrymder Mawr, ac yn dilyn hynny llwyddiant rhyngwladol i'r efengyl pan fyddai dynion yn troi mewn ffydd at Iesu Grist: 'so both east and west, Jew and Gentile, and the fulness of both, do come in, and become one fold under one shepherd for a thousand years' (gol. Nichol, III, 1861, t. 29).

O'r ychydig ddyfyniadau hyn, gwelwn fod Thomas Goodwin yn 1639 yn dysgu ei fod ef ac eraill yn byw ar drothwy'r Milflwyddiant. Nid oedd y

280

Milflwyddiant wedi'i sefydlu, ond wedi i'r Iddewon droi at Grist ac wedi cwmp yr Eglwys Babyddol, dyna pryd y byddai'n cael ei sefydlu. Yn ei esboniad ar Effesiaid, a gyhoeddwyd ychydig yn ddiweddarach, gwelwn mai saint atgyfodedig a fyddai'n teyrnasu yn ystod y Milflwyddiant ac na fyddai Iesu Grist yn bresennol yn gorfforol. Dyma Thomas Goodwin felly yn arddel milflwyddiaeth yn 1639.

An Exposition of the First Chapter of the Epistle to the Ephesians (1640au cynnar)

Yn ei esboniad ar bennod gyntaf Effesiaid, mae Thomas Goodwin yn dadlau mai'r hyn a olygir wrth 'y byd a ddaw' yn adnod 21 yw'r byd fel y bydd yn y cyfnod dedwydd cyn Dydd y Farn, pan fydd popeth wedi dod dan lywodraeth Crist (Hebreaid 2:8; cf. 1 Corinthetaid 15:24-25). I Goodwin mae'r broses honno o ddarostwng popeth i Grist yn dechrau gyda'i ddyfodiad cyntaf, sy'n cael ei gyffelybu gan Goodwin i ddechrau creadigaeth newydd, neu ddechrau'r 'byd a ddaw'. Dyna paham, meddai Goodwin, ein bod yn cyfrif y blynyddoedd o ddyfodiad Crist i'r byd ac nid o'r creu: 'We do not reckon from the creation; we do not say five thousand and five hundred and so many years, as it is since the creation; but we say one thousand six hundred, &c. as reckoning from Christ, for then our new world began' (gol. Nichol, I, 1861, t. 520); ac mae'n cyffelybu'r broses o gael popeth o dan draed Crist i 'ddyddiau'. Yn dilyn dyfodiad cyntaf Crist, meddai Goodwin, 'when he had thrown down heathenism and Judaism – which was his first day's work, as I may so say – then cometh a night of Popery'; ac yna meddai:

What will Christ do before he hath done? He will have a second day's work, and he will not cease till he hath thrown out every rag, the least dross and defilement, that Antichrist or Popery brought in or continued

in the world. And we are under the second day's work, if I may so express it; we are but working up still to a purer world; it is this new world, this world to come, working up to its perfection. And, my brethren, Jesus Christ will never rest till he hath not only thrown out all the dross of this world, both in doctrine and worship [...] but [...] till he hath brought all the world [...] to be subject to him (gol. Nichol, I, 1861, t. 520).

Wedyn, meddai Goodwin, 'the generality of mankind, both Jew and Gentile shall come in to Jesus Christ [...] [and] this state of glory, of a glorious church on earth, shall continue for a thousand years' (gol. Nichol, I, 1861, tt. 520-1); ac meddai ymhellach,

When this glorious time cometh, that Jesus Christ will thus call home both Jew and Gentile, and have a new world in respect of multitudes of men of all nations coming in unto him, to make this new world the more complete, he will bring part of heaven down to it (gol. Nichol, I, 1861, t. 521).

'This, I say, is more controverted', meddai, a phrysur a ychwanegu na fydd Iesu Grist yn dod yn gorfforol yr adeg honno; 'that', meddai Goodwin, 'is the old error of some' (gol. Nichol, I, 1861, t. 521). Yn hytrach, bydd Iesu yn llywodraethu yn ystod y Milflwyddiant o'r nefoedd (gol. Nichol, I, 1861, t. 521). Y modd y teyrnasa Iesu fydd trwy fod 'part of heaven', sef y merthyron, yn dod i'r ddaear i lywodraethu ar ei ran; hynny yw, bydd eneidiau'r merthyron yn dychwelyd o'r nefoedd, yn uno eto â'u cyrff atgyfodedig, ac yn teyrnasu ar y ddaear hyd nes y daw Iesu Grist adeg ei Ailddyfodiad (gol. Nichol, 1861, tt. 521-4).

Er bod 'y byd a ddaw', y greadigaeth newydd, wedi dechrau adeg Atgyfodiad Iesu, nid yw wedi'i llwyr sefydlu eto. Fel y noda Goodwin: 'that "world to come" [...] is *not this world that now is, or merely the government that Christ now hath; neither is it the world after the day of judgment*' (gol. Nichol, I, 1861, t. 516). I Goodwin, felly, rhywbeth daearol yw'r 'byd a ddaw', nad yw'n cael ei

brofi'n llawn ar hyn o bryd. Mae'r ffocws yma ar y daearol yn holl bwysig, fel yr eglura Dallison:

Goodwin maintained that unless there was a millennial reign of the saints on earth it could not be said that Christ 'shall have all subject unto Him' before He delivered up His mediatorial kingdom to His Father (1969, t. 320).

Ac fel y gwelwyd eisoes, fe gawn ddatganiadau clir gan Goodwin fod yr efengyl yn mynd i lwyddo ar draws y byd, gan ddwyn i mewn cyfnod milflwyddol, ac y dylid disgwyl yn obeithiol am hyn. Proffwydoliaethau o'r Beibl yw'r sail i obeithion Thomas Goodwin:

My brethren, read the prophets, you shall find promises of strange and wonderful things: of glorious times, and that here upon earth; of all nations coming in to Jesus Christ; of all prosperity; of the mountain of the Lord set above all mountains, &c. (gol. Nichol, I, 1861, t. 521).

Ôlflwyddydd yw Thomas Goodwin, felly, sy'n edrych ymlaen at gyfnod o deyrnasiad nefolaidd ar y ddaear, a hwnnw'n cael ei sefydlu cyn ac ar wahân i Ailddyfodiad Iesu Grist. Yna, ar ddiwedd y byd, meddai, ceir Dydd y Farn, '[when] Jesus Christ himself will come down', gan ddwyn i fod daear a nefoedd newydd:

Here now is Adam's world in the perfection; that creature that hath groaned under all men's lusts shall be then fully restored to the 'glorious liberty of the sons of God'. During that time the world shall be new hung, when Christ her Lord shall come into it (gol. Nichol, I, 1861, t. 525).

Ond er mor ogoneddus fydd stad dragwyddol y ddaear newydd wedi'r Ailddyfodiad a Dydd y Farn, pwyslais Thomas Goodwin yw bod y gogoniant hwnnw yn dechrau yn yr oes bresennol ac ar y ddaear hon.

A Glimpse of Syons Glory (1641)

Traddododd Thomas Goodwin y bregeth sy'n sail i *A Glimpse of Syons Glory* ar ddiwrnod ymryd pan oedd yn alltud yn yr Iseldiroedd. O dan y teitl ceir cyfeiriadau at Salm 87:3 ac Eseiā 40:10-11, ond Datguddiad 19:6 yw prif destun y bregeth.

Er mwyn i Seion, hynny yw, dinas Dduw, gael ei sefydlu, rhaid i Babylon, dinas yr Anghrist, gael ei dymchwel. Dyma yw byrdwn dechrau'r bregeth: 'Babylon's falling is Zion's calling; Babylon's destruction is Jerusalem's salvation' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 65). Yr hyn sy'n destun llawenydd a gobaith i Thomas Goodwin yw ei fod yn dyst i ddinistr Babylon: 'This is the work that is in hand,' meddai (gol. Nichol, XII, 1866, t. 65). Nid Thomas Goodwin yn unig sy'n ysu am weld hyn, canys dywed 'Let Babylon fall, let Jerusalem rise, and Christ reign in his glory; this is the voice of all the saints this day' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 65). Bydd cwmp Babylon a'r Anghrist yn arwain at dröedigaeth yr Iddewon drwy ymdrechion cenhadol y Cenedl-ddynion a dywed Thomas Goodwin y bydd y bobl gyffredin, y tlawd a'r isel-radd yn gyfrannog o'r cyfnod gogoneddus y bydd yr Eglwys Gristnogol yn ei fwynhau (gol. Nichol, XII, 1866, t. 66).

Yn wir, mae Thomas Goodwin yn edrych at yr Albanwyr fel esiampl o rôl flaenllaw dynion cyffredin yn y gwaith o genhadu:

The business, brethren, concerning the Scots, it is a business, in the issue whereof we hope there will be great things. Where began it? At the very feet [...] You that are of the meaner rank, common people, be not discouraged, for God intends to make use of the common people in the great work of proclaiming the kingdom of his Son (gol. Nichol, XII, 1866, t. 67).

Yn y bregeth hon, felly, mae Goodwin yn ymroi yn hollol fwriadol i gymell dynion i weithredu er mwyn cyhoeddi a sefydlu teyrnas Iesu Grist ar y ddaear. Dywed, 'He [Iesu Grist] shall reign, first, personally; secondly, in his saints [...] He shall

reign upon the earth, here in this world, before that great and solemn day [Dydd y Farn]' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 70). Nid yw'n glir a yw Goodwin yn cyfeirio at ddyfodiad corfforol Iesu Grist neu a fydd Iesu Grist yn bresennol drwy ei Saint, ac nid yw ef fel petai'n glir ei hun: 'We will not fully determine of the manner of his personal reigning' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 70), gan ychwanegu fod yr Ysgrythurau ar y pwnc heb fod yn 'distinct'. Un peth sy'n sicr, nid cyfriniaeth Erbery sydd yma, pan ddaw Iesu Grist i breswyllo yng nghalonau'r Saint nes bod y Saint a Iesu'n un.

Mae hyn i'r gwrthwyneb i'w athrawiaeth ef ei hun yn y ddwy gyfrol a drafodwyd hyd yma. Ynddynt hwy dysgodd mai'r Saint fyddai'n teyrnasu ar y ddaear heb bresenoldeb corfforol Iesu Grist – rhaid oedd aros tan ddiwedd hanes nes dyfod yr Ailddyfodiad. Ond yn awr dywed Thomas Goodwin, 'Antichrist shall be destroyed by the brightness of Christ's coming, the brightness of his personal coming: and that place, Rev XX., where it is said, "The saints shall reign with him a thousand years," which cannot be meant reigning with him in heaven [...] therefore it must be meant of Jesus Christ coming and reigning gloriously for a thousand years' (gol. Nichol, XII, 1866, tt. 70-1). I Goodwin felly, fel awduron *Datganiad Savoy*, mae 2 Thesaloniaid 2:8 yn cyfeirio at ddyfodiad ysbrydol Iesu Grist trwy'r Eglwys a'r Saint, nid ei Ailddyfodiad corfforol. Nid cyfriniaeth ysbrydol Erbery sydd yma, ond dehongliad sy'n rhoi nerth a gobaith real i'r Saint: trwyddynt hwy mae grym, pŵer a theyrnas Iesu Grist yn dod i'r byd er mwyn sefydlu'r Milflwyddiant. Awgryma hyn fod Goodwin yn disgwyl yr Ailddyfodiad cyn y Milflwyddiant, sef cynfilflwyddiaeth, ond yna mae'n mynd ymlaen yn syth i gwestiynu'r syniad o bresenoldeb corfforol Crist i ar y ddaear yn ystod y Milflwyddiant.

Pam y gwamalu hwn? Rhaid cofio iddo draddodi'r bregeth hon pan oedd yn alltud, a dyma, yn fy marn i, sy'n gyfrifol am yr ansicrwydd. Pan oedd Goodwin yn alltud oherwydd erledigaeth mae'n hawdd dychmygu iddo ddyheu am ymyrraeth ddwyfol a sydyn er mwyn i Iesu Grist drechu ei elynion. Ar y llaw arall, pan oedd yn Lloegr ac yn mwynhau rhyddid crefyddol, mae'n hawdd gweld pam y byddai'n fwy gobeithiol am y byd a'r oes bresennol ac yn gweld teyrnasiad y Saint yn lledaenu gan arwain at Filflwyddiant a fyddai'n rhagflaenu dyfodiad corfforol Crist. Ni ellir peidio ychwaith â gweld tebygrwydd rhwng y gyfrol hon a chyfrol Henry/John Archer, *The Personall Reigne of Christ upon Earth* (1642). Roedd Henry/John Archer, a oedd yn gynfilflwyddwr pybyr, yntau'n weinidog ar eglwys yn Arnhem a hawdd credu i'r ddau ohonynt gyfarfod i gymdeithasu ac i rannu syniadau. Fodd bynnag daw Goodwin i gasgliadau llawer mwy gofalus na rhai Archer.

Disgwylia Goodwin weld cyflawni llawer o broffwydoliaethau'r Ysgrythur yn ystod y Milflwyddiant, 'and the fulfilling whereof will bring the church into a more glorious condition than ever it was yet in the world' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 72); ac fe ddylid disgwyl ymlaen yn eiddgar at eu cyflawni, oherwydd mae'n golygu '[that] there is a glorious time a-coming'. Wrth gyfeirio at Eseia 60, dywed 'If you read the whole chapter, there are glorious things spoken of the reign of the church; but there have never been such glorious times since those prophecies, and therefore these we are to expect to be fulfilled' (gol. Nichol, XII, 1866, tt. 72-3). Yna, gan gyfeirio at weledigaeth Eseciel o ddyffryn yr esgryn sychion, dywed ei fod yn 'apparent to be the Jew's coming, and God's joining two sticks together, making Judah and Ephraim to be one; and therefore glorious things are to be expected immediately after the fall of antichrist, and if you may speak of the fall of antichrist as done, you may speak of those

promises done' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 73). Unwaith eto, gwelwn Thomas Goodwin yn pwysleisio mai cyfeirio at hanes, digwyddiadau cyfoes a'r ddaear faterol y mae'r proffwydi. Mae'r un peth yn wir am Ddatguddiad, penodau 21 a 22. Dyma adran sydd yn 'description of the glorious estate of the church, which ordinarily is applied to the glory of heaven; but there is a mistake in applying these things to the glory that is in heaven, and not to think of the glory that shall appear on earth before' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 73).

Yng ngoleuni hyn â Thomas Goodwin ymlaen i fanylu ar gyflwr gogoneddus yr eglwys yn y Milflwyddiant. Mae yna 13 nodwedd:

1. 'It shall be delivered from all the enemies of it, and from all molesting troubles, and so be in a most blessed safety and security.'
2. 'There shall be a wonderful confluence of people to this church; both Jew and Gentile shall join together to flow to the beautifulness of the Lord.'
3. 'It shall be most pure, a pure church; yea, in great part, if not altogether.'
4. 'There shall be abundance of glorious prophecies fulfilled, and glorious promises accomplished.'
5. 'Abundance of hidden mysteries of godliness will be cleared then, that are now exceedingly dark.'
6. 'The gifts of the saint shall be abundantly raised.'
7. 'The graces of the saints shall be wonderfully enlarged, even in a manner glorified.'
8. 'Religion shall be honoured, and no more be a disgrace [...] The people of God have been and are a despised people; but their reproach shall be for ever taken away.'
9. 'The presence of Jesus Christ and of God shall be exceeding glorious in the church [...] They shall follow the Lamb wheresoever he goeth: they shall see the King in his beauty and glory. And such a presence of Christ will be there, as it is questionable whether there shall be need of ordinances, at least in the way that now there is.'
10. 'There shall be the addition of martyrs, and many of the worthies of God that have lived in former times shall rise again.'
11. 'There shall be most blessed union of all the churches of the world.'
12. 'The resurrection of the creatures of the world, and so in that regard there shall be abundance of outward glory and prosperity.'
13. 'Those glorious titles that the church of God hath in the Old Testament will be made up to the full'. (gol. Nichol, XII, 1866, tt. 73-8).

Dyma Thomas Goodwin yn rhoi darlun cynhwysfawr o natur yr eglwys Gristnogol yn ystod y Milflwyddiant. O ddarllen y bregeth hon, nid syndod i Anthony Dallison nodi fod 'the subject of the latter-day glory was not mere speculative theory but a doctrine which supplied the churches of the Congregational way with a powerful motive for reformation and a glorious hope for the future' (1969, t. 317). Byddai hyn yn wledd i glustiau'r alltudion yn yr Iseldiroedd ac yn hwb ac yn alwad iddynt ymbaratoi tuag at ei ddyfodiad, canys 'we have cause to hope the time is at hand' (gol. Nichol, XII, 1866, tt. 78). Mae Thomas Goodwin yn cysuro'r alltudion gan ddywedyd, 'Mountains shall be made plain, and he shall come skipping over mountains, and over difficulties, nothing shall hinder him' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 78). Nid syndod i'r fath rethreg filwriaethus a buddugoliaethus arwain at wleidydda radical a gwaedlyd, fel y cawn weld yn y man.

The Great Interest of States and Kingdoms (1646)

Eto, pregeth yw *The Great Interest of States and Kingdoms* ac fe bregethodd Thomas Goodwin hi gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 25 Chwefror 1645. Erbyn hyn roedd y Rhyfel Cartref rhwng Oliver Cromwell a'i Seneddwyr a'r Brenin Siarl a'i Frenhinwyr yn ei anterth. Mae'r ffaith i Thomas Goodwin bregethu pregeth a bwysai'n drwm ar Filflwyddiaeth yn profi gymaint o ddylanwad a gafodd yr athrawiaeth radical ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Filflwyddiaeth ar weithgarwch gwleidyddol y cyfnod. Testun y bregeth oedd Salm 105:14-15 a pherthynas brenhinoedd a theyrnasoedd y byd â'r Saint yw'r thema. 'Here is the great danger to kings and states,' meddai Thomas Goodwin tua dechrau'r bregeth, 'to deal with his saints [sef saint Duw] otherwise than well' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 36). Dyma her uniongyrchol i'r Brenin Siarl a'i gefnogwyr, yn enwedig unigolion

288

oedd yn erbyn diwygio Eglwys Loegr yn ôl dymuniadau'r Piwritaniaid. Yn wir, dylai'r Brenin fynd allan o'i ffordd i sicrhau bywyd dedwydd i'r Saint neu wynebu dinistr: 'That the dealing well or ill with the saints of God, it is the greatest and highest interest of kings and kingdoms, on which their welfare or their ruin depends' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 37).

Yr hyn a gawn wedi'r rhybuddion agoriadol ydyw Thomas Goodwin yn edrych ar hanes ac yn rhoi sylw arbennig i bedair brenhiniaeth neu lywodraeth a oedd wedi dominyddu ar adegau gwahanol, sef teyrnasiad yr Persiaid yna'r Asyriaid, yna'r Groegwyr ac yn olaf teyrnasiad Rhufain (gan gynnwys Eglwys Rufain). Dywed yn blwmp ac yn blaen fod 'the book of the Revelation is a prophecy of the destruction of that empire' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 50). Yr hyn a gawn yma yw dehongliad a ddaeth yn boblogaidd o Daniel 2. Dyma ysbrydoliaeth Plaid y Bumed Frenhiniaeth wrth gwrs. Ym mhregeth Thomas Goodwin fe'i gwelwn yn derbyn dehongliad Daniel ac yn cysylltu Eglwys Rufain â'r bedwaredd, a'r olaf, o'r teyrnasoedd daearol. Hynny yw, i Thomas Goodwin, teyrnasiad daearol Crist sydd i'w sefydlu nesaf. Yn ychwaneg at hyn, mae Thomas Goodwin yn dysgu mai Iesu Grist, trwy'r Saint, yw'r garreg fydd yn dinistrio'r cyfan: 'You know the little stone, Christ and his saints, shall dash all in pieces' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 51).

Yr hyn a gawn wedyn yw Thomas Goodwin yn cyfiawnhau pam y dylai'r Saint lywodraethu. 'They,' meddai am y Saint, 'are privy councillors to the great King of kings, who governs all the states and kingdoms in the world, and God doth give these his saints a commission to set up and pull down by their prayers and intercessions' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 53). Dysgai Thomas Goodwin fod y Saint wedi cael eu hordeinio gan Dduw i lywodraethu a'u bod yn derbyn gorchmynion uniongyrchol gan Dduw. Yn ogystal â hyn, pan fydd y Saint yn

llywodraethu, bydd gelynyion Iesu Grist yn cael eu dymchwel am fod teyrnas Iesu Grist yn drech na hwy, canys 'he is King, even King of kings, and hath a kingdom ordained to him and his saints' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 53).

Tua diwedd ei bregeth mae Thomas Goodwin yn estyn gair o gyngor ac anogaeth i deyrnasoedd Ewrop, ac i Brydain yn enwedig, yn wyneb Datguddiad 17:14, Er rhyfela ohonynt yn erbyn Crist a chael eu trechu ganddo, eto ni fydd yn eu dinistrio: 'He [Iesu Grist] will overcome and subdue these kingdoms to himself, and yet (for our encouragement) not so as to destroy them. Why? Because these kingdoms, as such, shall destroy the whore [Eglwys Rufain]; and therefore shall not be overcome by way of desolation, but by a way of a more happy conquest of reformation and conversion' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 55). Mae'n cymryd cysur o'r diwygio sydd eisoes wedi bod yn nheyrnasoedd Ewrop:

The Lamb hath overcome many of them, especially these northern kingdoms, where he hath set up his temple [Protostaniaeth]. He hath overcome them, and he wins ground upon us every day, and works us up age after age to a farther reformation, to more light and holiness, and so he will do till he hath perfectly overcome every popish principle out of them' (gol. Nichol, XII, 1866, t. 56).

Ac mae'n annog 'you of this kingdom we live in' – 'the richest ship, that hath the most of the precious jewels of our Lord and Saviour Jesus Christ in it' – i drin y Saint sydd ynddi yn anrhydeddus, er lles y genedl (gol. Nichol, XII, 1866, tt. 56-7).

Mae'r bregeth hon yn hynod bwysig oherwydd mae'n cysylltu'n uniongyrchol gweithgarwch gwleidyddol y Saint â dinistr Eglwys Rufain a sefydlu teyrnas Iesu Grist dan lywodraethiant y Saint. Cafodd Goodwin y cyfle i roi ei eglwysyddiaeth ar waith yn ystod Diffynwriaeth Cromwell yn y 1650au. Yng ngoleuni cynnwys y bregeth hon nid yw'n syndod iddo fod yng nghanol

gweithgarwch eglwysig a gwleidyddol teyrnasiad Cromwell. Yma gwelwn pam yr oedd diwygio eglwysig mor bwysig iddo, canys 'Goodwin's vision for the Church was to purify it in light of the eschatological age in which he lived' (Jones, 1980, t. 40). Credai mai un ffordd o baratoi tuag at y Milflwyddiant oedd sefydlu eglwys bur. Wrth ystyried hyn a rôl y Saint wrth arwain y ffordd yn y Milflwyddiant nid syndod i rai dderbyn neges Goodwin a'i rhoi ar waith mewn modd eithafol, er i Goodwin yn 1653-4 ysgrifennu llythyr yn gwrthwynebu Plaid y Bumed Frenhiniaeth (Brown, 1912, t. 46).

I grynhoi, yr hyn a gawn yn Thomas Goodwin yw, nid yn unig cynrychiolydd pennaf yr Annibynwyr, ond dyn a grisialai filflwyddiaeth y mwyafrif o'r Piwritaniaid Seisnig. Mae ei esboniad o lyfr y Datguddiad yn drwm o dan ddylanwad Thomas Brightman a Joseph Mede, a gwelwn ef yn eu dilyn, gan ddarllen Datguddiad mewn modd hanesyddol a thaeru fod y proffwydoliaethau yn rhagweld digwyddiadau a fyddai yn siŵr o ddod i ben yn ystod ei oes ef. Cysylltir yr Anghrist â'r Eglwys Babyddol a'r Pab a'i ddilynwyr, ac i Goodwin a'i ddilynwyr roedd hyn hefyd yn cynnwys Eglwys Loegr. Disgwyliai weld rhwng y blynyddoedd 1650 a 1700 ddigwyddiadau pellgyrhaeddol a fyddai'n esgor ar y Milflwyddiant.

Yn ei esboniad ar Effesiaid gwelwn fod Thomas Goodwin yn disgwyl am y Milflwyddiant. Dengys hyn nad oedd ef, na'r lliaws o Biwritaniaid, yn credu eu bod yn byw yng nghyfnod y Milflwyddiant. Rhywbeth i ddisgwyl yn obeithiol amdano ydoedd. Yn ei esboniad ar Effesiaid gwelwn Thomas Goodwin yn mynnu bod rhaid diwygio'r eglwys ymhellach fel paratoad ar gyfer y Milflwyddiant, a phan ddeuai'r Milflwyddiant gwelid Cenedl-ddynion ac Iddewon yn teyrnasu dan faner Crist. Pwysleisiodd Thomas Goodwin y byddai'r nefoedd

yn dod i lawr at y ddaear yn ystod y Milflwyddiant. Hynny yw, rhywbeth daearol, corfforol a materol fyddai gogoniant y Milflwyddiant, nid rhywbeth yn perthyn i'r sffêr ysbrydol yn unig. Pwysleisiodd Thomas Goodwin hefyd mai rhywbeth a ddigwyddai cyn yr Ailddyfodiad fyddai'r Milflwyddiant. Pwyslais Goodwin yn y gyfrol hon oedd mai prif bwrpas gweithgarwch y Piwritaniaid ddylai fod hwyluso dyfodiad y Milflwyddiant.

Yn *Glimpse of Syons Glory*, a bregethodd pan oedd yn alltud yn yr Iseldiroedd, gwelwn Goodwin yn cyffesu ei fod yn byw mewn oes lle roedd yn dyst i gwmp Babylon, hynny yw, yr Eglwys Babyddol. Yn y bregeth rhydd hyder i'r Saint mai hwynt-hwy sydd i deyrnasu gyda Iesu Grist pan ddaw i sefydlu ei Frenhiniaeth ddaearol. Yn yr ysbryd hwnnw, mae Goodwin yn mabwysiadu milflwyddiaeth. Disgwylir i Iesu Grist ddychwelyd er mwyn sefydlu'r Milflwyddiant, sef pumed frenhiniaeth y ddaear. Gwelwn yma'r meddylfryd a ddaeth mor ddylanwadol ymhlith radicaliaid Plaid y Bumed Frenhiniaeth.

Yn y gyfrol olaf, *The Great Interest of States and Kingdoms*, mae Goodwin yn paratoi tuag at y Milflwyddiant drwy bwysleisio fod angen puro'r eglwys a chaniatáu i'r Saint lywodraethu. Mae'n rhagweld y bydd y Saint yn gorchfygu'r byd ac y bydd diwygiadau eglwysig a chenhadaeth Gristnogol yn arwain at y Milflwyddiant. Dyma bregethu gwleidyddol amlwg yng nghanol bwrlwm y Rhyfel Cartref.

Mae gan Goodwin lawer yn gyffredin â llawer o'r Piwritaniaid Cymreig yn ei athrawiaeth am yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant. Nid yw hynny'n annisgwyl gan mai Annibynwyr oedd y rhan fwyaf o'r Piwritaniaid Cymreig a bod Goodwin yn cynrychioli cred prif ffrwd yr Annibynwyr ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant. Gwelodd Dduw ar waith yn nigwyddiadau ei oes, ac iddo ef y Pab

oedd yr Anghrist. Rhagwelodd gyfnod gogoneddus pan fyddai'r efengyl yn llwyddo a'r Iddewon yn profi tröedigaeth. Bugail ei braidd ydoedd a diwinydd Cymanfa Westminster a *Datganiad Savoy*. Roedd yn wleidydd diwinyddol heb ei ail. Gwelwn y Piwritaniaid Cymreig yn darllen sefyllfa Cymru a'r Cymry drwy lygaid eu credoau ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant ac yn mynd ati'n frwd i weithredu'n ymarferol, nid yn unig yn lleol, ond ar lefel genedlaethol Gymreig. Dyma efallai'r prif wahaniaeth rhyngddynt â Thomas Goodwin. Roedd y Piwritaniaid Cymreig yn gweithredu'n ymwybodol mewn cyd-destun Cymreig a Chymraeg. Roeddent yn ymwybodol mai Cymru oedd un o gorneli tywyllaf y deyrnas ac yn ymwybodol o anghenion addysgol, cenhadol a chymdeithasol Cymru. Roedd eu balchder Cymreig a lle Cymru fel man allweddol yn nechreuadau llwyddiant yr efengyl yn y dyddiau diwethaf yn elfennau yn yr ysgogiad iddynt weithredu, yn ogystal wrth gwrs â'r ymwybod ag angen ysbrydol mawr eu cyd-wladwyr. Roeddent yn gweld yr angen am addysgu, cenhadu a diwygio cymdeithasol ac roedd eu gobeithion eschatolegol yn rhoi egni arbennig iddynt i weithredu yn eu cymunedau ac ar hyd ac ar led eu gwlad.

VI. Casgliad

Bu'r blynyddoedd rhwng 1658 a 1661 yn ddiwedd un cyfnod ac yn gychwyn cyfnod arall. Bu nifer yn galaru wrth weld eu cewri radicalaidd ac anghydfurfiol o fyd gwleidyddiaeth a chrefydd yn cael eu symud ymaith o ganol y llwyfan, ond i eraill roedd coroni Siarl II yn gyfle newydd i ailgydio yn yr hen ffordd o fyw. Cawn flas o hyn ym mharagraff agoriadol nofel Marion Eames, *Y Stafell Ddirgel* (1969): 'Daeth y canu a'r dawnsio yn ôl i Ffair Dynewid y flwyddyn honno. Dyna rywbeth tebyg i ffair, meddai'r hen bobl, a dechrau sôn am eu dyddiau ifainc yn amser y Brenin Siarl (Duw gadwo'i enaid) cyn i Olifar a'i griw esgymuno chwerthin o'r tir' (t. 1).

Yn y flwyddyn 1672 y gosodir yr olygfa arbennig honno yn y nofel, ond mae'n creu naws arbennig ac yn adlewyrchu'r darlun poblogaidd o Biwritaniaid sych a dihiwmor, na fyddai neb yn gweld eu heisiau. Roedd Oliver Cromwell wedi marw ym mis Medi 1658 a daeth Richard, ei fab, yn Arglwydd Amddiffynnydd yn ei le, ond nid oedd ganddo'r un awdurdod â'i dad a symudwyd ef o'i swydd erbyn mis Mai 1659. Bu farw Morgan Llwyd a Walter Cradock yn 1659. Ar ôl rhai misoedd cythryblus ac ansicr, gorymdeithiodd byddin George Monck, cefnogwr Siarl II, o'r Alban i Lundain yn nechrau 1660, ac erbyn mis Mai 1660 roedd Siarl II wedi glanio ar dir Lloegr. Ac yn sgil adfer y Frenhiniaeth, ailorseddwyd Eglwys Wladol Esgobol fel yr unig eglwys gyfreithlon yng Nghymru a Lloegr.

Piwritan a fu fyw trwy'r newid mawr hwn oedd Charles Edwards, a down i gasgliad ar derfyn y traethawd hwn drwy ei astudio a gweld os ydym yn gallu tynnu cyffelybiaethau rhyngddo a rhai o'r Piwritaniaid Cymreig arall yr ydym wedi eu hastudio.

Charles Edwards (c. 1628 – c. 1691)

Ganed Charles Edwards yn Llansilin, sir Ddinbych ac fe'i haddysgwyd yn nau o golegau Rhydychen, sef Coleg yr Holl Eneidiau a Choleg yr Iesu. Yn 1650 apwyntiwyd ef yn bregethwr teithiol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru dan nawdd y Ddeddf Taenua hynny cyn iddo gymryd bywoliaeth Llanrhaeadr-ym-mochnant ble priododd, y mae'n debyg, ferch Oliver Thomas, gweinidog blaenorol Llanrhaeadr-ym-mochnant ac un o arweinwyr cynnar Piwritaniaeth yng Nghymru, fel y gwelwyd eisoes. Collodd Edwards ei fywoliaeth yn 1660, ddwy flynedd cyn gweithredu Deddf Unffurfiaeth 1662, a bu'n byw yn heddychlon wedi hynny gan ganolbwyntio ar ysgrifennu, golygu a chyhoeddi llyfrau Cymraeg yn Rhydychen a Llundain. Eglura Morgan iddo 'refused to contravene the laws laid down under the Clarendon Code though he never submitted to Episopal ordination' (2018, t. 225). O dan Deddf yr Indwlgens [sic] yn 1672 gwelwyd ef am gyfnod yn athro Presbyteraidd yng Nghroesoswallt. 'Everything about him underlines the fact that, in ecclesiastical matters, he was nonaggressive and restrained, supporting parochial worship under the current regime' (Morgan, 2018, t. 225).

Yn 1667 cyhoeddodd *Y Ffydd Ddiffuant* a oedd yn gyfrol fer yn olrhain hanes Cristnogaeth Brotestannaidd. Cyhoeddwyd fersiwn ehangach ohono yn 1671 dan y teitl *Y Ffydd Ddi-ffuant, sef hanes y Ffydd Gristianogol a'i Rhinwedd*. Dyma '400-page treatise containing a history of Christianity from the early years, a narrative assessing the development of the faith in Wales, and a presentation of the essence of Reformed piety set forth in a magnificent prose style' (Morgan, 2018, t. 226). Mae'r adran gyntaf yn disgrifio'r hen fyd a sut y bu

i'r 'divine decree was manifested in the history of Israel and the coming of Christ' (ibid). Roedd cyfnod yr Apostolion yn gyfnod o lwyddiant ysbrydol: 'Canys drwy bregethiad yr apostolion [...] mewn amser bychan llanwyd pob teyrnas gan Gristnogion, fel aneirif yscuboriau ag yd mewn ychydig wythnosau y cynhaiaf' (Edwards, 1671, t. 23). Gwelai Edwards sut y bu i ferthyrdod Ignatius, Polycarp ac eraill a gweithiau Iestyn Ferthyr fod yn fodd i'r dystiolaeth Gristnogol 'and its intellectual as well as moral integrity' oroesi er gwaethaf erledigaeth (Morgan, 2018, t. 226). Diddorol gweld Edwards yn cyflwyno rhai o weithiau'r Tadau i Gymry ei oes a dyfynna ohonynt yn helaeth, gan gynnwys gwirebau Tertwlianos:

Os yr afon Tiberis a aiff dros y muriau, os Nilus ni chyfid i wrteithio'r tir, os y ddaiar a grŷn, o bydd newyn neu haint, yn ebrwydd y bloeddir am fwrw'r Christianogion i'r llewod (1671, t. 62).

Amlheir ni wrth ein medi gennyh chwi. Hâd yw gwaed y Christianogion (ibid, t. 65).

Amlygir dawn Edwards fel llenor yn y cyfieithiadau hyn ac yn arbennig felly yn ei gymariaethau gwreiddiol:

Ar ôl hyn Cafodd yr Eglwys ychydig ysbaid o dangnheddyf, y barodd falchder, ac anghydfod ymhlith y Christianogion, fel llygedyn rhwng dwy gafod yn codi chwyn yn yr yd. (ibid, t. 70).

Ond fel y mae'r haf yn magu pryfed, felly tyfith ymryson a chenfigen o howddfyd (ibid, tt. 71-72).

Ceisio Edwards egluro sefyllfa Cristnogaeth cyn i Gystennin gael tröedigaeth a'r heriau a wynebai'r Cristnogion cynnar fel unigolion a berthynai i fudiad lleiafrifol iawn. Cyflwynir ganddo hefyd ddadleuon Ariws, Cyngor Nicea 325, Emrys, Awstin a Chrysostom a chyflwyniad i Islam a'r crynodeb Cymraeg cyntaf o'r Cwrân. Wrth drafod y Canol Oesoedd mae'n canolbwyntio ar fudiadau a ragflaenodd y Diwygiad Protestannaidd, megis yr Albigensiaid, Waldensiaid, Lolardiaid ac unigolion megis Wycliffe, Huss ac Erasmus, cyn cyrraedd

cychwyn y Diwygiad Protestannaidd a Diet Spyer yn 1529. Fel y gellid disgwyl, ysgrifennodd Edwards yn helaeth am Luther, Calfin, Beza, Knox, Bilney ac arweinwyr eraill o'r un anian. Am Calfin, dywed mai ef oedd 'un o'r pregethwyr puraf, a chyflawnaf o ras a dysceidiaeth, a'r y fu er amser yr Apostolion (1671, t. 118). Eglura Edwards sut lwyddodd y Diwygiad ffynnu yn Lloegr yng nghyfnod Harri VIII ac Edward VI ac yna yng nghyfnod Elisabeth I wedi marwolaeth Mari. Cawn adroddiadau dychrynlyd am gystudd a dioddefaint y Protestaniaid yn Lloegr yn ystod teyrnasiad Mari. Dyma hanes '*un Tomkins gwehydd*':

Ac nid pregethwyr yn unig, ond proffesswyr cyffredin hefyd fuont ffyddlon hyd angau canys wedi i *Boner escob Llundain* holi *un Tomkins gwehydd*, ac am nad ymwadeu â'i grefydd, yr hon a ddilyneu ef yn ddiwyd, pwysodd yr *Escob* ef yn greulon, gan dynnu gwallt ei ben a'i farf, a chymerth gannwyll dair-dyblig olau, ac a loscodd ei law ef, ond oedd y dwfr yn saethu allan o'r gïau; eto nid oedd y merthyr yn teimlo gronyn o boen, am fod ei ysbryd ef yn gyflawn o gysur, ac wedi hynny lloscasant ei holl gorph ef yn *Smithfield* (ibid, t. 125).

Ymgais i boblogeiddio *Book of Martyrs* John Foxe yn y Gymraeg oedd hyn gan Edwards, a thrwy hynny amlygu a phwysleisio erchyllterau ymgyrch treisgar y Fari Babyddol gan ddychryn y darlennydd i feddwl beth fyddai'r oblygiadau i Brotestaniaid pe bai Pabyddiaeth yn dychwelyd yn ôl i'r wlad.

O ran y cyfnod a ddilynodd teyrnasiad Elisabeth, mae Edwards yn dawedog iawn 'In treating his own century, Edwards is reticent about the civil war, claiming that it's wounds were still fresh' (Morgan, 2018, t. 227). Meddai Edwards 'am fod ei friwiau, neu ei greithiau iw gweled eto' (1671, t. 148). Ond fe gydnabu fod rhai pethau rhagorol wedi deillio o gyfnod y Rhyfel cartref. Er enghraifft 'peri i wybodaeth efengylaidd chwanegu drwy ymdrech y ddwyblaid' (ibid). Ac am ei gyfnod ei hun, roedd Edwards yn hyderus wrth drafod sefyllfa grefyddol Cymru:

allwn ddweud yn hy, na bu gwybodaeth yr efengyl er ioed eglurach, a'r scrythurau, a llyfrau, da amlach; a rhatach, na phregethwyr fedrusach,

oddieithr y Propphwydi, neu'r apostolion â'u cymdeithion, nag ydynt yr amser hwn ynheirnasoedd y Gorllewin, lle mae adgweiriad a rhydd-did crefydd' (ibid).

Felly, yn rhan gyntaf y gyfrol gwelwn Edwards yn torri cwys newydd wrth gyflwyno darllenwyr Cymraeg i weithiau'r Tadau Apostolaidd, a hefyd, i'r Koran. Roedd diddordeb Edwards yn y Tadau yn gwbl amlwg gan iddo, yn 1686, gyhoeddi *Fatherly Instructions, being Selected Pieces of the Writings of the Primitive Christian Teachers*. Eglura Morgan fod hyn yn gosod Edwards ar wahân i'r Piwritaniaid Cymreig eraill am iddo 'broke with the stark Biblicism of the earlier Welsh Puritans and placed current Protestant faith within an historical continuum that was far more extensive than usual' (2018, t. 228).

Ym mhenodau 16 i 20 o *Y Ffydd-Ddi-ffuant*, gwelwn Edwards, fel rhai o'r Piwritaniaid Cymreig eraill, yn dilyn traddodiad Esgob Richard Davies, wrth greu 'his own analysis of the history of the faith in Wales' (ibid). Yn ôl Edwards, 'anfonodd Duw iddi [Cymru] foddion rhyddid ysbrydol o Gaersalem, gan ganhiadu yr efengyl yn gynnwys iddi; sef yn nyddiau'r apostolion' (t. 152). Yn wir, mynna fod ffydd y Cymry yn destun rhyfeddod yng ngwledydd y dwyrain, gan i'r Efengyl lwyddo lle methodd Cesar (ibid). Mae Edwards yn defnyddio Iraenus i gadarnhau ei farn, wrth i hwnnw ysgrifennu am y Britaniaid yn ymroddi a dilyn Grist. Am i'r brenin Lleucius ddod i gredu a'i fedyddio, 'aeth ein gwlad ni yn flaenor ar yr holl deyrnasoedd yn proffesu'r efengyl drwy gyffredin gyngor' (t. 153). Cawn hanes cynnar Cristnogaeth a Christnogion yng Nghymru gan gynnwys Dewi, Teilo a Padarn a chrynodeb o *De Excidio Britanniae* Gildas, y mynach o'r chweched ganrif. Dangosa Gildas sut y cafodd Prydain 'yr unrhyw rybuddion, ac y gafas yr Israeliaid gynt o flaen eu caethiwed, ac ynghylch yr un

modd y gwrthodasant hwynt, ac ynghylch yr un fâth gystudd a ganlynodd; ac nid heb ei haeddu' (ibid, t. 185).

Mae Edwards yn dwyn cymariaethau rhwng Cymru ac Israel yn aml yn y gyfrol gan ddefnyddio adnodau o'r Hen Destament i gryfhau ei gyffelybiaethau, a gwna hynny'n arbennig er mwyn pwysleisio ei gred bersonol fod cenedl y Cymry wedi'i breintio'n arbennig gan Dduw, fel cenedl Israel. Mae Duw yn darparu ar gyfer y Cymry fel y darparodd ar gyfer yr Israeliaid: 'Wedi dychwelyd caethiwed Cymru fel un Job, cynhyrfwyd rhai o'i charedigion o bob parth, *i roddi iddi bob un ei dlws iw chysuro am yr holl ddrwg a ddigwyddasai iddi*' (1671, t. 205). Mae Edwards yn cymharu sefyllfa gymdeithasol ac ysbrydol y Cymry â'r Israeliaid:

Bellach ystyriwn mor ddwys y darfu i'n henafiaid ni ddigio Duw, gan iddynt fod o dan drais a blinder echryslon ynghylch mil o flynyddoedd. Oni ellid eu galw *Magor Missabib, sef dychryn o amgylch; a syrthiasant ar gleddyf eu gelynion. Bu hir gŵyn rhwng yr Arglwydd a thrigolion ein gwlad*, nes iddynt gael y gwaethaf, a'u torri yn niwyn. Yna y gallasai un ofyn *pwyl a gyfyd Gymru, Canys bachgen yw? On yr Arglwydd ai cofiodd yn ei hiselradd o herwydd ei drugaredd: a gweithiodd ei garediad fel un Israel yn amser Ahafuerus* (ibid, t. 208).

Mae Edwards yn gweld digwyddiadau naturiol neu hanesyddol fel diffyg yn yr haul, a gweld 'nefoedd yn danllyd' a 'pla tra marwol' fel barnedigaethau Duw ar Brydain fel 'y gwnaeth ef ar Israeliaid pan ddygn ddigiodd ef wrthynt' (ibid, tt. 189-190). Adrodda Edwards am hynt a helynt gwleidyddol yr oesoedd canol, gan gynnwys Concwest Edward yn 1282-83 a gwrthryfel Glyndŵr ac ymateb 'anrhesymol' Harri IV i'r gwrthryfel hwnnw, fel enghreifftiau o farnedigaethau Duw. Mae agweddau o hanes trist Cymru yn arwain Edwards i ddweud 'mor aflesol fu i'n henafiaid amcanu bwrw cystudd oddiwrthynt cyn troi at Dduw drwy edifeirwch' (ibid, t. 195). Awgryma y dylai'r Cymry beidio â rhoi eu ffydd mewn proffwydoliaethau: 'Darfu ir daroganau eu siomi nhw hefyd Cnawd i

299

bob cenedl dan orthrymder goelio pob Bruttiwr a'r addawo ryddhad iddynt' (ibid). Yn hyn o beth, roedd y Cymry a'r Israeliaid yn debyg: 'Cresawai'r Israeliaid y prophwydi gwenheithus, ond deuai'r peth yn y gwrthwyneb ir bobl anwireddus' (ibid, t. 196).

Esbonia hefyd i'r Cymry droi at ofergoeliaeth yn ystod y cyfnod yma, sef 'amseroedd pabaidd hynny, a chystudd, gyda'u hiraeth am warediad' (ibid). Enghraifft o hynny yn ôl Edwards oedd y goel gyffredin nad oedd y Brenin Arthur wedi marw. Bu'r cyfnod yn dilyn gwrthryfel Glyndŵr yn gyfnod tywyll yn ôl Edwards:

Parhaodd y caethiwed gorthrwm hwn ar ein cenedl ni drwy'r amser y rheolodd pump o frenhinoedd Lloegr; ac yn ddigon o hyd er dwyn dygn dlodi ac anwybodaeth arni. Ac i ddigalonna neu ddiffodd yr hyn o fawrfrydigrwydd, ac o fedrusrwydd, celfyddyd, ffydd, a moesau da y fuasai yn eu mysc gynt (ibid).

Oherwydd y profiadau chwerw hyn yn hanes ein gwlad, roedd gan y Cymry le i alaru, fel yr Israeliaid gynt. Yn ystod y cyfnod hwn 'yr arferodd ein gwladwyr ymgymdeithasu â'r tylwyth teg yn y coedydd y nos', ond daeth tro ar fyd, yn ôl Edwards, gyda dyfodiad y Tuduriaid. Cafwyd rhyddid gwleidyddol i Gymru yn nheyrnasiad Harri VIII pan roddwyd i Gymru 'yr un breintiau, rhyddid, a chyfiawnder â Lloegr' (ibid, t. 198), sef Deddf Uno 1536. Ond yn nyddiau Edward VI 'cynygwyd iddi warediad oddiwrth ei chaethiwed ysbrydol [...] Ond nid oedd nemawr a fedrai, ac a fynnai gyfieithu, a phregethu gair Duw yn gymraeg yn yr yspaid hwnnw' (ibid). Am hynny, meddai, 'Yr hyn fydd Argoel hynod reitied ydyw cyfeithiad, a phregethiad yr Scrythurau yn iaith gyffredin pobl, i weithio ynddynt ffydd iachusol' (ibid).

Yr hyn sy'n dilyn wedyn yw adroddiad o sut y cyfieithwyd yr Ysgrythurau i'r Gymraeg. Ceir hefyd gyfieithiad o lythyr Saesneg William Salesbury at y

Frenhines Elisabeth a chyfieithiad llythyr Lladin William Morgan at Elisabeth a sonia Edwards hefyd am gyfrolau Cymreig megis 'Dicsionari William Salisburi [...] cyhoeddodd y doctor Griffith Roberts Ramadeg Cymraeg [...] yscrifennodd y doctor Joan Dafydd Rhys Ramadeg Cymraeg arall [...] yn y flwyddyn 1595 gwnaeth Harri Perri ddsparth ar Retoreg' (ibid, tt. 204-5). Cytuna Edwards â Henri Holland pan ddatgana ef 'ei obaith ef fod aml bregethiad, a gwybodaeth o'r efengyl ar ddyfod ir wlad, am i'r Arglwydd anfon y llawforwynion' sef y cyfrolau a nodir uchod. Crybwyllodd hefyd Morus Kyffin, Robert Holland a Dr John Davies, Mallwyd ymhlith yr unigolion a fu'n gyfrwng i wella cyflwr ysbrydol Cymru. Ond i Edwards, y Beibl Bach yn 1630 oedd cyhoeddiad mwyaf arwyddocaol y cyfnod, 'Canys o hynny allan aeth gwybodaeth o Dduw ar gynnydd amlwg ymhlith ein gwladwyr ni' (ibid, t. 206). Adroddai sut y bu i ddynion dderbyn addysg prifysgol a sut y bu i chwe mil o Feiblau Cymraeg â llythrennau mân gael eu cyhoeddi ynghyd â gweithiau defosiynol, a'r cyfan yn golygu fod

Duw [wedi gweld yn] dda amlhau cynorthwyau'r ffyrdd yn ein plith, felly amlhaodd rifedi y Sawl au iawn arferant. Wedi iddo roddi goleuni'r efengyl i'n gwlad, deffrodd gydwybodau amryw bobl i *fwrw oddiwrthynt weithredoedd y tywyllwch, ac i rodio yn weddus megis wrth liw dydd. Nid mewn meddwod, anlladrwydd, a chenfigen*, ond mewn sobrwydd, diweirdeb, a chariad Duw' (ibid, t. 207).

Yn ôl Edwards, y mae gan Gymru le i ddiolch i'r Saeson am ei chyflwr ysbrydol. Nododd sut bu i'r Cymry cyndyn dderbyn Protestaniaeth, ond o'i dderbyn a chyhoeddi'r Ysgrythur a llyfrau defosiynol yn y Gymraeg, cafwyd heddwch yn ein gwlad. Pwysleisia Edwards fod agweddau a chymorth presennol y Saeson tuag at y Gymru yn wahanol iawn i sut y bu iddynt drin ein gwlad yn y gorffennol:

Y mae'r Saeson oeddent fleiddiaid rheibus, wedi myned i ni yn fugeiliaid ymgeleddgar, ac agos cyn hynawsed wrthym ni, ac ydym ni wrth ein

gilid. Y nwy sy'n preintio ein llyfrau ni, ac yn dyscu celfyddydau i ni, ac yn marchnata â'n gwlad nid wrth y dur a'r haiarn, ond yn yr aur a'r arian. Yr hon fydd yn awr lawnach o ddynion ac o olud, nag y fu ers talm o'r blaen (t. 210).

Un o ganlyniadau cadarnhaol gweithgaredd Saeson Protestannaidd yng Nghymru oedd bod gwybodaeth wedi amlhau ac ar gael i'r werin erbyn hyn, 'a'r cythreuliaid yn y coedydd wedi distewi. Mae ein moddion hefyd wedi rhywiogeiddio llawer. Nid oes mor fath ysbeilio, a threisio, a mwrddro ag y glywsom ni gan ein hynafiaid ei fod yn eu mysc ers talm' (ibid.).

Yn hyn o beth, roedd Edwards ymhlith y Cymry a oedd yn cyfri eu hunain yn brif fuddiolwyr y Ddeddf Uno. Fel y gwelwn o'r dyfyniadau uchod, mae'n amlwg fod Edwards yn gweld cyswllt a pherthynas agos Cymru a Lloegr yn rhywbeth i'w drysori a hynny ar wedd ysbrydol a materol. 'Mae Lloegr yn agored i ni hefyd, a chyn hyfed inni breswyllo ynddi mewn cyfiawnder ac oedd i'n hen rieni ni cyn ei cholli' (ibid). Golyga hyn fod llawer o Gymry wedi setlo yn Llundain ac wedi dod yn rhan o'r 'highly articulate and powerful merchant class that had retained a deep and abiding interest in Welsh affairs' (Jenkins, 1978, t. 42). Sefydlwyd mudiadau fel y Welsh Trust ac yn ddiweddarach, yr S. P. C. K gan y dynion hyn, a nhw oedd yn ariannu 'dissemination of devotional and didactic literature' (ibid). Galluogodd y Welsh Trust i Edwards 'publish freely [...] and their output was exceptional' (ibid, t. 226). Mae'n amlwg i Edwards gredu mai mantais oedd i Gymru ddod yn rhan o'r Deyrnas Unedig, a thrwy hynny dderbyn manteision llythrennedd a bendithion Cristnogol ehangach. Er mwyn sicrhau cynnydd ysbrydol yng Nghymru, dymuniad Edwards yw 'i ddwyn gwyr ieuainc gobeithiol i fynnu mewn dysgeidiaeth a moesau da, tuag at eu cymhwyso gyda bendith y goruchaf i weinidogaeth efangylol, a swyddogaeth wladwriaethol (t. 212).

Diben yr adran hon oedd esbonio a dangos rhagoriaeth ysbrydol Cymru. Mae am i Gymru eto fod 'mor fywiog, ac mor wresog yn y grefydd Gristnogol ac y fu rhai o'n hen deidiau ni gynt' (tt. 213-214). Daw i'r casgliad fod y Cymry wedi troi'r Albanwyr, Pictiaid, Almaenwyr a chenhedloedd eraill at Grist. Ond mae yna sialens yma hefyd, canys 'a esgeuluswn ni hi yn ein cartref ein hunain?' (t. 214). Mae'n gofyn i'r darllenwyr a oeddent hwy am fod yn olaf a'u cyndeidiau yn flaenaf yn Nheyrnas Duw? A oedden nhw am fod yn dylluanod o gymharu â'u cyndeidiau a oedd yn eryrod? Os mai disgynyddion Cam yw'r Cymry '(Canys nid yw'r chwedl heb liw)', mae Edwards yn galw ar y Cymry i fod yn rasol ac yn 'had a fendithiodd yr Arglwydd' (ibid). Roedd gwerth addysgiadol i waith Edwards. Dysga hanes Cristnogaeth Cymru i'r Cymry, ond yr oedd gwerth ysbrydol i'r gwersi hanes hyn yn ogystal. Eglura Geraint H. Jenkins mai un o amcanion Edwards oedd galluogi'r Cymry i adnabod

the pattern of lapse and recovery, backsliding and repentance, falling away and a return to obedience among their ancestors, and they themselves were duly urged to heed the appropriate lessons that might be derived from studying the past' (1978, t. 54).

Er mwyn pwysleisio gwerth ysbrydol y gyfrol mae Edwards yn canolbwyntio ar wirioneddau'r ffydd Gristnogol yn y penodau canlynol gan esbonio stad dyn mewn pechod a gwaith achubol Iesu Grist. Cawn ddisgrifiadau byw o bechod ac felly hefyd 'irresistable works of grace which guarantees the victory of Christ and the gospel' (Morgan, 2018, t. 230). Enghraifft o gyflwr pechadurus y Cymry yw'r ffaith eu bod 'llawer medrusach ydynt ar byngcio dyrïau anllad yn y tvmpathau chvwareu, nag ar ganu Psalmiau â llais peraidd, ac á chalon bur i'r Arglwydd' (Edwards, 1671, t. 271). Mae'r penodau olaf yn alwad i dduwioldeb Beiblaidd, 'an appeal to all who have experienced justifying grace to live their lives in grateful response to Christ, their Lord, knowing that despite their

manifest imperfections that the saints will persevere to the end' (ibid). Mae Edwards yn llawenhau wrth adrodd fod yr Efengyl yn trawsnewid bywydau: 'Rhyfeddant weled dynion maleisus wedi troi yn gariadus, y niweidiol yn ymgeleddgar, yr anllad yn ddiwair, y meddw yn sobor, a'r dwylaw a gaud i roi dyrnod yn agored i roi cymorth' (1671, t. 343).

Mae Edwards yn gorffen ei lyfr gyda'r geiriau hyn:

Yn olaf o Gymru anwyl ystyriwch, ie ystyriwch yn dragywydd, yr haeddai Duw ein ufudd-dod sanctaidd ni. canys efe a'n gwnaeth, a'n prynodd, ac a'n cynnal ni. Mae ef yn Dâd da i ni, am hynny dyledus inni ymddwyn tuag ato ef fel y gweddai i blant tirion. Mae ef yn ddoeth i fedru gofod cyfreithiau buddiol inni, am hynny cymwys iddo ein rheoli ni. Mae'n Frenin o anfeidrol anrhydedd, ac a haeddai ein parch ni. Ac iddo ef y bo gogoniant byth. Amen (1671, t. 383).

I ddod i gasgliad felly, beth allwn ddysgu am y Piwritaniaid Cymreig o edrych ar Charles Edwards?

Rhychwant Piwritaniaeth Gymreig

Mae'n amlwg nad oedd y Piwritaniaid Cymreig yn gytûn ynghylch athrawiaethau'r Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant. Ni ellir honni bod yr athrawiaethau hynny wedi arwain at weithgarwch cymdeithasol trefnus ac unedig gan y Piwritaniaid yng Nghymru. Ond nid syndod am hynny, oherwydd mae wedi dod yn amlwg mai gwell yw sôn am Biwritaniaethau Cymreig na Phiwritaniaeth Gymreig.

Mae'n drawiadol cymaint o wahaniaethau diwinyddol a gwleidyddol oedd yn bodoli ymysg y Piwritaniaid Cymreig. Mae hyn, o bosibl, yn syndod wrth feddwl mai gwlad fechan yw Cymru ac mai mudiad lleiafrifol oedd Piwritaniaeth yng Nghymru, a'r rhan fwyaf o'r arweinwyr yn rhwydweithio'n eithaf cyson â'i gilydd. Ceir rhai fel Cradock sydd fel petaent yn rhoi eu holl bwyslais ar gyflawni

newidiadau trwy bregethu ac ymwneud â phrosiectau gwleidyddol, tra bo eraill, fel Love, yn cynrychioli Piwritaniaeth fwy milwriaethus, ymosodol. Yn ddiwinyddol, mae rhai yn Galfiniaid cadarn, tra bo rhywun fel Erbery yn symud i eithafion hereticaidd. Ac ym mater yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant, ceir rhai yn arddel milflwyddiaeth, gyda rhai ohonynt yn gefnogwyr brwd i Blaid y Bumed Frenhiniaeth – heb sôn am rywun fel Erbery (a Llwyd yn ei gyfnod olaf), sy'n symud oddi wrth y syniad o Filflwyddiant daearol i ryw fath o filflwyddiaeth niwlog, gyfriniol. Galw'r Cymry i dduwioldeb a wna Edwards yn *Y Ffydd-Ddi-ffuant* tra ceisio esbonio gwirioneddau'r ffydd a wna Thomas a Roberts yn eu catecism. Cawn bregethau, cerddi, llythyrau ac yn Edwards a Llwyd, enghreifftiau o ryddiaith odidog. Nid oedd y fath beth â 'Phiwritaniaeth Gymreig' yn bod, felly, yn yr ystyr bod un mudiad a arddelai un math o ddiwinyddiaeth ac un math o fyd-olwg yn gweithredu yng Nghymru. Yn hytrach, gwelwn y Piwritaniaid Cymreig yn adlewyrchu'r rychwant o fudiadau a chredoau a phwysleisiadau Piwritanaidd a ymddangosodd yn Lloegr yn ystod yr un cyfnod. Golyga hyn ei bod hi'n anodd iawn sôn am 'Biwritaniaeth Gymreig' o safbwynt syniadaeth a safbwyntiau neilltuol, gan fod arweinwyr amlwg y mudiad yng Nghymru yn arddel pwysleisiadau gwahanol iawn i'w gilydd.

Cymreictod y Piwritaniaid Cymreig

Ond eto, er ei bod yn anodd ar un wedd sôn am 'Biwritaniaeth Gymreig', gan mor amrywiol yw safbwyntiau a syniadau'r Piwritaniaid Cymreig, ar yr un pryd, un peth sydd yn amlwg yn eu huno yw'r ymdeimlad cryf o Gymreictod ac o gyfrifoldeb dros Gymru sy'n perthyn i bob un o'r rhai a astudiwyd gennym, ac eithrio efallai Christopher Love. Dywed M. Wynn Thomas, 'Puritanism was a 'foreign' product imported into Wales from England' (1997, t. 191). Cywir. Ond

mae'n amlwg i'r Piwritaniaid Cymreig Gymreigio eu Piwritaniaeth. Gwelwn hyn yn glir yng ngwaith Edwards. Mae'n dyrchafu Cymru fel cenedl ac yn honni mai'r Cymry oedd un o'r pobloedd cyntaf i dderbyn yr Efengyl, mae'n canmol gwaith arwrol y Seintiau ac yn cymharu Cymru ag Israel yn gyson er mwyn pwysleisio fod Cymru yn genedl etholedig gan Dduw. Mae'n wir fod llawer yn ystyried Piwritaniaeth yn fudiad estron a Seisnig, ac ni ellir gwadu fod arweinwyr y Piwritaniaid yng Nghymru dan ddylanwadau Seisnig trwm ac yn symud mewn cylchoedd a oedd yn croesi Clawdd Offa yn gyson. Fel y dywed R. Tudur Jones: 'o safbwynt y Cymry, yr oedd ar y mwyaf ohonynt yn rhy Seisnig eu gogwydd' (1966, t. 50). Ond onid yw ein hastudiaeth yn profi bod angen amodi'r darlun hwn? Drwy gydol ein hastudiaeth un o'r pethau sy'n dod i'r golwg yn gyson yn achos y Piwritaniaid y buom yn eu hastudio yw'r ymdeimlad dwys o wladgarwch Cymreig a chariad at y Cymry sy'n eu nodweddu. Dyma un peth sy'n uno'r Piwritaniaid yng Nghymru. Dywed Geraint H. Jenkins: 'Edwards was anxious to impress upon his countrymen the need to recapture the pure, evangelical faith and the quality of spiritual life which had distinguished their worthy ancestors' (1978, t. 217). Gellir dweud yr un peth am bob Piwritan Cymreig yr ydym wedi eu hastudio. Roedd cyflwr Cymru ac eneidiau'r Cymry yn flaenoriaeth ganddynt '*Oherwydd cyfiawnder a dderchafa genhedl: ond cywilydd pobloedd yw pechod*⁸⁶' (Edwards, 1671, t. 214) Dyma wedd sydd wedi cael ei hanwybyddu gan haneswyr diweddar. Ond ymhlith pethau eraill, gwelir y Piwritaniaid Cymreig yn ymgyrchu i gael y llywodraeth i fynd i'r afael yn benodol ag anghenion Cymru a'i thrin fel cenedl â haeddai sylw a pharch. Rhan o ffrwyth eu hymgyrchu oedd pasio deddf seneddol yn neilltuol ar gyfer Cymru – peth prin iawn hyd at ein cyfnod ni – a chanlyniad y deddfu hwnnw oedd creu rhyw

⁸⁶ Diarhebion 14:34

fath o hunan-lywodraeth grefyddol i Gymru rhwng 1650-1653, o dan amodau Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru. Mae'n amlwg fod y Piwritaniaid y buom yn eu trafod yn ystyried Cymru yn genedl ac iddi werth arbennig yn eu golwg hwy ac yng ngolwg Duw. Maent yn anwesu'r Ddamcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd, ac yn ymfalchio yn yr hanes am eglwys bur a chynnar ymhlith eu hynafiaid ac yn ymfalchio hefyd fod yr iaith Gymraeg wedi parhau hyd at eu dydd hwy. Maent yn pwysleisio'r angen am bregethu Cymraeg, maent yn mynnu cynnwys Mynwy yn rhan o'r wlad, maent yn galw am sefydlu prifysgol i Gymru ac mae llawer o'u hegnïon yn cael eu sianelu tuag at droi'r Cymry i Grist. O gofio hyn oll, rhaid amodi'n arwyddocaol y pwyslais a geir mewn astudiaethau academaidd ar Biwritaniaeth fel mudiad Seisnig, estron yng Nghymru. Yn hytrach roedd elfennau cryf o hunaniaeth a gwladgarwch Cymreig yn gyrru'r ymdrechion i wreiddio Piwritaniaeth yng Nghymru.

VII. Llyfryddiaeth

Ffynonellau cysefin

Archer, H. 1642. *The Personall Reign of Christ Upon Earth*. London: Benjamen Allen

Awstin. *De Genesi contra Manichaeos I*
– *De Diversis Quaestionibus*
– *De Civitate Dei*

Bagshaw, E. 1671. *The Life and Death of Mr. Vavasor Powell, that Faithful Minister*. London: S. N

Baxter, R. 1691. *The Certainty of the Worlds of Spirits*. London: T. Parkhurst
– 1658. *The Crucifying of the World*. London: R. W

Charles, T. 1893. *Geiriadur Ysgrythyrol*. Wrexham: Hughes a'i Fab (7fed argraffiad)

Charles, T. & Jones, T. 1799. 'Hanes fer, am Mr. Wroth'. Yn: *Trysorfa Ysprydol*, 3:1

County Record Office, Consistory Court Papers EDC 5. 1639. Miscellaneous

Cradock, W. 1646. *The Saints fulnesse of Joy in their Fellowship with God*. London: Matthew Simmons

- 1648. *Gospel-Libertie*. London: Matthew Simmons
- 1648. *Glad Tydings from Heaven*. London: Matthew Simmon
- 1650. *Divine Drops distilled from the fountain of Holy Scripture*. London: R. W.
- 1651. *Gospel-Holinesse*. London: Matthew Simmons
- 1673. *Mount Sion*. Cambridge: M. J

D.W.L.MSS., 59.2.128

D.W.L. MSS., 59.2.126

D.W.L.MSS., 59.1.127

Davies, J. gol. 1885. *Llyfr y Resolution*. Caernarfon: H. Humphreys

Erbery, W. 1639. *The great mystery of godlinesse*. London: M.P.
– 1647. *Nor truth nor Errour*. London: Anhysbys

- 1648. *The Lord of hosts / The armies defence*. London: Tho. Newcomb
- 1652. *The Grand oppressor or The Terror of Tithes*. London: G.D.
- 1652. *The Sword Doubled: A Scourge for the Assyrians*. London: G. D.
- 1652. *The Bishop of London, The Welsh Curate and Common Prayers with Apocrypha in the End*. London: Anhysbys
- 1652. *The General Epistle to the Hebrews*. London: Anhysbys
- 1652. *A Call to the Churches*. London: Anhysbys
- 1652. *A Call to the Churches; A Dispute at Cowbridge*. London: J. M.
- 1653. *Ministers for Tythes*. London: J. C.
- 1653. *A Monstrous Dispute*. London: J. C.
- 1653. *The Mad Mans Plea*. London: W. E.
- 1653. *The Babe of Glory*. London: J. C.
- 1653. *The North Star*. London: Anhysbys
- 1653. *A Whirlewind from the South*.
- 1653. *The Children of the West*.
- 1653. *A Flash of Lightning from the East*. London: Anhysbys
- 1653. *The Woman Preacher*.
- 1653. *The Idol Pastor: or Foolish Shepherd*.
- 1653. *The Wretched People*. London: Anhysbys
- 1653/4. *An Olive Leaf*. London: James Cottrel
- 1653/4. *The Man of People*. London: James Cottrel
- 1653/4. *Jack Pudding*. London: Anhysbys
- 1654. *The Great Earthquake*. London: Giles Calvert
- 1658. *The Honest Heretique*. Yn: Webster, J., *The Testimony of William Erbery*. London: Giles Calvert

Ellis, T. E. gol. 1899. *Gweithiau Morgan Llwyd o Wynedd*, I. Bangor: Jarvis & Foster

Farmer, R. 1657. *Satan Inthron'd in his Chair of Pestilence*. London: R. Farmer

Feltham, O. 1620. *Resolves, Divine, Moral and Political, Volume 1*

Griffith, A. 1654. *Strena Vavasoriensis*. London: F. L.

Hughes, S. 1677. *Tryssor i'r Cymru*. Llundain

Hutchinson, F. E. gol. 1941. *The Works of George Herbert*. Oxford: University of Oxford Press

James, E. *Llyfr yr Homiliau*

Jones, J. G. & Owen, G. W. gol. 1994. *Gweithiau Morgan Llwyd o Wynedd, Cyfrol III*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Jones, T. gol. 1956. *Rhyddiaith Gymraeg: Detholion o Lawysgrifau a Llyfrau Printiedig*, II, 1547–1618. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Keach, B. 1689. *Antichrist Stormed*. London: Nath Crouch

- Knollys, H. 1689. *An Exposition of the Whole Book of the Revelation*. London: William Marshall
- Lewis, J. 1646. *Contemplations Upon These Times, or, The Parliament Explained to Wales*. London: R. W.
 – 1656. *Seasonal and Modest Thoughts*. London: N. Ekins
- Lloyd, N. gol. 1994. *Cerddi'r Ficer: Detholiad o Gerddi Rhys Pritchard*. Abertawe: Cyhoeddiadau Barddas
- Llsg. LLGC 11437B
- Llwyd, M. 1743. A voice out of the hearts of divers that waite for the Lord Jesus in Denbighshire in North Wales. Yn: Nickolls, J. *Original letters and papers of state addressed to Oliver Cromwell*. London: William Bowyer, tt. 120-121
- Love, C. 1646. *Englands Distemper*. London: John Macock
 – 1647. *The Maine Point of Church*. London: T. M
 – 1651. *A Cleare and Necessary Vindication*. London: T. M
 – 1653. *Heavens Glory, Hells Terror*. London: T. M
 – 1653. *The souls cordiall*. London: T. M
- Gruffydd, W. J. gol. 1929. *Perl Mewn Adfyd*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd
- Morgan, M. gol. 1981. *Gweithiau Oliver Thomas ac Evan Roberts: Dau Biwritan Cynnar*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd
- Nichol, J. ed. 1861-1866. *The Works of Thomas Goodwin*. 6 cyfrol. London: James Nichol
- Nicholls, J. 1743. *Original Letters and Papers of State*. London
- Nichols, H. 1653. *The Shield Single against The Sword Doubled*. London: 1653
- Parr, R. 1686. *The Life of the Most Reverend Father in God, James Usher*. Llundain
- Powell, V. 1651. *Christ Exalted*. London: Robert Ibbitson
 – 1655. *A Word for God*.
- Rogers, J. 1653. *Ohel or Beth-shemesh A tabernacle for the sun*. London: R. I
- Shropshire Parish Registers Lichfield Diocese, Vol. XVIII, St Mary's Shrewsbury* (Shropshire Parish Register Society, 1911)
- Sylvester, M. 1696. *Reliquiae Baxterianae: or, Mr. Richard Baxter's narrative of the most memorable passages of his life and times*. London
- Waring, R. 1646. *A Publike Conference Betwixt the Six Presbyterian Ministers, And Some Independent Commanders, Held at Oxford*. London

Wharton, H. gol. 1694/5. *The Troubles of Laud*. London

Whiston, E. 1671. *Life and Death of Mr. Henry Jessey*. London

Wilkinson, J. 1616. *An Exposition of the 13th Chapter of Revelation of Jesus Christ*

Ffynonellau eilaidd (cyfrolau & ysgrifau)

Bailey, K. E. 2011. *Paul Through Mediterranean Eyes: Cultural Studies in 1 Corinthians*. London: SPCK

Ballinger, J. gol. 1930. *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cym

Barnes, R. Apocalypticism. Yn: gol. Hillerbrand, H. *The Oxford Encyclopedia of the Reformation*, I. Oxford: University Press, tt. 63-68

Brook, B. 1813. *The Lives of the Puritans*, Vol I. London: James Black

Brown, L. F. 1912. *The Political Activities of the Baptists and Fifth Monarchy Men in England during the Interregnum*. Oxford: Oxford University Press

Birch, T. gol. 1742. *The State Papers of John Thurloe, Vol 1*. London: Thomas Woodward

Black, J. 1997. The Rhetoric of Reaction: The Martin Marprelate Tracts (1588-89), Anti- Martinism, and the Uses of Print in Early Modern England. Yn: *The Sixteenth Century Journal*, 28:3, tt. 707-25

Bloesh, D. G. 2004. *The Last Things: Resurrection, Judgment, Gl.ory*. Westmont: Inter-Varsity Press

Bowen, LI. 2009. Oliver Cromwell (*alias* Williams) and Wales. Yn: Little, P. gol. *Oliver Cromwell: New Perspectives*. Basingstoke: Palgrave Macmillan, tt. 168-94

– Wales and Religious Reform in the Long Parliament 1640-42. Yn: *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, tt. 36-59

– 2011. The seeds and fruits of revolution: The Erbery family and religious radicalism in seventeenth century Glamorgan. Yn: *The Welsh History Review*. 25:3, tt. 346-73

– 2007. *The Politics of the Principality: Wales, c. 1603–1642*. Cardiff: University

Boyd, P. A. 1977. *A Dispensational Premillennial Analysis of the Eschatology of the Post-Apostolic Fathers*. Traethawd MA. Dallas: Dallas Theological Seminary

- Brewer, J. S. gol. 1845. *The Church History of Britain; from the birth of Jesus Christ until the year M.DC.XLVIII endeavoured by Thomas Fuller*. cyf 4. Oxford: Oxford University Press
- Bruce, J. gol. 1868. *Diary of John Manningham*. London: J. B. Nichols
- Buckham, R. 2007. Eschatology. Yn: gol. Webster, J. Tanner, K. Torrance, I. *The Oxford Handbook of Systematic Theology*. Oxford: University Press, tt. 306-324
- Calder, I. M. gol. 1937. *Letters of John Davenport, Puritan Divine*. New Haven: Yale University Press
- Capp, B. S. 1972. *The Fifth Monarchy Men*. London: Faber & Faber
- Coffey, J. 2008. Puritanism, evangelicalism and the evangelical Protestant tradition. Yn: gol. Haykin, M. A. G, Stewart, K. J. *The Advent of Evangelicalism*. Nashville: B&H Academic
- 2013. Church and State, 1550-1750: the emergence of Dissent. Yn: gol. Pope, R. *The T & T Clark Companion to Nonconformity*. London: Bloomsbury, tt. 47-74
 - 2011. Lloyd-Jones and the Protestant Past. Yn: Atherston, A. Jones, D. C. *Engaging with Martyn Lloyd-Jones: the life and legend of 'the Doctor'*. Nottingham: Apollos, tt. 293-325
- Cohen, A. 1963. Two Roads to the Puritan Millennium: William Erbury and Vavasor Powell. Yn: Grant, R. M., Marty, M. E a Brauer, J. C. *Church History* (32:3). Chicago: The American Society of Church History, tt. 322-38
- Collinson, P. 1967. *The Elizabethan Puritan Movement*. Oxford: Clarendon Press
- 1983. *The Religion of Protestants: The Church in English Society 1559-1625*. Oxford: Clarendon Press
 - 1983. *Godly People: Essays on English Protestantism and Puritanism*. London: Hambledon Press
- Cook, P. E. G. 1977. The Church. Yn: *Anglican and Puritan Thinking: Published by the Westminster Conference being Papers Read at the 1977 Conference*. London: Westminster Conference
- Criddle, C. G. 1933. 'The life of Christopher Love and his relation to contemporary movements'. Traethawd MA, Prifysgol Cymru, Caerdydd
- Curtis, M. H. 1959. *Oxford and Cambridge in Transition, 1558-1642*. Oxford: Oxford University Press
- Daley, B. 1991. *Hope of the Early Church: A Handbook of Patristic Eschatology*. Peabody: Hendricksen Publishers
- 2008. Eschatology in the Early Church Fathers. Yn: gol. Walles, J. L. *The Oxford Handbook of Eschatology*. Oxford: University Press, tt. 69-88

- Dallison, A. 1969. The Latter-day Glory in English Puritan Thought. Yn: *The Gospel Magazine*, Gorffennaf, tt. 316-31
- Davies, P. 1955. Baledi gwleidyddol yng nghyfnod y chwyldro Piwritanaidd. Yn: *Y Cofiadur*, 25 Mawrth, tt. 3-22
- Elrington, Ch. R. 1864. *The Whole Works of the Most Reverend James Ussher, Vol II*. Dublin: Hodges, Smith and Co
- Ferguson, E. 2013. *The Early Church at Work and Worship: Catechesis, Baptism, Eschatology, and Martyrdom*. Eugene: Cascade Books
- Evans, E. L. 1930. *Morgan Llwyd: Ymchwil i rai o'r prif ddylanwadau a fu arno*. Lerpwl: Hugh Evans a'i Feibion
- Ferguson, D. 1997. Eschatology. Yn: gol. Gunton, C. E. *The Cambridge Companion to Christian Doctrine*. Cambridge: University Press, tt. 226-244
- Fincham, K. gol. 1993. *The Early Stuart Church, 1603–1642*. London: Macmillan
- Gibbard, N. 1977. *Walter Cradock: 'A New Testament Saint'*. Bridgend: Evangelical Library of Wales
 – 1979. *Elusen i'r Enaid: Arweiniad i Weithiau'r Piwritaniaid Cymreig, 1630-1689*. Pen-y-bont ar Ogwr: Llyfrgell Efengylaidd Cymru
- Green, M. A. E. 1879. *Calendar of State Papers Domestic: Interregnum, 1653-4*. London: Longmans
- Gribben, C. 2008. *The Puritan Millennium: Literature and Theology, 1550-1682*. Milton Keynes: Paternoster, 2il argraffiad
- Grudem, W. 1996. *Systematic Theology*. Leicester: Inter-Varsity Press
 – gol. 2008. *ESV Study Bible*. Illinois: Crossway Bibles
- Gruffydd, R. G. 1976. *'In that gentile country...': The beginnings of Puritan Nonconformity in Wales*. Pen-y-bont: Gwasg Bryntirion
 – 1988. William Wroth a chychwyniadau anghydfurfiaeth yng Nghymru. Yn: Gibbard, N. A. gol. *Ysgrifau Diwinyddol II*. Pen-y-bont ar Ogwr: Gwasg Efengylaidd Cymru
- Haycroft, W. gol. 1847. *The Records of a Church meeting at Broadmeads, Bristol, 1640-88*. London: J. Haddon
- Hayden, R. gol. 1974. *The Records of a Church of Christ in Bristol, 1640-1687*. Bristol Record Society
- Hill, C. 1964. *Society & Puritanism in Pre-Revolutionary England*. London: Martin Secker
 – 1971. *Antichrist in Seventeenth-Century England*. London: Verso, 2il argraffiad

– 1972. *The World Turned Upside Down*. London: Penguin

Hindson, E. 1996. Joseph Mede. Yn: Couch, M. gol. *Dictionary of Premillennial Theology*. Grand Rapids: Kregel Publication, tt. 250-1

Hughes, D. A. 2004. Yr Ailddyfodiad a'r Diwygiad. Yn: Gibbard, N. gol. *Nefol Dàn: Agweddau ar Ddiwygiad 1904–05*. Pen-y-bont ar Ogwr: Gwasg Bryntirion
– 1990. *Meddiannu Tir Immanuel: Cymru a Mudiad Cenhadol y Ddeunawfed Ganrif*. Pen-y-bont ar Ogwr: Gwasg Bryntirion
– 1986. William Williams Pantycelyn's Eschatology as seen especially in his *Aurora Borealis* of 1774. Yn: *Scottish Bulletin of Evangelical Theology*, 4:1, tt. 49-63

Hughes, G. H. gol. 1976. *Rhagymadroddion 1547–1659*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

James, B. Ll. 1992. William Erbery (1604–54): Ceisiwr Cymreig. Yn: Jones, J. G. gol. *Agweddau ar dwf Piwritaniaeth yng Nghymru yn yr Ail Ganrif ar Bymtheg*. Llanbedr Pont Steffan: Gwasg Edwin Mellen, tt. 63-92
– 1986. The evolution of a radical: the life and career of William Erbery (1604–54). Yn: *The Journal of Welsh Ecclesiastical History*, 3. tt. 31-48

James, E. W. gol. *Y Gair a'r Ysbryd: Ysgrifau ar Biwritaniaeth a Methodistiaeth gan R. Geraint Gruffydd*. 2019. Bangor: Gwasg Bryntirion
– 2003. Caethwasanaeth a'r Beirdd, 1790–1840. Yn: *Taliesin*, 119, tt. 37-60
– 2007. "Seren Wib Olau": Gweledigaeth a Chenhadaeth Morgan John Rhys (1760-1804). Yn: *Trafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr*, tt. 5-37
– 2007. Welsh ballads and American slavery. Yn: *The Welsh Journal of Religious History*, 2, tt. 59-86
– 2010. Morgan John Rhys a Chaethwasiaeth Americanaidd. Yn: Williams, D. G. gol. *Canu Caeth: Y Cymry a'r Affro-Americaniaid*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 2-25
– 2013. "Blessèd Jubill!" Slavery, mission and the millennial dawn in the work of William Williams of Pantycelyn. Yn: Kirk, J. Brown, M. Noble, A. gol. *Cultures of Radicalism in Britain and Ireland, 'Poetry and Song in the Age of Revolution'*, 3. London: Pickering & Chatto, tt. 95-112

Jenkins, G. H. 1992. *Protestant Dissenters in Wales 1639-1689*. Cardiff: University of Wales Press
– 1980. Thomas Jones yr Almanaciwr 1648–1713. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
– 1987. *The Foundation of Modern Wales, 1642-1780*. Oxford: Oxford University Press
– 1978. *Literature, Religion and Society in Wales, 1660-1730*. Cardiff: University of Wales Press

Jones, Ff. M. 2010. Huw Morys and the Civil Wars. Yn: *Studia Celtica*, 44, tt. 165-99

- Jones, J. G. 2014. *Crefydd, Cenedlgarwch a'r Wladwriaeth: John Penry (1563–1593) a Phiwrîtaniaeth Gynnar*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
 – 2007. *Crefydd a Chymdeithas: Astudiaethau ar Hanes y Ffydd Brotestannaidd yng Nghymru, c. 1559–1750*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
 – 1994. *Early Modern Wales, c.1525–1640*. Llundain: Macmillan Press
- Jones, M. 2009. *Why Heaven Kissed Earth: The Christology of Thomas Goodwin (1600-1680)*. Traethawd PhD, Prifysgol Leiden
- Jones, M. H. 1932. *The life and letters of Christopher Love, 1618-1651*. Traethawd PhD, Prifysgol Aberystwyth
- Jones, R. T. 1971. *Vavasor Powell*. Abertawe: Gwasg John Penry
 – 1966. *Hanes Annibynwyr Cymru*. Abertawe: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
- Jones, T. gol. 1956. *Rhyddiaith Gymraeg: Detholion o Lawysgrifau a Llyfrau Printiedig, II, 1547–1618*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- Jue, J. K. 2006. *Heaven Upon Earth: Joseph Mede (1586-1638) and the Legacy of Millenarianism*. Dordrecht: Springer
- Kistler, D. 1994. *A Spectacle Unto God: The Life and Death of Christopher Love*. Morgan: Soli Deo Gloria Publications
- LaFantasie, G. W. gol. 1988. *The Correspondence of Roger Williams, I*. New Hampshire: University Press of New England
- Lake, P. 1982. *Moderate Puritans and the Elizabethan Church*. Cambridge: University of Cambridge Press
- Lewis, P. 1977. *The Genius of Puritanism*. Haywards Heath: Carey Publications
- Lewis, S. 1947. Damcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd. Yn: *Efrydiau Catholig*, II, tt. 36-55
- Lloyd-Jones, D. M. 1971. Puritanism and its Origins. *Westminster Conference Report, 1971*. London: Westminster Conference
 – 1987. *The Puritans*. Edinburgh: Banner of Truth
- MacCulloch, D. 1990. *The Later Reformation in England, 1547–1603*. London: MacMillan
 – 1999. *Tudor Church Militant: Edward VI and the Protestant Reformation*. London: Penguin
 – 2016. *All Things Made New: Writings on the Reformation*. London: Penguin
- Mallet, C. E. 1926. *History of the University of Oxford*, II. London: Methuen

McGrath, A. E. 2001. *Christian Theology: An Introduction*. Chichester: Wiley-Blackwell (5ed argraffiad)

Merrit, J. F. 2001. *Imagining Early Modern London: Perceptions and Portrayals of the City from Stow to Strype, 1596-1720*. Cambridge: Cambridge University Press

Milton, M. A. 2000. The Pastoral predicament of Vavasor Powell (1617–1670): Eschatological Fervor and its relationship to the pastoral ministry. Yn: Köstenberger, A. J. gol. *Journal of the Evangelical Theological Society*, 43/3. La Miranda: The Evangelical Theological Society, tt. 517-527

Moore, J. D. 2007. *English Hypothetical Universalism: John Preston and the Softening of Reformed Theology*. Grand Rapids: Eerdmans

Morgan, D. D. 2018. *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales, I, From Reformation To Revival 1588–1760*. Cardiff: University of Wales Press

– 2013. Nonconformity in Wales. Yn: gol. Pope, R. *The T & T Clark Companion to Nonconformity*. London: Bloomsbury, tt. 27-46

Morgan, D. Ll. 1970. Charles Edwards. Yn: Bowen, G. gol. *Y Traddodiad Rhyddiaith*. tt, 213-30. Llandysul: Gwasg Gomer

Morgan, E. S. 1965. *Visible Saints: The History of a Puritan Idea*. Ithaca: Cornell University Press

Morgans, J. I. 2012. *The Honest Heretique: The Life and Work of William Erbery (1604-1654)*. Talybont: Y Lolfa

Murray, I. 1971. *The Puritan Hope*. Edinburgh: Banner of Truth

New, J. F. H. 1964. *Anglican and Puritan: The Basis of their Opposition, 1558-1640*. London: Adam & Charles Black

Nuttall, G. F. 1957. *The Welsh Saints, 1640-1660*. Cardiff: University of Wales Press

– Nuttall. G. F. 1654. The Correspondence of John Lewis, Glasgurg, with Richard Baxter and with Dr John Ellis, Dolgelley. Yn: *Jouranl of the Merioneth Historical and Record Society*, 2. tt. 120-134

Owen, G. W. 2008. *Cewri'r Cyfamod: Y Piwritaniaid Cymreig 1630-1660*. Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, Prifysgol Bangor

– 1990. Morgan Llwyd a milenariaeth. Yn: *Y Traethodydd*, 145, tt. 100-6

Owen, G. D. 1966. The Conspiracy of Christopher Love. Yn: *The Transactions of the Honourable Society of the Cymmrodorion*, I, tt. 88-107

Ormsby, G. gol. 1869. *Correspondence of John Cosin, i, Surtees Society lii*. London: Gilbert and Rivington

- Parker, H. 1641. *A Discourse concerning Puritans*. London.
- Porter, C. H. 1958. *Reformation and Reaction in Tudor Cambridge*. Cambridge: University Press
- Rees, G. S. 1912. *Walter Cradoc a'i Oes*. Aberafon: Pwyllgor Canolog Cyngrair Eglwysi Rhydd ac Efengylaidd Cymru
- Rees, R. gol. 1887. *Y seren foreu neu Ganwyll y Cymry*. Wrecsam: Hughes a'i Fab
- Richards, Th. 1920. *A History of the Puritan Movement in Wales*. London: National Eisteddfod Association
- 1923. *Religious Developments in Wales, 1654-62*. London: National Eisteddfod Association
 - 1930. *Cymru a'r Uchel Gomisiwn*. Lerpwl: Hugh Evans a'i Feibion
- Rogers, E. 1867. *Some account of the life and opinions of a fifth-monarchy-man*. London: Longmans, Green & Co
- Rowland, Ch. 2008. The Eschatology of the New Testament Church. Yn: gol. Walles, J. L. *The Oxford Handbook of Eschatology*. Oxford: University Press, tt. 34-50
- Sauter, G. 2008. Protestant Theology. Yn: gol. Walles, J. L. *The Oxford Handbook of Eschatology*. Oxford: University Press, tt. 226-240
- Schaff, P. 1877. *The Creeds of Christendom: The Evangelical Protestant Creeds, with translation*, III. New York: Harper & Brothers
- Shaw, W. A. 1900. *A History of the English Church*. London: Longmans, Green & Co.
- Sherwood, R. E. 1997. *Oliver Cromwell: King In All But Name, 1653–1658*. New York: St Martin's Press
- Smith, N. 1994. *Literature and Revolution in England, 1640-1660*. Yale: Yale University Press
- Thiselton, A. C. 2012. *The Last Things: A New Approach*. London: SPCK
- Thomas, M. W. gol. 1988. *Llyfr y Tri Aderyn*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru
- 1997. Seventeenth-Century Puritan Writers: Morgan Llwyd and Charles Edwards. Yn: Gruffydd, R. G. gol. *A guide to Welsh literature, c. 1530–1700*. Cardiff: University of Wales Press
- Trevelyan, G. M. 1950. *Illustrated English Social History, Volume II*. London: Longmans Green and Co

Tyacke, N. 1987. *Anti-Calvinists: The Rise of English Arminianism*. Oxford: Clarendon Press

Trevett, Ch. 1996. William Erbury and his daughter Dorcas: Dissenter and Resurrected Radical. Yn: Guy, J. R. Brown, R. L. *Journal of Welsh Religious History*. Welshpool: Welsh Religious History Society, tt. 23-50

Watts, M. R. 1978. *The Dissenters*. Oxford: Oxford University Press

Webb, M. 1867. *The Penns and Penningtons of the Seventeenth Century*. London: F. Bower Kitto

Weber, T. P. 2008. Millennialism. Yn: gol. Walles, J. L. *The Oxford Handbook of Eschatology*. Oxford: University Press, tt. 343-361

Whitley, W. T. 1910. The Seven Churches of London. Yn: *The Review and Expositor* 7:3

Williams, G. 1948. Cipdrefn arall ar y "Ddamcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd". Yn: *Y Traethodydd*, 17, tt. 49-57

Williams, R. 1643. *A Key into the Language of America*. London: Gregory Dexter

Woodhouse, A. S. P. 1951. *Puritanism and Liberty: Being the Army Debates (1647-49)*. Chicago

Wright, N. T. 1992. *The New Testament and the People of God*. London: SPCK
- 1996. *Jesus and the Victory of God*. London: SPCK
- 2003. *The Resurrection of the Son of God*. London: SPCK
- 2008. *Surprised by Hope*. Llundain: SPCK

Gwefannau

1530. *Augusburg Confession* [Ar-lein]. http://www.refo500luther.com/augsburg_confession_1530.pdf

1644. *A Confession of Faith of seven congregations or churches of Christ in London, which are commonly, but unjustly, called Anabaptists* [Ar-lein]. <http://www.reformedreader.org/ccf/h.htm>

1644. *Directory for the Publick Worship of God* [Ar-lein]. http://www.reformed.org/documents/wcf_standards/index.html?mainframe=/documents/wcf_standards/p369-direct_pub_worship.html

1647. *Westminster Confession of Faith* [Ar-lein]. <http://www.freepres.org/westminster.htm>

1658. *Savoy Declaration* [Ar-lein]. http://www.reformed.org/master/index.html?mainframe=/documents/Savoy_Declaration/

1689. *The Baptist Confession of Faith of 1689* [Ar-lein]. <http://www.1689.com/confession.html>

Berkhof, L. 1949. *Systematic Theology* [Ar-lein]. Michigan: Eeardmans Ar gael: <http://downloads.biblicalltraining.org/Systematic%20Theology%20by%20Louis%20Berkhof.pdf>

Knox, J. 1560. *The Scots Confession* [Ar-lein]. <https://www.creeds.net/reformed/Scots/scots.htm>

Ussher, J. 1615. *The Irish Article* [Ar-lein]. http://www.reformed.org/documents/index.html?mainframe=http://www.reformed.org/documents/irish_articles.html